

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Ieuan Brydydd Hir

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Cyfarwyddwr

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT

Golygydd y Gyfres

Ann Parry Owen, BA, PHD

Cymrodyr Ymchwil

M. Paul Bryant-Quinn, STB, BA, MPHIL

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Nerys Ann Howells, BA, PHD

Rhiannon Ifans, BA, PHD

Owen Thomas, BA, LLB, MSt

Golygyddion Ymgynghorol

†Yr Athro Emeritws J.E. Caerwyn Williams,

MA, BD, DLITT, DLITT CELT, FSA, MRIA, FBA

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPIL, DLITT, FBA

Bwrdd Golygyddol

Gareth A. Bevan, MA

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Peredur Lynch, BA, PHD

GWAITH IEUAN BRYDYDD HIR

golygwyd gan

M. PAUL BRYANT-QUINN



ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
2000

© Prifysgol Cymru ©, 2000.
Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 75 0

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

Dull y golygu

Lluniwyd testunau cyfansawdd o'r cerddi gan ddangos y darlenniadau amrywiol (ond nid rhai orgraffyddol pur) yn yr 'Amrywiadau' ar waelod y testun. Os yw darlenniad amrywiol yn digwydd mewn grŵp o llawysgrifau, cofnodir ef yn orgraff y llawysgrif hynaf yn y grŵp hwnnw. Os oes gair neu ran o linell yn eisiau mewn llawysgrif, nodir hynny drwy roi'r gair neu'r geiriau (yn orgraff y testun golygedig) mewn bachau petryal. Os oes llinell neu linellau yn eisiau mewn llawysgrif, nodir y rheini mewn bachau petryal wrth drafod trefn y llinellau. Fodd bynnag, os yw'r gair neu'r geiriau'n annarllenadwy neu wedi cael eu dileu oherwydd staen, twll, &c., dynodir hynny â bachau petryal gwag.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG³ xlvii); er enghraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd ffurfiau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no(g)*, *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), *(g)wedy*, &c.

Yn yr Eirfa ar ddiwedd gwaith y bardd rhestrir y geiriau a drafodir yn y nodiadau (nodir hynny ag 'n'). Rhestrir hefyd eiriau dieithr neu eiriau sy'n digwydd mewn ystyr wahanol i'r arfer, gan gynnig aralleiriad ar eu cyfer. Yn y mynegeion i enwau priod rhestrir pob enw person a phob enw lle sy'n digwydd yn y cerddi.

Diolchiadau

Cydnabyddir yn ddiolchgar gymorth y canlynol: Golygyddion a staff Geiriadur Prifysgol Cymru; staff Adran y Llawysgrifau a'r Cofysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; Bwrdd Golygyddol a Golygyddion Ymgynghorol y gyfres hon; y Mr Dylan Foster Evans, Mr Cledwyn Fychan a Mr Daniel Huws. Diolchir yn enwedig i Dr Ann Parry Owen ac i'r Athro Gruffydd Aled Williams am eu cymorth hael a chymwynasgar.

Cynnwys

DULL Y GOLYGU	v
DIOLCHIADAU	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol	ix
Termau a Geiriau	xx
GWAITH IEUAN BRYDYDD HIR	
RHAGYMDRODD	1
TESTUN	
1. I Elis Wetnal	25
2. Dychan Tudur Penllyn.....	28
3. Dwyn cariad y bardd	31
4. Cywydd brud	34
5. Cyffes Ieuan Brydydd Hir	42
6. Mawl i Grist	46
7. I Dduw	50
8. Y creu a'r achub	54
9. Ffynnon Gwenfrewy.....	57
10. Y grog yng Nghaer	59
11. I gwyno clefyd ac i'r grog yng Nghaer	63
12. Y grog yn Aberhonddu.....	65
13. Henaint	71
At.i Coffau coroni Harri VI.....	81
At.ii O araith Ieuan Brydydd Hir.....	82
At.iii Priodi'r wrach o Gaergwrlai.....	83
At.iv Hel defaid yn Ardudwy	86
At.v Caru Elen o Gaerdyf.....	89
NODIADAU	93
GEIRFA	183
Enwau personau	198
Enwau lleoedd.....	199

LLAWYSGRIFAU	201
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF	211
MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU	213

Byrfoddau

Llyfryddol

Act	‘Actau’r Apostolion’ yn y Testament Newydd
AH	<i>Astudiaethau ar yr Hengerdd</i> , gol. Rachel Bromwich & R. Brinley Jones (Caerdydd, 1978)
AP	<i>Yr Areithiau Pros</i> , gol. D. Gwenallt Jones (Caerdydd, 1934)
Arch Camb	<i>Archaeologia Cambrensis</i> , 1846–
Arm P ²	<i>Armes Prydein ... from the Book of Taliesin</i> , ed. and annotated by Ifor Williams, English version by Rachel Bromwich (Dublin, 1972)
B	<i>Bwletin y Bwrdd Gwybodaeth Celtaidd</i> , 1921–93
Bangor	Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Cymru, Bangor
Bangor (Mos)	Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Mostyn) ym Mhrifysgol Cymru, Bangor
P.C. Bartrum: WG1	P.C. Bartrum, <i>Welsh Genealogies AD 300–1400</i> (Cardiff, 1974)
P.C. Bartrum: WG2	P.C. Bartrum, <i>Welsh Genealogies AD 1400–1500</i> (Aberystwyth, 1983)
BaTh	<i>Beirdd a Thywysogion: Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a’r Alban</i> , gol. Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (Caerdydd ac Aberystwyth, 1996)
BD	<i>Brut Dingestow</i> , gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1942)
BDG	<i>Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym</i> , gol. Owen Jones a William Owen (Llundain, 1789)
Beirn	<i>Y Beirniad</i> , gol. J. Morris Jones (1911–20)

BL Add	Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
BI BGCC	<i>Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar</i> , gol. Marged Haycock (Llandybie, 1994)
Bodley	Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen
Brog	Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
BT (RB)	<i>Brut y Tywysogyon (Red Book of Hergest Version)</i> , ed. Thomas Jones (Cardiff, 1955)
ByCy	<i>Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940</i> (Llundain, 1953)
CAMBM	<i>Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum</i>
Card	Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
CBPM	G. Hartwell Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', Cy xxiii (1912)
CH	William Gwyn Lewis, 'Astudiaeth o Ganu'r Beirdd i'r Herbertiaid hyd Ddechrau'r Unfed Ganrif ar Bymtheg' (Ph.D. Cymru [Bangor], 1982)
CLC ²	<i>Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru</i> , gol. Meic Stephens (ail arg., Caerdydd, 1997)
CM	Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
CMCS	<i>Cambridge Medieval Celtic Studies</i> , 1981–1993; <i>Cambrian Medieval Celtic Studies</i> , 1993–
CMOC	<i>Canu Maswedd yr Oesoedd Canol</i> , gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1991)
CO ²	<i>Culhwch and Olwen</i> , ed. Rachel Bromwich and D. Simon Evans (Cardiff, 1992)
CRC	<i>Canu Rhydd Cynnar</i> , gol. T.H. Parry-Williams (Caerdydd, 1932)
CTC	C.T. Beynon Davies, 'Cerddi'r Tai Crefydd' (M.A. Cymru [Bangor], 1973)

- Cy *Y Cymmrodor, The Magazine of the Honourable Society of Cymmrodorion, 1877–1951*
- Cylchg CHSFeir *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd, 1949–*
- Cylchg HC *Cylchgrawn Hanes Cymru, 1960–*
- Cylchg LlGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1939–*
- D *Dictionarium Duplex*, ed. John Davies (Londinium, 1632)
- Dafydd Llwyd: Gw W. Leslie Richards, 'Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1947)
- Dat 'Datguddiad Ioan' yn y Testament Newydd
- DE *Gwaith Dafydd ab Edmwnd*, gol. Thomas Roberts (Bangor, 1914)
- DGA *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha*, ed. Helen Fulton (Llandysul, 1996)
- DGG² *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a Thomas Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935)
- DGIA Huw M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Oxford, 1996)
- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923)
- DWH Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (3 vols., Aberystwyth, 1991–3)
- EANC R.J. Thomas, *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938)
- Ecs 'Llyfr Ecsodus' yn yr Hen Destament
- EEW T.H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh* (London, 1923)
- Esgair Llawysgrif yng nghasgliad Esgair, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- R. Wallis Evans: Dar R. Wallis Evans, 'Y daroganau Cymraeg hyd at amser y Tuduriaid gan roi sylw arbennig i'r cywyddau brud' (M.A. Cymru [Caerdydd], 1935)
- EVW M.E. Griffiths, *Early Vaccination in Welsh with English Parallels* (Cardiff, 1937)
- EWGT *Early Welsh Genealogical Tracts*, ed. P.C. Bartrum (Cardiff, 1966)
- EWSP *Early Welsh Saga Poetry*, ed. Jenny Rowland (Cambridge, 1990)
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GBDd *Gwaith Bleddyn Ddu*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1994)
- GBF *Gwaith Bleddyn Fardd a Beirdd Eraill Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian M. Andrews *et al.* (Caerdydd, 1996)
- GC *Gwaith Casnodyn*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1999)
- GCBM ii *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, ii, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1995)
- GDB *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Caerdydd, 1995)
- GDG³ *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- GDGor *Gwaith Dafydd Gorlech*, gol. Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- GDID *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen*, gol. A. Eleri Davies (Caerdydd, 1992)
- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- Gen 'Llyfr Genesis' yn yr Hen Destament
- GEO *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hir-addug*, gol. R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 1997)

- GGDT *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Aberystwyth, 1995)
- GGI² *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GGrG *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab Clochyddyn, Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu*, gol. Rhiannon Ifans, Ann Parry Owen, W. Dyfed Rowlands ac Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- GHD *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1995)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GILIV *Detholiad o waith Gruffudd ab Ieuan ab Llywelyn Vychan*, gol. J.C. Morrice (Bangor, 1910)
- Glam Bards J.M. Williams, 'The Works of some fifteenth century Glamorgan Bards' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1923)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)
- GLIF *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. K.A. Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GLIG *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, gol. Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1998)
- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'*, gol. Elin M. Jones (Caerdydd, 1989)
- GMB *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (Caerdydd, 1994)

- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GO *L'œuvre poétique de Gutun Owain*, gol. E. Bachellery (Paris, 1950–1)
- GOLIM *Gwaith Owain ap Llywelyn ab y Moel*, gol. Eurys Rolant (Caerdydd, 1984)
- GP *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–)
- R.A. Griffiths: PW i R.A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: i. South Wales 1277–1536* (Cardiff, 1972)
- GSC *Gwaith Siôn Ceri*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1996)
- GSCMB 'Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University College of North Wales Bangor' (cyfrol anghyhoeddedig, Bangor, 1962)
- GSCyf *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd 'Sypyn Cyfeiliog' a Llywelyn ab y Moel*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1998)
- GSH *Gwaith Siôn ap Hywel*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1999)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisieryd, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- GST *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Enid Roberts (Caerdydd, 1980)
- GTP *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*, gol. Thomas Roberts (Caerdydd, 1958)
- GWL ii² *A Guide to Welsh Literature 1282–c. 1550 Volume II*, ed. A.O.H. Jarman and Gwilym Rees Hughes, revised by Dafydd Johnston (Cardiff, 1997)

- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies, yn Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor
- HCLI *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill*, gol. Leslie Harries (Caerdydd, 1953)
- HG Cref *Hen Gerddi Crefyddol*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1931)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- HS *Gwaith Barddonol Howel Swrdwal a'i fab Ieuan*, gol. J.C. Morrice (Bangor, 1908)
- HSt *Harlech Studies*, ed. B.B. Thomas (Cardiff, 1938)
- J. Hughes: AP J[ohn] H[ughes], *Allwydd neu Agoriad Paradwys i'r Cymry, 1670* (adargraffiad, Caerdydd, 1929)
- J.R. Hughes Llawysgrif yng nghasgliad J.R. Hughes, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Ieuan Tew Ieuan: Gw W.B. Davies, 'Testun Beirniadol o Farddoniaeth Ieuan Tew Ieuan gyda Rhagymadrodd, Nodiadau a Geirfa' (M.A. Cymru [Bangor], 1971)
- IGE² *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- LBS S. Baring-Gould and J. Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–13)
- LHEB K.H. Jackson, *Language and History in Early Britain* (Edinburgh, 1953)
- LL *The Text of the Book of Llan Dâv*, ed. J. Gwenogvryn Evans and John Rhŷs (Oxford, 1893)
- LI *Y Llenor*, gol. W.J. Gruffydd, 1922–51
- LIA *The Elucidarium ... from Llyvyr Agkyr Llandewi-vrevi, A.D. 1346*, ed. J. Morris Jones and John Rhŷs (Oxford, 1894)

- LIB *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd*, gol. S.J. Williams a J.E. Powell (Caerdydd, 1942)
- LICy *Llên Cymru*, 1950–
- LIDC *Llyfr Du Caerfyrddin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1982)
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LIGG *Lliver Gweddj Gyffredjn* (London, 1567)
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llansteffan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- E. Llwyd: EI Edward Llwyd (Llangyfair), *Egwyddor, i rai jeuaingc ...* (Llundain, 1682)
- LlyB *Llywelyn y Beirdd*, gol. J.E. Caerwyn Williams, Eurys Rolant ac Alan Llwyd (Caernarfon, 1984)
- Llywelyn Siôn, &c.: Gw T. Oswald Phillips, ‘Bywyd a Gwaith Meurig Dafydd (Llanisien) a Llywelyn Siôn (Langewydd)’ (M.A. Cymru [Caerdydd], 1937)
- Math ‘Yr Efengyl yn ôl Sant Mathew’ yn y Testament Newydd
- MCF Mynegai Cyfrifiadurol i Farddoniaeth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth (rhoddir y dyddiad y codwyd yr wybodaeth mewn cromfachau)
- MFGLI *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau* (Caerdydd, 1978)
- J. Morris-Jones: CD John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)
- Mos Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- MWRL Catherine A. McKenna, *The Medieval Welsh Religious Lyric* (Belmont, Massachusetts, 1991)
- Nant Llawysgrif yng nghasgliad Plas Nantglyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- NBSF A.Ll. Hughes, ‘Noddwyr y Beirdd yn sir Feirionnydd’ (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1969)

- NBSff R.A. Charles, 'Noddwyr y Beirdd yn sir y Fflint' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1967)
- NCE *New Catholic Encyclopaedia* (New York, 1967–79)
- NLWCM J.H. Davies, *The National Library of Wales: Catalogue of Manuscripts*, i (Aberystwyth, 1921)
- OBWV *The Oxford Book of Welsh Verse*, ed. Thomas Parry (Oxford, 1962)
- ODCC³ *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross and E.A. Livingstone (third ed., London, 1997)
- OED² *The Oxford English Dictionary* (second ed., Oxford, 1989)
- Pant Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- PL J.-P. Migne, *Patrologia Latina* (Paris, 1844–64)
- R *The Poetry in the Red Book of Hergest*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911)
- RB *The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest*, ed. J. Rhys and J. Gwenogvryn Evans (Oxford, 1890)
- RBCWP G.J. FitzGerald, 'The Religious Background of the Classical Welsh Poets (1435–1535)' (M.A. Liverpool, 1964)
- G. Robert: GC Gruffydd Robert, *Gramadeg Cymraeg*, gol. G.J. Williams (Caerdydd, 1939)
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910); fe'i defnyddir hefyd i ddynodi rhif llawysgrif yng nghatalog J.G.E.
- SC *Studia Celtica*, 1966–

- SCWMBLO F. Madan and H.H.E. Craster, *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford* (Oxford, 1924)
- Sotheby Llawysgrif yng nghanasgliad Sotheby, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Stowe Llawysgrif yng nghanasgliad Stowe, yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
- TA *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926)
- TCHSDd *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 1952–
- D.R. Thomas: HDStA D.R. Thomas, *The History of the Diocese of Saint Asaph* (3 vols., Oswestry, 1908–13)
- THSC *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3–
- TR *Antiquae Linguae Britannicae Thesaurus ... Welsh-English Dictionary*, ed. Thomas Richards (Bristol, 1753)
- Traeth *Y Traethodydd*, 1845–
- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)
- Tudur Penllyn, &c.: Gw Abraham Jenkins, 'The Works of Tudur Penllyn & Ieuan Brydydd Hir Hynaf' (M.A. Wales [Cardiff], 1921)
- TW Geiriadur Syr Thomas Wiliems, *Thesaurus Linguae Latinae et Cambrobritannicae* yn Pen 228
- TWS Elissa R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Cambridge, 1987)
- TYP² *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)
- VSb *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae*, ed. A.W. Wade-Evans (Cardiff, 1944)
- R. Vaughan: YDd Rowland Vaughan, *Yr Ymarfer o Dduwioldeb* (Llundain, 1629)
- WATU Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969)

- WCCR² Glanmor Williams, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (second ed., Cardiff, 1976)
- WCD P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000* (Aberystwyth, 1993)
- WG J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)
- WLI *Barddoniaeth Wiliam Llŷn*, ed. J.C. Morrice (Bangor, 1908)
- WS *A Dictionary in Englyshe and Welshe*, ed. William Salesbury (London, 1547; adargraffiad 1877, 1969)
- WWR H.T. Evans, *Wales and the Wars of the Roses* (Cambridge, 1915)
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J.E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1965–)
- YE *Ymborth yr Enaid*, gol. R. Iestyn Daniel (Caerdydd, 1995)
- YEPWC *Ymryson Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal*, gol. Gruffydd Aled Williams (Caerdydd, 1986)
- YHD *Ymadroddion Hen Mr. Dod* (London, c. 1688)
- YLIH *Yny Lhyvyr Hwnn* (London, 1546)

Termau a geriau

a.	ansoddair, -eiriol	g.	gwrywaidd
<i>a.</i>	<i>ante</i>	gn.	geiryn
adf.	adferf	gol.	golygydd, golygywyd gan
amhff.	amherffaith	grb.	gorberffaith
amhrs.	amhersonol	grch.	gorchmynnol
anh.	anhysbys	grff.	gorffennol
ardd.	aroddodiad, -iaid	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
arg.	argraffiad	gw.	gweler
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	Gwydd.	Gwyddeleg
b.	benywaidd	H.	Hen
ba.	berf anghyflawn	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
be.	berfenw	<i>id.</i>	<i>idem</i>
bf. (f.)	berf, -au	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
<i>c.</i>	<i>circa</i>	ll.	lluosog; llinell
c. (g.)	canrif	Llad.	Lladin
C.	Canol	llau.	llinellau
cf.	cymharer	llsgr.	llawysgrif
cfrt.	gradd gyfartal	llsgrau.	llawysgrifau
Clt.	Celteg, Celtaidd	m.	mewnol
cmhr.	gradd gymharol	myn.	mynegol
Cym.	Cymraeg	n.	nodyn
cys.	cysylltair, cysylltiad	neg.	negydd, -ol
d.g.	dan y gair	<i>ob.</i>	<i>obiit</i>
dib.	dibynnol	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
dyf.	dyfodol	pres.	presennol
e.	enw	prff.	perffaith
eb.	enw benywaidd	prs.	person, -ol
e.c.	enw cyffredin	pth.	perthynol
ed.	<i>edited by, edition</i>	r	<i>recto</i>
e.e.	er enghraifft	rh.	rhagenw, -ol
eg.	enw gwrywaidd	S.	Saesneg
e.p.	enw priod	<i>sc.</i>	<i>scilicet</i>
<i>ex inf.</i>	<i>ex informatione</i>	<i>s.n.</i>	<i>sub nomine</i>
f.	ffolio	td.	tudalen
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>	un.	unigol
ff.	ffolios	v	<i>verso</i>
Ffr.	Ffrangeg	vols.	volumes
g.	(c.) canrif		

Rhagymadrodd

Y bardd a'i gefndir

Ei enw

Prin yw'r wybodaeth a gadwyd am y bardd a elwir yn y llawysgrifau yn Ieuan (neu Ifan) Brydydd Hir. Hyd y gellir casglu ar hyn o bryd, y dystiolaeth y mae modd ei lloffa o'i gerddi ef ei hun ac o eiddo ei gyfaill, Tudur Penllyn, yw ein prif—onid ein hunig—ffynhonnell, ac ansicr iawn yw'r cyfeiriadau posibl a geir ato ef a'i geraint mewn dogfennau cyfoes. Fodd bynnag, o ystyried cyn lleied yw'r wybodaeth sydd gennym hyd yn oed am rai o gyfoeswyr Ieuan sy'n llawer mwy adnabyddus a thoreithiog nag ef, nid yw'n destun syndod na ellid darganfod ond ychydig amdano.¹ Cymhlethir yr ymchwil ymhellach gan mai crefyddol yw mwyafrif y cerddi a briodolir iddo, ac ni cheir yn ei gerddi dilys ond ambell gyfeiriad at bersonau hysbys.²

Adwaenid Ieuan gan ei gyfoeswyr wrth y llysenw *Prydydd Hir*,³ yn ôl yr arfer, oherwydd mai un tal ydoedd.⁴ Ond oherwydd tadogi'r enw barddol 'Ieuan Brydydd Hir' ar Evan Evans (Ieuan Fardd) yntau, a fu farw yn 1788, daethpwyd i alw'r bardd o'r bymthegfed ganrif yn Brydydd Hir *Hen* neu *Hynaf*,⁵ ac felly y parheir i wahaniaethu rhyngddynt. Fel y ceir gweld, parodd cymysgu'r enwau hyn fod cerddi o eiddo'r naill yn cael eu priodoli i'r llall.

Ei fro

Er na wyddys odid ddim am gefndir Ieuan, y mae'n debygol mai Ardudwy oedd ei gynefin. Fe'i gelwir yn Pen 53, 126 (sef llawysgrif y gellir ei dyddio

¹ Cf. sylwadau'r Athro Dafydd Johnston yn GLGC xxii.

² Ni dderbyniwyd yn y golygiad hwn *Hywel ewybr, hil Ieuan*, sef cywydd yn gofyn tarw gan Hywel ab Ieuan ap Rhys Gethin dros Ddafydd ap Hywel, yn gerdd ddilys o waith Ieuan Brydydd Hir. I Ieuan Llwyd Brydydd, yn sicr, y dylid priodoli'r cywydd hwn, gw. isod td. 23. Heblaw Tudur Penllyn, yr unig bersonau cyfoes y cyfeirir atynt yng ngerddi dilys Ieuan Brydydd Hir ac y ceir tystiolaeth ategol iddynt yw Elis Wetnal o'r Hob a 'Syr Morys' (sef, fe ymddengys, person Llanenddwyn a Ffestiniog, mab rhyw Rhisiart ap Howel ap Rhys, gw. 2.10n). Ceir hefyd gyfeiriad posibl at Wogoniaid Boulston, gw. 4.22n.

³ GTP tt. xiv, 144 (Atodiad I); cf. *ib.* 43 (26.3–6).

⁴ Cf. Owain Hir, Maelgwn Hir, &c. Am gyfeiriad Guto'r Glyn at *Ifan hir*, gw. isod td. 4.

⁵ Ond, fel y sylwodd D. Silvan Evans, *Gwaith y Parchedig Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir)* (Caernarfon, 1876), 7–8, gwyddai Evan Evans am Ieuan Brydydd Hir, a diau mai dyna pam nad oedd 'byth yn arddel y cyfryw enw', gan ystyried mai 'diffyg chwaeth' fuasai ei alw ei hun ar enw bardd o'r 15g.

tua diwedd y bymthegfed ganrif, ac felly naill ai yn ystod bywyd Ieuan neu'n fuan wedi iddo farw) yn *Jeu[a]n brydydd hir o vyrriionnydd*.⁶ Ardudwy yw 'y ngwlad i Ieuan,⁷ gan ychwanegu ei fod yn mynd i Forgannwg o fro Gwynedd;⁸ athro canon Meirionnydd yw disgrifiad Tudur Penllyn yntau ohono.⁹ Ni ellir dweud mwy na hynny'n bendant, ond yn BL Add 15003, 43^r, wrth y pennill a gysylltir â'r *Araith* sy'n dwyn ei enw, cofnodir mai *Jeuau Brydydd hir o lanylltid ai cant sef*, y mae'n debyg, Llanelltud, ger Dolgellau ym Meirionnydd.¹⁰ Afraid ychwanegu y dylid bod yn wylidwrus iawn ynghylch y math hwn o dystiolaeth, gan gadw mewn cof hefyd na ellir derbyn datgan perthynas â bro neilltuol gan fardd yn brawf mai o'r fro honno yr hanai yn wreiddiol. Ceir nodyn diddorol hefyd yn *Bye-Gones*, lle y cofnodir am Ieuan Brydydd Hir,

Very little is known of this mediaeval bard, and I am not aware that more than two poems by him have been published—the *cywyddau* printed in *Y Brython*, iv ...¹¹ His *floruit* is usually given as 1440–1470, and it is supposed that he lived in Ardudwy, Merionethshire ... However, I have recently come across, in a 17th century MS. of Welsh poetry, which contains a list of Welsh bards, opposite the name 'Jevan Brydydd Hir,' the following gloss ... '*oedd y[n] Byw ymhen ycha ro Llanelwy.*' There are to-day two tenements called Pen Ucha'r ro, situated in the township of Wigfair, and parish of Cefn Meiriadog.¹²

Er na cheir tystiolaeth ategol i gysylltiad Ieuan â Llanelwy, gellir tybied ar bwys cerdd 1, lle y cyferchir Elis Wetnal o'r Hob, fod Ieuan Brydydd Hir ar un adeg wedi treulio o leiaf rywfaint o amser yn sir y Fflint. Bu ef a Thudur

⁶ Cf. Llst 120, 182.

⁷ Gw. 2.33 a cf. hefyd *ein sir* yn 2.24.

⁸ Gw. 3.54.

⁹ GTP 25.3, cf. isod At.iv.3.

¹⁰ Gw. At.ii isod. Y mae BL Add 15003 yn llaw Edward Williams 'Iolo Morganwg' ei hun, a chopiwyd y llsgr. rywdro yn ail hanner y 18g., gw. CAMBM 1844, 62–3. Fodd bynnag, nid yw'n dilyn o reidrwydd mai Iolo a ychwanegodd y nodyn a geir wrth yr *Araith*. Nododd G.J. Williams, *Iolo Morganwg a Chywyddau'r Ychwanegiad* (London, 1926), 129, fod Iolo yn honni mai 'sawr y Deheudir' a glywir yng ngherddi Ieuan Brydydd Hir. Hawliodd Iolo mai 'o Lan Ullyd Morganwg', yn hytrach na'r Llanelltud sydd ger Dolgellau, yr hanai Ieuan, ac awgrymu ymhellach 'mai'r un ydoedd [Ieuan Brydydd Hir] â'r Ieuan ab Owain ap Rhydderch oedd yn byw yn Nhresigen ynghylch 1460'. *Llan Ullyd* oedd dull cyson Iolo o sillafu'r e. lle, nid *llanylltid* y testun, a dichon mai tebygrwydd y ddwy ffurf a barodd iddo geisio ail-leoli'r bardd o Ardudwy. Ar yr 'enghreifftiau' cynganeddol a rydd Iolo o ffug-gerddi Ieuan, gw. *ib.* 33, 133.

¹¹ Gw. *Y Brython*, iv (1861), 35, 104. Y 'two poems' y sonnir amdanynt oedd cywydd Ieuan Brydydd Hir ar destun henaint (cerdd 13), a dau o'r cywyddau ymryson a fu rhyngddo a Thudur Penllyn, sef 'Glân Dudur—gloyw Wyndodeg' a 'Ieuan gefnwan gyfiawnwawd' (gw. isod cerdd 2 ac At.iv). Parodd y cymysgu a geir yn y llawysgrifau rhwng Ieuan Brydydd Hir ac Evan Evans ('Ieuan Fardd') ynghylch priodoliad y cywydd 'Gwae a fwrio, gof oerwas' gryn ohebiaeth yng ngholofnau'r *Brython*. Bu raid amddiffyn Evan Evans yn erbyn y cyhuddiad o lén-ladrata.

¹² *Bye-Gones*, second series, vii (1901–2), 178–9.

Penllyn yn ‘yta’, sef yn hel neu’n cardota yd gyda’i gilydd yn y fro honno; a gellir bwrw mai’r adeg honno y canodd Ieuan ei gerdd goeglyd yn annog Elis i rwystro Tudur rhag torri ei ‘addewid’ i briodi â’r wrach o Gaergwrle.¹³

Cyfeiriadau ato

Tair cerdd o waith Tudur Penllyn yw ein prif ffynhonnell allanol am Ieuan Brydydd Hir, ac ynddynt hwy y ceir hynny o friwsion gwybodaeth sydd gennym amdano. Hanai Tudur o Feirion Goch, arglwydd y Rhiw a Chastellmarch yn Llŷn, ond Penllyn oedd ei fro, ac â Chaer-gai¹⁴ y cysylltir ef a’i wraig, Gwerful Fychan.¹⁵ Ceir gan Dudur ddarlun byw o’i gyd-fardd. Disgrifir Ieuan fel un tal, mawr o gorff, afrosgo; yn hoffus a didwyll, ac o fryd crefyddol anghyffredin.¹⁶ Ni lwyddwyd hyd yn hyn i ddod o hyd i’w ach. Fodd bynnag, yng ngweithredoedd ystad Peniarth ar gyfer 14 Ebrill 1522, enwir *Gweyrvull verch Ieuan Brydyth* yn rhydd-ddeiliad i’r brenin yn nhrefddegwm Rhyd-cryw ym mhlwyf Llanegryn ym Meirionnydd.¹⁷ Cofnodir fel y grantiwyd iddi denement o’r enw Tyddyn-y-Waun. Enwir y tystion, sef *Ieuan ap David ap Ithel*, *Ieuan ap John ap John* a *Gruff[udd] ap Llywelyn ap David ap Eignon*.¹⁸ Diddorol hefyd yw’r cyfeiriad a geir yn nes ymlaen yng ngweithredoedd ystad y Drenedydd (yr hen swydd Amwythig), ond a ddyddiwyd yn gynharach na’r llall, sef 22 Tachwedd 1504, at un *Rees ap William ap Ieuan Brydyth*. Cofnodir iddo gael ei rwymo, gydag eraill, am swm o 100 marc i sicrhau y byddai William ap David ap Ieuan yn

¹³ Gw. cerdd 1, At.iii. Fodd bynnag, dylid cadw mewn cof fod Ieuan Llwyd Brydydd yn canu i deuluoedd yn sir Ddinbych, ac y mae’n gwbl bosibl mai ato ef, yn hytrach nag Ieuan Brydydd Hir, y cyfeiria’r dystiolaeth a geir yn y nodyn hwn.

¹⁴ Gw. GTP ix–xviii a Thomas Roberts, ‘Y traddodiad am y Brenin Arthur yng Nghaergai’, B xi (1941–4), 13–14. Gelwir Caer-gai yn *Gaer Gynyr* hefyd gan Ieuan Brydydd Hir, gw. 2.48n.

¹⁵ P.C. Bartrum: WG1 ‘Rhirid Flaidd’ 8, cf. GTP ix–xi.

¹⁶ Tyn Tudur Penllyn sylw’n ddirugaredd at bryd a gwedd ei gyfaill, yn ogystal ag at ei wendidau. Un *heglir hogl* (‘yn hir ei goesau’; ‘trwstan, afrosgo’, At.iv.25) oedd Ieuan, yn debyg i *ysbur* (‘piler’ neu ‘bost’, *ib.* ll. 6); *ysgub o wrysg* (*ib.* ll. 2) a *cengliadur* (sef ‘ystyllen ddirwyn’, *ib.* ll. 47) ydoedd, neu *[g]ogail* (‘pastwn’, *ib.* ll. 29, ond gw. *ib.*n ac isod troednodyn 22). Hoffai Tudur watwar coesau hirion Ieuan Brydydd Hir, gan ei alw’n *ber hir* (S. ‘longshanks’, At.iv.15). Yr oedd Ieuan yn fawr o gorff (*Mwyedig fal pren mwdwl*, *ib.* ll. 8) ac o bryd tywyll megis ystyllen losgedig (*[t]ulath fwg*, *ib.* ll. 4). Cofiai Tudur amdano fel y *bardd mwyar ei ben* (At.v.44), ymadrodd a all olygu naill ai fod gan Ieuan dalcen neu wallt o liw mwyar, neu fan geni ar ei wyneb. Ac a yw’r cyhuddiad mai *offeiriadwas a meudwy* ydoedd (os at Ieuan ei hun, yn hytrach nag at Syr Morys, y cyfeiria At.iv.7, 13–14), yn awgrymu iddo fod mewn urddau llai, neu efallai yn aelod lleig o urdd grefyddol megis y Brodyr Llwydion?

¹⁷ *Peniarth Estate Papers* i, ed. Glyn Parry (Aberystwyth, 1997), 14 [DA 22].

¹⁸ Cymhlethir dadansoddi’r cyfeiriad hwn gan y ffaith fod gan Ieuan Tew Brydydd Hen o Gydweli yntau ferch o’r enw Gwerful. Pridododd hi â Thomas Button o Gaerdydd, gw. P.C. Bartrum: WG1 ‘Einion ap Llywarch’ 10. Ond â’r De y cysylltir Ieuan Tew a’i ferch, ac at leodd yn Arduw y Phowys y cyfeiria dogfennau ystad Peniarth. At hynny, ymddengys mai cyfuniad teuluol poblogaidd oedd ‘Ieuan’ a ‘Gwerful’: rhwng 1400–1500, enwir yn achresi Bartrum ddeuddeg tad a merch yng Ngwynedd Uwch Conwy a rannai’r ddau enw hyn.

trosglwyddo ei diroedd i Roger ap Philip ap Madoc.¹⁹ Ond er mor bryfoclyd yw'r cyfeiriadau hyn, rhaid nodi na lwyddwyd i'w gwirio wrth y dystiolaeth achyddol a roddir gan P.C. Bartrum; a nodi hefyd nad y Prydydd Hir oedd yr unig Ieuan a adwaenid fel bardd ar y pryd. Oherwydd hyn, ni ellir yn llai na phetruso cyn honni mai ef yw'r *Ieuan Brydyth* y sonnir am ei ddisgynyddion yng ngweithredoedd ystad Peniarth. Ond y mae dwy ffaith o blaid gweld yn y cofnod gyfeiriad at Ieuan a'i ferch. Yn gyntaf, Llanegryn ym Meirionnydd, heb fod ymhell o Arduw, sef y fro y cysylltid Ieuan yn bennaf â hi, oedd lleoliad tyddyn y Gwerful a enwir yn ferch i'r 'Ieuan Brydydd' hwn; ac yn ail, o safbwynt amseryddol, y mae'n ddigon posibl mai hi oedd merch Ieuan Brydydd Hir.²⁰

Ni ddaethpwyd o hyd i ragor na hynny o dystiolaeth ynghylch teulu a cheraint y bardd.²¹ Ond os at Ieuan ei hun a'i ddisgynyddion y cyfeiria'r cofnodion y soniwyd amdanynt uchod, diddorol, a dim mwy na hynny, yw sylwi mai Gwerful (sef enw gwraig Tudur Penllyn) oedd enw merch yr Ieuan Brydydd a enwir yn y gweithredoedd, ac mai Ieuan oedd enw un o feibion Tudur. Y mae'n demtasiwn credu bod rhyw berthynas waed neu briodas, na lwyddwyd i'w holrhain hyd yma, rhwng Ieuan Brydydd Hir a Thudur Penllyn.²² Os felly, byddai hynny'n esbonio i raddau ddistawrwydd Tudur ynghylch ach Ieuan, cysylltiad annisgwyl y ddau a chyfeiriad Tudur at Ieuan fel *fy mrawd*.²³

Ceir cyfeiriad posibl arall at Ieuan Brydydd Hir yng ngwaith Guto'r Glyn. Mewn cywydd ateb i Dudur Penllyn, apeliodd Guto at dystiolaeth bardd a elwir ganddo yn 'Ifan hir': *O myn bardd, o'r man y bo, / Ifan hir, fy niheuro, / Ef a wŷr pwy fwy'a'i wŷn / A'i wlân defaid, lanw difwyn*.²⁴ Oherwydd i Guto ganu cyfres o englynion i Ieuan ap Tudur Penllyn (gw. GGI² 93 (XXXIV)), credai Ifor Williams mai hwnnw oedd yr 'Ifan' a enwir yn GGI²

¹⁹ *Peniarth Estate Papers* ii, ed. Glyn Parry (Aberystwyth, 1997), 541 [DG 8]; cf. hefyd gyfeiriad Tudur Penllyn at *wraig a thylwyth* Ieuan Brydydd Hir, gw. isod At.v.29, 51–2.

²⁰ Fodd bynnag, os wŷr i Ieuan Brydydd Hir oedd y 'Rees ap William' y cyfeirir ato yng ngweithred 1504, y mae'n rhaid fod Gwerful yn wraig oedrannus erbyn 1522 ac y mae ei henwi'n rhydd-ddeiliad yn awgrym cryf mai gweddw ydoedd ar y pryd.

²¹ Ni dderbyniwyd yn waith dilys Ieuan y traethodl proffwydol blêr *Fal yr oeddw gyda'r hwyr*. Enwir rhyw *Ieuan* a'i wraig *Dyddgu* ynddo, a gall mai oherwydd hyn y daethpwyd i'w briodoli i Ieuan Brydydd Hir. Nid yw arddull y gerdd yn ategu'r priodoliad, ond ni ellir anwybyddu'r posibilrwydd, o ystyried poblogrwydd ei gywydd brud, mai cerdd *am* Ieuan ydyw, yn hytrach nag un ganddo.

²² Er na chyfeirir at Ieuan fel *bastard* yn unman, erys y posibilrwydd mai plentyn anghyfreithlon ydoedd, cf. y drafodaeth a geir ar sen Tudur Penllyn yn At.iv.29n d.g. *gogeilwas* a gw. ymhellach sylwadau Dylan Foster Evans yn GLIBH 171n6.

²³ Gw. At.v.48. Anodd yw gwybod union arwyddocâd yr ymadrodd hwn gan Dudur Penllyn. Oherwydd amwysedd *brawd* (gw. ymhellach GPC 311), a all olygu hefyd hanner-brawd, câr, neu aelod o'r un alwedigaeth, gallai *fy mrawd* yn syml olygu bod Ieuan yn gyd-fardd i Dudur. Nid yw'n debygol fod Ieuan a Thudur yn hanu o'r un gwaed, ond nid annichon fod y ddau fardd rywsut yn perthyn i'w gilydd.

²⁴ GGI² 90 (XXXIII.21–4).

XXXIII (a cf. *ib.* 331). Ond o gofio dychan Ieuan Brydydd Hir yntau i Dudur Penllyn am iddo hel defaid yn Ardudwy, gall mai ato ef y cyfeiriodd Guto (geilw Ieuan ef ei hun yn 'Ieuan Hir', gw. 3.56).²⁵ Gwyddai ysgolheigion y bedwaredd ganrif ar bymtheg am gyfeillgarwch Ieuan Brydydd Hir a Thudur Penllyn, a chredid bod yn y cwpled hwn o waith Tudur Penllyn gyfeiriad at Ieuan, yn profi mai gof ydoedd:

Dyro dy gleddau, Ieuan,
Dur tawch rhwng y dŵr a'r tân.²⁶

Ond nid oes a wnelo'r gerdd ag Ieuan Brydydd Hir: cywydd ydyw yn gofyn cledddyf i Ieuan ap Gruffudd ap Cynfrig o Ffriwlwyd dros Ieuan ap Robert ap Maredudd o Eifionydd.²⁷ Diau, fel y sylwodd Thomas Roberts, mai amaethwr yn hytrach na gof oedd y Prydydd Hir.²⁸ Ni sonnir yn unman am addysg farddol Ieuan, ond y mae ei gysylltiad â Thudur Penllyn yn awgrymu bod y bardd hwnnw wedi dysgu'r grefft farddol iddo, neu wedi dylanwadu arno.

Ei ddyddiadau

Gan nad oes dim yn ei waith y gellir ei ddyddio i sicrwydd, anodd iawn yw olrhain oes Ieuan. 1450 yw'r dyddiad traddodiadol a roddir iddo yn aml yn y llawysgrifau sy'n cynnwys ei gerddi,²⁹ ond ni wyddys faint o goel y dylid ei rhoi ar hynny, nac ychwaith at ba gyfnod ym mywyd Ieuan y cyfeiria'r traddodiad. Ar bwys y cerddi a gysylltir â Thudur Penllyn,³⁰ ymddengys i'r ddau gyfaill grwydro Cymru benbaladr gyda'i gilydd. Y mae'n debygol fod Ieuan rywfaint yn iau na Thudur Penllyn, a chasgliad petrus Thomas Roberts oedd ddarfod i Dudur farw rywdro oddeutu 1485. Os felly, tybed a gafodd Ieuan Brydydd Hir fyw hyd at drothwy'r unfed ganrif ar bymtheg?³¹ Derbyniodd Abraham Jenkins, golygydd cyntaf gwaith Ieuan, y cywydd 'Fy

²⁵ Yr wyf yn ddiolchgar i'r Athro Dafydd Johnston am dynnu fy sylw at gyfeiriad posibl arall at Ieuan Brydydd Hir. Mewn cywydd gan Ddafydd ap Edmwnd i rwystro Rhys Wyn rhag priodi â Saesnes, honnodd Dafydd fod Rhys eisoes yn briod â'r Glod ei hun, ac enwir ganddo ddau fardd a oedd yn gyfrifol am y seremoni raddio, *devddyn a wnaeth dyweddi / dwyn hwn yn vn don a hi / Ifan hirwan oedd herod / Gutto'r Glyn nid gwatwar glod* (gw. DE 92). Os y Prydydd Hir yw'r *Ifan hirwan* y cyfeirir ato yn y cywydd hwn, dyma gyfeiriad pwysig sy'n awgrymu bod Dafydd ap Edmwnd yn ystyried bod Ieuan Brydydd Hir yn fardd mawl.

²⁶ GTP 81 (45.23–4).

²⁷ Gw. J.C. Morrice, *A Manual of Welsh Literature* (Bangor, 1909), 78–9. Crynhoir yr wybodaeth a oedd yn hysbys am Ieuan Brydydd Hir yn ByCy 387 a'r cyfeiriadau; W.J. Gruffydd, *Llenyddiaeth Cymru, 1450–1600* (Liverpool, 1922); Gweirydd ap Rhys, *Hanes Llenyddiaeth Gymreig* (Liverpool, 1883), 214–17.

²⁸ GTP xiv.

²⁹ Cf. *Jl. c.* 1450' (ByCy 387); *Jl.* 1450–85' (CLC² 359); '1450' (D (John Davies, Mallwyd)).

³⁰ Gw. GTP xiv, 144. Awgrymodd Thomas Roberts, 'Y traddodiad am y Brenin Arthur yng Nghaergai', B xi (1941–4) 13, mai 1450–1500, yn fras, oedd cyfnod canu Ieuan Brydydd Hir, ac y dylid ystyried y cerddi i Dudur Penllyn ymhlith ei gerddi cynharaf. Tueddaf i dderbyn y fam honno.

³¹ Trafodir *floruit* Tudur Penllyn yn GTP xiii.

[Y] seren fynwes euraid', sef cywydd yn gofyn amdo gan Jenet (neu Sioned), merch Thomas Mathew ac ail wraig Syr Rhys ap Thomas, yn waith dilys o eiddo'r bardd. Ond credai Jenkins hefyd mai yn 1485 y bu Jenet farw³² ac y gellid pwyso ar y cywydd hwn fel man cychwyn wrth geisio amseru *floruit* y bardd. Eithr 1485 oedd blwyddyn priodi Jenet a Syr Rhys ac yn 1535, yn hytrach, y bu hi farw.³³ Ansicr iawn yw awduraeth y cywydd gofyn hwn; ac yntau'n ddeheuwr, y mae'n debygol mai Ieuan Tew Brydydd Hen, yn hytrach nag Ieuan Brydydd Hir, a'i canodd yn ei henaint i'r noddwraig bwysig hon.³⁴

Ar sail nifer o ffactorau hanesyddol, cynigiwyd dyddio cerdd 4 (sef cywydd brud a briodolir gan amlaf i Ieuan) oddeutu 1469–70.³⁵ Os ef oedd piau'r gerdd—ac erys eto rywfaint o ansicrwydd ynglŷn â hyn—yna rhaid tybied ei chanu pan oedd yn ŵr canol oed; ac os at gyflwr Ieuan ei hun y cyfeiria'r cerddi y sonnir ynddynt am ei haint, yn enwedig ei gywydd enwog ar destun henaint, yna gellir tybied iddo fyw yn hen a dioddef hir waeledd. Y mae'n lled bosibl, er nad yn sicr, y dylid dyddio cywydd Ieuan i Wenfrewy rywdro cyn c. 1490, pryd y gorffennwyd adeiladu capel pum cilfan gerllaw ffynnon y santes Gwenfrewy dan nawdd Margred, iarlles Richmond a mam Harri VII.³⁶ Os ar gais aelod o abaty Dinas Basing y canodd Ieuan y cywydd hwnnw, diau ei fod mewn gwth o oedran bryd hynny. Ni wyddys na phryd nac ymhle y bu Ieuan farw a'i gladdu. Yn LIGC 3029B [= Mos 10], 189³⁷ a Pen 122, 121,³⁸ rhoddir mynachlog Cymer yn fan claddu Ieuan, ond

³² Gw. Tudur Penllyn, &c.: Gw 292.

³³ Gw. R.A. Griffiths, *Sir Rhys ap Thomas and his Family* (Cardiff, 1993) a'r cyfeiriadau yno.

³⁴ Fodd bynnag, nid cwbl annichon yw'r priodoliad i Ieuan, nac o ran amser na chylch daeryddol ei deithiau hysbys. Fel y dengys y cerddi dilys o'i eiddo, bu ef yn y De ac y mae'r cyfeiriad posibl at deulu'r Woganiaid yn 4.22 yn ateg i'w gysylltiadau deheuol. Ond fe all mai cof am gywyddau Ieuan Brydydd Hir a Thudur Penllyn ynghylch eu helyntion carwriaethol yng Nghaerdydd, yn ogystal â'r cyfeirio at Landaf a geir ynddynt ac yn y cywydd gofyn hwn, a barodd ei gyplysu ag enw'r Prydydd Hir, yn hytrach nag Ieuan Tew Brydydd Hen, yn BL Add 31084, 163'. Credid gynt y gellid rhoi Ieuan Tew Hen yn ei flodau c. 1400–40 (gw. ByCy 390), a golygai hynny y gallasai'r Tew Hen fod yn fardd a ganai mor gynnar â diwedd y 14g. Ond os felly, gan mai yn 1485 y priododd Jenet â Syr Rhys, rhaid bod Ieuan yn wirioneddol hen os ef a ganodd y cywydd yn gofyn amdo gan Jenet. Pwy, felly, oedd yr awdur? Prin y gall fod yn waith y Tew Ieuan, oherwydd amserir ei yrfa ef rhwng 1560 a 1608. Ond y mae tystiolaeth y llawysgrifau yn weddol gytûn o blaid y Prydydd Hen, ac o gofio iddo hefyd ymryson â Mastr Harri ap Hywel (a rhaid mai yn ystod ail hanner y 15g. y bu hynny), efallai y dylid ailystyried *floruit* Ieuan Tew Brydydd Hen (am ateg i'r ddadl hon, gw. ymhellach CLC² 361), er ei bod yn gwbl bosibl, wrth reswm, fod rhyw Ieuan arall wedi canu i Jenet yn gofyn amdo ganddi.

³⁵ Ceir barn Eurys Rolant ac R. Wallis Evans yn LlyB 132.

³⁶ Gw. D.R. Thomas: HDStA ii, 192, lle y cofnodir 'St. Winifred's Chapel, over the Well, was built about the year 1490, by Margaret, Countess of Derby, the mother of Henry VII', cf. hefyd Nia M.W. Powell, 'Mam y Mab Darogan', *Bosworth a'r Tuduriaid*, gol. Dafydd Glyn Jones a John Ellis Jones (Caernarfon, 1985), 58–9.

³⁷ Llaw gynnar Robert Vaughan, c. 1615, gw. RWM i, 23–6; GP xiv.

³⁸ Evan Evans a William Wynn, 18g., gw. RWM i, 748–50; cofnododd Thomas Wiliems yntau (gw. BL Add 31055, 47), mai *ym manachlog cymer* y claddwyd Ieuan Brydydd Hir.

yn BL Add 15022, 54^v, nodir mai yng Nghaerfyrddin, gyda Mathew Bromffild, y bu hynny.

Ei waith

Y canu secwlar

Y mae a wnelo'r tair cerdd a gyflwynir gyntaf yn y golygiad hwn â pherthynas Ieuan Brydydd Hir a Thudur Penllyn. Er eu galw'n gerddi ymryson yn y llawysgrifau, y mae iddynt naws gellweirus ddiymwad, a dichon mai cerddi dychanol ydynt a gyfnewidiwyd rhwng dau gyfaill o fardd. Os felly, gellir bwrw iddynt gael eu datgan ar achlysuron penodol i ddiddanu cynulleidfaoedd yn ystod cylch clera'r ddau.³⁹ Trafodir yn y tair cerdd helyntion honedig Ieuan a Thudur tra oeddynt gyda'i gilydd ar dir-oedd Elis Wetnal o'r Hob yn sir y Fflint; wrth i Dudur hel defaid yn Ardudwy; ac ar ymweliad â Chaerdydd lle y cyhuddwyd Ieuan gan Dudur o ymserchu mewn merch y cyfeirir ati â'r enw confensiynol Elen (sef cariad Maccsen Wledig).⁴⁰

Priodolir cywydd brud (cerdd 4) i Ieuan Brydydd Hir mewn tri chopi ar hugain o'r testunau a gadwyd ohono. Er mor annhebyg ydyw i weddill ei gerddi hysbys, afraid pwysleisio nad yw hynny, o reidrwydd, yn golygu nad Ieuan Brydydd Hir oedd yr awdur,⁴¹ yn enwedig o ystyried poblogrwydd y canu proffwydol yn ail hanner y bymthegfed ganrif a thebygrwydd eu themâu a'u mynegiant. Oherwydd y dystiolaeth a geir i ddi-ddordeb Tudur Penllyn yntau yn y brudiau,⁴² y mae lle i gredu y gallai ef ei hun fod wedi rhoi ysbardun i'w gyfaill ganu cywydd darogan yn proffwydo llawenydd i Wynedd yn sgil rhyfel buddugoliaethus y mab darogan. Ond drachefn, y mae'n debygol mai ar gyfer achlysuron neu noddwyr penodol y cenid y cerddi darogan, a dylid bod yn ochelgar cyn honni bod y rhain yn adlewyrchu safbwynt personol eu hawduron: ceir digon o dystiolaeth i'r beirdd ganu i noddwyr o'r naill blaid a'r llall yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynnau. Eto, yng ngherdd 8, cyfeddyf Ieuan mai anos yw iddo draethu daioni'r Iesu *no llygru Lloegr a'i thyrrau*,⁴³ ac y mae hyn yn awgrym fod ym meddwl y bardd ymwybyddiaeth wleidyddol fwy realistig y dylid ei chyfochri â'r gobraith brudiol a fynegir yn ei gerdd frud.

³⁹ Gwyddys fel y byddai'r beirdd yn clera'n ddeuoedd ar brydiau, a gellir bwrw mai ar yn ail y datgenid y cerddi ymryson gan Dudur Penllyn ac Ieuan Brydydd Hir, cf. HCLl 111 (GDLL 180) a gw. y sylwadau rhagarweiniol i At.iii.

⁴⁰ Gw. y sylwadau rhagarweiniol i gerddi 1-3.

⁴¹ Rhestrir dros ddau gant o gerddi darogan yn MCF (1999) a MFGLl, a gw. sylwadau G.A. Williams, 'The Bardic Road to Bosworth: A Welsh View of Henry Tudor', THSC, 1986, 7-31.

⁴² GTP xiv.

⁴³ Gw. 8.40.

Y canu crefyddol

Er na ellir gwybod i sicrwydd ai cynnyrch cyfnod bore yng ngyrfa Ieuan yw'r cywyddau ymryson a gyfnewidiwyd rhyngddo a Thudur Penllyn, y mae'n ffaith drawiadol mai crefyddol yw pob un o'r cerddi eraill a briodolir iddo, ac eithrio'r cywydd brud a drafodwyd uchod a'r pennill ansicr ei awduraeth a gysylltir â'r *Araith* (At.ii). Er eu bod yn adlewyrchu'r hyn y gellir ei alw yn 'grefydd draddodiadol' yng Nghymru yn ail hanner y bymthegfed ganrif,⁴⁴ nid ydynt, ysywaeth, yn taflu goleuni hanesyddol ar y bardd ei hun a'i amgylchiadau, a rhaid ystyried yn ofalus hynny o gyfeiriadau 'bywgraffyddol' a geir ynddynt. Sut bynnag, ar destunau crefyddol yn bennaf y dewisodd Ieuan Brydydd Hir ganu; neu, o'r hyn lleiaf, y cerddi crefyddol oedd y rhai y dewisodd y copïwyr eu cadw. Yn y rhain, yn ddiau, y ceir prif ddiddordeb a phwysigrwydd gwaith Ieuan Brydydd Hir.⁴⁵ Nid annisgwyl yw gweld nifer o destunau defosiynol poblogaidd y dydd yn cael eu hadlewyrchu yng ngherddi Ieuan, ac y mae ei ddyled i'r confensiynau cyffredin, yn thematig ac yn ddelweddol, yn amlwg. Er hynny, gellir hefyd ymglywed â'i wreiddioldeb wrth iddo dynnu ar ffynonellau crefyddol a oedd yn hysbys i'w gynulleidfa a'u defnyddio o fewn fframwaith ei gerddi i'w bwrpas arbennig ef ei hun.

Ymranna themâu'r cerddi crefyddol o waith Ieuan Brydydd Hir yn dri phrif ddosbarth, y gwelir yn eglur fod iddynt ill tri bwyslais Cristolegol cryf. Yn y cyntaf o'r dosbarthiadau hyn, ceir ganddo dair awdl (cerddi 6–8) ac un cywydd (cerdd 10), y cyfunir ynddynt wedd benydiol a moliant i Grist ac i'r Drindod ddiwahan wedi eu cydblethu â hanes y creu a'r achub. Yng

⁴⁴ '... the phrase "traditional religion" ... does more justice [than the notion of "popular religion"] to the shared and inherited character of the religious beliefs and practices of the people, and begs fewer questions about the social geography of pre-Reformation religion', gw. Eamon Duffy, *The Stripping of the Altars* (London, 1992), 3. Ond sylwer ar ei *caveat* ef ei hun, *i.e.*, '... in history every generalizing term begs some question: How traditional is "traditional"?'

⁴⁵ Sylwodd Abraham Jenkins yn 1921, 'the helplessness of man, his evil propensities and his total dependence on the Supreme Being, are themes of which the bard never tires ... His religion is not a mere creed but a practice, and he believes that a man's greatest wealth is his opportunity for doing good' (Tudur Penllyn, &c.: Gw xlv, li). Ar y canu crefyddol hyd at 1283, gw. BI BGCC; MWRL (yn enwedig tt. 41–80); J.E. Caerwyn Williams, *Canu Crefyddol y Gogynfeirdd*, Darlith Goffa Henry Lewis (Abertawe, 1977). Trafodir y cerddi crefyddol dan enwau'r beirdd unigol yng Nghyffres Beirdd y Tywysogion, cyfrolau I–VII (Caerdydd, 1988–95). Parheir i astudio canu'r Gogynfeirdd diweddarach, a chyhoeddir eu gweithiau, fesul bardd, yng Nghyffres Beirdd yr Uchelwyr (Aberystwyth, 1994–). Pur ychydig yw'r astudiaethau diweddar a neilltuwyd i ystyried yn benodol lenyddiaeth grefyddol y cyfnod dan sylw. Trafodir agweddau ar y cyd-destun hanesyddol gan yr Athro Emeritws Glanmor Williams mewn nifer o gyhoeddiadau, gw. yn enwedig WCCR² 416–62 (a'r cyferiadau yn y mynegai); *id.*, 'Poets and Pilgrims in 15th- and 16th-Century Wales', THSC, 1991, 69–98. Perthnasol hefyd yw D.S. Evans, *Medieval Religious Literature* (Cardiff, 1986); E. Roberts, 'Uchelwyr y Beirdd: Y Llan', TCHSDd xxv (1976), 51–91; E.I. Rowlands, 'Religious Poetry in Late Medieval Wales', B xxx (1982), 1–19; J.E. Caerwyn Williams, 'Welsh Religious Prose', *Proceedings of the International Congress of Celtic Studies 1963* (Cardiff, 1966) ac *id.*, 'Rhyddiaith Grefyddol (1 a 2)', *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Oesau Canol*, gol. Geraint Bowen (Llandysul, 1974), 312–408.

ngherddi 6 a 10 manteisir ar restr adnabyddus y Saith Bechod Marwol i lunio cyffes ac annog gweddïo am faddeuant. Ond gan fod yn y Gymraeg liaws o gerddi tebyg i'r rhain, y mae'n anodd gwybod i ba raddau, os o gwbl, y cynrychiolant wir safbwynt Ieuan. Os ceid ceidwaid cysgerfannau ymhlith ei noddwyr, gallai'r hyn a fynegir yn y canu penydiol yn hawdd fod yn gwbl ddefodol, yn themâu disgwylidig mewn cerddi a genid ar gyfer achlysuron arbennig megis yr Adfent a'r Grawys (sef dau brif dymor penydiol y flwyddyn litwrgïol); y tair gŵyl arbennig (y Nadolig, y Pasg, a'r Sulgwyn); neu hyd yn oed ryw ŵyl leol benodol. Nid annichon ychwaith fod a wnelo'r cerddi penydiol yn gyffredinol â'r corff o ddeunydd crefyddol a oedd at alw'r beirdd ar eu teithiau clera.

Y litwrgi, yn ogystal â'r defosiynau a darddodd ohoni ac a gysylltid â hi, oedd un o brif ffynonellau ymwybyddiaeth grefyddol lleygwyr drwy gydol yr Oesoedd Canol, yng Nghymru fel ym mhob man arall.⁴⁶ Yr oeddynt hefyd yn ysbardun i ddychymyg y beirdd,⁴⁷ ac nid yw Ieuan Brydydd Hir yn eithriad yn hyn o beth. Gellid cyfeirio at ddau le yn arbennig yng ngwaith Ieuan lle y ceir enghreifftiau penodol o'r modd y manteisid ar y litwrgi ac ar ddefosiynau poblogaidd cyfoes gan y beirdd yn eu cynnyrch crefyddol. Yng ngherdd 5 ceir aralleiriad o'r weddi benydiol a elwir y *Confiteor*:

I Dduw nef yr addefa',
 Tri Pherson, a dynion da;
 Cyffesu'r wyf, cyffes rym,
 Fawr warau, i Fair wiwrym;
 Ac adde 'r wyf (mawrglwyf mau!)
 I'r saint dwys a'r santesaau ...⁴⁸

Daw'r weddi hon, a adroddid gan yr offeiriad a'r gwas allor ar yn ail, yn syth o'r Offeren, ac yr oedd yn hysbys i bawb: *Confiteor Deo omnipotenti, beatae Mariae semper virgini, ... omnibus sanctis, et [vobis, fratres], quia peccavi nimis, cogitatione, verbo et opere ...* ('Cyffesaf i Dduw hollalluog, i Fair Fendigedig y fythol forwyn, ... i'r holl saint, ac [i chwi, fy mrodyr], fy mod wedi pechu'n ddirfawr, ar feddwl, gair a gweithred ...').⁴⁹ Y mae'r cyfeiriadau at y Saith Bechod Marwol, at Saith Weithred y Drugaredd a'r Deg Gorchymyn, o leiaf yn awgrymu'r posibilrwydd mai cyd-destun ffurfiol neu hyd yn oed led-litwrgïol a geid ar gyfer datgan y gerdd neilltuol hon. Ond fel yr awgrymwyd uchod, oherwydd poblogrwydd y math hwn o ganu

⁴⁶ Dylid hefyd gadw mewn golwg bwysigrwydd a dylanwad y corff enfawr o chwedlau, yn ogystal â'r deunydd hyfforddiadol a moesegol, a fu'n faeth i ddychymyg a *praxis* credinwyr yr oes.

⁴⁷ Am ddylanwad testunau litwrgïol megis y Credo ar gopïydd Pen 20, gw. Ceri W. Lewis, 'Poetry and the Crisis in the Bardic Tradition', *GWL* ii² 75–6.

⁴⁸ Gw. 5.1–6.

⁴⁹ Codwyd y cyfieithiad Cymraeg o'r *Confiteor* o *Y Llyfr Gweddi Catholig* (Caerdydd, 1949), 18.

yng nghyfnod Beirdd yr Uchelwyr, prin y gellid honni mai darn o hanes Ieuan Brydydd Hir ei hun yw'r hyn a 'gyffesir' yn ei gerddi penydiol. Ar gyfer cyhoedd a oedd yn gyfarwydd â'r gyfeiriadaeth a'i goblygiadau y cenid y cerddi cyffes, er mwyn hyrwyddo ymateb penydiol.⁵⁰

Ceir yng ngherdd 12, sef y cywydd i'r grog yn Aberhonddu, enghraifft nodedig arall o ddefnydd Ieuan o ddefosiwn cyfoes. Yno, gwelir mai'r weddi breifat *Anima Christi* yw craidd y gerdd o linell 51 hyd ei diwedd. Daeth y weddi hon yn boblogaidd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ymlaen, ac fe'i cofnodir mewn nifer o wahanol fersiynau ledled Ewrop o hynny ymlaen. Yn englynion Dafydd ap Gwilym y ceir y ffurf gynharaf ar yr *Anima Christi* y gwyddys amdani yng Nghymru, a'r llinellau o'r cywydd a briodolir i Ieuan Brydydd Hir yw'r unig gerdd Gymraeg arall y daethpwyd ar ei thraws hyd yma a seiliwyd ar y weddi honno.⁵¹ Trafodwyd hanes cyfieithu'r weddi i'r Gymraeg yn fanwl gan Dr Brynley F. Roberts; er hwyluso'r cymharu, argreffir yma destun Lladin o'r *Anima Christi*, yn ogystal â'r cyfieithiadau Cymraeg a gyhoeddwyd ganddo⁵² a'r darnau cyfatebol o gerddi Dafydd ap Gwilym ac Ieuan Brydydd Hir:

<i>Anima Christi</i>	<i>Ysgol Amwythig 11, 53</i>	<i>Peniarth 78, 94</i>
<i>Anima Christi, sanctifica me</i>	Eneit Crist, santeida vi	Enaid Christ, santeiddia fi
<i>Corpus Christi, salva me</i>	Corf Crist, nodi vi	Gorff Christ, kadw fi
<i>Sanguis Christi, inebria me</i>	Gwaet Crist, diuedwa vi	Gwayd Christ, trysglwydda fy
<i>Aqua lateris Christi, lava me</i> [<i>Sudor Christi virtuosissimi, sana me</i>]	Dwfyr o ystlys Crist, golch vi	Y Dwr o ystlys Christ, glanha fy
<i>Passio Christi, conforta me</i>	Diodeueint Crist, llawenhaa vi	Dioddevent Crist, llawenha fi
<i>O bone Iesu, exaudi me</i>	O Iessu da, gwarandaw vi	O ddaionys Dduw, yn kaplan, gwrando fi
<i>Intra tua vulnera absconde me</i>	[]	Yn dy archollion kuddia fi
<i>Ne permittas me separari a te</i>	Ac n'at vi y wahann ydy wrthyti	[]
<i>Ab hoste maligno defende me</i>	Rac gelyn drwc diffyn vi	Oddi wrth fy nrwg elyn ymddiffyn fy
<i>In hora mortis meae, voca me</i>	Ac yn awr agheu galw vi	Yn awr fy marwolayth galw fi

⁵⁰ Ceir yr un dechneg adleisiol yn y canu i'r crogau yng Nghaer ac yn Aberhonddu (cerddi 10–12), ond ymddengys fod nifer o gerddi crefyddol Cymraeg yn adleisio gwahanol destunau litwrgïol. Er enghraifft, yng nghywydd Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys i'r grog yn Aberhonddu, ceir darn o siant fawr dydd Gwener y Groglith: *Agius isgyros, oes gur, / Alpha, Agla, O [= Ω] eglur; / Hemas, ein dinas yw d'enw, / Eleison, nid oedd lysenw /.../ Te .../ Tragrammaton, tri grym teg* (gw. Ll 6, 75–8; fe'i golygwyd a'i atalnodi).

⁵¹ Golygwyd yr 'Englynion ar yr Anima Christi' yn GDG³ 6–7 (cerdd 2).

⁵² B.F. Roberts, 'Tri Chyfieithiad Cymraeg o'r Weddi "Anima Christi"', B xvi (1954–6), 268–71.

<i>Et iube me venire ad te [Et pone me iuxta te]</i>	A gossot vi ygyt a Thi	A dyro fi yn agos atad
<i>Ut cum sanctis tuis laudem te [Ut cum angelis tuis laudem te]</i>	Val y molwyf i Ti gyda'th egelyon	Val y gallwyf i, gida'th santaidd engylion ac eraill dy saint, Dy ogoneddy a'th vawrhay
<i>In saecula saeculorum. Amen.</i>	Yn yr oes oessoed. Amen.	Yn oys oysoydd heb drank, heb orffen, yn enw Iesu Grist. Amen.
<i>Peniarth 88, 26</i>	<i>Dafydd ap Gwilym</i>	<i>Ieuan Brydydd Hir</i>
Enaid Krist, santeiddia fi	Enaid teg croesteg Cristî, / Fal glain o fewn glanha fi	Enaid y gwir oleuni / Santaidd Fab, santeiddia fi
Korff Krist, amddiffyn fi	Corff Crist ... Can wyd fyw, cadw yn fyw fi	Corff y Mab rhad sy gadarn / Cadwed fi, Ceidwad y Farn
Gwaed Krist, difeddwa fi	Gwaed Crist ... Cadw rhag pechod feddwod fi	Y gwaed o'i draed a redawdd / Erom ni a ro ym nawdd
Dwr o ystlys Krist, golch fi	Dwfr ystlys dilwfr dolur weli ... / Diwyd gylch fywyd, golch fi	O'i ystlys, f'ewyllys fu / Gael y chwys o gylch Iesu
Dioddefaint Krist, kadarnha fi	Dioddef Crist nef ... Cadarnha, fawr wrda, fi	Dau ddafn o'r dioddefaint / Dagrau Hwn a'm dwg o'r haint
Iessu Grist, gwrando fi	Gwâr Iesu trugar ... Gwrando heb feio fyfi	Gwir Dduw Dad, yn anad neb / Gwrando fi i'm gwiriondeb
[]	[]	[]
Ac na newidia fi oddi wrthyt	[]	Ac na ad o'th wlad a'th lu / I'm henaid ymwahanu
Rrac angau dybryd nodda fi	[]	Rhag pob creulon ddrygioni / A phoen, fyth, amddiffyn fi
Yn awr angau yn berffaith galw vi	[]	... gwahodd fi
A gosod fi rryngof a'th engylion	A gosod ...fyfi ... Ger dy law	[]
I'th voli Di ac i'th anrnydeddu Di	Mawl heb dawl, y molaf di ... Gwledd ddiwagedd ddiwygiaeth	Gwnaf ... gywydd i Fab / Yr wyl ydd af i'r wledd wen
Heb drangk, heb orffen. Amen.	Boed gwir ...	Berffaith, heb dranc, heb orffen.

Ysgrifennwyd y llawysgrif Gymraeg hynaf sy'n cynnwys cyfieithiad o'r *Anima Christi* (sef Ysgol Amwythig 11) tua dechrau'r bymthegfed ganrif,⁵³ a chopiwyd Pen 78 cyn 1584, a Pen 88 rywdro yn ail hanner yr ail ganrif ar

⁵³ Gw. RWM i, 1127.

bymtheg.⁵⁴ Diddorol yw nodi bod y fersiwn a geir yn Pen 88, er mor ddiweddar yw'r llawysgrif ei hun, yn dangos olion hynafol: nid yw'n cynnwys y llinell *intra vulnera tua* a ymddangosodd gyntaf tua 1500, ac y mae'n glynu wrth hen fersiwn o'r weddi y ceir ynddi gymal sy'n cyfeirio at *angelis* yn lle *sanctis* (sef y ffurf ddiweddarach). Hefyd, y mae'n amlwg fod pob un o'r tri chyfieithydd yn gyfarwydd â'r amrywiad *et pone me iuxta te* yn hytrach nag *et iube me venire ad te*.⁵⁵ Gellir dweud am y fersiynau Cymraeg y gwyddys amdanynt eu bod nid yn unig yn hynafol o ran ffurf ond eu bod hefyd yn tarddu o wahanol ffynonellau llafar. Yn y fersiynau a addaswyd gan Ddafydd ap Gwilym a chan Ieuan Brydydd Hir, gwelir bod iddynt fwy o amrywiadau fyth. Ni cheir gan Ddafydd ap Gwilym y llinellau *ne permittas me separari a te*;⁵⁶ *ab hoste maligno defende me*; ac *in hora mortis meae, voca me*. Ychwanegiad diweddarach nag amser Dafydd ac Ieuan oedd y cymal *intra tua vulnera absconde me*. Yn achos englynion Dafydd ap Gwilym, y mae'n ddichonadwy fod rhai englynion wedi mynd ar goll; ond y mae hefyd yn llawn mor bosibl, ac ystyried pa mor gynnar yw'r fersiwn hwn, mai dyna oedd y ffurf ar y weddi y gwyddai Dafydd amdani.

Nid yw'n ffaith heb ei harwyddocâd fod yr *Anima Christi* yn hysbys yng Nghymru mor gynnar yn ei hanes. Tueddir i gredu mai'r Dominicaniaid oedd yn gyfrifol am ei lledaenu, ac yng nghyd-destun y defosiwn i ddiodd-efaint Crist a ddaeth yn fwyfwy amlwg o ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg ymlaen, ni allai'r weddi lai nag ennill ei phlwyf yn nefosiwn yr oes. Gwelir bod gwahaniaethau rhwng testun y tri chyfieithiad a'r ffurf ar y weddi a gorfforwyd yng nghywydd Ieuan Brydydd Hir i'r grog yn Aberhonddu. Dyma'r unig fersiwn Cymraeg sy'n gosod y llinell *ab hoste maligno defende me* o flaen *ne permittas me separari a te*, er mai prin y gellid ad-drefnu testun y cywydd ar sail hyn. Yng ngherdd Ieuan yn unig y ceir cymal sy'n cyfateb i *sudor vultus Christi, sana me*, ac y mae'n bosibl fod y fersiwn Cymraeg hwn, felly, yn hŷn na'r cynharaf o'r testunau y gwyddai Herbert Thurston amdanynt a oedd yn cynnwys y llinell honno.⁵⁷

Yn yr ail ddsbarth o gerddi crefyddol gan Ieuan Brydydd Hir, ceir pedair cerdd y mae a wnelont â rhai o gysegrfannau pererindota enwocaf Cymru a'r Gororau. Y mae'r ganran uchel hon yn tueddu i ategu'r ddamcaniaeth mai gan geidwaid y rhain y câi ef nawdd, efallai er mwyn hysbysebu rhinweddau'r lleoedd, a diau mai yn y cywydd a ganodd i ffynnon Gwenfrewy (cerdd

⁵⁴ Gw. *ib.* 518, 561.

⁵⁵ Gw. sylwadau H. Thurston, 'Notes on Familiar Prayers, vii: The *Anima Christi*', *The Month*, May 1915, 504.

⁵⁶ Camgymeriad yn GDG³ (cerdd 2) yw rhoi'r amrywiad hwnnw yn deitl uwchben llinellau 25–8 o'r gyfres englynion; *et pone me iuxta te* sydd yn amlwg ym meddwl Dafydd ap Gwilym.

⁵⁷ 1481 yw'r flwyddyn a roddir ganddo, a digwydd y dyfyniad mewn llawysgrif Eidaleg a ysgrifennwyd yn Napoli ar gyfer y Pab Sixtus IV, gw. H. Thurston, 'Anima Christi', *Dictionnaire de Spiritualité* (Paris, 1937) i, 671.

9) y gwelir y blaenoriaethau bydol ar eu mwyaf eglur.⁵⁸ Ond yn y tair cerdd a ganodd Ieuan i'r crogau (cerddi 10–12) ceir elfen sy'n ymddangos yn fwy personol, er y gall eto mai techneg farddol yw'r wedd hon ar ei waith. Yng ngherddi Ieuan i'r crogau, megis yn nhrwch y cerddi eraill o'u bath, tynnir sylw at grog neilltuol drwy foli ei rhinweddau iachusol; ond y mae Ieuan hefyd yn ymuniaethu â'r cleifion eraill, a theg yw casglu mai oherwydd yr haint a'i blinai wrth heneiddio y daeth y thema yn fwy na defod iddo.⁵⁹ Y mae'r cerddi i'r crogau yn *genre* diddorol ynddo'i hun ac yn ffurfio is-ddosbarth neilltuol o fewn canu crefyddol y Gymraeg, a'i hanfodion yn weddol sefydlog er gwaethaf amrywiadau mewn mesur a phwyslais. Disgrifir y grog benodol, gan gyfeirio at rai o'i nodweddion (er nad yn fanwl bob tro); wedyn eir ymlaen i fyfyrion ar hanes bywyd a dioddefaint Crist, weithiau, fel y gwelwyd uchod, mewn perthynas â'r Offeren neu â rhyw ddefosiwn arbennig, neu drwy fyfyrion ar y Saith Bechod Marwol; yna fe gyflwynir cais, naill ai ar ran y bardd ei hun neu dros rywun arall, a gorffen gydag ymgyflwyniad defodol. Y nod, yn ddiau, oedd ysgogi'r gwrandawyr drwy *pia dictamina*, sef ennyn ymateb emosiynol drwy restru gweithredoedd Duw.⁶⁰ Pwysleisir yn y cerddi allu iachusol y crogau, a hysbysebir eu rhinweddau gwyrthneuthurol yn aml drwy gyfeirio at restr benodol o'r *magnalia Dei* a adlewyrchir mewn testunau beiblaidd megis Math xi.4–5 a Luc vii.22.

Cyfuniad yw'r math hwn o ganu o'r *meditatio* defosiynol a'r ymgais i ennyn *compunctio* (sef edifeirwch a chariad) a oedd yn rhan hanfodol o'r traddodiad rhyngwladol cyfoes o fyfyrion ar ddiodeffaint Crist. Gellir olrhain ei dwf a'i ddatblygiad trwy weithiau'r oes Batristaidd i'r *Regularis Concordia* a'r llenyddiaeth affeithiol fynachaidd hyd at genhadaeth y Brodyr Pregethwyr. Y mae hanes y mudiad defosiynol hwn wedi ei astudio'n fanwl, ac ymddengys mai yn Lloegr y gwelir ei fynegiant mwyaf datblygedig.⁶¹ Y mae'n annhebygol fod mudiadau defosiynol cyfoes fel y

⁵⁸ Gw. isod troednodyn 66.

⁵⁹ Gthg. cywydd Guto'r Glyn i'r grog yng Nghaer, a ganwyd dros Ddafydd ab Ieuan ap Llywelyn yn ei salwch (gw. GGI² 283 (CX)), cywydd sy'n debyg iawn ei naws a'i nodweddion i gerdd ofyn.

⁶⁰ Am drafodaeth ar draddodiad y delyneg grefyddol a'r *pia dictamina* gw. P.S. Diehl, *The Medieval European Religious Lyric: An Ars Poetica* (London, 1985), 49; Rosemary Woolf, *The English Religious Lyric in the Middle Ages* (Oxford, 1968), 1–15.

⁶¹ Ceir gan Peter Dronke, *The Medieval Lyric* (London, 1968), 65, grynodedb hwylus o dwf yr arfer, 'The sufferings of Christ and of Mary at the Crucifixion loom large in thirteenth century religious lyric, especially in England, where a devotional movement inspired by meditation on Christ's passion and on the joys and sorrows of the Virgin can be traced back at least as far as the *Meditationes* of John of Fécamp [ob. 1078] ... This movement, given new force by the Cistercians in the twelfth century and the Franciscans in the thirteenth, became widespread in all Europe, but its deepest roots seem to have been in England. It is probably no mere accident of preservation that in medieval European vernacular lyric England alone shows a striking preponderance of sacred lyrics over profane.' Gw. hefyd *Regularis Concordia*, ed. T. Symons (Edinburgh, 1953). Am arolwg o ddatblygiad y canu myfyriol am ddiodeffaint Crist, gw. J.A.W. Bennett, *Poetry of the Passion*

rhain, a oedd yn dra phoblogaidd yn Lloegr, yn gwbl anhysbys yng Nghymru, yn enwedig mewn trefi yr oedd sefydliadau eglwysig Seisnig yn amlwg ynddynt. Cymathwyd y myfyrio affeithiol hwn i farddoniaeth Gymraeg eisoes yn awdlau rhai o Feirdd y Tywysogion o'r drydedd ganrif ar ddeg, megis eiddo Gruffudd ab yr Ynad Coch; a gwelir yn eu cerddi crefyddol wahanol agweddau ar thema dioddefaint Crist a fwriedid i ennyn *compunctio* ymhlith y gwrandawyr.⁶² Yr un nod a geir yng ngherddi defosiynol y Cywyddwyr pan ganent i ddwyn ar gof ddioddefaint Crist⁶³ ac yn y corff o gerddi, yn awdlau a chywyddau, a ysbrydolwyd gan eiconograffyddiaeth y crogau eu hunain ac a genid, yn ddiau, i'r un perwyl. Dichon hefyd fod credinwyr yr oes honno yn ystyried y grog fawr a rannai gangell a chorff eglwys yn gyfrwng i hyrwyddo'r proses, nid annhebyg, efallai, i'r modd y gwnâi eicon hynny:

This image ... filled the arch which marked the separation between chancel and nave. Above or behind them on the tympanum was portrayed Judgement Day, when Christ, displaying his wounds and the implements of his Passion, would call the world to account. The liturgy in the chancel, therefore, especially the main Sunday Mass, was viewed through the arches of a screen dominated by the Crucifix as the focus of universal history, and when at the climax of the Mass the laity raised their eyes to see the elevated Host, they saw also the great Rood ... The screens were first and foremost Christological images, proclaiming the centrality of Christ's atoning death ... The whole screen was therefore a complex icon of the heavenly hierarchy, and many screens were clearly designed to underline this symbolism ... representing a belief in the communion of saints, the victory of good over evil, and a sense of being surrounded and assisted by the 'whole company of heaven'.⁶⁴

Helaethir ar batrwm adeiladwaith arferol y crogau gan G. Cyprian Alston:

They were usually of wood, richly carved, painted or gilded, with foliated or crocketed sides, and with the arms of the cross terminating

(Oxford, 1982), *passim*; P.S. Diehl, *op.cit.* mynegai, d.g. 'Passion'; D.L. Jeffrey, *The Early English Lyric and Franciscan Spirituality* (Lincoln, 1975), mynegai; J. Szövérfy, 'Crux Fidelis ... ; Prolegomena to a History of the Holy Cross Hymns', *Traditio*, xxii (1966), 1-41; Rosemary Woolf, *op.cit.* 19-66, 183-238. Nododd J.H. Marrow, *Passion Iconography in Northern European Art of the Late Middle Ages and Early Renaissance* (Brussels, 1975), 9, 'it is fair to say that by the end of the twelfth century the new sensibility, with its natural orientation towards the tender and pathetic themes of Christ's life, had made an impact in all areas of western European spirituality'.

⁶² Am drafodaeth lawnach, gw. MWRL 37-8, 42-3, 47, 86-92.

⁶³ Enghreifftiau o hynny yw'r cerddi o fawl i Grist, *Pwy'r Gorau piau'r goron*, a olygwyd gan Helen Fulton yn DGA 148-51 a'r cywydd *GoreuDduw gwiw a rodded* o waith Gwerful Mechain y bu cryn gopio arno, gw. *Gwaith Gwerful Mechain*, gol. Nerys Ann Howells (i ymddangos yng Nghyfres Beirdd yr Uchelwyr).

⁶⁴ Eamon Duffy, *op.cit.* 157-8.

either in fleurs-de-lis or in emblazoned medallions of the symbols of the four Evangelists. Rood-lights were kept burning before the rood in medieval times, consisting either of a wick and oil in a cresset, or rood-bowl, or of a taper on a pricket in the centre of a mortar of brass, latten, or copper ... when the rood was exceptionally large or heavy, its weight was sometimes taken partly by wrought-iron rood-chains depending from the chancel-arch, which were generally of elaborate design ... the rood, however, striking and prominent as it was intended to be, was often eclipsed by the rood screen over which it was placed ... Over such screens was a loft or gallery (rood-loft), which, according to some authorities, was used for the reading of the Epistle and Gospel, certain lections, the Pastorals of Bishops, the Acts of Councils, and other like purposes. The Episcopal benediction was also sometimes pronounced, and penitents absolved, from the loft ... [which] likewise provided convenient accommodation for the organs and singers ... In England they were generally lavishly coloured and gilded; also, the rood frequently stood not on or near the screen and loft, but on a separate transverse beam called the rood-beam, which was similarly carved and gilded. On the western side [was placed] the rood-altar, which in monastic churches often served as the parish altar, the parishioners being accommodated in the nave. The altar, being immediately under the great rood, was dedicated to the Holy Cross ... The daily parish Mass said at the altar under the rood screen, was called the Rood Mass.⁶⁵

Dylid hefyd ystyried ar ba achlysuron y byddid yn datgan y cerddi i'r crogau a beth oedd eu diben. Y mae'n gwbl bosibl, wrth gwrs, mai ar gyfer gwyliau arbennig neu bererindodau y'u comisiynid, ond o ystyried faint yr adeiladu a fu mewn eglwysi yng Nghymru'r bymthegfed ganrif, y mae hefyd yn llawn mor bosibl mai er mwyn hysbysebu crog neilltuol ac ysgogi'r ffyddloniaid i gyfrannu'n ariannol y noddid cerddi o'r fath.⁶⁶ O gofio'r defnydd helaeth a wneid yn y cerddi hyn o'r elfen weledol, y mae lle i dybio y byddai'r beirdd yn datgan eu cerddi yn yr eglwysi eu hunain. Bu

⁶⁵ G. Cyprian Alston, *art.* 'Rood', yn *The Catholic Encyclopaedia* (London, 1907–12), xiii, 181–2. Y mae'r pwynt olaf yn arwyddocaol o ystyried nifer y delweddau litwrgïol a geir yn y cerddi hyn.

⁶⁶ Yng nghywydd Ieuan Brydydd Hir i ffynnon Gwenfrewy, er enghraifft, atgoffeir y pererinion yn blaen y dylid gwneud offrwm: *Os un a ddaw heb synnwyr, / E'i caiff, ond enynnu cwyr* (gw. 9.27–8n). Perthnasol hefyd yw sylwadau'r Athro Emeritws Glanmor Williams yn WCCR² 429, 'there were other reasons [than spontaneous religious enthusiasm] which accounted for the verse. Patrons and poets had to live; poetry was a first-class medium of publicity and pilgrims were an important source of revenue. While there is no need to doubt that both patrons and poets could be quite sincere in their regard for the shrines it would be naïve to suppose that more calculating motives never crossed their minds.' Am y posibilrwydd mai â gweithgareddau adeiladu'r capel pum cilfan yn c. 1490 y dylid cysylltu'r cywydd hwn, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 9.

cyfuno celfyddyd, pregeth a barddoniaeth eisoes yn arfer cydnabyddedig yn Lloegr, yn enwedig gan y Brodyr Llwydion a oedd ymhlith prif hyrwyddwyr y defosiynau affeithiol.⁶⁷ Y mae'n amlwg y byddai'r Brodyr yn manteisio yn eu pregethau ar wrthrychau litwrgïol er mwyn dal sylw eu cynulleidfaoedd. Yn yr enghraifft ganlynol gwelir fel y mae'r pregethwr, sydd yn amlwg yn annerch ei wrandawyr yng ngŵydd rhyw grog, yn cymathu celfyddyd weledol a barddoniaeth i hyrwyddo'r genadwri:

Sires, beholde before you the figure of oure redemptour Ihesu Crist, as he honge in þe crosse in þe same fourme þat he suffered deþ in and brou3t mankynde fro the peynes of helle. Wherefore he cryeþ and seiþ to vs yche day in syche wordes:

Lystne, man, lystne to me,
 Byholde what I thole for the.
 To the, man, well lowde I crye;
 For thy loue þou seest I dye.
 Byholde my body how I am swongyn;
 Se þe nayles how I am þrou3 stongyn,
 My body withoute is betyn sore,
 My peynes with-in ben wel more.
 All this I haue thelyd for the
 As þou schalt at Domysday se.⁶⁸

Yn y cyfuniad o grefft y pregethwr a chynnyrch y bardd y gwelir rhan o amcan cenhadaeth y Ffransisciaid. Dechreuwyd ganddynt greu math newydd o farddoniaeth y gellid ei defnyddio'n lled-litwrgïol i ennyn *compunctio*:

... the profession of *ioculatore Dei* seems to have remained largely a Franciscan vocation, and the lyric productions of the *ioculatores* to have continued to relate in one way or another to the perennial Franciscan propensity for devotion and contrition. Whether in songs of praise or petitions to the Blessed Virgin, poems of the Cross or reflections upon time and decay, the Franciscan poet looked toward the

⁶⁷ Fel y nodir D.L. Jeffrey, *op.cit.* 32, 'The Franciscan poets were to see the most powerful appeal of the Atonement as emotional, and envision the basis of that appeal as concretely manifested in the physical details of the Crucifixion itself ... Almost always, Christ's bodily agony becomes overtly symbolic of the infinitely greater magnitude of His spiritual suffering on behalf of sinful mankind, but to drive the spiritual message home the physical point was graphically portrayed as perhaps never before in Christian art. Christ crucified became the supreme image and focus for the universal tension between Love and Death ... In the new expression, in the psychology of motif as well as in theme, we begin to see that the spirituality manifested in Franciscan art is double-edged: vividly portrayed, man's fear of death moves him towards penance, and vivid manifestations of the greatest love and pity move him towards love.'

⁶⁸ Ceir y testun yn *Speculum Sacerdotale*, ed. E.H. Weatherly (London, 1936), 112. Ceir yn siant fawr Ladin dydd Gwener y Grogllith, '*O vos omnes*', enghraifft litwrgïol enwog o'r thema hon.

moment when his audience could sing as one:

Swete Ihesu criste to the
I a synfulle wreche 3elde me ...⁶⁹

Dichon mai ar gyfer cynulleidfaoedd amgen na'r rhai a fwynhâi '[g]anu dysgedig i bobl ddysgedig gan wŷr dysgedig'⁷⁰ y bwriedid y cerddi crefyddol. Gellir dirnad ynddynt weithiau bwrpas hyfforddiadol, a diau eu bod yn fodd i draethu pynciau y dymunai'r noddwyr (eglwysig?) weld eu pwysleisio. Y mae'n ddiymwad, fodd bynnag, fod beirdd y cyfnod yn dewis symleiddio cywair a chreffft eu cerddi pan genid ar destunau crefyddol, a hwyrach y rhydd hyn ryw syniad inni o statws y cyhoedd y bwriedid y cerddi hyn ar ei gyfer. Y mae amrywiadau niferus a threfn wasgarog y testunau a ddiogelwyd ohonynt yn dystiolaeth gref iddynt gael eu cofio a'u trosglwyddo ar lafar yn ogystal ag ar glawr. Awgrymir hyn gan Forys Clynnog, ganrif yn ddiweddarach, wrth sôn am y cerddi proffwydol Cymraeg: 'er cyn cof, ar wefusau pawb [Llad. *in ore omnium*] adroddir cerddi a mydrau yn eu hiaith eu hunain sydd yn addo iddynt eu rhyddid ...'⁷¹ Cymer Clynnog yn ganiataol yn ei *Athrawaeth Gristnogawl* (1568) y byddai'r recwsantiaid yn canu cerddi cateceiddiol ar hen fesurau, megis y rhai a gyfansoddwyd gan Ruffydd Robert ei hun.⁷² Os oedd cerddi poblogaidd o wahanol fathau 'ar wefusau pawb' yn yr unfed ganrif ar bymtheg, y mae hefyd yn bosibl fod cerddi crefyddol syml a chymharol anffurfiol, megis y rhai a ganwyd gan Ieuan Brydydd Hir a'i gymheiriaid yn y ganrif flaenorol, yn eu plith.

Y mae'r ddwy awdl grefyddol o waith Ieuan Brydydd Hir (cerddi 6 a 7) yn dangos celfyddyd ragorach na'r cywyddau o'i eiddo a ddiogelwyd, a cheir ganddo hefyd un gyfres hir o gyhydeddau hirion (cerdd 8) y mae ei thestun yn ansicr iawn, ond sydd i bob golwg yn gerdd na cheir ynddi ond cyffyrddiadau cynganeddol, ac felly yn debycach i'r cerddi hyfforddiadol a llai ffurfiol nag i'r awdlau a fwriadwyd, yn ddiau, ar gyfer cynulleidfa amgenach ei disgwyliadau.⁷³

Haint Ieuan Brydydd Hir

Fel bardd ei henaint ef ei hun y cofid am Ieuan Brydydd Hir yn bennaf, a

⁶⁹ Gw. D.L. Jeffrey, *op.cit.* 214.

⁷⁰ Gw. Enid Roberts, *Y Beirdd a'u Noddwyr ym Maelor*, Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru Wrecsam, 1977, 20.

⁷¹ Dyfynnir o destun T.J. Hopkins a Geraint Bowen, 'Memorandwm Morys Clynnog at y Pab, Gregori XIII yn 1575', *Cylch LIGC* xiv (1965–6), 23. Sylwer hefyd fel yr aralleiriwyd darn o gywydd gan Siôn Cent yn y memorandwm hwn, cf. IGE² 266 (llau. 23–34) a gw. 4.56n isod.

⁷² Gw. *Athrawaeth Gristnogawl*, ed. D.M. Rogers (Menston, 1972), 1; cf. M.P. Bryant-Quinn, *Cymaint Serch i Gymru: Gruffydd Robert, Morys Clynnog a'r Athrawaeth Gristnogawl (1568)* (Aberystwyth, 1998), 5–6.

⁷³ Gw. y sylwadau rhagarweiniol i gerddi 6–8.

dyma'r trydydd dosbarth thematig y gellir ei ddirnad yn ei waith. Cyfres o fyfyrddodau ar ei *gorff truan trwch*⁷⁴ a geir gan Ieuan, a sonnir yn aml am yr haint, beth bynnag ydoedd, a achosai gymaint poen iddo.⁷⁵ Ceir yn ei gerddi ddisgrifiad byw iawn o gyflwr iechyd dyn yn ei henaint o'i gymharu â dyddiau ei ieuenctid. Yn ei ddau gywydd i'r grog yng Nghaer mynega Ieuan natur ei boen: *Dwyn yr wyf dan oer ofal / Dolur tost a dulio'r tâl; / Gwyn ym heb wŷn ni bu, / Asgwrn ni'm gad i gysgu*,⁷⁶ gan ychwanegu iddo fod yn orweiddiog am gyfnod o chwe mis.⁷⁷ Ond yn ei gywydd ar henaint y ceir ganddo'r dyfalu a enillodd i'r gerdd hon ei henwogrwydd haeddiannol:

Esgeiriau yn ysgyriion
 Y sydd, fal dwy ffawydd ffon;
 Ysgwyddau anosgeiddig,
 A chorff heb na lliw na chig.
 Gleiniau fy nghefn a drefnwyd
 Yn gerrig craig neu gorc rhwyd;
 Rhyfedd yw f'ais o'u rhifo
 Fal clwyd llei tynnwyd y to.
 Fal ffustiau, gïau gwywon,
 Yw'r ddau fraich ar y ddwy fron
 A'm dwylo, cyn Mai deiliog,
 Mal delwau cigweiniau cog.
 Mae'n brudd y grudd ac yn grych
 Mal gwydr amlwg i'w edrych;
 A'm llygaid, ym mhell eigiawn
 'Y mhen, ni ad ym hun iawn.
 Gŵr oerach nag yr Yri
 Na Berwyn wyf, o'm barn i;
 Ni thyn na chlydwr na than
 Na dillad f'annwyd allan;
 Crynedig i'm croen ydwyf,
 Crynfa deilen aethnen wyf.⁷⁸

Y mae'r symptomau i gyd yn gweddu i gyflwr rhywun hŷn, wrth reswm, ac y mae'r disgrifiad o'r boen y mae yn ei theimlo yn ei holl gorff, y teneuo amlwg, yr anffurfio esgyrn a'r oerni parhaol yn creu argraff gofiadwy. Nid oes modd gwybod ai un cyflwr cronig, ynteu cyfres o waeleddau a bortredir yn y cerddi; a chan fod rhai cyflyrau meddygol canoloesol bellach un ai wedi peidio â bod, neu i'w cael mewn ffurf wahanol, nid yw'n sicr a ellir

⁷⁴ Gw. 5.60.

⁷⁵ Gw. 10.57–60, 11.1–6, 12.60, a cherdd 13 *passim*.

⁷⁶ 10.55–8.

⁷⁷ 11.1–2, 5 *Bloeddiais ers hanner blwyddyn, / Ni chwimiais i'r chwemis hyn / ... / 'Y mhoen a ddug ym henaint.*

⁷⁸ 13.31–52.

mentro diagnosis yn achos Ieuan. Fodd bynnag, y mae'n bosibl mai disgrifiad a geir yma o ddarfodedigaeth asgwrn y cefn, a'i hamlygai ei hun mewn sgoliosis neu gefnwyrmi. Gallai hyn fod wedi dwysáu cyflyrau eraill a oedd eisoes yn ei flino, megis sbondylosis gwegilog. Byddai'r gwasgu a achosai hyn ar ei wythiennau wedi peri'r cur yn ei ben y cyfeiria ato yn 10.56, ac wrth i'r ddarfodedigaeth ledu o asgwrn ei gefn byddai Ieuan wedi colli pwysau yn ddifrifol; ceid hefyd nodau neu dalpiau ar ei groen a nodweddai'r salwch hwnnw (gw. 13.28). Y mae'n annhebygol fod Ieuan wedi byw yn hwy na rhyw ddwy flynedd wedi i'r ddarfodedigaeth hon afael ynddo, ac os felly, nid yw hyn ond yn dyfnhau arwyddocâd y tair cerdd hyn.⁷⁹

Ond er mor ingol yr ymddengys y dioddefaint a ddisgrifir yn y cerddi hyn, rhaid eto ofyn beth yw union bwrpas y canu. Os gwŷr wrth grefydd a noddai ganu Ieuan ar adegau, nid yw'n amhosibl mai cerddi *am* salwch a henaint, a disgrifiadau ohonynt, a geid ganddo at ddiben y sawl a'u noddai, yn hytrach na cherddi y datgelir ynddynt ddarn o hanes y bardd ei hun. Fel y sylwodd Eurys Rowlands, ni ddylid anghofio bod Ieuan yn ei ddisgrifio ei hun yn *bregeth*, yn *exemplum* i'r sawl a wyddai amdano neu a wrandawai ar ei gerddi:⁸⁰ *Megis anrheg o bregeth / Wyf i'r byd, ofer o beth ... / Am hyn yr wyf ym mhenyd—/ Am wagedd a balchedd byd.*⁸¹ Ond hyd yn oed os derbynir bod y cerddi yn cyfleu ffeithiau am gyflwr Ieuan (ac y mae hynny'n dra thebygol), barddoniaeth ydyw: cywyddau a genid ac a gofid ar goedd gwlad, ac y copiidd testunau ohonynt droeon oherwydd eu mynegiant trawiadol a'u neges.

Canu cymdeithasol, fel y dywedodd Thomas Parry, oedd barddoniaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol, gan ychwanegu mai ar gyfer rhywun heblaw'r bardd ei hun y'i bwriadwyd.⁸² Yr un egwyddor a welir ar waith yng ngherddi crefyddol Cymraeg y bymthegfed ganrif, ac ni ddylid anwybyddu eu diben a'u nod cymdeithasol hwythau. Trwy fyfyrto ar groeshoeliad Crist, ceir Ieuan Brydydd Hir ar ddiwedd ei gywydd ar henaint yn mynegi gobaith mewn dioddefaint:

Er Dy loes wrth Dy groesi
A'r gwaed o'r traed, unDuw Tri:
F'Annwyl, er a fo ennyd
Ym yn boen yma'n y byd,
Dwg, Iôr, i le digerydd
F'enaidd wrth fy rhaid yn rhydd

⁷⁹ Y mae'r arolwg a geir gan A.J. Jex-Blake, *Tuberculosis: A General Account of the Disease* (London, 1915) yn dal yn werthfawr. Diolchir i Dr John Morgan-Guy, FRSM, am roi ei fam ar gyflwr meddygol Ieuan Brydydd Hir.

⁸⁰ E.I. Rowlands, 'Religious Poetry in Late Medieval Wales', B xxx (1982), 15.

⁸¹ 13.15–16, 29–30.

⁸² Thomas Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd, 1944), 100. Canai'r beirdd, ys dywed, 'nid am brofiadau anghyffwrdd gweledydd, ond am y pethau y gwyddai'r cyhoedd diwyllyddig amdanynt'.

I'th lân nef, i'th oleuni,
I'th wlad, Duw, i'th weled Di.⁸³

Os gwir gyflwr y bardd ei hun a ddisgrifir yn y cerddi hyn, fe'i mynegir ar gyfer ei gymdeithas yn ogystal.

Teg yw barn yr Athro Emeritws Glanmor Williams, '[Ieuan Brydydd Hir] was not a great poet nor have very many poems by him survived',⁸⁴ ond yn yr ychydig gerddi hynny, yn enwedig yn ei gerddi am salwch a henaint, nid mynegiant ystrydebol-ddiffirwyth a geir ond myfyrdod ar ei ing a'i hoen, ei ddiodeffaint a'i lawenydd ef ei hun. Gellir ymglywed ynddynt ag ymgais un bardd o Gymro yn ail hanner y bymthegfed ganrif i wynebu tywyllwch ei fywyd personol a'r byd o'i gwmpas trwy gyfrwng ei grefft farddol a delweddau ei ffydd.

Dilysrwydd y cerddi

Fel yr awgrymwyd eisoes, diau mai cyfran fechan yn unig o gerddi dilys Ieuan Brydydd Hir a ddiogelwyd. Yn Tudur Penllyn, &c.: Gw, derbyniwyd deunaw cerdd yn waith o'i eiddo. Yn MCF (1999), rhestrir pump a deugain o gerddi, neu ddrylliau o gerddi, dan enw Ieuan, sef cyfanswm o wyth ar hugain o gerddi cyflawn. Bu'n rhaid gwrthod cynifer â phymtheg ohonynt, gan adael tair awdl a deg o gywyddau y gellir yn weddol ffyddiog eu hystyried yn perthyn i gorff canu Ieuan. Y mae hefyd ar ei enw un englyn unodl union ac un englyn proest, na ddylid, yn ôl pob tebyg, eu derbyn yn waith dilys y bardd, yn ogystal â'r *Araith* a'r *Casbethau* (yr 'Areithiau Pros'), sy'n dwyn ei enw. Hyd y gwyddys ar hyn o bryd, felly, cadwyd 210 o gopiâu o'r farddoniaeth a briodolir i Ieuan Brydydd Hir mewn 159 o llawysgrifau. Dengys yr amrywiadau a geir yn yr amryfal ffynonellau na fu erioed draddodiad dibynadwy ynghylch corff ei ganu; oherwydd hynny, y mae'n dra thebygol yr erys ynghladd yn y llawysgrifau o hyd beth o'i waith dan enwau beirdd eraill, tyst o'r cymysgu a welir yn y gwahanol fynegeion rhwng gwaith dilys Ieuan a beirdd o enw cyffelyb. Fel y sylwodd Abraham Jenkins yn ôl yn 1921, i Evan Evans ('Ieuan Fardd' neu 'Ieuan Brydydd Hir', 1731–89) y priodolwyd hyd yn oed gerdd enwocaf yr Ieuan Brydydd Hir hynaf mewn rhai llawysgrifau.⁸⁵ Ond tadogwyd nifer o gerddi Siôn Cent, Ieuan Llwyd Brydydd, Ieuan Tew Brydydd Hen ac Ieuan Tew Ieuan hwythau ar y Prydydd Hir o Ardudwy, heb sôn am y cerddi o'i eiddo a briodolwyd i feirdd eraill.

⁸³ 13.63–70.

⁸⁴ WCCR² 426.

⁸⁵ Cf. hefyd farwnad William Fychan ap Rhisiart Fychan ab William Fychan o Gorsygedol, a fu farw yn 1775, *Y mae arwyl ym Meirion*; a'r englyn *Seraffiaid tanbaid tywynbyst*, yn *Gwaith y Parchedig Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir)*, gol. D. Silvan Evans (Caernarfon, 1876), 107, 114; cf. NBSF 221. Rhestrir y cerddi hyn yn MCF (1999) gyda gwaith Ieuan Brydydd Hir.

Gellir casglu'n bur ddiogel nad gwaith dilys Ieuan Brydydd Hir mo'r cerddi canlynol:

Am y seren mae siarad [recte Am seren y mae siarad]

Priodolir y cywydd darogan hwn i Ieuan Tew Brydydd Hen ac Ieuan Tew Ieuanc. Un llawysgrif yn unig sy'n rhoi'r gerdd i Ieuan Brydydd Hir, sef BL Add 31084, 163^r (llawysgrif o'r 18g.), lle y ceir y teitl *cywydd y seren gynffonog 1580*. Derbyniodd W. Basil Davies⁸⁶ mai gwaith Ieuan Tew Ieuanc oedd y gerdd hon.

Anna a wnaeth i nynti

Dengys y ffynonellau gryn ansicrwydd parthed awduraeth y cywydd hwn i'r Forwyn Fair, ac fe'i priodolir hefyd i Hywel Swrdwal, Ieuan ap Hywel Swrdwal, Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys, Hywel Gowden Hen, Iolo Goch a Siôn Cent. Mr Dylan Foster Evans, golygydd cerddi cylch y Swrdwaliaid, sydd wedi sefydlu'n derfynol mai perthyn i'w canon hwy y mae.⁸⁷

Bardd wyf i'r beirdd a fydd

Enwir pedwar bardd wrth y gerdd frud hon yn y llawysgrifau heblaw Ieuan Brydydd Hir, sef Dafydd Llwyd o Fathafarn, Robin Ddu o Fôn, Edwart ap Rhys a Dafydd ap Gwilym. Peth cyffredin iawn yn y llawysgrifau y ceir y cerddi brud ynddynt yw cael nid yn unig amryw briodoliadau ond hefyd gymysgu diddiwedd rhwng testunau'r cerddi eu hunain. Ceir mewn un testun o'r cywydd hwn linellau o gerdd frud adnabyddus Ieuan Brydydd Hir, 'Gwynedd cafas dy genedl'. Efallai mai oherwydd hyn y rhoddwyd y gerdd gyfan i Ieuan Brydydd Hir yn yr unig destun (sef BL Add 14893 [= RWM 37] 81^r) sydd ar ei enw o blith ugain. Golygodd W. Leslie Richards y gerdd yn ei draethawd gwreiddiol ar waith Dafydd Llwyd,⁸⁸ ond ni chynhwysodd hi yn GDLI.

Blin yw trallod rhod ar hwn

Un llawysgrif eto, sef LIGC 435B, 42, sy'n rhoi'r cywydd enwog hwn i Ieuan; ond fe'i priodolir mewn cynifer â deugain i Siôn Cent.

Cenau truan cyn tri-awst

Priodolir y cwpledi hyn i Ieuan yn BL Add 14891, 9^v, BL Add 14892, 17^v, Bangor 5945, 4, gyda'r olnod *Gr ab Ifan ap Ll Fychan yn passio Ifan*

⁸⁶ Ieuan Tew Ieuanc: Gw. Rhif 75 yw testun y cywydd, gw. td. 255, cf. y nodiadau, tt. 470–1.

⁸⁷ Golygir gwaith y Swrdwaliaid gan Mr Dylan Foster Evans yng Nghyfres Beirdd yr Uchelwyr (i ymddangos); cf. hefyd nodyn Thomas Jones, 'Cyfeiriad Dafydd Jones, Ficar Llanfair Dyffryn Clwyd, at Fasciculus Temporum', B ix (1937–9), 303–5.

⁸⁸ Ceir y testun yn Dafydd Llwyd: Gw 257.

brydydd hir yn clera ar y Nadolig. Fe'u ceir ar yn ail â'r hanner englynion 'Canaf gynhaeaf mis Awst—gynnen ...'. Cysylltir y llinellau hyn hefyd â gwaith Lewys Môn, ac y mae Eurys Rowlands o'r farn mai englynion ateb ydynt rhwng Lewys a'r bardd-ysgolhaig Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan.⁸⁹

Doeth un Mab Ysbryd a Thad

Bu cryn gopïo ar yr awdl hon, a rhennir priodoliadau'r 76 llawysgrif, gan mwyaf, rhwng Dafydd Nanmor a Dafydd ab Edmwnd. Gan mai yn Bangor (Mos) 6, 63^r yn unig y'i priodolir i Ieuan Brydydd Hir, ymddengys y diffyg tystiolaeth lawysgrifol ategol yn garn yn erbyn derbyn y priodoliad hwnnw.

Dyw Sulgwaith dewis wylgamp

Anodd derbyn barn bendant Eurys Rowlands, na chynigiwyd rheswm drosti,⁹⁰ mai gwaith Ieuan Brydydd Hir yw'r cywydd hwn ynghylch ymddiddan y Byw a'r Meirw. Ac ystyried ansawdd y canu yn ogystal â thystiolaeth y llawysgrifau, ni welwyd rheswm dros amau nad gwaith Ieuan ap Rhydderch ab Ieuan Llwyd ydyw. Fe'i golygwyd yn IGE² 236 (LXXIX).⁹¹

Fal yr oeddwn gyda'r hwyr

Enghraifft gynnar yw hon, yn ôl R. Wallis Evans, o ganu brud ar draethodl.⁹² Enwir rhyw 'Ieuan' a'i wraig 'Dyddgu' yn y gerdd, ac y mae'n debygol mai oherwydd hynny, ac oherwydd y cywydd brud a briodolir i Ieuan Brydydd Hir, y priodolwyd y traethodl aflêr hwn iddo. Ond dwy lawysgrif ddiweddar yn unig (sef BL Add 31057 a BL Add 31084) a'i rhydd i Ieuan, ac y mae'n annhebygol y dylid ei hystyried yn gerdd ddilys o'i eiddo.⁹³ A gymysgwyd rhwng Ieuan Brydydd Hir a bardd arall ag enw cyffelyb a ganodd gerddi proffwydol, megis Ieuan Drwch y Daran? Fodd bynnag, fel 'brawd' (sef aelod o urdd grefyddol?) y cyfeirir at yr olaf fynychaf yn y ffynonellau.

Fy [Y] seren fynwes euraid

Cywydd yw hwn yn diolch i dâm Jenet (neu Sioned), ail wraig Syr Rhys ap Tomas, am amdo a roesai hi i'r bardd. Merch oedd Jenet i Domas Mathew o Radyr ger Caerdydd. Priododd hi â Syr Rhys oddeutu 1485 ac ymddengys iddi farw, ddeng mlynedd ar ei ôl yntau, yn 1535. Er ei bod yn

⁸⁹ Gw. GLM 359, 536.

⁹⁰ Gw. ei sylwadau yn 'Religious poetry in late medieval Wales', B xxx (1982–3), 17–18.

⁹¹ Golygir gwaith Ieuan ap Rhydderch ab Ieuan Llwyd o'r newydd gan R. Iestyn Daniel (i ymddangos yng Nghyfres Beirdd yr Uchelwyr).

⁹² R. Wallis Evans, 'Daroganau', B ix (1937–9), 316–19.

⁹³ Ond gw. troednodyn 21 uchod.

ddamcaniaethol bosibl mai Ieuan Brydydd Hir a ganodd y cywydd gofyn hwn, un llawysgrif yn unig (sef BL Add 14978, 263^v) o blith wyth sydd yn ei briodoli iddo. Yn ôl W. Basil Davies, y mae'n fwyaf tebygol mai Ieuan Tew Brydydd Hen o Gydweli a'i piau ac y mae hynny yn gweddu i gylch daearyddol clera'r Ieuan hwnnw.⁹⁴

Hywel ewybr hil Ieuan

Ar sail tystiolaeth y llawysgrifau, nodweddion cynganeddol a thebygrwydd mynegiant y gerdd hon i'r gweddill o'i gerddi, odid na ddylid priodoli'r cywydd gofyn hwn i Ieuan Llwyd Brydydd, bardd o Ddyffryn Clwyd neu Ddyffryn Conwy, a ganai yn bennaf i deulu'r Holandiaid.⁹⁵

Mair yw'n hyder rhag perygl

Awdl i Fair yw hon y bu cryn gopiō arni. Fe'i cysylltir hefyd ag enwau Ieuan ap Rhydderch ab Ieuan Llwyd, Siôn Brwynog a Siôn Cent; ond gall mai Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan a'i canodd. Mewn un llawysgrif yn unig (sef Card 3.4 [= RWM 5], 74) o blith pedair a deugain y ceir y priodoliad i Ieuan Brydydd Hir.

Ni bu yma neb amarch

Priodolir y 'gerdd' hon i Ieuan mewn saith o lawysgrifau. Ymddengys mai Card 3.68, 130 yw'r gynharaf ohonynt a hi, o bosibl, oedd y gynsail y dibynnai'r llawysgrifau eraill arni. Ond nid yw'r gyfres benillion hon, mewn gwirionedd, namyn clytwaith o waith nifer o feirdd, y codwyd eu testunau o *Flores Poetarum Britannicorum* John Davies, Mallwyd.⁹⁶

'Rwyf yn credu yn enw y Tad

LIGC 21291E [= Iolo Aneurin Williams 5], v yn unig a rydd y gerdd hon i Ieuan. pynciau'r Credo ydyw, a hynny ar fydr cyffredin. Oherwydd hynny, yn ogystal ag â'r themâu crefyddol ol-ddiwygiadol a geir ynnddi, dichon na ellir ei dyddio yn gynharach na'r unfed ganrif ar bymtheg.

Y Forwyn a fu [ofwy] araul

Cywydd i'r Forwyn Fair eto yw hwn, y gwelir cryn ansicrwydd yn y ffynonellau ynglŷn â'i awduraeth. Ceir y testun yn GDID Atodiad B3, td. 125,⁹⁷ ond fe'i priodolir hefyd mewn deunaw o lawysgrifau i Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys, ac mewn cynifer â naw o lawysgrifau i Ruffudd ab yr Ynad Coch. Fodd bynnag, Llst 125, 738 yn unig, sef llawysgrif ac iddi

⁹⁴ W.B. Davies, *op.cit.* xxiv.

⁹⁵ Golygir gwaith Ieuan Llwyd Brydydd gennyf yng Nghyfres Beirdd yr Uchelwyr (i ymddangos).

⁹⁶ John Davies, *Flores Poetarum Britannicorum ...* (Mwythig, 1710).

⁹⁷ Gw. nodiadau'r golygydd, td. 161.

destun gwallus, sy'n rhoi enw Ieuan Brydydd Hir.

Y glaerfaith wybr eglurfawr

Mewn un testun yn unig o blith deuddeg (sef CM 206, 173^v) y ceir y cywydd hwn ar enw Ieuan Brydydd Hir; fe'i priodolir hefyd i Evan Evans, ond y mae mwyafrif y llawysgrifau yn ei briodoli i Wiliam Cynwal (Wiliam ap Siôn ap Dafydd).

Fersiynau neu ddarnau o gerddi hysbys Ieuan yw gweddill y cyfeiriadau a geir at ei waith yn MFGLI ac yn MCF (1999); ceir wrth ei enw hefyd ddau ddarn rhyddiaith, yr *Araith* a'r *Casbethau*.⁹⁸

⁹⁸ Trafodwyd y testunau hyn a'u harwyddocâd yn AP 30–2, 60, 99–100, 116, a golygir yr englyn a geir wrth destun yr *Araith* yn At.ii. Afraid ychwanegu mai prin y gellir cyfrif y darnau rhyddiaith hyn yn waith dilys Ieuan Brydydd Hir.

1
I Elis Wetnal

Elis o ddyffryn Alun,
Wyt annwyl gorff, Wetnal gun,
Ŵyr Einion, o rieni
4 Morgan Twnc, mur gwyn wyt ti;
Eryr hael ar wŷr yr Hob,
A'th ddysg o gyfraith esgob.
Gan fod y gred briodas
8 Gar dy fron, gŵr dof ei ras,
Rhwing Tudur (gwrdd awdur wyd)
Penllyn a'r wrach gapanllwyd,
N'ad, Elis, anwadalau:
12 Y gred fyth o gariad fu.
Cywir ydoedd, o'm credwch,
Cyd boed hon, cydwybod hwch,
Y garles o Gaergwrlai,
16 I guro gŵr o Gaer-gai,
Heb fod rhyngtho a'i hodyn
Achos, ond dwynos hyd hyn.
Agos bellach, bwbach ben,
20 Ei fwrw yntau am fronten;
Purdan a bair, llei cair cas,
Pryder am dor priodas.
Minnau, o'm bodd, ni mynnwn
24 Yn y tân fod enaid hwn!

Mawrglod o'm tafod yt aeth
Am hyn, Elis, fy mhennaeth.
Anfonwch hon i fyny
28 At hwn i gynnal y tŷ;
A'i dodrefn, deued adref
Drwy Iâl i gytal ag ef:
Ei phais glytiog a'i chogail,
32 A'i chwd mawr a'i chod a'i mail,
A'i gwrthban a'i chap gwlanen,
A'i chywrsi hyll a'i chrys hen,
A'i chae efydd a'i chyfoeth
36 I guddio'n iawn ei gwddw noeth,

40 A'i mantell a'i phadellan,
A'i chunnog lwyd a'i chnu gwllân,
A'i llwyau llaeth oll a'i llin,
A'i charth—hawdd i'w gŵr chwerthin!

44 O daw hon, nid â henaint,
Heno i'w dŷ a'i hun daint,
Rhaid iddo, rho Duw, addef
Wneuthur uwd i'w neithior ef.
Da a fydd hwn, cystlwn cur,
Wrthi, llei magwyd Arthur,
O chânt ynnill plant (pa les?)
48 A chynnal y wrach Annes.
Arwyddion eb roddion is,
Atolwg yty, Elis,
Na ddyro, Ddyfnwal Alun,
52 Y tir odd' wrthyt dy hun,
Na'th lys—nid gwaith elusen—
I ŵr coch nac i wraig hen!

Ffynonellau

A—BL Add 31095, 158^v B—Card 2.616, 271 (*llau. 49–54*) C—LIGC 20574A, 38 D—LIGC Mân Adnau 1206B [= Tanybwllch 1], 248 E—Llist 133, 935 F—Llist 145, 58 G—Pen 77, 379 H—Pen 112, 174

Ceir cryn debygrwydd rhwng y gwahanol gopïau o'r cywydd hwn. Perthyn EF i'w gilydd ac ymddengys mai eu testun hwy oedd cynsail A; gellir bwrw y dylid cysylltu CGH hwythau â'i gilydd. Darn yn unig a gadwyd o destun B. Saif D ar wahân i'r llawysgrifau eraill a cheir ynddi nifer o ddarllenïadau sy'n rhagori arnynt. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 201–9.

Amrywiadau

1–48 [B]. 2 ACE–H gwr; ADEF watnal; ACE–H gwyn. 3 G wŷr. 6 AEF ith ddysg; C ar gyfraith, D ath gyfraith. 7 H beiriodas. 8 G gaer dy vron; AEFH gwr daf, C gwr da; AEF o ras; G gwr difai ras. 9 AE–H tyst awdur. 14 A baed, C bod, D bôb; ACE–H hi. 16 AEF i garu y gwr, CH i garu /r/ gwr, G i garu gwr. 17 ACE–H iddo. 19 A ag os, CD achos, F ac os (*cywiriad*: agos). 20 AEF ei farw, CGH ai farw; C–G ynteu. 22 ACEF am dorri, G am dorri (*dilewyd yr i gan law ddiweddarach*); H peiriodas. 23. AEF finnau ... fynwnn; D ninnau. 24 C bod. 27 A []ch hon i hynny, E oni rowch hon i fyny, F []ch hon i fyny. 28 AEF []ynnill y ty; H y tu. 29 AEF deuer. 30 AEF i gynnal. 31 C ai ffais; ACE–H ai chogel. 32 AE–H ai mêl, C ai m[]el. 33 A a gwrthban; AE bun lan o wlanen, F bur lan o wlanen; CGH ai hen

wlanen. 34 *AD–G* ai chwrsi, *CH* ai chowrsi; *AC–H* hi. 35 *C* ai chowaeth. 36 *G* gwddf. 38 *C* ai chnwd (*cywiriad*: chnu). 39 *A* a llwyau. 41 *CE–H* ni ad, *D* yn oed. 42 *G* o'i dy. 43 *GH* oddef; *C* rhy dynn addef. 44 *G* oi neithior. 45 *ACH* cystlwng. 47–8 [*D*]. 47 *CGH* o chwant. 48 *AEF* gwrach o hanes, *GH* y wrach hanes. 49 *ABCE–H* arwydd yw heb roddion is. 50 *D* atolwyn. 51 *A* 'mordor alun, *BGH* morda /r/ alun, *C* mordaf alun, *E* 'm mordor alun, *F* y'mordor alun. 52 *G* y ty; *AEF* gad yt dy hun, *BCGH* gad ef yt dy hun, *D* oddiwrthyt dy hun. 53 *AE* nid gwaeth; *ABH* alusen, *C* ylusen; *D* nid ywn waith lusen. 54 *AEF* er gwr, *BGH* ir gwr; *AEF* nag er gwraig, *BCGH* nag ir wraig, *D* nag ei wraig.

Teitl

A ateb ir cywydd yna, *D* Ir un achos, *EF* yr ateb, *H* kowydd i ateb y kowydd uchod.

Olnod

ACG ieuau brydydd hir, *B* ifan brydydd hir ai kant, *D* 1450 Ifan brydydd hir, *EF* ieuau brydydd hir a'i cant.

Trefn y llinellau

ACE–H 1–54.

B [1–48], 49–54.

D 1–46, [47–8], 49–54.

Dychan Tudur Penllyn

Glân Dudur—gloyw Wyndodeg,
 Gormes y tir, grymus, teg—
 Penllyn, flawrwyn faeleraidd,
 4 Pab llwyd o fewn pebyll haidd;
 Pŵl fu y modd, palfau march,
 Pandy mydr, pendew madarch.
 Tost iawn yw, lle'i testuniwyd,
 8 Trwyn ellŷn, was toryn llwyd,
 O bai'n y wlad, banel us,
 Mwylsiwr mawr mal Syr Morys
 (Gŵr a gân i rianedd
 12 Geiriau mawl ac a ry'r medd)
 A minnau, sy'n ymannerch,
 Yn mynnu moliannu merch,
 A Thudur a wrthodai
 16 Gywydd merch o fewn gwŷdd Mai.

Bardd yw fo'n beraidd ei fin
 A phrydydd i gyffredin.
 Drud yr aeth i Ardudwy
 20 At bob rhai, i'w tai hwynt-hwy;
 Er ŵyn a gwlan, arwain glod
 Â chywydd i wrachïod,
 A'i fwrw fal clod y Forwyn
 24 Drwy ein sir, fal bwrw dŵr swyn.
 Gwir fu—mae fo'n gwerthu gwêr—
 Gael defaid am glod ofer;
 Mae o'r rhain, a mwy yw'r hil,
 28 Meddai ef, yma ddwyfil.
 Ysbeiliodd y gwas bolwyn
 Y tir yn llei rhoddwyd hyn.
 Gwae ni! Anodd ym oddef
 32 Gwenaith a wŷr gantho ef;
 Ni ad ef yn 'y ngwlad i
 Borchell nac iâr heb erchi,
 Na hwch ddof heb ei gofyn,
 36 Nac oen, na mollt, nac un myn,

Na baedd, na hen afr, na bwch,
 Na hwrdd; oni waherddwch
 40 Ŵr digrif, euraid awgrim,
 Ni ad na dafad na dim.
 Somai yn ddifai ddwyfoch,
 Saer cerdd aeth yn heusor coch.

44 Testuniwch ef! Tost na chaid
 Rhyw ddifa ar ei ddefaid;
 Och, Dduw, i blas y gwas gwyn
 Am fleiddiau yma flwyddyn,
 48 Neu ladron, anwirion wŷr,
 Neu gŵn ynghylch Caer Gynyr.
 Llydan fydd y lleuadau;
 Lladron a ddichon, bob ddau,
 Na chaffo ef o'i ddefaid
 52 Werthu yr un wrth ei raid,
 Nac epil, na hil, na had
 O'i ddwyfil, ond un ddafad!

Ffynonellau

A—BL Add 14978, 36^r B—BL Add 15015, 297 (*llau.* 35–54) C—CM 40, 22 D—LIGC 1024D, 56 (*llau.* 1–34) E—LIGC 3049D [= Mos 146], 405 (*llau.* 1–41) F—Pen 77, 97

Tri thestun cyflawn yn unig a gadwyd o'r cywydd hwn, sef ACF. Er gwaethaf y bylchau a geir yn BDE, dengys yr amrywiadau y gellir rhannu'r testunau hyn yn ddau brif ddsbarth, sef A–D ac EF. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 201–9.

Amrywiadau

1–34 [B]. 1 AD gloewyn dodeg, C gloewyn d'odeg. 3 ACD faliraidd. 4 ACD mewn pebyll o haidd. 5 AD pwl yw e modd, C pwl yw fy mod; C palfa. 7 ACD tost yw yn llei; C testyn(ll)wyd. 8 AC–F ellyn; ACD torwyn, EF torun. 9 CD ei wlad. 10 ACD mowlssiwr. 12 ACD ag a ry medd. 13. ACD yn ymanerch. 16 ACD a gwydd mai. 17 ACD [yn]. 20 ACD oi tai. 23 EF i forwyn. 24 ADEF drwyr sir, C drw yn sir. 25 ACD mae yn. 27 AD mae or hain, C y mae o'r rhain; A ai y mawr hil, CD ai mawr hil. 30 ACD or llei rhodded hyn. 31 A gwan anedd yn oi ddiodef, C gwan anodd gen i oddef, D gwan anadd in oi ddiodef; F ymoddef. 32 A gwiniath, D gwniath. 33 ACD golud ni ad in gwlad ni. 34 EF nag oen. 35–54 [D]. 36 EF nag un mollt nag oen na myn. 37 E na gafr. 39 ABC gwr; ABC awgrym. 40 AB dym. 42–54 [E]. 42 ABDE waeth, C [waeth]. 45 B ei blas. 47 A enwirion. 53 ABC na

hepil. 54 *F* o ddwyfil.

Teitl

ACD Cywydd i Dudur Penllyn am Hel Defaid; *EF* dychan i dudur penllyn.

Olnod

A Ieuan Brydydd hir ai k., *B* Ieuan Brydydd hîr ai can't 14 [], *C* Ieuan Brydydd hir ai Cant. 1450, *F* Jeuan Brydydd Hir.

Trefn y llinellau

ACF 1–54.

B [1–34], 35–54.

D 1–34, [35–54].

E 1–41, [42–54].

Dwyn cariad y bardd

- Elen ydoedd fawr gennyf,
 Anghywir, deg, yng Nghaerdyf.
 Ofer, gwen o Forgannwg,
 4 Y'th gerais; llyna drais drwg
 A wnaeth lleidr annoeth, llwydwyn:
 Gwae fi orfod honni hyn!
 Tudur (drwyn pawl, tid ar draws,
 8 Teg awengerdd tŷ gwyngaws,
 Pŵl yw'r tâl, piler tewlaeth)
 Penllyn, dwyn fy nyn a wnaeth.
- Cawswn yn gyntaf afael
 12 Am ei chorff, hwyr ym ei chael;
 Cofl araf, cyfliw Euron,
 Cerais a chusenais hon.
 Mi a roes i'm aur iesin
 16 Dlos a gwych dlysau a gwin;
 Gwneuthum, dugum wawd agos,
 Â bun oed wedi bai nos
 Yng nghornel, lle bu 'ngelyn,
 20 Cell deg (hawdd yw colli dyn!).
 Cael gwybod, caliog ebol,
 A wnaeth, eiddig wyf yn ôl,
 Diras ei liw, dors o wlân,
 24 Dudur wladaidd, droed lydan,
 Cyfle i ŵr fydd cofl wen,
 Cron ael, y carwn Elen;
 A dyfod, annod uniawn,
 28 I'r tŷ yr oedd—ŵr taer iawn—
 A hug arian amdanaw,
 A chlog lwyd i ochel glaw;
 Bwrw y simwr bras ymaith
 32 Er gweled gwyched ei gwaith,
 A chael edrych o Elen
 Yr hug o liw, rhywiog len.
 (Y ferch, anwadal a fo,
 36 Dillynion a dwyll honno!)

- Ni chawn i ddyfod ychwaith
 At Elen i'r tŷ eilwaith;
 Yr oedd hwn, oer oedd hynny,
 40 Y caliwr taer, yn cloi'r tŷ
 Ac yn chwerthin, gwyn chwarthawr,
 O'r lloft tra fŷm ar y llawr.
- Mi a wylais am Elen
 44 Ddŵr i'm pais o ddrem y pen.
 Llai gennyf y llo gwynwyl
 Nog ydoedd cyn hyn o hwyl;
 Wrth ei hug yr aeth â hi
 48 Ac o ragor gorwegi.
 Anfodlon wyf, ynfydloes,
 I'r hug ac i'r gŵr a'i rhoes;
 Gwae fi roi, ac ofer wyf,
 52 Gwisg eglur i'r gwas gwaglwyl!
 Od af i wlad, a fai wledd,
 Forgannwg o fro Gwynedd,
 Arwydd Ithel a welir:
 56 Arian hug ar Ieuan Hir.
 Llysiau'r Mai, lliw y sêr mân,
 Llurig neu fantell arian;
 Llen i'w dwyn, uwch Llundain waith,
 60 Lle'r elwyf felly'r eilwaith.
 Archangel yng ngŵydd Elen
 Am gael gwisg: felly y'm gwŷl gwen;
 A Thudur, deg ei wegil,
 64 Dros gof a edir is gil.
 Gwardew leidr, gŵr diwladaidd,
 Gorau dim yw gwridd y maidd;
 Ni bwyf fwyn o bu fynych
 68 Y bu gan Elen wen wych.
 Am ddwywaith y maddeuaf
 I Elen deg o Landaf
 Da i'w bonllost o Benllyn,
 72 A Duw a'i maddeuo i'r dyn!

Ffynonellau

A—BL Add 14967 [= RWM 23], 101^v B—BL Add 15040, 93^v C—BL
 Add 31084, 165^v D—CM 12, 22 E—CM 324, 41 F—LIGC 17114B [=
 Gwysanau 25], 335 G—Pen 99, 97

Nid oes yr un llawysgrif oedd yn cynnwys y testun cyflawn yn wreiddiol. 70 o linellau a geir yn ABF a 66 yn DEG, ac arddengys testunau'r ddau gylch hyn hefyd berthynas destunol â'i gilydd. Ychwanegwyd llinellau 35–6 i C gan law ddiweddarach. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 201–9.

Amrywiadau

1 *C* (*dilewyd y llythrennau yd a rhoi a uwch eu pennau gan law ddiweddarach*) *DEG* a oedd. 4 *A* llyma, *E* dyna; *B* nid o drais drwc. 5 *B* o waith; *EFG* anoeth. 6 *AC* orvorvod, *B* ofid. 9 *B* pawl. 10 *ABF* y nyn. 12 *B* wyr, *F* ai chael. 13 *AF* ara, *C* arall. 14 *B* keisiais. 15–16 [*DEG*]. 16 *B* dlws i gorff. 17 *AC* (*ychwanegwyd y llythrennau th uwchben e ac u gan law ddiweddarach*) gwneum. 18 *C* a bu'n. 19 *B* llei; *CDEG* gelyn. 22 *B* ac iddaw yf yn ol. 23–6 [*DEG*]. 24 *AC* leidr. 25 *B* wr ydd; *B* kofl ir wen. 26 *B* korn, *F* [y]. 27 *F* a ddyvod. 28 *A(C)F* yn wr. 30 *B* ochoel. 31 *ABC* bwrrw 'r. 32 (*C*)*DEG* i weled. 34 *BF* ai liw. 35–6 [*ABF*]. 37 *E* ni. 39 *B* ir oedd honn arwydd hynny. 40 *AC* [y], *B* ir kaliwr, (*C* tal). 41 *C* (gwen) *DEG* gwên. 42 *B* a minnau ar llawr. 43 *F* minne a wylais. 44 *B* dwr im pais o drem pen. 45 *C–G* llai yw; *B* gwnwyl. 46 *AB* nac; *DEG* yr oedd. 48 *A* ac or agor. 49 *ACF* anveidloes. 51 *ACF* a gofer wyf. 52 *B* wisg eglur; *B* am was; *CDE* gwayw glwyv. 53 *A* o daf, *BF* o dof; *B(C)* o wlad; *AF* difai (*C* divail), *B* dewi. 54 *B* y forganwc. 57 *AC* llyssieuer; *AC* a lliw ser man, *B* ser y man, *F* a lliw y ser man. 58 *ABC(F)* o vantell. 59 *B* yn dwyn. 61 *AB(C)F* lle bo. 62 *B* o gael, *F* ym (am) gael; *B* [y'm], *F* nac felly. 64 *C* (a edewir), *DE* adewir, *G* a dewir (edir). 65 *DG* gair *A(C)* diwlaidd. 67 *ACG* ni bo i, *B* ni fy[], *DE* ni bo; *CDEG* ni (*C* o) bu. 68 *B* wr penn i elen, *E* ny bu gan elen. 69 *AB* o ddwy waith, *CD* (am). 71 *A(C)F* da vydd, *B* dastio. 72 *B* moddeuo.

Teitl

A c. i dudur penllyn, *C* i dudur penllyn, *DE* cywydd i dudur penllyn am ddwyn cariad y bardd. i.b.h. (*E* sef Ieuan Brydydd Hir), *F* k. ymryson am ferch, *G* j. brydydd hir i dudur penllyn.

Olnod

AC–G Ieuan Brydydd hir, *B* Jeann brydydd h[] 1450.

Trefn y llinellau

ABF 1–34, [35–6], 37–72.

C 1–34, (35–6), 37–72.

DEG 1–14, [15–16], 17–22, [23–6], 27–72.

Cywydd brud

Gwynedd, cafas dy genedl
 Gŵyn dig—nid ychydig chwedl—
 Di-gêl, pan las Llywelyn,
 4 Dewis gŵr oedd d'wysog ynn,
 Bwriad oedd â brad iddaw,
 Amwyll drud, ym Muellt draw.
 Gobraff y cawsom drafferth;
 8 Ac yn ôl, ni a gawn nerth
 Taliesin, dau Ferddin feirdd,
 Ar degwch geiriau digeirdd:
 'Da, ar osteg, drwy ystyr,
 12 Yw'n gobaith', medd gwaith y gwŷr.

Pan ddêl â'r cynr buelin
 O'r tir draw y tarw i'r drin,
 Â'i onnwayw mawr, yna y myn
 16 Iarll eilwaith dir Llywelyn.
 Gwaharddwr, â'r gwayw hiddellt,
 Saeson, gwnaed eu gwaed i'r gwellt!
 Yna, syrr yn oes Harri
 20 Y wadd yn ymladd â ni;
 Yn oes hwn, pwyllwn nid pell,
 Y tyr tân y tair tunnell.

Pan ddêl yr haf hirfelyn
 24 A'r gorfod yn dyfod ynn,
 A lledu hwyliau'n Llydaw,
 A'r tes yn ddeuwres a ddaw,
 Ac yr oera—gair eres—
 28 Yr ennaint twym o'r un tes,
 Mae arwyddion am roddi
 Gorfod wrth y nod i ni
 I gyd, pan gano'n gedym
 32 Gannwr, ar gaer gylchwr, gyrrn.
 Yna, bydd tân ym Manaw
 A'r ymwan drud ym Môn draw.

36 Pan ddêl dechrau rhyfel rhydd
 Y curir gwŷr y ceirydd:
 Yng Nghaer a'i gwŷr anghywraint,
 Y briwir swrn 'n Aber Saint.
 40 Gwae o'r ymliw gaer amlwg
 Gyffin a gaiff drin a drwg;
 A chaer Ddinbych o'u haros;
 A tân yn Rhuddlan a Rhos.
 Rhyfel anwar ymdaraw:
 44 Rhyfedd o ddiwedd a ddaw!
 Rhag cleddau'r Deau diwarth,
 Rhag coler aur, cilia'r arth.

48 Pan ddêl y mab Gwyddelig
 A'r llaw yn ddewr, a'r llun ddiig,
 Y gŵr hen, gair a honnir,
 A ofyn derfyn ei dir,
 A chroes (Duw a'i rhoes yn rhwydd)
 52 Aur a wisg ar ei ysgwydd.
 Urddolwaed ar ei ddeulin:
 W'r dewr, drud y daw i'r drin!
 Dau a gyfyd o'u gefyn
 56 I daith gyda mab y dyn;
 Ac yn Rhyd (gwn y rhedant)
 Y Tyfod, gorfod a gânt,
 A gyrru plant ac wyrion
 60 Rhonwen serth o'r ynys hon.

Yna, cawn ran dadannudd
 Yr hen gwyn ar hyn o gudd,
 A'r byd a ddaw yn llawen
 64 O'r diwedd i Wynedd wen.

Ffynonellau

A—Bangor 1267, 28^r B—Bangor (Mos) 10, 13^v C—BL Add 14887 [= RWM 35], 51^r D—BL Add 14892, 91^v E—BL Add 14893 [= RWM 37], 81^r F—BL Add 14967 [= RWM 23], 16^r G—BL Add 14994, 47^v H—BL Add 31057, 1^v I—BL Add 31084, 182^r J—Bodley Welsh e 6, 111 K—Brog 1 (y gyfres gyntaf), 83 L—Brog 4 (y gyfres gyntaf), 265 M—Card 3.4 [= RWM 5], 35 N—CM 14, 49 O—CM 279, 22 P—LIGC 659A, 81 Q—LIGC 668C, 64 R—LIGC 3077B, 86 S—LIGC 4710B, 455 T—LIGC 6209E, 354 U¹—LIGC 6499B, 350 U²—LIGC 6499B, 457 V—LIGC 13167B, 295 W—Llst 41, 163 X—Llst 53, 397 Y¹—Llst 120, 182 Y²—Llst

120, 246 Z—Llst 133, 240 a—Llst 136, 102 b—Pen 53, 126 c—Stowe 959 [= RWM 48], 12^r

Dengys y copïau a ddiogelwyd o'r cywydd hwn y math o amrywiadau sy'n nodweddiadol o'r canu darogan yn gyffredinol. Er mai b yw'r llawysgrif hynaf ni ellir dibynnu'n ddieithriad ar y testun a geir ynddi. Fe'i dilynir yn weddol agos gan Y¹ yn unig. Ymddengys fod AOP a CT hwythau'n rhannu'r un gynsail, a chodwyd y dryll a geir yn D i G. Oherwydd y llinellau a gynhwysir yn HILZa a T o waith Dafydd Llwyd o Fatharfarn (cf. GDLI 37 (8.15–42), *ib.* 30–1 (4.21–76)), dichon eu bod yn ffurfio dosbarth ar wahân. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 201–9.

Amrywiadau

1–12 [DG], 1–10 [c]. 1 *E* kwynedd; *BQ* kafodd, *SVW* canys; *E* i kenedl, *M* gynniedl. 2 *AOP* gwynfyd, *E* kwyn, *Q* gwyn a dig, *SVW* gwn nid, *U*² gwyn dy fyd, *X* gwn ddig, *Y*¹ gwyn digfyd, (*Z*) gwynig nid, *b* dicnyt; *M* ni, *U*²*Y*¹ [nid], *X* gann, *Z* ond; *E* chweddl, *K* chedyl, *SV* o chwedl, *b* chwdl. 3 *CMTY*¹*b* heb gêl, *K* dy gel, *NQR* dirgel; *SVW* pan llas, *Y*¹*b* pan las, *EU*¹ penn las; *AOU*²*WY*¹*b* lywelyn. 4 *SV* wr; *AO* o dwysog, *LMQW* dywysog, *R* tywysog, *b* dewyssoc; *B* un. 5–6 [ABEHKLOPQXY²Za]. 5 *R* bwriad yw, *W* byrriad; *M* y brad eiddaw. 6 *SV* anwullt; *CNRU*¹*Y*¹ drwg, *J* drwch (*cywiriad*: drud) *T*; *T* ym well draw. 7 *b* gobraf; *CSU*²*VZ* kowson, *H* kowsam; *I* gobraff i Lywelyn drafferth. 8 *B* [a]; *HI* a yn ol, *U*¹ ag yn i ol; *O* gann; *U*¹ magwn; *Y*² werth. 9 *E* Tal Jessin; *ANOP* dad, *B* dal, *FR* da; *ABOP* Berddin; *ABOP* beirdd, *S* fa(u)rdd, *W* fyrdd. 10 *ANOP* aur dig, *Q* o deg wg, *X* o degwch; *AOP* wrth; *ABCFHIJLN–RTU*¹*Za* eiriau; *K* digieirdd, *S* diga(u)rdd, *W* digyrdd. 11 *A* bür osteg, *BQ* ag ar osteg, *E* da arosteg, *M* da arosdeg, *NU*¹ ar osteg, *OPN* byr osteg, *X* da / r / osteg, *c* da ywr osteg; *AOP* i beri, *B* bu yr, *CHILTZ* (drwy) yw yr, *E* di rwystyr, *FN* da ywr, *JM* vur, *KX* yw drwy, *Q* ni da'r, *U*¹ ond da / r /, *Y*² drwy r, *a* gwr. 12 *CM* ydiw, *FR* maen, *Q* mae, *SVW* mewn, *U*¹ mae / n /; *AOP* iw yngobaith; *CU*²*W* [medd], *F* mae, *HILU*¹*Za* an, *SV* a; *U*² gwaeth; *KMY*² [y], *U*¹ an; *K* gwr; *NQR* am waith i wyr; *T* ydiw ar obaith gwaith y gwyr. 13 *AO* pen ddelai gyrm, *B* pan ddelo y kyrm, *CDFGNTU*¹*c* pan ddel y kyrm, *EH–LQSVXY*²*Za* pan ddel ai gyrm, *W* pyn ddel ay gyrnyn; *AO* baelin, *BQ* gyfelin, *CDGTU*¹ gwyddelin, *EKZ* buddelin, *F* gwyddelwin, *M* gwyddel olin, *SV* yn felun, *W* febin, *X* byddelin, *Y*² bu ddelin, *c* bualyn. 14 *K* or tri draw; *AOP* / i / daraw r drin, *C–GKMRTU*¹*X(Z)* ar tarw ir drin, *N* a'r tarw o'r drin. 15 *AOP* ai iown waiw mawr, *BT* ai [onn] waew mawr, *N* ag onwayw [mawr], *SVW* ai onn [wayw] mawr, *Y*¹*bc* ai onvaes mawr; *BHILY*¹*Za* yno, *W* yma; *N* gwn i myn; *R* ag on wayw yw a fyn; *Q* yno cwyn. 16 *QY*¹*bc* tir. 17–18 [DG]. 17 *AO* gwahas ddwr, *B* gwahardded, *P* gwahoddwr, *Q* gwaharddiad, *SV* gway harddwr; *AKNP* [â],

BCEJKMNP¹TX [yr]; *A* huddellt, *P* haddellt, *SV* hil dellt, *Z* hirdellt. 18 *K* gwnae, *U²b* gwnaet; *AO* a gwaed, *BJ* ai gwaed, *U²WY¹bc* y gwaet; *A* yn y gwellt, *J* (ir) yn y gwellt. 19 *K* ynn i syr, *SV* e may syr, *T* y syrth, *U¹X* yno i syr, *W* yna sir, *Z* yno syr. 20 *Q* y waedd, *c* a wadd; *MO* an ni, *Z* mi (ni). 21–4 [DG]. 21–6 [N]. 21 *AOP* yn oes honn, *M* garbron hwn; *AOQ* pwyswn, *P* pwyson; *Y¹bc* yn well. 22 *AHIO* y tir, *M* ir tyr; *SV* turr y tân, *U²* y tyr y tan, *W* y tir y tan; *CT* twnell, *E* tanell, *SV* or tair tynnell. 23–4 [FU¹]. *H* yr af; *AKY¹Y²* hir velin. 24 *SU²VW* [yr]; *U²* [yn]; *SV* defod; *B* un, *K* hyn. 25 *M* a lleddu; *A* hwyliaw, *W* yr hwyliay, *I* gwyliau; *A–JL–U¹VY²–ac* [*n]. 26 *BQU¹* a thes, *EKXY²* y tes; *ABCHJLMOP(R)TZ* yn i ddeuwres, *DKXY²* iw ddeuwres, *E* yw ddau wres, *G* ir ddeuwres, *I* yn y ddeuwres, *U¹* o ddeuwres, *U² / n / y* ddywres, *W* yn y ddaywres, *Y¹bc* ny ddwywres; *I* [a]. 27 *U²* [ac]; *E* yr oerar, *G* ir aera, *L* ir oer, *Q* yn ore; *a* ir aer; *E* gaer, *L* a gair, *SV* hir, *U²* geir, *a* i gaer. 28 *B* [yr]; *G* yn enaid, *S* ennion *U¹W* yn ennaint, *c* y hynnyn; *AO* wyn, *JR* twymyn; *B* yn yr un, *DEN* ar un, (*J*)*M* o rym, *R* ar tes, *U¹* yn un. 29–30 [FNRU¹], 29–32 [DG]. 29 *X* y mae; *V* arwyddon; *CT* ym roddi, *E* mawr. 30 *X* ormod; *B(J)* yn y nod, *c* u nod. 31 *U²* i gydd, *c* y gedy; *ABOP* ganom gyrr, *CEFHIKLXY²a* ganon gedyrr, *J* ganon gyrr, *M* ganuon gedyrr, *SV* gano cedyrr, *W* cano cedyrr, *Y¹* pano yn gedyrr, *Z* ganan gedyrr. 32 *AOP* kanwr ar gaer yn chwyrn, *B* kannwr ar gaer bryn kurn wurn, *C* ymhorth kilchwr gynwr gyrr, *E* kanwr ar anwrdd gulgwrrd gyrr, *F* yn hyl]h kynchwr kanwr hyn, *H* gynwr yn gaer gynchwyr gyrr, *I* gynwr yn gaer gynchwyr gyrr, *J* kanwr ar gaer bryn gynchwyr (*cywiriad*: kymwyrn), *K* cynwr ar ymwrdd culgrwn gyrr, *L* gynwr yn gaer gynchwyr gyrr, *M* kynwr ar gaer kannwn gyrr, *N* ymhorth gynwrch gyfwrch gyrr, *Q* ganwyr ar gaer gylchwr, gyrr, *R* ymbordd gynwrdd (gynwr yn gaer) gynwr (gynchwyr) gyrr, *SV* garwr gair, gylchwr gurn, *T* ymhorth kirchwr gynnwyr gyrr, *U¹* y mhorth gynwr ganwr gyrr, *W* canwr ar gayr cylchwr cyrr, *X* kynha ar ymwrdd kwrdd kyrr, *Y²* cân-wr ar ymwrdd kilgwc gyrr, *Z* gynnwyr yn gaer gynchwyr gyrr, a gyñwr yn gaer gynchwyr gyrr, *c* gannwr yr gaer gylchwr gyrr. 33 *F* ac yna, *NX* yno; *BS* i budd. 34 *FHIJLMNWX¹Z* ac, *U¹* [yr], *X* a; *B* ymwau, *J* yman, *R* ymwrdd; *EU¹* ymwan drud fydd; *SV* ag yn iawn drud, annian draw. 35–6 [DG]. 35 *CNRTU¹* a phan el, *F* pan el, *R* (ddel); *R* (dechre), *A* rhyfel rhidd, *BSV* rhyfel rhudd, *CTU¹* rhyfel yn rhydd, *FNR* y rhyfel yn rhydd, *Mb* ryvel rydd; *Y²* pan ddêl i'r rhyfel yr hydd. 36 *B* [y]; *SV* ceryddir, *W* y ceryddir; *E* bobl, *KXY²(Z)* pobl; *E* or keurudd, *F* y cerydd, *W* u kayrydd. 37–8 [c]. 37 *F* a gwyr, *SVW* y gwyr, *T* oi gwyr. 38 *ACDEGHIK–ORTU¹XZ* y bwrir, *P* a bwrir, *Q* bwrir, *W* a briwir, *a* y kurir; *B* swrnyn, *Q* y swrn; *CFSV* [yn]; *BDQ* aber y saint, *T* i aber saint. 39 [C]. 39 *ABHIJLOPZa* a gwyr ymliw, *E* ai gwyn ymliwn, *KXY²* ai gwir ymliw, *Q* a gwae or ymliw, *SV* gwae yr ymliw, *Y²* ai gwyr ymliw; *BJE* y gaer amlwg, *DG(JR)U¹* gair amlwg, *SV* ei gaer amlwg, *Y¹bc* gwyr amlwg, *Y²* a gair amlwc. 40 *BD* kyffin, *G* cyfin; *NQ* a bair; *X* [a] drwg; *BJM* kaiff drin a

drwg, *G* a gaiff ddim a drwg, *QT* drin y drwg, *R* y drin ar drwg, *SV* a geiff drain a drwg; *AOP* ag ewin y gath i trin yn ddrwg. 41–2 [c]. 41 *AOP* a gwae dinbech; *BEFH–LNQU¹Z* iw haros, *CT* yn aros, *G* a'i haros, *M* oi achos, *P* oi hachos, *U²* oe aros, *X* yw aros, *Y²* i'ch aros. 42 *AOP* a rhoi tan, *D* a llan, *G* allan; *Y¹V* [yn]; *BN* yn rhos. 43–6 [DG]. 43 *AOP* a rhyfel yn wâr, *Y²c* rhyfedd; *B* am war, *EKXY²Z* a wna / r /, *SV* anneir; *AOP* i ni draw, *E* tri amdanaw, *KSV* am daraw; *N* dyrys iawn yw'r ymdaraw, *Q* dyrus iawn yr ymdaraw. 44 *c* ryvel; *M* ar ryfedd, *Q* i Wynedd, *R* o Wynedd; *ABEH–LOPQ* (*R*)*XY²Z* pa ddiwedd, *SU²VWY¹* or diwedd, *U¹* i ddiwedd, *V* o diwedd, *c* o ddiwedd; *U²WY¹* y daw; *N* rhyfedd dwy Wynedd a ddaw. 45–6 [Nc]. 45 *CMT* gan gleddau; *AJKOPQU¹X* [yr]; *ECTY²* or deau, *SV* ir deau, *U¹* diau diwarth, *Y¹* y deheu barth; *b* rac^{ch} cleddeu y deheu duheubarth. 46 *ABHIJL OPQZa* [rhag]; *CMTY²* ar goler aur, *EFKU¹X* ar koler aur; *ABEH–LOPQ S U²VWY¹Y²Za* y kilia r, *CMT* fo giliar. 48 *EY²* ar llew, *K* ar llall, *M* ar llu, *U²Wc* ai law, *Y¹V* a llaw; *CT* ag ar llu, *MY²* ar llaw, *U²Wc* ai lu. 49–50 [DG]. 49–64 [T]. 49 *FMY¹a* ar gwr hen; *AO* a gair o honnir, *E* agair honair, *Q* a gair a henwir, *SV* y gair o honir, *W* gayr o honir; *C* troi yn ing []; *NR* a'r gwr hwn a goronir. 50–64 [C]. 50 *E* ag a fyn, *U¹* arofyn, *MSV* i ofun, *W* y ofyn; *MSVW* terfyn, *MU²W* y tir; *HILZ* (a ofyn derfyn ei dir) *a* a ystyn terfyn yn tir. 51 *AO* a chroes ddüw, *a* a chroes dew; *U²b* a roes; *KZ* rrydd; *SV* a chrûs Beaumarus yr rhwydd, *W* a chrys düw a rüs, *c* []dyw a roes yn rwydd. 52 *AOP* [aur], *M* o aur; *Q* [a]; *E* a wisgo, *KX* a wisgodd, *SV* er ei wisg, *U²* o wisg, *W* ar y wisg; *X* [ei]; *c* []wisk ar y ysewydd. 53–4 [DG]. 53 *MY¹* eurddolwaed, *SV* urdday ir wlad, *W* yr ddau y wlad; *E* ei ddau lun, *SVW* y ddilin, *U²Z* y ddeulin; *c* []r dday wlad ar y ddaylin. 54 *EKX* draw, *U²* drist; *SV* od daw, *X* a da; *U²* yr drin; *W* a ddaw or drin. 55 *AOP* daw / a / chyfyd, *G* dau a gyayd, *U¹* dauwr, *Y¹bc* dehau, *Z* Duw; *AO* o gefyn, *DEFHI K–NU¹XZa* or gefyn, *FG* or gewyn, *J* oi gewyn, *P* o gofyn, *SV* o gefyn, *Y¹* oe gyvin, *Y²* ar gefyn. 56 *ABH–OQSU²VY²Za* ir daith, *DG* or daith, *P* iw daith, *W* ar daith, *b* y deuith. 57–62 [DG]. 57 *U¹* yno; *A* pwr hüd, *B* ir hud, *FM* ir hyd, *HIKLOPSVWY¹Zab* yn y rryd, *J* yn y (ir) rhyd, *NU¹* ir rhyd; *AO* ir hedant, *F* ir hedan. 58 *F* y dyvod, *I* ir tyfod, *U²Y¹* y tywod, *c* yr twod; *B* gwn i rhedant; *EFKMVWXY²* a gan, *SY¹* a gân. 59 *A* ag wirion, *W* ac wyron. 60 *AO* sorth, *EP* swrth, *K* a syrth, *U²XY¹b* syrth, *Z* ferch. 61 *BEPQSU¹VZ* yno; *AO* dad kynnydd, *Ha* dy danudd, *KU¹* dad anudd, *L* dy adanudd, *M* daudonudd, *N* o'i danudd, *P* enwog gynnydd, *Q* yn ha da dydd, *U²* da dannudd, *W* dda danydd, *Y¹b* datavud, *a* dy danudd, *c* dadannedd. 62 *E* [yr], *F* or, *K* wr, *N* ar hen gwyn, *Q* yr hengwyn, *SVW* yr hên gân, *U²* ir hen gwyn, *X* wr hen gwynt, *Y²* yr hên gwyn, *U* yn gwyn, *W* yren win; *AOP* am hir gystudd, *BHJLU¹Z* (*cywiriad*: ar hyn) *a* yr hwn o gudd, *F* ar hann o gudd, *I* yr hwn a gudd, *K* [o], *N* ar hwn o gudd, *Q* yn rhiangydd, *SV* ai rhân o gudd, *U²W* ai ran o gudd, *Y¹* ae rhan ei gyd, *c* ay rana y gid; *M* ar gwr ar ol marw o gudd. 63 *F* a byd; *M* addaw, *Wc* y ddaw. 64 *I* ar diwedd, *P²* ir diwedd, *b* or

dywedd; *SV* ei wunedd, *W* ar wynedd, *bc* y wynedd, *A* wên.

Teitl

G [Brud] arall, *IY* Brud, *LS* Kowydd brud, *U*¹ Kowydd brud o waith Robin ddu.

Olnod

AO Ifan Brydydd hir ai kant, *B* Terfun Jefan Brydudd hir ai kant, *DLPac* Jfan brydydd hir, *Eb Jem* brydydd hir ai kant 1450, *FHKXY*²*Z* Juan brydydd hir ai kant, *G* Ivan Br hir, *J* Je^{ann} brydydd hir ai kant (flor. 1450), *M* Ll. vab Jevan vab Kynwric Moel ai kant, *N* Rhobin ddu ai cant, *Q* John Brydydd Hir ai cant, *R* Robin ddu, *SV* Ieuann brydudd du ai cant, *S* ~~Ð~~ gorleg ai kant, *U*¹ Robin ddu 1460 (*mewn llaw ddiweddarach*), *U*² Jem brydydd hir o vyrionnydd ai kant, *W* Jfan b. h. ay kant, *Y*¹ Jefan brydydd hir o Feirionnydd ai cant, *b* Jeu^{an} brydydd hir o vyrionnydd.

Trefn y llinellau

ABOPQ 1–4, [5–6], 7–64.

C 1–38, [39], 40–8, [50–64].

DG [1–12], 13–16, [17–18], 19–20, [21–4], 25–8, [29–32], 33–4, [35–6], 37–42, [43–6], 47–8, [49–50], 51–2, [53–4], 55–6, [57–62], 63–4.

E + *i*, 1–4, [5–6], 7–24, 26, 25, 27–64.

*FU*¹ 1–22, [23–4], 25–8, [29–30], 31–50, 53–4, 51–2, 55–64.

HILZa 1–4, [5–6], 7–50, + *ii*, 51–64.

*JSU*²*VWY*¹*b* 1–64.

*KXY*² 1–4, [5–6], 7–24, 26, 25, 27–64.

M 1–48, 53–4, 51–2, 49–50, 55–64.

N 1–20, [21–6], 27–8, [29–30], 31–44, [45–6], 47–50, 53–4, 51–2, 55–64.

R 1–20 (21–26), 27–8, [29–30], 31–44, (45–6), 47–50 + *ii*.

T 1–48, + *iii*, [49–64].

c [1–10], 11–36, [37–8], 39–40, [41–2], 43–4, [45–6], 47–64.

i

bardd wy fi ir beirdd a fydd
 bardd naw oes beirdd o newydd
 i minnau hyn i mae yn hawdd
 merddin ai lyfr am urddawdd
 hwn ywr trwch o henwr trin
 hyn a ddwad hen ddewin
 a ha'er ar i hoiwedd
 iarll y mars arall ai medd
 eß a rrydd ifor adar
 mwia i budd a mawr i bar

ii

i daith mi a wn i don
 haid o draeturiaid dewrion
 ac ir gaer llei maer aerfa
 y deuan dyrogan da
 or gaer ir maes agored
 yr a llu mawr ar i lled
 odd yno yn ddianian
 i ryd y tyfod ir an
 llu gwynedd llew a gwennol
 a ddaw ir rhyd (*Z i'r gad*) yn dda i rhol
 yno daw / r / baedd kynefin
 ir un daidd (a dardd) gida yr blaidd blin
 ai faner gain i (*I ar*) ofni yr gad
 a ddwc owain (*H awen*) yn goryad (*HLZ gauad*)
 ar (*Z [ar]*) llew koch mewn eurlliw kann
 ar (*Z a*) dreigiau llei maer drogan
 torf anoeth (*a annoeth*) llei tyrfynnan
 kyfarfod yn y nod a wnan
 ymdrechu a wna yr ddeulu (*La yn*) ddiic
 yn wrol yno oric
 hyd na wyddan syfrdan son
 pwy ywr gwr piau r goron
 oni ddel or gorllewin
 y marchog tramwyog trin
 ar cleddau or deau dir
 gwiliwn yno ai gwelir
 i ladd pob gradd o naddun
 o dair iaith ni edy / r / un

iii

troi yn ing mewn twrn angall
 a wnâ llid yn ôl y llall
 arwyddion trymion hyd traw
 a welaf af i wiliaw
 rhufain adref os kefais
 mae yna son am un sais
 yr herwr ir dwr a dun
 un a diria yn ederyn
 ar erur wedy'r euraw
 a draig a ofnir draw

a bardd a drû medd y byd
 ar i wyr aber a weryd
 a drykin kyn eginaw
 ar fôr a thîr fawr a ddaw
 a drÿch kymru gwedi gwin
 a syrth mae'n anos chwerthin
 a merch a lef am erchwyn
 yngwely gwâg angel gwyn
 newidiaw'r llaw wedi'r llall
 yderun wedi arall
 ag i angred y gyngrair
 a thwrch heb heddwch ai pair
 dragwn hull a drig yn hir
 ar tarw hwnt y tirir
 llewes gwiber a gerir
 i fanaw y daw i dir
 y gwyddyl a wna gweiddi
 nessau yn ôl yn nassiwn ni
 a chaeth ymliw a chwith ymlid
 obru yn lladd a bwrw yn llid
 a llew a gyfyd or llwyn
 gan foroedd ag un forwyn
 ag yna r ych a ogenir
 ar twrch a ddiwraidd y tir
 a sathru kymru oi kâs
 a dunistr ym hôb dinas
 ag yn honiad gan hyny
 yr â'r frân ir yri fry
 a disgwyl am wyl ym môn
 a wna herwyr yn hirion
 ar llew aur or gorllewyn
 biau dioer mâb y dyn
 nid yw hir ond i herwr
 y nos gwâg aros y gwr
 a gwyl fair a gwilia fi
 y deuan i dir dewi
 a chymru yn barnu bÿd
 a hafog yna hefyd
 ef a wyl y mâb o fôn
 euro i blant ai wyrion
 heddwch bid trwch y bÿd traw
 tragwydd y trîg iddaw

Cyffes Ieuan Brydydd Hir

I Dduw nef yr addefa',
 Tri Pherson, a dynion da;
 Cyffesu'r wyf, cyffes rym,
 4 Fawr warau, i Fair wiwrym;
 Ac adde 'r wyf (mawrglwyf mau!)
 I'r saint dwys a'r santesau
 Cerdded nid mal cywirddyn
 8 Â'm traed i, mawr fydd tro dyn;
 Rhodio y bûm yn rhydaer,
 Camdeimlo â'm dwylo'n daer;
 Camddoedud, trwy funud trais,
 12 O'm pen fudriaith pan fedrais;
 Camarogli, honni hyn,
 Camwrando camau'r undyn.
 Pechod marwol anolo
 16 Arferais; treiglais i'm tro,
 Godineb, bod pechod pur,
 Glythni, bawedi budur;
 Trais a chwant, trahäus chwyl,
 20 A bostio a wnawn, air bustyl;
 Balchder, dig a chenfigen:
 Duw ne' a'u madde'! Amen.

Fy swydd fu watwar a sôn,
 24 Digio fy nghymydogion,
 Digio fy mam a'm dygodd,
 Digio 'nhad, nid bwriad bodd;
 Dychanu, enynnu neb,
 28 Dro hasti, o drahausteb;
 Athrod yn faith wenieithgar
 Trwy absen (cynnen a'i câr),
 A rhai, trwy ffalster a hud,
 32 A somwn ar bob symud;
 Anostegu, llygru llên,
 Ffeirio lle bai'r Offeren,
 A dwyn anwylderch i daith
 36 I gynnal oed â gweniaith,

Twyll diffaith, canwaith y'i caid,
 Trom ddyrys, trwy ymddiriaid.
 'Sywaeth mi weithiais hefyd
 40 Waith Suliau a gwyliau i gyd.
 Saith bechod sydd anghlod sâl,
 A'u cangau, bûm i'w cynnal;
 Saith weithred—ddiwared wedd,
 44 Dro gwirion—y drugaredd,
 Na dengair deddf, ond meddwi,
 I'm swydd nis cwpleais i:
 Nid oes o hyn, pechddyn pur,
 48 I'w noethi ddim heb wneuthur.

Mabolaeth a wnaeth fy Nêr,
 Fy Nuw hud yw, fy hyder,
 Ugain a deuddeng mlynedd
 52 Y bu cyn myned mewn bedd.
 Maddau f'ieuenctid moddol
 A wna' drwy fendio yn ôl;
 Oni fendiaf yn fwyndeg
 56 (Os Duw a ddyry ym oes deg)
 Iesu fy Nêr a'm gweryd:
 Awr hwy na bwy' yn y byd!
 Llawn y'm cair o 'difeirwch
 60 Weithian, y corff truan trwch;
 Dêl i'm rhan, gan w'yr Anna,
 Drugaredd a diwedd da.

Ffynonellau

A—BL Add 14879 [= RWM 38], 120 B—BL Add 14984, 189^r C—BL
 Add 31084, 174^r D—LIGC 695E, 46 E—LIGC 722B, 18 F—LIGC 3048D
 [= Mos 145], 80, 285 G—LIGC 6471B, 195, 228 H—LIGC 11087B, 12^v
 I—Llst 167, 264 J—Pen 221, 120 (*llau. 1–2*) K—Sotheby C.2, 208.

Nid yw'r llawysgrifau y ceir copïau o'r cywydd hwn ynddynt yn ymrannu'n
 eglur i wahanol grwpiau, ac F yn unig sy'n rhoi'r cywydd yn nhrefn y testun
 golygedig. Ceir yn C ddarlleniadau sy'n bur debyg i A, ond cymysgfa
 lawysgrifol eglur a welir yn H, a dichon mai naill ai gwall yn y gynsail, neu
 golli dalen o'r llawysgrif, sy'n gyfrifol am hynny. Proses amlwg o
 drosglwyddo llafar sy'n gyfrifol am drefn y llinellau yn CDHK. Ymhellach
 ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 201–9.

Amrywiadau

1–2 [K]. 2 *E* y dynion. 3–62 [J]. 3 *ACF* kyffes rynn. 4 *DK* fawl, *F* f'ofer, *H* o fowredd; *I* waraw; *AC* fawl i fair wyla (*A* wiria) forwyn; *B* ofer eiriau ir gair gwiwrym. 5 *AC* ag yr wyf, *B* addef ir wy, *D* ag adda i rwy, *EHI* ag adde irwy / r /, *K* ac addaw yrwy; *I* mowrglwyd. 6 *EI* j saint dwys a santesau; *B* i dduw faint fu y meiau. 7–36 [H]. 7 *B* fal, *F* [mal]. 8 *F* o'm traed i, *I* [i]; *A* mawr yw, *C* mawr y, *I* mawr wydd. 9 *K* rrodio i ben. 10 *C* gan deimlo. 11 *K* cam dywedud; *AC* trwy symud, *B(E)* trwy wynfyd. 12 *B* poenfedrud (*aneglur*), *D* om penfydraidh, *E* on penfydr iaith; *ABC* er pan, *D* ir pan; *FK* poen fudriaith er pan fedrais. 13 *B* cam yrogle, *D* kam erchi; *AC* a honni, *K* mau honni (*aneglur*). 14 *BG* ar undyn. 15 *DE* marfol; *B* a rolaf. 16 *B* arferais tra[]; *K* trefnais; *F* bob tro. 17 *D* glothineb; *A–EGIK* pob pechod. 18 *ABC* glothineb, *D* glyntni, *K* glythyni; *E* []awedi. 19–20 [BK]. 19 *ADEGI* tyrhaus. 20 *AC* a bostio gwnai, *F* a bost nis gwnair. 22 *AEK* duw nef ai madde, *BF* duw nef ai maddef. 23 *ABC* oedd. 24 *BDE* a digio; *A–GI* fy nghymdogion. 25–6 [DEGI]. 25 *K* am dygod. 26 *B* digio yr tad; *AC* ni bwriad; *K* bod. 27 *AC* a mynnu medd, *B* ynnu neb, *D* a mynu neb, *EGI* nynu neb. 28 *ADGI* tro hasti, *F* tra hasti, *K* tro hasting; *AC* am trahustedd, *B* o dra husteb, *D–GIK* om trahusteb. 29 *I* adrod. 30 *DE* drwy; *A* am car, *BF* cymen nis câr, *C* cymmen am car. 31 *AC* athrod, *D* a thon, *F* a hyn, *G* a rhoi, *K* a thyroi; *AC* trwy ffalster hefyd, *DEFK* drwy; *B* a swm drwy falchder a sŷd. 32 *AC* a siomi, *B* a somi, *D* a soniwn, *EGI* a siomwn. 34 *ABD* a ffeirio, *G* ffeiriad; *BG* lle bo; *DG* fferen. 35 *F* annwferch. 37 *ABCFHIK* ddiffaith; *AC–GI* i kaid, *HK* y kaid; *B* ganwaith a gaid. 38 *BFHK* drom; *C* ddyry, *G* ddywŷ; *BFHK* drwy. 39 *BHI* ysowaith; *H* [mi], *ABE* mi a weithiais, *DFI* ner weithiais, *H* gweithiais, *I* mawr weiaithiais. 40 *B* [waith], *DH* gwaith suliau; *C* [a]; *G* [i]. 41 *AK* swydd; *D* ynglod, *G* yngod. 42 *AC* ceingiau, *DE* keingiau, *F* ceiniau, *G* (kannaü), *K* kenigiau; *B* bu ym. 43–4 [K]. 43 *AC* duw a waredd, *D* ddiwardh wedh, *FH* wared wedd; *B* ag oll weithred waed wedh. 44 *D* dregwirion; *B* ir drigaredd, *G* o drigaredd; *AC* a dry gwirion drugaredd. 45 *I* na ddengair ddeddf; *AC* im gweddi. 46 *B* nis kedwais i, *D* nim kwpleais i. 47–8 [K]. 48 *DI* oi noethi, *EG* om noethi. 49 *B* mab o alaeth, *C* maboliaeth. 50 *B* ydiw, *C* hud am, *F* hyn yw; *G* fy nŷw hud, yn fy hyder. 51 *AC* ugeinmlwydd deuddeng mlynedd, *B* ugain a deuddeg mlynedd. 52 *I* y bum; *ACK* kyn i roi; *K* yn y bedd. 53 *F* madde / r /; *A* efiengtïd, *C* ifeingtïd, *D* fy fiengtïd, *FHK* yfiengtïd; *B* maddau fy [] moddol. 54 *B* a wnai, *F* a wnair; *H* dyrw; *B* ymendio, *F* beidio. 55–60 [B]. 55 *G* [oni]; *A–EGIK* fendia, *F* fendian, *H* omfendian. 56 *FGHK* [ym]. 57 *K* vyner. 58 *F* awr yn hwy; *A* na byw (bwy), *FHK* ni bwy. 59–62 [H]. 61 *I* imi; *K* ym ran.

Teitl

A cyffes Je^ænn brydydd hir, *B* cowydd yn cyffessu ag yn dangos iddo dorri gorchmynion duw a phechu yn fawr yn erbyn i enaid jefan brydydd hjir, *C*

cyffes Ieuan brydydd hir, *D* kowydd i gyffesu beie a choffa y saith bechod marwol, *E* i Dduw a mair, *F* cow: yn cyffesu pechodau y bardd ac yn gofyn trugaredd, *G* (228) kowüd kyffes oi fychedd, *H* Cyffes y prydydd, *I* kowid i fair.

Olnod

A terfyn, *B* Jefan brydydh hijr, *C* Ieuan brydydd hir, *D* Je^ann baydydh hir ai k[], *E* jfan brydydd hir a[]ka[], *F* ifan brydydd hir ai cant, *G* Jefan brydyr hür ai kant, *H* 1400 Madoc benfyras ai kant, *I* Je^ann brydydd hir ai kant, *K* Jem brydydd hir.

Trefn y llinellau

A 1–24, 26, 25, 27–62.

B 1–18, [19–20], 21–54, [55–60], 61–2.

C 1–10, 13–14, 11–12, 15–24, 26, 25, 27–62.

D 1–14, 16, 15, 17–24, [25–6], 27–62.

EGI 1–24, [25–6], 27–62.

F 1–62.

H 1–6, [7–36], 37–58 + i, [59–62].

J 1–2, [3–62].

K [1–2], 3–18, [19–20], 33–8, 21–32, 39–42, [43–4], 45–6, [47–8], 49–62.

i

ymprud wener yfferen
om dig byth am dwc i ben
Am gwlad fydd am golud fo
fym geledd duw am galwo
doed a gair deued yw gof
trwsied i law dduw trosof
er i fedd a chwerwedd chwys
er anfad farn ar enfus
un doeth rwysg un duw a thri
un duw del im didoli

Mawl i Grist

- Siesus ddaionus, adduno—ydd wyf
 Ddyfod, f' Arglwydd ganllaw,
 Ar Ddydd Brawd, ar ddiwedd braw,
 4 Dduw hael, ar Dy ddeuheulaw.
- Dy law, yn bendigaw byd,
 A wnaeth bob peth, difeth dud:
 Nef a daear yn barod
 8 Â'u cyflawnder, cof lendid,
 A fu, a fydd, Dofydd Dad,
 Ac y sydd, medd crefydd Cred.
- Credaf Dy gael, Naf, o iawn air—o nef;
 12 Dwyn Afe i glust Mair
 A wnaeth o bell, heb gellwair,
 Gobrwyol gred, Gabriel grair.
- Crair nef, Nêr wyd, a beris
 16 Tri brenin i'r un dinas;
 Atad yn ddi-frac ar frys
 Y dugant, nid o agos
 (Gŵyl oedd Fair, fy arglwyddes
 20 Môr a thir), aur, myrr a thus.
- Aur, myrr, tus: dawnus fu'r dynion—a'u dug;
 Dig oedd Herod greulon:
 24 Gwnaeth yn lew i'r Iddewon
 O demlau Duw D'ymlid, Iôn.
- Fy Iôn, pob gwirion a'i gŵyr,
 Suddas a wnaeth, Fab maeth Mair,
 O'i fwriad ef Dy frac oer
 28 I'r gŵyr arfogion o'r gaer.
- I'r gaer y'th ddugant drwy gerydd—gymwy
 Ag amarch a chelwydd;
 Fy Naf yn wirion ufydd
 32 Yn rhwym, a'r lladron yn rhydd.

- 36 Rhydd fuost, fy nifost Nêr;
Pan fynnaist, goddefaist gur
Ar Dy gorff, oreudeg W̄r;
Drwy ysgyrsiau ac arfau gwŷr
Daeth er iechyd i'r byd, Bôr
(Duw, dy nawdd!), Dy waed yn ir.
- 40 Rhoist irwaed (Iôr, ystyriwn),
Iesu, do, i brynu dyn;
Dyro nef, oleudref lân,
Wrth raid i'm enaid, Amen!
44 Mawr iawn i'th ladd, fy Mrenin,
Oedd awydd yr Iddewon.
- 48 Iddewon gwyrion a wnaeth gerydd
Ar Dy fydol gorff, wŷr difedydd,
A phob anghanmol ar Dy ffydd—orau,
Bob ddau, mawr eiriau, o'u merwerydd,
- 52 A rhylew y doent o'r heolydd
I'th gablu, Iesu, fy newisydd,
Y rhai a goeliai gelwydd—Pilatus
Fradus, anfedrus, medd iawn fydrydd.
- 56 Aml yw anair wŷr y melinydd
Am roi barn (cadarn fu'r hocedydd)
Arnad, o fwriad, o'i ferydd—benglog
Euog, dro geuog, yn dragywydd.
- 60 Wylwn, f'aur Benwn, yn fawr beunydd
Faint Ei ddiodefaint, ddiwedd ufydd,
A cheisio coelio celwydd—hyd atad
O frad, mul fwriad, ymlefyrydd.
- 64 Anurddas uddun'! Ar Wenerddydd,
O hwyl anniwarth hoelion newydd,
Y blaid fileiniaid aflonydd—a'th roes
Ar groes o'th einioes i'th ddihenydd,
- 68 A rhwygo Dy fron, Duw anrhegydd,
O glwyf ofid boen, â glaif efydd
A'th gladdu; da fu, da fydd—fedd hynod
Ar nod Dy ddyfod, ein Duw Ddofydd.

72 Eiriau tradoeth! Wŕ, ar y trydydd
Dyddgwaith (ein gobaith ni a'i gwybydd)
Ysbeiliaist, nodaist annedwydd—uffern
A'i gwern a'i chethern a'i chyweithydd.

76 I nef oruchaf cyn awr echwydd
Ag Addaf lwysaf a'i luosydd
Aethost, gorfuost, gwir fydd—lleu deuf,
Fy Naf, mawr Bennaf, a'm erbynydd.

80 Ein Muner a'n dwg i'r un mynydd,
Modd cywir ofeg, medd y crefydd;
Ar wan a thruan, iaith rydd—a chadarn
Heb adfarn, Dy farn, Fab Duw, a fydd.

84 O faith wylfa'r byd, af i'th elfydd
At Addaf, silltiaf â'i esylltydd;
Af lleu gohiriaf oherwydd—Dy ddawn,
Yn llawn iaith uniawn, i'th awenydd.

88 Archwn, dylynwn, Dy lawenydd,
Wrda, Wŕ Anna, Dy garenydd;
Achos dawn agos, dinegydd—Flaenawr,
Wyd Wawr nef a llawr, Naf a Llywydd.

92 Fy Llywydd ufydd, goddefus—wyd, Iôr;
Dyro, f'Arglwydd gweddus,
Nef fry (na ad arnaf rus!)
'N oes oesoedd, fy Nuw, Siesus.

Ffynonellau

A—BL Add 14866 [= RWM 29], 22^r B—BL Add 14984, 10^v (*llau. 1–4, 89–92*) C—BL Add 31084, 153^r D—Card 2.40, 69 E—Card 2.201 [= RWM 63], 225 F—Card 3.4 [= RWM 5], 94 G—Gwyn 3, 17^r H—Llst 124, 122 I—Pen 312, vi, 16

Gellir rhannu'r llawysgrifau yn bedwar prif ddsbarth. Ymddengys mai copi uniongyrchol o E (sef y llawysgrif hynaf) yw H; A yw cysail CDG; dau englyn yn unig (llynellau 1–4, 89–92) a geir yn B; tarddu o ffynonellau nad ydynt yn hysbys bellach y mae F ac I, er bod I yn debyg iawn ei hamrywiadau i A. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 201–9.

Amrywiadau

5–88 [B]. 10 *F* myn kreyydd. 18 *A–I* ai. 19 *E–H* oedd i fair. 21 *FG* [aur]. 23 *F* gwn gwnaeth llew. 25 *F* mab gwirion. 27 *F* i vrad; *EH* ior. 37 *F* herwydd iechyd. 45 *H* gwirion. 50 *AGI* i gablu. 56 *AI* eunog, *EFH* ofnog. 57–60 [F]. 57 *EH* fawr benwn, *I* v'awr benwn. 60 *EH* oi brad. 61 *G* i ddyn. 65–6 [F]. 67 *A* da fudd; *G* da fu yn dy fedd hynod; *F* dan vedd wyd hynod. 68 *EH* er nod; *F* orvod dy ddyvod yn vyw ddovydd, *G* yn dduw ddofydd. 73 *EH* i oruchel nef. 74–6 [F]. 75 *GI* lle. 76 *EH* am ior beunydd. 77 *AGI* myner, *EH* mwner. 78 *GH* cywir ofer, *F* kywir oddec; *ADFG* gwyr crefydd. 80 *G* mab duw. 81 [F]. 82 *F* ac addaf; *AI* silltia ai esylllydd, *EH* sylltiaf ai esylllydd, *F* silldaf ai esillydd. 84 *AI* ewenydd, *G* lawenydd. 85–6 [F]. 85 *AI* lywenydd. 86 *A* dy gerenydd. 88 *AEGHI* llawr ai llywydd. 92 *A* yn oes oesoedd yn 'nuw Siesus, *EGH* yn oes oesoedd vy nuw siessus, *F* yn oes oysoydd yn siessus, *I* yn oes oesoedd y nuw siessus.

Teitl

A mi a wn nad oes mor owdl yma yn gwbl etto ni welais ond hyn ac am nad aeth dd. ap gwilim bellach nar kyfodiad e ddechredd Juan brydydd hir yntau odl or gair i diwedodd dauid val hyn, *D* iefan brydydd hir i dduw ai kant, *G* Daid ap Gwilym a'i cânt, ac y ei ol yntef, yr achwanegodd Ieuan brydydd hîr yr odl hon, gan ddechrau ar y gair y diwedodd Dafydd yn y wedd hon, *H* owdl i dduw.

Olnod

AFG Jeuan brydydd hîr ai cant [*G* yn] amser H.7, *B* Iefan brydydd hir, *H* Ifan Brydydd hîr ai cant.

Trefn y llinellau

ACDEGHI 1–92.

B 1–4, [5–88], 89–92.

F 1–56, [57–60], 61–4, [65–6], 67–73, [74–6], 77–80, [81], 82–4, [85–6], 87–92.

7
I Dduw

- Ordeiniodd Duw i'r dynion
Wanc o haint, ifanc a hen;
Adaw (rhai bradog ydyn')
4 Y byd oll heb ado un;
Y rhai a fo da eu rhin,
Yn ufydd i'r nef ydd ân'!
- I'r nef, ato Ef, y Tad
8 A'r Mab (drwy fawr ymwybod
Iôr oesbraff glân) a'r Ysbryd
Yr awn; llawer dyn a red
12 Onis lludd, drwy einioes llid,
Anurdd glain, anwiredd glud.
- Glew glud yw baich hud o bechodau,—gwaeth
Ar ôl gweithio'r gwyliau;
Un dyn o anudonau
16 A dyng mwy'r awron no dau.
- Dau wg, oedd gilwg, i ddyn gelu—bod
Yn y byd yn pechu
Heb wybod, o feddwod fu,
20 A gaiff oes i gyffesu.
- Ein cyffes fu'r lles, ferw lliw,
I gael nef, goleuni yw,
A'n llwyr llywodraeth i'n llaw
24 I aros dydd a roes Duw.
- Duw olau a wna dialedd—oer gur
Ar y gwŷr a'r gwragedd
Oni pheidiwn, gwn nad gwedd,
28 Yn un awr â'n anwiredd.
- Anwiredd yw, anwardd wg,
A phechod, meddwod a'i mag,
I ddyn (er carchar a ddug
32 I Dduw) wneuthur dim o ddig.

- Ei ddigiaw, dan llaw dawn llu—o'i ddolur:
 Ni ddylai ddyn bechu
 A maint er dyn, cywraint, cu,
 36 Anoeth ras, a wnaeth yr Iesu.
- Iesu i'w deulu adeilawdd—iawn fawl;
 Un a Thri breiniawl a'n uthr brynawdd
 O dywyllwg wg, o gawdd—a phoenau,
 40 O'n gwall, â'i angau, a'n gollyngawdd.
 Ei oreudeg draed a redawdd—atom,
 Ei ddwylo erom a ddoluriawdd;
 Is Ei goron ddrain ysgyriawdd—Ei ben,
 44 Yn Ei bur wythen un a'i brathawdd.
 Er brathu Iôn llu, yn null hawdd—o ddall,
 Hawdd fu Ei ddeall, a faddeuawdd;
 A'i roddi ar Groes a ruddawdd—Ei draed,
 48 O rym Ei oleuwaed yr amlwiawdd.
 Ei wiwdeg ystlys a waedawdd—o'i fron,
 O gau ei ddwyfron, ac a ddyfrawdd;
 Angau drosom, ing a drwsiaawdd—yn brid:
 52 Onid oedd ofid y dioddefawdd?
 Ym meddglos, dwynos, dyhunawdd—ein Tad;
 O gur a wyddiad y gorweddawdd.
 Iesu, bu olau, ysbeiliawdd—oerwern
 56 Iâ, a thân uffern aeth yn niffawdd.
 A'r trydydd hoywddydd (haeddawdd—air eglur),
 Y cyfa Awdur, y cyfodawdd;
 O'i rad gyfodiad, gwiw fudawdd—i nef,
 60 Yn ôl Ei oddef, ynn a lwyddawdd.
 Ar ddeau y Tad eurwedd, Ei wahawdd—Ef,
 Er ys dioddef yr eisteddawdd.
 Yno, llawenydd nid anhawdd—oesi,
 64 Awn i oleuni ynn a luniawdd;
 I'r nef y'n dyco, i'r nawdd—a'r gwleddau,
 Diau, â'r doniau a ordeiniawdd.

Ffynonellau

A—Card 2.114 [= RWM 7], 699 B—Card 2.201 [= RWM 63], 257 C—Card 3.4 [= RWM 5], 96 D—LIGC 436B, 48 E—Llst 124, 124 F—Pen 218, 120

Ymranna'r llawysgrifau yn ddau brif ddsbarth. Ar y cyfan, y mae ABE yn eithaf tebyg i'w gilydd, a dangosant yr un amrywiadau trefn. Saif tair

lawysgrif, sef CDF, ar eu pennau eu hunain. Dengys nifer yr amrywiadau a phriodoliad yr awdl nad o destun dibynadwy y copiwyd C, er y cadwyd ynddi doddaid ychwanegol nas ceir yn y lleill. Chwe englyn yn unig, sef llinellau 13–36, a geir yn D, ac y mae'r amrywio helaeth mewn trefn a welir yn F yn dangos olion trosglwyddiad llafar. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 201–9.

Amrywiadau

1–12 [D]. 2 *F* wank a haint i iefank; *B* ai hen. 3 *ABE* o daw. 4 *ABEF* ir byd; *A* ado'r, *C* abado. 5 *C* arhrai; *E* oi rhin. 6 *C* yn u vydd; *C* i nef; *AF* ir an. 7 *C* i nef. 8 *C* drwy awr. 9 *AF* [a'r]; *C* ion oysbraff ar glan ysbryd. 10 *C* pob kristian a red; *F* llawer dyn ir ioyd. 12 *F* ayrdd glain; *AB* enwiredd. 13 *C* glud glud, *D* glew glyd; *C* vydd baich ud; *D* hyd; *BE* gwaith; *C* a gwaeth. 14 *A* [yr]; *F* gweith or. 16 *D* dwng; *C* fwy. 17 *C* deuddrwc, *F* dau euog; *AF* oedd iawn gilwg; *C* iawn gilwc. 19 *C* oi veddod, *F* i vedd dod vu; *D* feddfod. 21 *C* verrow lles vur lliw. 23 *F* am llwyr; *ACF* lyfodraeth; *F* im llaw. 24 *F* o ras duw. 25 *A* duw olew. 27 *C* oni feidiwn, *F* ffeidian; *C* an gwedd. 28 *BCD* yn, *E* ein; *F* unair; *A* enwiredd. 29 *A* enwiredd; *C* anardd wc. 30 *D* myg. 31 *C* or karchar; *AD* a ddwg. 32 *C* iddiuneuthur. 34 *C* ni ddyly neb, *E* ni ddylai dyn; *C* pechu. 35 *F* kowrain; *C* a maint ir dyn kyndyn ku. 36 *BDE* uthr ras; *C* ynirras a wnai yriesu. 37–66 [D]. 37 *C* dalawdd. 38 *C* anhuthyr bryniadd, *F* a nerth brynawdd. 39 *F* o dywllwc; *BEF* a gawdd. 40 *F* i anav; *C* in gollyngawdd. 41–8 [C]. 41 *AF* ioreudeg. 43 *F* [is] y goron. 45 *A* er i frathu, *F* i vrath; *CDE* enillawdd; *F* a nillodd i ddall. 46 *A* hawdd fu ddyall, *E* ei ddeall. 47 *F* ai roi; *AF* ar y groes. 48 *F* ir amlwiadd. 49 *C* ai vron. 50 *E* o grau; *F* ac oi ddwyvron a ddiferawdd. 51 *F* in a drwssiyd. 52 *ACE* ond. 53–4 [F]. 53 *ABC* ddwynos; *A* dyddunawdd, *C* y ddinawdd i urad, *E* y tad. 55–6 [C]. 55 *F* buale. 56 *AF* iaf; *ABF* yn iffawdd. 57–8 [F]. 57 *A* hoywddyn. 59 *A* gwiw fudawdd ef. 60 *C* yny, i ddioddef. 61–2 [*ABEF*]. 61 *C* ar ddeau y tad aurweddiwadd ef. 62 *C* errys dioddef ir ysdethawdd. 63 *C* yn y. 64 *F* yw oleuni; *C* yn i alluniawdd. 65 *C* ar nawdd. 66 *ABEF* iau.

Teitl

A llyma owdul dduwiol, *B* ifan brydydd hir, *C* owddl i jesu grist, *E* owdl i dduw, *F* araith Ieuan brydydd hir ar y dioddefaint.

Olnod

AD iean brydydd hir ai kant, *B* y diwedd, *C* davydd uab edmwnt ai kant, *F* iefan brydydd hir ai kant.

Trefn y llinellau

ABE 1–54, 57–60, 55–6, [61–2], 63–6.

C 1–40, [41–8], 49–54, [55–6], 57–66.

D [1–12], 13–36, [37–66].

F 1–52, [53–4], 59–60, 55–6, [57–8, 61–2], 63–6.

Y creu a'r achub

- Dechreufyd Adda, dychrynnodd Efa,
 O chwant i fwyta, hynt afalau,
 Torri'r gorchymyn (taerddrwg fu'r dychryn!)
 4 Tirioni'r gelyn heb ddydd golau.
 Somi o'r afal symudwedd, arial,
 Symudo gofal yn gofleidiau;
 Trwsiodd i uffern tros ei dwy hengern,
 8 Trwsiant i'r fignwern, fagwyr bigau.
 Yno bu'r pumoes, enwog fu'r ddrygfoes,
 Anfad dir einioes, annedd poenau,
 Oni ddoeth Iesu enwog i'w prynu,
 12 F'enaid a orfu i orfod yn ddiau.
 Gabriel fu'r gennad, gobrwy ymddygiad,
 Rhwng Mair a'i mawr-rad, morwyn ddiau.
 Cael Mab llwyddiannus, galon oddefus,
 16 Ar bren Peilatus, plaid yn rheiniau.
 Y bendigedig Arglwydd bonheddig
 A'n dug o dremyg drwy ymddioddau.
 Gwnaeth Suddas—O ŵr!—gwerthu'r D'roganwr,
 20 Gwaetha' marsiandwr, santaidd boenau;
 Ac Erodr greulon, a'i farn anghyfion,
 Yn merthyru'n Iôn yn ôl Difiau;
 Ac un o'r lladron a wisgodd goron
 24 Am ben ein gŵyl Iôn, gelfydd wyrthiau
 (O wenwyn wisgad!), o ddrain ysbaddad
 Heb ddangos cariad i'n Câr ninnau!
 Ac un yn hoelio Ei draed a'i ddwylo
 28 Â morthwyl, pwyo pennau'r cethrau.
 Ei fawr ddaioni a fo gyda ni;
 Un ydyw a Thri, Athro llyfrau.
 Dau leidr ddihafarch a r'rodde er amarch
 32 Ar ddeutu ein Parch, perchen cleddau.
 Y naill a archodd drugaredd yn rhodd
 Ac i Dduw y credodd, y Creawdr gorau;
 Arall a golled o anobaith ei gred:
 36 Aeth i uffern galed (gelain cuddiau);
 A dall wynepclawr a frathodd ein Gwawr
 Â gelynwayw mawr: myrdd a'i ciglau.

- Anodd ym draethu daioni'r Iesu:
 40 Anos no llygru Lloegr a'i thyrrau.
 Dywsul, iawn Drindawd, y doeth Ef yng nghnawd
 Morwyn ddibechawd, buchedd riau.
 Dywsul y ganed (disalw fu'i gerdded)
 44 Dwysog graddau Cred, croywdeg eiriau.
 Dywsul yn gynnar codes o'r ddaear,
 Eu dwyn o garchar, Gyrcwyr eneidiau.
 Dywsul a henwir, Dywsul a berchir,
 48 Dywsul a gerir, gorau o'r dyddiau.
 Dywsul fydd Dy' Brawd, deisyfiant rhai tlawd,
 Disyml fydd parawd, perwyl diau.
 Llywiant i drwsiau, llwyddiant ireidiaw,
 52 Llawenydd rhag llaw a ddaw'n ddiaw
 Ar Fynydd Olifer, garbron Ei haelder
 Y byd annifer, hoelion faddau,
 Yn cael anrhydedd a mawr drugaredd
 56 A chyfiawn ddiwedd ar Ei ddeau;
 Yn cynhwyso anfad ar Ei wir dreftad
 Ac yno mae'n gwlad, glud wahoddau.
 Brysiwn ni yno i fyned i drigo
 60 Lle nid rhaid golo na goleuau.
 A deuwn i'r plas; gweddiwn am ras
 A deuwn i'w glas wedi gloes angau.
 A budd a feddwn, a'r rhad a gaffwn,
 64 Ac yno trigwn, trigiad gorau,
 Yn y llawenydd yno'n dragywydd
 Yno bydd Dofydd, dwyfol gerddau:
 Heb drengi uwchben, heb neb aflawen,
 68 Heb dranc, heb orffen, na phridd gorffau!

Ffynhonnell
 Card 3.4, 72

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. isod tt. 201–9.

Darlleniadau'r llawysgrif

1 dechrynodd eva. 2 ochwant ivwyt vint yvalau. 6 yssumdo. 7 trwssiodd Juffern; dros; idwy. 8 dryssiant ir vigynwern. 9 ibu; y pumoes; ddygvoes. 10 ennioes. 12 i orfod (*gyda'r -o- yn aneglur*). 14 ai mowrurad morwyn dd[]. 15 ogalon. 16 blaid ynreiniau. 19 gwannaeth sudd owr. 20 sandedd po/ynau. 24 am benn yn ion kelvydd wrthiau. 25 ybaddad. 27 ddwlo. 30 un yw athri. 31 ir amarch. 34 y kriadur. 37 addall; avraythod. 38 murredd. 42 buchedd

riain. 43 dusul. 44 tywysog. 45 dusul; ikodes ef. 46 idwyn o garchar. 48 gorre yw or dyddieu. 49 dissyvaint. 51 ireiddaw. 52 addaw. 54 ibyd; holion. 56 achyfion. 57 ariwir dre tad. 59 bryssiwn i; ivynned. 60 golud. 61. agweddiwn am ras. 62 adeun yw glas. 63 abud.

Olnod

Jeuan brydd hir ai kant.

Ffynnon Gwenfrewy

- Y fun wyrf o'r fan oror
 A droes y maen dros y môr,
 E gâi wan ac awenydd
 4 Gennyd ras ac enaid rydd.
 Mae 'n y fron, fal manna fry,
 Ferw awen i Wenfrewy.
 Tai sydd fal y tes iddi,
 8 Tref o gaer nef i'n gwawr ni;
 Ac wrth y dref, gwyrthiau a drig:
 Dŵr garw, a gwaed ar gerrig.
 Gorau gwin, gwir a ganwn,
 12 I dorri haint yw'r dŵr hwn.
- Caradog 'Lawog a'i gledd,
 Noeth gymell, a wnaeth gamwedd
 Pan dorres (panad eurid?)
 16 Pen y lloer, gwnaeth poen a llid.
 Beuno a'i rhoes, yn ben rhaith,
 Neur elai'n fyw yr eilwaith.
 Pymtheng mlynedd mewn gweddi
 20 Fo aeth hon, ni bu waeth hi.
 Cynnal, heb anwladu,
 Crefydd a bedydd y bu;
 Ni bu'n Ffrainc neb un o'i phryd,
 24 Ni bu'n fyw neb un fywyd.
- Eled ein tynged at hon
 Fal ydd ân' fil o ddynion:
 Os un a ddaw heb synnwyr
 28 E'i caiff, ond enynnu cwyr,
 A doedyd, os mud ydyw;
 Dyn byddar, clae ar y clyw;
 Un heb gerdded i redeg;
 32 Dyn dall i weled yn deg.
 Nid anael, mwy no Dwynwen,
 Nid anolau gwyrthiau gwen!
 Hael yw fal haul Wyl Ieuan,
 36 Hi a dyr wewyr ar wan.

40 Mawr yw'r dŵr fal môr ar dân,
Mal triagl ym mol y truan;
Ni threia, mwy no Throia,
Ni thau'r dŵr â gwneuthur da.

44 Mae yn ei ffons, man o'r ffydd,
Byd megis maen bedydd;
Ac yno mae, gwen a'i medd,
Aurddonen i'r ddwy Wynedd.
Down ati, wen, dan y to,
A'i phib win, a phawb yno.
48 Yno, cawn—ddyn unig gwan—
Ddiod fal buchedd Ieuan,
Ychydig, dysgedig oedd,
Â'r forwyn un arferoedd.
52 Dafnau o'i gwyrthiau a gaf:
O'i chyfeddach iach fyddaf!

Ffynonellau

A—BL Add 14967 [= RWM 23], 112^r B—BL Add 31084, 171^v C—
Bodley Welsh f 4, 171 D—LIGC 2010B [= Pant 42], 316

Ymranna'r testunau yn ddau grŵp eglur, sef AB a CD. Codwyd testun A, sef y llawysgrif hynaf, i B. Nid oes amrywiad trefn yn y testunau hyn. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 201–9.

Amrywiadau

3 AB fo, C fe; A ewennydd. 5 A mae n yn vron, C maen yn y fron. 7 D tai y sydd fal tes. 13 AB craeadog, C criadog. 15 ABC pen dorres; A nadevryd, B na deuryd. 18 D yn freulan yn fyw; B [yr]. 19 A–D pymtheg. 25 CD ein teyrnged. 26 AB val y ddau. 30 CD os byddar. 34 CD nid a'n ol ei gwyrthiau. 35 A iefan, B ifan. 38 C triag; D [y]. 40 CD ni thaw'r dwr; A gwneur da. 41 CD ini. 44 CD urddonen. 46 B ffil win, C a[‘i] ffib. 48 A–D ifan. 49 AB ddysgedig. 51 CD gwytheu.

Teitl

B i wenfrewi, C cowydd Gwenfrewi.

Olnod

A Jeuann brydydd hir ai kant, B Ivan Brydydd hir.

Y grog yng Nghaer

- Y Gŵr o Gaer—nid gair gau—
 Lleon Gawr o'r llun gorau,
 Lliw ireidd-dro, llarieidd-draed,
 4 Llun Gŵr a'i gorff yn llawn gwaed,
 Dodaist ym, amcan didaer,
 Ddal yng nghof Dy ddelw yng Nghaer.
- Ar y groes, i ddaear gred,
 8 Duw, o'th gur y doeth gwared.
 Bu'n Dy fru o ben Dy fron
 Frath gweli fry i'th galon.
 Briw a wnaeth, a brau Iôn wyd,
 12 Bron yn waed; brenin ydwyd
 Ar nef ac ar uffern, Iôn,
 Ar ddaear, ar Iddewon.
 Â drain, Grist (dyro ynn gred),
 16 Waith garw iawn, y'th goroned.
 Tystio o'r cwyn, tost yw'r coel,
 Taro a wnaethpwyd y teirol:
 Un draw ym mhob llaw, Llywydd,
 20 Un yn y traed, enaid rhydd.
 Doeth ar y groes, drwy loes drom,
 Dy waed ir, Duw wyd, erom;
 Maddau, er Dy grau a'r groes,
 24 Ym (ynfyd a fûm) anfoes
 A wneuthum er pan fûm fab
 Yn Dy erbyn, Duw eurbab.
- Fy swydd: llyma 'nghyffes i—
 28 Mae yn wag o'i mynegi!
 Fy mryd yw o'r byd i'r bedd,
 Fy Nuw Iôr, fy anwiredd.
 Sôn gynt drwy gusanau gŵyl
 32 Merched fu fy ngham orchwyl
 (Symledd y byd sy amlaf);
 Sôn fis Mai yr âi yr haf;
 Â geiriau, euog araith,
 36 Gofyn mewn gwyn, maddau'r gwaith.

Dyfalu swrn, difawl sôn,
 Digio, testunio dynion.
 Diawg fûm yrhawg o'm rhus
 40 Ag anian genfigennus;
 Glothineb, godineb dyn,
 A lldio, nid gwell ydyn'.
 Caf yma, cof o amwynt,
 44 Cybyddiaeth hir gwaeth no hwynt,
 A diwedd balchedd yw bod
 Yn dwyn baich—dyna bechod.

Ni bu adwyth enbydach
 48 Na rhoi bryd ar y byd bach!
 Duw, fi a edwyn Dy fawl—
 Duw, fy Iôr, wyf 'difeiriawl.
 Diwedd hwn, lle y gwn gur,
 52 Duw, ydd wylaf Dy ddolur.
 Dyrnod a roddaist arnaf,
 Dy ofn a wn, Duw fy Naf;
 Dwyn yr wyf dan oer ofal
 56 Dolur tost a dulio'r tâl;
 Gewyn ym heb wÿn ni bu,
 Asgwrn ni'm gad i gysgu.

I Gaer y dof, gywir Dad,
 60 Llei notwyf, Lleon atad;
 Gwarded i'r enaid gwiwrym
 A wnei, a chorff yn iach ym.
 F'Annwyl, er a fo ennyd
 64 Ym o boen yma'n y byd,
 Y dydd y dêl fy elor
 I lywio'r corff i lawr côr,
 Dwg at Saint, er Dy fraint fry,
 68 Duw, fy enaid i fyny.

Ffynonellau

A—BL Add 14876, 77^v B—BL Add 14900, 125^v C—BL Add 14984, 193^v
 D—BL Add 31084, 161^r E—J 138 [= RWM 16], 10

Ac eithrio colli dwy linell yn C, ni cheir amrywiad trefn yn nhestunau'r un
 o'r llawysgrifau y ceir y cywydd hwn ynddynt. Y mae cryn debygrwydd
 rhwng y gwahanol gopïau, ac ymddengys fod llawysgrifau BDE yn perthyn
 i'w gilydd. Er ei bod yn anghytuno â'r testunau eraill mewn manau, cedwir

yn C, sef y llawysgrif hynaf, nifer o ddarlenniadau sy'n rhagori arnynt. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 201–9.

Amrywiadau

2 *C* ar llun, *B* oi llun. 3 *A* llarieidd dro, *BDE* llurieidd dro; *ABDE* llariaidd eurdraed. 5 *ABD* dodais; *AB* im. 6 *A* dal yn 'ngho', *B* dal yny cho, *D* dal yn ei cho, dal yn yng=ho; *ABDE* dy lun yng nghaer. 7 *AD* i wyr a gred *BE* i wyr o gred. 9 *A* [o]; *BDE* dwy (*D* dy) fron. 10 *A(D)* friw; *BDE* frith y galon. 11 *A* braenu; *A* [a]; *A* a brenin, *BDE* yn brenin; *C* brau iondyd. 15 *BDE* krist; *BE* doro im kred. 17 *ABDE* tyst yw'r cwyn; *AB* on'd tost; *BDE* er coel. 18 *C* wnaethwyd; *A* [y]. 20 *A* mae'n nod rhydd, *BD* mae nod rrudd, *E* mae nod rhydd. 21 *D* (duw). 23 *BD* er gristiau r, *E* er / y / gristiau / r /; *C* [ar]. 24 *A* ym ynyd bûm o einioes, *BDE* imi anwedd om einioes. 27 *A* ffoi swydd, *D* oy (*cywiriad*: ffei) swydd; *C* fynghyffes. 28 *BDE* i mae yn wag; *AB(D)* i'w mynegi. 31 *C* gusan. 33 *A* amledd; *AD* sydd. 34 *A* son a rhai, *BDE* son y rrai; *ABDE* fis mai yr haf. 35 *C* geiriog araith. 36 *ABDE* medd gwyn; *C* madde y, *E* moddau. 38 *BDE* ar fynghymdogion. 39 *A* bum; *AC* am rhus. 40 *D* ai anian. 42 *BE* nid llai; *D* ai lliidodd onid llai ydyn (*cywiriad*: nid gwell ydyn). 43 *A(D)* caf ymwyn, *BD* kaf ymaf, *C* cau fy emyn; *C* [o]. 44 *A* yw gwaeth na gwynt, *BDE* gwaeth yw na gwynt. 45 *A* deuwydd yw balchedd a bôd. 46 *ABDE* dyn o bechod. 47 *D* yn byd iach (*cywiriad*: enbydach). 49 *C* dyn da wyf, *DE* dyn wyf. 50 *BCE* [wyf]; *BCD* ydifeiriawl. 51 *A* diweddu hwn y gwn gûr, *BDE* duw gwyn mawr oedd dy gur, *C* diweddu hwn llei gwn gwc (*cywiriad*: or diweddu hwn llei gwn gur). 52 *AD* am dy ddolur, *C* yw dy alw a daw dd ddolwc (*cywiriad*: yw dy alw a dawdd ddolur). 54 *A* d'ofni wna'i. 55 *ABDE* dwyn i ddwyfi yn ddyfal. 56 *A* dulio ir tal, *BDE* diliwior tal. 57 *BDE* giewyn; *BE* [ym]; *C* j ewyn nag ewyn yn gu. 58 *BDE* nag asgwrn nim gad i gysgu (*D cywiriad*: ni chaf); *A* nag asgwrn ni chaf gysgu. 59 *C* yd af; *A* ein gwir dad, *BDE* y gwir dad. 60 *A* lle; *BDE* notwy; *C* i do atad. 61 *C* yr enaid. 62 *BD* a wnaif (*D cywiriad*: a wnei), *CE* a wnaif. 63 *E* ara fo. 64 *A* ini o boen, *C* ymy o boen; *A* yn y byd. 65–6 [*C*]. 67 *BDE* dwg at y saint, *C* dwg at dy saint. 68 *A* fy enaid duw, *BDE* fenaif at dduw.

Teitl

A cywydd i'r grôg, herwydd i'r awdwr ganfod ei llun ynghaerlleon gawr, *C* cowydd yn dangos dioddefaint crist ar modd i mae pawb yn pechû ac yn digio duw drwy yr saith bechod ag i dylem ydifarfû, ifan brydydd hijr, *D* i'r grog o gaer am iachau y bardd, *E* kowydd duwiol.

Olnod

A Ifan Brydydd hir 1450, *B* ~~Jem~~ Brydydd Hir, *C* Jefan brydydd hijr, *E* Ifan brydydd hîr ai kant.

Trefn y llinellau

ABDE 1–68.

C 1–64, [65–6], 67–8.

I gwyno clefyd ac i'r grog yng Nghaer

Bloeddiais ers hanner blwyddyn,
 Ni chwimiais i chwemis hyn.
 Ni bu'n glaf neb un glefyd,
 4 Na bo arnaf haf un hyd!
 'Y mhoen a ddug ym henaint—
 Addas ym weddio saint.
 Am y ddelw y meddyliaf
 8 A weryd clefyd pob claf;
 Mae 'mryd rhoi fy hyd i hon
 O gŵyr lliw hyd Gaer Leon.
 Ni wŷr dyn, pan ddêl o'r dŵr,
 12 Mai o'r pren y mae'r Prynwr,
 A'i ddelw fo a'i dduwiolaeth
 Ar groes fal y troes o'r traeth.

Y dydd y bu'n dioddef,
 16 Yn ymladd dros nawradd nef,
 O'i fron, gawod gwirion gwâr,
 Y'n cyrchwyd oll o'n carchar.
 Teiroel oll wedi taraw,
 20 Dwy o ddur drwy Ei ddwy law,
 A'i draed ar yr hoel drydedd
 Mal y bu'n ymyl y bedd ...

Pa les i Fab mynwes Mair
 24 Er rhybuddio rhai byddair?
 Twyll yw'r byd, ynyfd anfaith,
 Dall ni wŷl dwyll yn ei waith.
 Ped ystyriai, pan fai'n fud,
 28 Y gwyliwr sy ar y golud
 Y da'n ei ddwrn, a Duw'n ddig,
 Ni chadwai ond ychydig.
 Y da a gadwer ofer yw,
 32 Y da a roir, ystôr ydyw.
 A fo, 'n ôl ei farwolaeth,
 Heb ei roi, heibio yr aeth;
 Y gallu da a gyll dyn,
 36 A dialedd a'i dilyn,

40

A bradwr am ei bridwerth:
 Mair, dy nawdd! Mawr yw dy nerth.
 Dadlau dy rasau drosom,
 Er hyd yn y byd y bôm,
 I'th Fab—na ad ein gado—
 Forwyn Fair, dy farn a fo!

*Ffynhonnell*BL Add 14876, 78^v

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. isod tt. 201–9.

Darlleniadau'r llawysgrif

2 i 'chwemis. 3 neb un. 5 ym mhoen. 9 roi. 13 o ei. 18 i'n cyrchwyd. 19 wedi taraw. 28 gwylwyr. 30 Ni chadwe. 31 y da gadwer. 32 ystâr yw (neu o bosibl *ystôr* yw). 39 Dadle di drase.

Teitl

Cywydd i gwyno Clefyd a Heneið dra a mawl i'r Grôg ynghaerlleon Gawr.

Olnod

Ifan Brydydd hir 1450.

Trefn y llinellau

1–6, + i, 7–10, 19–22, 13–14, 11–12, 15–18, 23–42.

i

Mae'n lhan Gathen ymhennaint
 Mal sŵn ugeinmil o Saint,
 Cynfab gore mâb i mi
 Ysul a'n fones eli

Y grog yn Aberhonddu

Y Gŵr a roes Ei wryd
 Ar bren croes dros bumoes byd,
 Lle da ydyw lle'i doded
 4 Uwch ein llaw a'i freichiau'n lled,
 Uwch glastir, wych eglwysty,
 Hodni, a'i fraint hyd nef fry;
 A'i enwi'n wir yno a wnaid,
 8 Iesu, draw ar y Strowiaid
 Lle mae uwch gwar y garreg
 Croes Duw, yn dwyn Crist yn deg
 Y modd y bu, medd y byd,
 12 Ar Wener wedi'r Ynyd,
 A'i weliau yn loywon:
 Duw nef a'i frath dan Ei fron.

Â theiroel y merthyrwyd
 16 Dwy law a deudroed Duw lwyd;
 Ei ddau droed a roed ar un
 A gwaed rhestr a gaed drostun'.
 Goddef (pand oedd deg iddaw?)
 20 Droï dur llym drwy dor y llaw.
 Drwy'i iad y gyrrwyd bob dri
 Ysbeinys nes Ei boeni;
 Drwy'i ais a thrwy'i bais y bu
 24 Un dall â gwayw'n Ei dyllu.
 Ceisio gwyllo pob gweli
 Ar Dduw nef yr oeddwn i;
 Un man cyfan nis cefais
 28 Heb gael Ei waed neu heb glais.
 Pwy'n Ei ôl a wnâi'r gwrolaeth
 Dan y nef er dyn a wnaeth?
 Ei galon a'i bum gweli
 32 A droes am nef drosom ni:
 Trown ninnau galonnau glân
 Ato, ac iddo gweddan';
 Ein pechod, os gwrthodwn
 36 Ufuddhau, e faddau Hwn.

Y dydd y codes Iesu
 O farw i fyw, da fore fu;
 Crupliaid a deilliaid, o'u dwyn,
 40 A wnâi'n wych, yno'n achwyn.
 Awn bob ddau, od ym euog,
 I gael gras ddyw Gwyl y Grog
 44 Lle gwnaeth Ef, a hwy'n llefain,
 Wyrthiau rhwydd i nerthu'r rhain;
 Rhoi synnwyr yn llwyr i'r llail,
 O feirw y gwnâi'n fyw eraill.
 48 Ochenaid am wreichionen
 O'i fawr wyrth a'm pyrth i'm pen;
 Ynfyd nid wyf am anfon
 I Dduw hael y weddi hon:

52 Enaid y gwir oleuni,
 Santaidd Fab, santeiddia fi;
 Corff y Mab rhad sy gadarn,
 Cadwed fi, Ceidwad y Farn.
 Y gwaed o'i draed a redawdd
 56 Erom ni a ro ym nawdd.
 O'i ystlys, f'ewyllys fu
 Gael y chwys o gylch Iesu:
 Dau ddafn o'r dioddefaint,
 60 Dagrau Hwn a'm dwg o'r haint.
 Gwir Dduw Dad, yn anad neb,
 Gwrando fi i'm gwiriondeb!
 Rhag pob creulon ddrygioni
 64 A phoen, fyth, amddiffyn fi,
 Ac na ad o'th wlad a'th lu
 I'm henaid ymwahanu.
 Gwnaf, yn ddwyfol ei foli,
 68 Gywydd i Fab—gwahodd fi—
 Yr wyl ydd af i'r wledd wen
 Berffaith, heb dranc, heb orffen.

Ffynonellau

A—Bangor 704, 86 B—BL Add 14906 [= RWM 45], 73^v C—BL Add 14971 [= RWM 21], 50^r D—BL Add 14985, 17^r E—BL Add 31075, 34^r
 F—BL Add 31080, 55^r G—BL Add 31084, 177^r H—Brog (y gyfres gyntaf) 2, 484 I—Card 3.4 [= RWM 5], 93 J—Card 5.34, 43^v K—Card 5.44, 10^v L—Card 5.167 [= Thelwall], 6^r M—CM 5, 501 N—CM 244, 141^v O—J 101 [= RWM 17], 646 P—J.R. Hughes 6, 594 Q—LIGC 695E,

11 R—LIGC 970E, [= Merthyr Tudful], 17 S—LIGC 1559B, 628 T—LIGC 7191B, 55 U—LIGC 13061B, 189^r V—LIGC 13070B, 179 (*llau*. 45–70) W—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 204 X—Llst 6, 105 Y—Llst 47, 52 Z—Llst 134, 5 a—Llst 165, 57 b—Llst 167, 107 c—Pen 93, 45 d—Pen 151, 5^v

Testun X yw'r hynaf ar glawr o'r cywydd hwn. Y mae H yn gopi uniongyrchol o O, gydag A yn gopi diweddar o'r naill lawysgrif neu'r llall. Perthyn y testunau a geir yn BDFS yn agos i'w gilydd, er bod rhai mân wahaniaethau testunol yn D; felly hefyd CGMNT ac LW. Llywelyn Siôn a gopiodd KRYZ a dilynir nodweddion y rhain gan EJPUY a'r darn a geir yn V. Testunau a saif ar eu pennau eu hunain o ran priodoliad, trefn ac amrywiadau yw IQadc, a darn arall a geir yn b. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 201–9.

Amrywiadau

1-2 **Elis ... / Wetnal** Ceir ach teulu Elis Wetnal yn P.C. Bartrum: WG1 'Edwin' 8 a P.C. Bartrum: WG2 'Edwin' 8 (C). Seiliwyd yr achresi hyn yn rhannol ar y dystiolaeth a geir yn llyfr achau Robert Vaughan o'r Hengwrt (sef Pen 287, 155), sy'n nodi i Elis briodi â Christin ferch Gruffudd ab Ieuan ap Maredudd (bu i Elis hefyd ail wraig neu gymar na wyddys mo'i henw. Ar Gristin ei hun, gw. isod ll. 5n). Cysylltiad priodas, felly, oedd rhwng Elis a theulu'r Hob. Dylid sylwi bod yr achau

⁵ Cledwyn Fychan, 'Tudur Aled: ailystyried ei gynefin', Cylchg LIGC xxiii (1983-4), 54-5; daw'r dyfyniadau o olygiad Thomas Roberts o gerddi Tudur Penllyn, GTP 46 (27.55-8), 96 (Atodiad III.51-4); cf. llau. 51-4 yn y golygiad hwn ac isod At. iii.55-8.

⁶ Gw. E. Hubbard, *The Buildings of Wales: Chwyd* (Harmondsworth and Cardiff, 1986), 376-8 (ond i ddechrau'r 17g. y perthyn y tŷ presennol).

⁷ Am y syniad y gall mai ar aelwyd y Plas-teg ei hun y canwyd y cerddi hyn yn wreiddiol i ddiddanu'r ddau deulu, gw. y nodyn rhagarweiniol i At.iii (troednodyn 1). Cenix yn helaeth i wahanol ganghennau o deulu dylanwadol y Treforiaid, cf. GGI² 44-51 (XVI-XVIII), 324-5; GO 199-217 (XXXV-XXXVIII); ymddengys, fodd bynnag, i Bachelery gymysgu nifer o Dreforiaid yn y nodiadau a rydd ar gyfer cerddi Gutun Owain. Am arolwg o'r traddodiad nawdd yn sir y Fflint, gw. NBSFf; Enid Roberts, *Y Beirdd a'u Noddwyr ym Maelor*, Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru Wrecsam, 1977.

a restrir gan Bartrum yn anghyson â'r dystiolaeth achyddol y cyfeirir ati yn GTP 124 o gyfrol G. Ormerod, *The History of the County Palatine and City of Chester* (London, 1882), iii, 479. Cofnodir gan Ormerod yr enw *Elis*, *als. Elys als Elias de Wetenhale*; dywedir mai mab anghyfreithlon ydoedd i 'John de Wetenhale of Wich Malbank, escheator of Cheshire'. Rhoddir 1408 a 1462–8 yn ddyddiadau blodeuo iddo. Yn P.C. Bartrum: WG1 'Edwin' 8, ar y llaw arall, dangosir mai mab cyfreithlon oedd Elis Wetnal i Richard Wetnall [*sic*]. Priododd Richard ag Annes ferch Morgan Yonge (siryf sir y Fflint) ab Iorwerth ap Morgan ab Iorwerth Foel o Bengwern (*ob.* 1313, gw. ymhellach P.C. Bartrum: WG1 'Tudur Trefor' 12). John oedd enw tad Richard, ac felly, a bwrw nad aeth cenhedlaeth ar goll yn y ffynonellau achyddol a archwiliwyd gan Ormerod, tybed ai rhyw fab anghyfreithlon i'r John hwn oedd yr Elis y cyfeirir ato yn yr *History*?

Nodir yn y ffynonellau amryw ffurfiau ar enw'r plas yr adwaenid y teulu wrtho. Fel *Wetnal* neu *Watnal* y cyfeirir ato yn amrywiadau'r llsgrau. y ceir y ddau gywydd hyn ynddynt, a cf. *Wettenhal* yn Pen 287, 155. *Wetenhall* yw'r ffurf a arferir bellach, gw. *The place-names of Cheshire*, iii, ed. J. McN. Dodgson (Cambridge, 1971), 166.

- 2 **Wyt annwyl gorff, Wetnal gun** Ll. dra ansicr. Cytuna llsgrau. ACE–H ar y darlleniad ... *gŵr* ... *gwyn*, cf. GTP 95 (Atodiad III.2). Ond os ar ôl *annwyl* y daw'r orffwysfa, yna y mae'r cynganeddiad yn anghywir. Eto, os bwriadwyd i'r ansoddair *annwyl* oleddfu *gŵr*, disgwylid treiglo'r enw. Yn llsgr. D yn unig y cedwir y darlleniad a roddir yma. Gellir deall *cun* naill ai'n eg. 'arglwydd, pennaeth'; neu—yn llai tebygol, efallai—yn e.tf. yn golygu 'llu, byddin'; neu'n a. yn golygu 'hardd' &c.; gw. ymhellach GPC 629–30.
- 3 **ŵyr Einion** Efallai y dylid atalnodi'r cwpled yn wahanol a darllen *ŵyr Einion o rieni / Morgan Twnc* ... Ar ochr ei dad, Richard (gw. P.C. Bartrum: WG1 'Edwin' 8), yr oedd Elis Wetnal yn ddisgynydd i Einion ap Cadwgan ap Gronwy o'r Treuddyn. Yr oedd Einion yn nai i Gristin, cyfnither a gwraig Owain Gwynedd.
- 4 **Morgan Twnc** Sef Morgan Yonge (neu 'le Yonge'), un o gylch cyfeillion Owain Glyndŵr. Ar Forgan ei hun, gw. R.R. Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Oxford, 1995), 142–3, 147, 358n24 a'r cyfeiriadau; cf. *id.*, 'Owain Glyn Dŵr and the Welsh Squirearchy', THSC, 1968, 166; *id.* ac A.D.M. Barrell, 'Land, Lineage and Revolt in North-East Wales, 1243–1441: A Case Study', CMCS xxix (Summer 1995), 45–51. Y mae'n bosibl mai mab anghyfreithlon i Forgan oedd Gruffudd Yonge, canghellor Glyndŵr. Yr oedd Morgan yn siryf a rhaglaw sir y Fflint yn 1378 ac yn is-siryf eto yn 1390, a bu'n fawr ei ddylanwad yn y sir honno, hyd yn oed yn ei henaint, gan rwystro gwrthryfel Glyndŵr, er bod hefyd dystiolaeth iddo yntau gymryd ochr Owain dros dro. Ystyr

twnc yw rhan (weithiau traean) o *ÿd sy'n* perthyn i feistr y tir yn rhent blynyddol, cf. TR d.g. *twnc*: 'a certain share of the standing corn due to the landlord'. Yn ôl R.R. Davies, '[Morgan Yonge] consolidated his position by securing favourable leases ... and buying out the right of kinsmen' (*The Revolt* ... 143). Diau mai oherwydd hyn yr enillodd Morgan iddo'i hun yr epithet a rydd Ieuan Brydydd Hir a Thudur Penllyn iddo. Fel y nodwyd uchod, *wÿr* Morgan Yonge oedd Elis Wetnal ar ochr ei fam, Annes (gw. P.C. Bartrum: WG1 'Tudur Trefor' 12). Nai iddi hithau oedd Jenkin Yonge, a briododd ddwywaith. Ail wraig Jenkin oedd Mallt ferch Deio ap Dafydd ap Madog Ddu (gw. *ib. l.c.*), ond ei wraig gyntaf oedd Gwladus ferch Tudur, o linach Ynyr ap Hywel (gw. *ib.* 'Sandde' 9). Yr oedd Gwladus a Christin, gwraig Elis Wetnal, yn perthyn i'w gilydd drwy fod Maredudd o'r Hob, hendaidd Cristin, yn frawd i Fadog Foel, taid Gwladus. Dengys yr achresi fod y teulu pwerus hwn yn perthyn hefyd i Hanmeriaid Maelor Saesneg.

- 5 **yr Hob** Sef cwmwd yng ngorllewin sir y Fflint (*Hopedale*) ac enw ar blwyf tua 5 milltir i'r gogledd o Wrecsam, ac oddeutu dwy filltir i'r gogledd-ddwyrain o Gaergwrle (gw. ll. 15n); gw. WATU 92, 271. Fel y dangoswyd eisoes, gwraig Elis Wetnal oedd Cristin ferch Ieuan ap Maredudd o'r Hob. Ymhellach ar ei hach hi, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Sandde' 9, cf. GTP 124. Er mai ger Nantwich y lleolid Wetnal (*S. Wetenhall*), sef y plas y cymerodd teulu Elis ei enw oddi wrtho, cysylltiad priodasol Elis â theulu'r Hob a gofid gan y beirdd Cymraeg.
- 6 **cyfraith esgob** Ar sail y cyfeiriad hwn, credai Abraham Jenkins mai clerigwr oedd Elis Wetnal (gw. Tudur Penllyn, &c.: Gw 287, 'addressed to a clergyman in the parish of Denbighshire'). Dilynwyd yntau gan Thomas Roberts, 'dichon y ceir awgrym yma mai offeiriad ydoedd Elis, g^wr oedd yn hyddysg yn y Cyfreithiau Eglwysig' (gw. GTP 144). Ond er nad yw'n amhosibl mai clerigwr oedd Elis, y mae'r dystiolaeth yn gryf o blaid y ddadl mai uchelwr a chyfreithiwr ydoedd. Yn y 15g. yr oedd yn rhaid i'r sawl a fynnai astudio'r Gyfraith Gyffredin gael addysg yng nghyfraith yr Eglwys yn ogystal, gw. Sir John Fortescue, *De Laudibus Legum Anglie*, ed. S.B. Chrimes (Cambridge, 1942) a cf. P. Brand, *The Making of the Common Law* (London, 1992), 57.
- 7 **y gred briodas** Yr oedd i briodas yn y 15g. ddwy ran neilltuol: yn gyntaf, dyweddïo; wedyn deuai'r gwasanaeth priodas, naill ai yn narthechs eglwys neu wrth ei drws. Am astudiaethau o briodas yn yr Oesoedd Canol, gw. ymhellach C.N.L. Brooke, *The Medieval Idea of Marriage* (2nd edition, Oxford, 1994); ODCC³ 1054–6 d.g. 'Matrimony' a'r cyfeiriadau. Ystyridd y briodas yn swyddogol (er nad yn sagrafennol) o'r adeg pan fyddai pâr yn dyweddïo. At hynny y cyfeiria Chaucer, gw. *The Wife of Bath's Prologue & Tale*, ed. J. Winny, revised by S. Kane and B. Winney (Cambridge, 1994), 35.6 *housbondes at*

chirche dore I have had five; cf. *ib.* 76 ‘only persons of high rank were married inside the church. The ceremony at the door of the church was followed by nuptial mass before the altar.’

- 8 **dof** Gw. yr amrywiadau. Dilynir yma ddarlleniad llsgr. D a’i ddeall yn yr ystyr ‘boneddigaid, gwâr’.
- 13 **o’ m credwch** ‘Os credwch fi’.
- 15 **Caergwrlai** Bellach Caergwrle, ond y mae’r ffurf hŷn a welir yn y testun yn adlewyrchu tarddiad yr e. (*caer* a **corlei* [o *cornea-leah* ‘the wood of the cranes’]), gw. Hywel Wyn Owen, *The Place-names of East Flintshire* (Cardiff, 1994), 197–9.
- 16 **curo** *Caru* a geir ym mhob llsgr. ac eithrio D, ac y mae hwnnw’n ddarlleniad digon posibl. Fodd bynnag, ymddengys *curo* yn fwy tebygol yn y cyd-destun hwn. Y mae’n amlwg mai ei ‘guro’ a ofnir—yn goeglyd, yn ddiau—gan Dudur, fel y mynega yn ei gywydd yntau, At.iii.31–2 *Os yta’n agos ati, / Yna y’ m hanrheithia hi*. Ceir ystyr ffigurol i *curo* hefyd, sef ‘blino, poeni’, gw. GPC 630.
- Caer-gai** Yn draddodiadol, cysylltid Caer-gai â Chai ap Cynyr (arno gw. TYP² 303–7), brawd maeth Arthur. Gw. ymhellach isod ll. 46n; cf. Thomas Pennant, *Tours in Wales* (London, 1784), ii, 84, 216; Thomas Roberts, ‘Y traddodiad am y Brenin Arthur yng Nghaergai’, B xi (1941–4), 13–14.
- 17 **hodyn** ‘Tywysen newydd, yn ffig. llanc’, yn ôl GPC 1883, ond cymerir mai’r ffurf gysefin yma yw *odyn* ‘ffwrn fawr ... cylyn’, GPC 2618, o bosibl mewn ystyr aflednais, cf. At.iv.43n [*m*]archbren *odyn*. Posibl-rwydd arall yw mai ffurf yn seiliedig ar *od* ‘rhagorol’ ydyw yma ac iddo ystyr megis ‘darling’.
- 18 Ceir *achos* hefyd yn yr ystyr ‘cyfathrach rywiol’, gw. GPC 8.
- 20 **bwrw** Efallai mai ergyd y ll. yw y câi Tudur ei farnu’n euog (gan Dduw) o wrthod anrhydeddu’r ‘gred’, gw. GPC 356.
- bronten** Ffurf f. a bach. ‘brwt’. Gall *bronten* yma olygu naill ai mai gwraig gas, lac ei moesau (S. *slattern*) ydoedd, neu un afrywiog; budrogen.
- 21 **purdan** Gw. 11.24n.
- 22 **tor priodas** Ymddengys y darlleniad hwn yn fwy rhesymegol na *torri priodas* llsgrau. ACEFG sydd, o’i dderbyn, yn rhoi ll. ry hir. Awgryma Ieuan Brydydd Hir y dylai meddwl am boenau purdan (gw. isod ll. 24n) beri i Dudur ailystyried.
- 24 **yn y tân** Purdan, a gysylltid ym meddylfryd yr oes â’r proses puro drwy dân, yn hytrach nag uffern, sydd ym meddwl y bardd. Diffiniwyd y ddysgeidiaeth ynghylch purdan gyntaf yn ail Gyngor Lyons, 1274.

- Am hanes twf y cysyniad, gw. yn enwedig J. Le Goff, *The Birth of Purgatory*, trans. A. Goldhammer (London, 1984), 223–4; cf. P. Ariès, *Western Attitudes towards Death: From the Middle Ages to the Present*, trans. P. Ranum (Baltimore, 1974); P. Camporesi, *The Fear of Hell: Images of Damnation and Salvation in Early Modern Europe*, trans. Lucinda Byatt (Pennsylvania, 1991) a'r cyfeiriadau yn y gweithiau hyn. Am feirniadaeth ar gyfrol Le Goff, gw. A.H. Bredero, 'Le moyen âge et le Purgatoire', *Revue d'histoire ecclésiastique*, cxxviii (1983), 429–52; A.E. Bernstein, *Speculum*, cxix (1984), 179–83 (adolygiad); G.R. Edwards, 'Purgatory: 'Birth' or Evolution?', *Journal of Ecclesiastical History*, xxxvi (1985), 634–46.
- 30 **cytal** Y brif ystyr a roddir i *cytal* yn GPC 821 yw 'byw ynghyd' (yn enwedig am ŵr a gwraig heb briodi). Ond ceir yno hefyd yr ystyron 'cyfathrachu, cydymwneud'. Gan mai ergyd dychan Ieuan Brydydd Hir yw na ddylai Tudur gael dianc rhag ei 'addewid' i'r hen wraig, diau mai'r ystad briodasol sydd ganddo mewn golwg.
- 31 **cogail** Rhestrir meddiannau'r wrach yn llau. 31–9; gellir cymharu'r rhestr hon ag 'ewylls' Herstin Hogl yng nghywydd Iolo Goch (gw. GIG 163 (XXXVI.93–100). Ffon i droi llin neu wllân i'w nyddu â llaw yw *cogail* (S. *distaff*), sef pastwn. Gall fod amwysedd yn y gair hefyd, o'i ddeall yn ffig. yn golygu 'gwaith neu awdurdod gwraig', gw. GPC 540 a cf. isod At.iv.29n.
- 32 **cwd** Sach, bag neu bwrs, gw. GPC 635.
cod Sgrepan, sach, pwrs; ond gw. hefyd GPC 526.
mail Ceir *mêl* ym mhob llsg. ac eithrio D (ac o bosibl C), ond gan fod y ffurf honno yn gallu bod yn amr. ar *mail*, dilynyr eto'r darlleniad a roddir yn llsg. D ac a odli'r â *cogail* (gw. ll. 31n uchod). Gellir dehongli *mail* yn yr ystyr 'cwpan, padell, bwced', gw. GPC 2322.
- 34 **cywrsi** Amr. ar *cowrsi* / *cwrsi*; yn GPC 649 esbonnir y ffurf fel benthyciad o'r S.C. *curchef* 'kerchief'. Fe'i deallir yma i olygu 'cadach, penwisg merch'.
- 35 **cae efydd** Gwâeg, modrwy, S. *clasp*, neu wregys. Trafodir amrywiol ystyron y gair yn GGrG 67–8. Ond, fel y dangosir yno, tlws gwerthfawr wedi ei wneud o aur neu arian yw *cae* gan mwyaf yn y canu serch; gall fod elfen o ddychan eto yn y ffaith mai efydd yw gwneuthuriad cae y wrach yng ngherdd Ieuan Brydydd Hir.
cyfoeth Sef eiddo neu olud; fe'i defnyddid hefyd yn yr ystyr 'gallu, nerth, awdurdod, arglwyddiaeth', &c., gw. GPC 708. Ai yn fwriadol amwys yr arferir y gair gan Ieuan?
- 39 **llwyau llaeth** Rhestrir yr enghraifft hon yn GPC 2237 fel ll. *llwy laeth* '?skimmer, dairy utensil'.

- 40 **carth** Gall olygu naill ai ‘cywarch, brethyn’ neu ‘sothach, baw’ yma, gw. GPC 433.
- 41 **O daw hon, nid â henaint** Ll. dra ansicr. *Yn oed henaint* a geir yn llsgr. D ac *ni ad henaint* yn llsgrau. CE–H. Ond rhaid amau’r naill ddarlleniad a’r llall, gan y disgwyliid caledu ‘d’ o flaen ‘h’, cf. J. Morris-Jones: CD 206 am arfer y beirdd: ‘ni fethai ganthynt roi cytsain galed i gyfateb i un a galedid gan anadliad caled ar ei hol’. Ai diffyg caledu gan Ieuan a gynrychiolir gan y testunau a gadwyd o’r cywydd hwn, neu a fu metathesis yn y testunau hynny rhwng *ni ad* ac *nid â*? Testun llsgr. A yn unig sy’n osgoi’r broblem drwy roi *nid a henaint*, a derbyniwyd yn betrus y darlleniad hwnnw ar gyfer y golygiad hwn. Fodd bynnag, testun diweddar ydyw, un a gopiwyd gan Owain Myfyr, ac efallai i’r copïydd geisio gwella ar ei gynsail.
- 42 **un daint** Atebir yr un ddelwedd yn At.iii.50.
- 43 **rho Duw** Gellid deall *rho* naill ai’n ffurf 1 un. *rhwng* (< ‘y rhof fi a Duw’, ‘rhyngof fi a Duw’: llw cyffredin, gw. ymhellach GPC 3109), neu 3 un.pres.dib. y f. *rhoi* (gw. GMW 155): ‘boed i Dduw roddi ...’. Cymerir mai’r cyntaf a olygir yma.
- 45 **cystlwn cur** ‘Un sy’n gynefin â chur’. Ceir wrth ochr darlleniad llsgr. C y glôs Llad. *cognitio*.
- 46 **llel magwyd Arthur** Gw. uchod ll. 16n a GTP 145.
- 48 **y wrach Annes** Os gellir dibynnu ar y darlleniad a gadwyd yn llsgr. C (ond gw. yr amrywiadau), ymddengys mai Annes oedd enw’r wrach honedig ei hun. Er ei bod hi’n debygol mai ffug yw’r holl hanes a adroddir gan Ieuan a Thudur Penllyn, fel yr awgrymwyd eisoes, y mae arfer yr enw hwn yn ddiddorol odiaeth, yn enwedig os ar gyfer difyrwch y Treforiaid a theulu Elis Wetnal y lluniwyd y cerddi hyn. Annes, ferch Morgan (Ie) Yonge, oedd enw mam Elis (gw. P.C. Bartrum: WG1 ‘Tudur Trefor’ 12) ac Annes arall, ferch Pirs ap Perkin Cambrey o’r Trallwng (gw. P.C. Bartrum: WG2 ‘Tudur Trefor’ 14 (C1), ‘Gwenwys’ 2) a briododd â Siôn Trefor Hen (*ob.* 1453; arno gw. ByCy 920 *s.n.* ‘Trevor’), sef perchennog y Plas-teg, un o gartrefi’r Treforiaid—efallai’r un Plas-teg ag a erchir gan Dudur Penllyn, gw. isod At.iii.58.
- 51 **Dyfnwal** O dderbyn tystiolaeth llsgrau. ABCE–H, ceid ll. ddigynghanedd yma. Llsgr. D yn unig sy’n rhoi *Na ddyro, Ddyfnwal Alun* ac y mae’n dra thebygol mai dyna oedd y darlleniad gwreiddiol, y ceir ynddo nid yn unig gynghanedd ond gwell synnwyr yn ogystal. Cysylltid Dyfnwal Moelmud, megis Elis Wetnal yntau, â dysg gyfreithiol, gw. WCD 214.

Ceir yn astudiaethau arloesol Thomas Roberts drafodaeth gynhwysfawr ar hanes a gyrfa Tudur Penllyn.¹ Sail cyfoeth Tudur, ac yntau'n berchennog Caer-gai, oedd tir ac anifeiliaid. Porthmon defaid ydoedd, yn ogystal â bod yn berchen ceffylau a gwartheg. Y mae'n debygol iddo borthmona'n aml yn Ardudwy ac mai yno y cychwynnodd yr ymryson hwn rhyngddo ac Ieuan Brydydd Hir. Oherwydd ei lwyddiant yn ychwanegu at ei olud drwy werthu gwlan, yn ogystal â'i ymdrechion eraill i ymgyfoethogi, ymddengys i Dudur gael y gair o fod yn ddiogwyddor wancus ac edliwiodd Ieuan, a Guto'r Glyn yntau, hynny iddo. Cywydd yw hwn yn dychanu Tudur Penllyn a'i awydd i hel defaid yn Ardudwy, ac fe'i cyhuddir gan Ieuan nid yn unig o fanteisio ar bob cyfle i wella ei fyd, ond hefyd o ddefnyddio ei awen i hyrwyddo ei fasnach drwy ganu i bobl o dras isel.² Y mae mwy o fin ar ddychan Ieuan Brydydd Hir yn y gerdd hon nag a geid yn yr un flaenorol ac, fel y sylwodd Thomas Roberts, ceir yn ateb Tudur '[g]wydd llawn gwawd i lun corff a lliw wynepryd y Prydydd Hir, a honni mai anian genfigennus un a lwgrwobrwywyd oedd yn cyfrif am y dychan'.³ Dylid darllen y cywyddau hyn o waith Ieuan a Thudur ochr yn ochr â'r gerdd gyfatebol a ganwyd gan Guto'r Glyn, sydd hefyd yn goganu Tudur i'r un perwyl.⁴ Dywed Guto yn blaen y gall bardd arall ategu ei feirniadaeth,

O myn bardd, o'r man y bo,
Ifan hir, fy niheuro,
Ef a wŷr pwy fwya'i wŷn
A'i wlan defaid, lanw difwyn.⁵

Cynigiodd Ifor Williams mai mab Tudur, sef Ieuan ap Tudur Penllyn, oedd yr *Ifan hir* a enwir yng nghywydd Guto'r Glyn, ond gan fod Ieuan Brydydd Hir yntau'n arfer yr enw hwnnw, a bod ei gywydd ef yn mynegi'r union feirniadaeth, ymddengys yn llawn mor bosibl mai'r Prydydd Hir ei hun yw'r bardd y cyfeiria Guto ato.⁶

Golygwyd y cywydd hwn eisoes yn Tudur Penllyn, &c.: Gw 90, a cheir testun llwgr ac annibynadwy yn *Y Brython*, iv (1861), 105. Fe'i golygwyd yn safonol yn GTP 92 (Atodiad I). Am destun golygedig arall o gywydd Tudur Penllyn, gw. isod At.iv.

¹ Gw. Thomas Roberts, 'Tudur Penllyn', Ll xxi (1942), 141–51; *id.* xxii (1943), 27–35; GTP ix–xxix.

² Cf. llau. 17–18, *Bardd yw fo ... / A phrydydd i gyffredin*, a gw. ll. 18n.

³ Gw. GTP xiv.

⁴ *Da 'i gwyddiad yn deg addwyn / Â thraed mawr athrod am wŷn* (GGI² 90 (XXXIII.15–16)). Wrth gyhuddo Tudur o'i fai, aralleiria Guto adnod o Math vii.3, *Y dyn yn fy llygad i / A wŷl oenyn eleni, / Ac ni wŷl y gwan eilun / Hwrad yn ei lygad ei hun!* (*ib.* 91 (XXXIII.33–6)); cf. hefyd ei gyfres englynion yn dychanu Tudur Penllyn, *ib.* 93 (XXXIV).

⁵ *Ib.* 90 (XXXIII.21–4).

⁶ *Ib.* 330 a cf. 3.55–6 isod, *Arwydd Ithel a welir: / Arian hug ar Ieuan Hir*.

- 2 **grymus teg** Y mae'n debygol fod dwy elfen y sangiad hwn yn cyfeirio at Dudur ei hun, yn hytrach na'u bod yn goleddfu *tir*.
- 3 **blawrwyn faeleraidd** 'Llwydwyn, gwelwlas' yw ystyr *blawrwyn*, gw. GPC 285 a cf. GGI² 90, 91 (XXXIII.13, 26), *Nid mawr gan Dudur flawrwyn ... gŵr gwyn o Gaer Gai*. Disgrifir Tudur Penllyn fwy nag unwaith yng ngherddi Ieuan Brydydd Hir yn ŵr llwyd ei wallt, gw. 2.4, 8, 45; cf. 3.5, 7 isod a hefyd GGI² 265 (CII.30). Ar bwys y cyfeiriadau hyn dadleuodd Abraham Jenkins mai Tudur Penllyn oedd yr hynaf o'r ddau fardd, a cf. hefyd gyfeiriad Guto'r Glyn ato fel *hen Dudur Penllyn (l.c.)*. Ond diau na ddylid deall yn llythrennol y cyfeiriadau at henaint gan y beirdd wrth iddynt ddychanu ei gilydd, gw. GSCyf 12.33n a YEPWC cxviii am enghreifftiau tebyg. Ystyr *maeleraidd* yw 'chwannog i elwa'.
- 4 **Pab llwyd o fewn pebyll haidd** E.un. yw *pebyll* yma, a dichon mai 'clogyn' neu 'fantell' yw'r ystyr. Cyfeiria Ieuan Brydydd Hir at wisgoedd Tudur Penllyn hefyd yn ll. 8 ac yn 3.29–30 isod; defnyddir y gair weithiau'n drosiadol hefyd, gw. GPC 2663. Fel y nododd G.J. Fitzgerald yn RBCWP 14–25, ceid ystyr eang iawn i'r gair *pab* gynt, a gallai olygu 'pencampwr' neu rywun a oedd yn uchel ei fri. Efallai oherwydd lliw'r haidd, cynigiodd FitzGerald fod Ieuan yn cymharu clogyn Tudur ag abid Brawd Llwyd.
- 5 **palfau march** Ai cyfeiriad yw hwn eto at faint traed Tudur Penllyn (cf. 3.24, At.v.46)?
- 6 **pendew** Gw. GPC 2738 am y gwahanol ystyron posibl. Ergyd y dychan yw naill ai mai dyn a chanddo flew trwchus oedd Tudur neu ynteu ei fod yn wirion, hanner-pan, neu'n ddyn ystyfnig. Gellir cymharu'r ll. hon a'r sôn am dwf gwallt llaes Tudur Penllyn (os at hynny y cyfeiria *pendew* yma) â GGI² 90 (XXXIII.14).
- madarch** Ymddengys mai caws llyffant (S. *toadstool*) yw *madarch* i Ieuan Brydydd Hir, gw. sylwadau W.J. Gruffydd, 'Nodiadau Ieithyddol: *Madalch*', Beirn v (1915), 61–2. Defnyddir *madarch* yn aml gan y beirdd yn derm difriol, cf. ymhellach yr enghreifftiau a nodir yn GPC 2300 d.g. *madarch* (b).
- 7 **lle'i testuniwyd** Ystyr *testunio* yma ac yn ll. 43 isod yw 'goganu, gwneud rhywun yn gyff gwawd'. O ystyried yr agwedd a geir yn y cerddi penydiol, nid yw'n amhosibl ei bod yn edifar gan Ieuan Brydydd Hir mewn cyfnod diweddarach yn ei fywyd iddo arfer y math hwn o ddychan, neu fod 'gwacter' swydd y bardd a datgan ymwrthod â chamdefnyddio'r grefft farddol yn fath o *leitmotiv* yn y cerddi penydiol. Am enghreifftiau eraill, gw. 5.23 a 10.27–8, 38.
- 8 **trwyn ellŷn** *Ellyn* yw darlleniad y llsgrau. i gyd. Cymherir trwyn i *ellyn*, sef 'rasel', gan Ddafydd ap Gwilym (gw. GDG³ 283 (105.11)), ac

felly y dehonglwyd y ll. hon yn GTP 92 (Atodiad I.8). Serch hynny, ceid y bai crych a llyfn o dderbyn y darlleniad hwnnw. Cynigir yma y gall mai ffurf ar yr adf. *ellŷn* (cf. *fellŷn* ac *yllŷn*), yn golygu ‘fel hyn’ neu ‘felly’, a fwrriadwyd gan y copïwyr, cf. GIG 6 (II.22), TA 115 (XXIV.56). Y mae’n hysbys fod a wnelai’r grefft o ddatgan cywyddau’n gyhoeddus rywfaint ag ansawdd gweledol y delweddau, a diau fod datgan y cywydd penodol hwn yn gofyn gwneud ystum i ddangos sut drwyn oedd gan Dudur Penllyn. Edliwiodd Tudur hynny i Ieuan Brydydd Hir, gw. At.v.46.

- 9 **panel us** Aneglur yw union ergyd y sen hwn gan Ieuan Brydydd Hir. Math o obennydd neu glustog a roddid dan gyfrwy march oedd *panel*, gw. GPC 2679. A yw *us* yn awgrymu bod y banel honno o wneuthuriad israddol?
- 10 **mwylsiwr** Daw **mwyls* o’r S.C. *mulse*, gair a ddaw o’r Llad. *mulsum* (rhangymeriad grff. diryw *mulcere* ‘melysu’), sef diod a wnaed o fêl wedi ei gymysgu â gwin neu ddŵr, gw. GTP 144, GPC 2519, OED² x, 75. Ystyr *mwylsiwr* yw un sy’n yfed y ddiod honno. Diddorol yw sylwi mai 1533 yw dyddiad yr enghraifft S. gynharaf y cyfeirir ati yn OED².
- Syr Morys** Ni ellir gwybod i sicrwydd o’r teitl *Syr* ai offeiriad ai marchog oedd y Morys y cyfeiria Ieuan Brydydd Hir a Thudur Penllyn ato. Yn y 15g. offeiriad heb radd prifysgol, a hwnnw’n perthyn i esgobaeth arbennig yn hytrach nag i urdd grefyddol, a olygid wrth y teitl ‘Syr’, a dyna oedd y teitl arferol ym Mhrydain tan ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg (hyd heddiw, ceir *Monsieur le Curé* yn Ffrainc; *Don* yn yr Eidal), gw. ymhellach y cyfeiriadau a geir yn ODCC³ 600. Y mae’r wybodaeth a rydd Thomas Roberts yn cryfhau’r posibilrwydd mai offeiriad oedd Syr Morys: ‘ceir ach gŵr o’r enw yn P[en] 287, t. 881, sef person Llanenddwyn a Ffestiniog, a chan ei fod yn offeiriad yn Arduw, yng nghymdogaeth I[euan] B[rydydd] H[ir], gall mai’r gŵr a enwir yma ydyw. Mab ‘Rich ap Howel ap Rys’ ydoedd, ac ar ochr ei nain yn hanu o Owain Gwynedd’ (GTP 144, gw. ymhellach P.C. Bartrum: WG2 ‘Gollwyn’ 7 (A2)). Ymddengys o sylwadau’r ddau fardd fod Syr Morys yn enwog am ei hoffter o ferched, diod a barddoniaeth, gw. isod At.iv.10n. Ai hwn yw’r *Syr Morys* y cyfeirir ato yn GDGor 1.47n?
- 18 **prydydd i gyffredin** Diddorol, ac arwyddocaol efallai, yw cael Ieuan yn cyhuddo Tudur o ddefnyddio’i grefft farddol i foli’r werin, a hynny er budd neu dâl (gw. GTP xiv). Ai’r un agwedd sydd yma ag a fynegir gan Siôn Tudur wrth iddo ladd ar y beirdd am ganu i wŷr israddol, *Nawdd Dduw gwyn rhag naddu gwawd / I’r rhai ni weddai naddwawd* (GST i, 606 (151.83–4), gw. *ib.* ii, 539–41)? Am ddysg y Gramadegau ynghylch pwy y dylid ei foli, gw. GP 34–5, 55–6, 131–2.

- 19 **drud** Am wahanol ystyron yr a., gw. GPC 1086. Nid hawdd yw dewis rhyngddynt, ond y mae'n debygol mai yn yr ystyr 'yn rhyfygus', 'yn ehud' y'i defnyddir yma.
- 21 **arwain glod** Cymerir mai 3 un.pres.myn. yw *arwain* yma gyda *clod* yn wrthrych iddo. Y mae *arwain* yn amwys, a gall olygu 'cludo, cario' neu 'ladrata, dwyn', gw. GPC 214. Ai ergyd cynnil y dychan yw fod Tudur Penllyn yn 'lladrata' clod o'i briod swydd er mwyn moliannu pobl israddol, yn union fel y mae'n 'dwyn' defaid o Ardudwy?
- 22 **cywydd i wrachïod** Dichon y pwysleisir yma nid yn unig isel radd y rhai y canodd Tudur iddynt, ond hefyd mai hen wragedd musgrell oedd gwrthrychau ei 'glod'. A gyhuddir Tudur gan Ieuan o geisio dwyn perswâd ar wragedd er mwyn ymelwa? Ac os cafodd Tudur y gair o fod yn ddiegwyddor yn hyn o beth, tybed a rydd hyn oleuni ar helyntion honedig Tudur Penllyn gyda'r 'wrach' o Gaergwrle (gw. cerdd 1 uchod)?
- 23 **clod y Forwyn** Anodd dweud ar sail orgraff y llsgrau. ai bannod ynteu ardd. a fwriedir gan y llythren y yn llsgrau. ACD. O ystyried y traddodiad o ddefnyddio gwrthrychau crefyddol fel gwrthbwynt dadl farddol, cymerir mai at Fair ei hun y cyfeirir yma; estynnir y ddelwedd grefyddol ymhellach drwy'r cyfeiriad at ddŵr swyn, gw. isod ll. 24n.
- 24 **dŵr swyn** S. '*holy water*'; daw *swyn* o'r Llad. *signum*, ac felly dynoda *dŵr swyn* ddŵr y gwnaed arwydd y groes uwch ei ben. Ar ffurf yr e., gw. LHEB 462–3, cf. ymhellach H. Leclercq, *The Catholic Encyclopedia* (New York, 1907–13), xiii, 292–3; Huw Pryce, *Native Law and the Church in Medieval Wales* (Oxford, 1993), 58. Dŵr ydoedd a fendithid ac a ddefnyddid naill ai ar noswyl y Pasg neu mewn gwasanaeth bedydd. Fe'i cedwid wedyn mewn dysgl er mwyn i addolwyr ei ddefnyddio i ymgroesi wrth fynd i mewn i eglwys, ac weithiau allan ohoni. Yn y 15g. arferid ysgeintio 'dŵr swyn' gan offeiriad ar achlysuron litwrgïol a lled-litwrgïol arbennig i fendithio'r gynulleidfa (gw. ODCC³ 115 d.g. 'Asperges'), a dichon mai at hynny y cyfeiria Ieuan Brydydd Hir.
- 25 **gwêr** Gall fod arwyddocâd arbennig i *gwêr* yma, os at awen Tudur y cyfeirir. Gellid ei ddeall yn i. ffurf ar 'gwâr' (S. *ware*) 'nwyddau'; neu ynteu ii. yn golygu 'cannwyll', mewn ystyr symbolaidd neu ffigurol, cf. y cyfeiriadau at Fair (gw. ll. 23n uchod), a'r dŵr swyn (gw. ll. 24n uchod).
- 38–9 Cymerir mai gwrthrych [g]w^{aherddwch} yw [g]w^r yma, ond efallai y dylid atalnodi'r cwpled yn wahanol a darllen *Na hwrdd, oni w^{aherddwch}. / W^Rr digrif ...*, fel a wneir yn GTP 93 (Atodiad I.39).
- 39 **awgrim** Benthyciad o'r S.C. *augrim*, *augrime*. Y sillafiad hwn a geir yn llsgrau. EF ac fe'i hodlir â *dim* hefyd yn IGE² 229 (llau. 31–2), 272

- (ll. 1), 293 (llau. 19–20). Ond yn D (1632) rhoddir dwy ffurf ar y gair, sef *awgrim* ac *awgrym* (cf. IGE² 59 (ll. 17) a DGG² 30 (XX.3–4)), ac o ran odl, buasai'r un o'r ddwy ffurf yn dderbyniol, gw. D.J. Bowen, 'Pynciau Cynganedd: Odli *I, U* ac *Y*', LICy xx (1997), 139. Arwyddocâd gwreiddiol *awgrim* / *awgrym* oedd y dull arabaid o rifo. '*Awgrim stones*' y gelwid y cerrig a ddefnyddid i'r perwyl hwnnw. Daeth y term wedyn i olygu rhifyddiaeth ac yna unrhyw arwydd; ymhellach gw. DGG² 182 a GDG³ 491.
- 41 **dwyfoch** Cymerir mai rhangymeriad a geir yma.
- 42 **saer cerdd aeth** Ceir y ffurf 3 un.grff.myn. *aeth* yn llsgr. F, a dyna a ddilynwyd yma ac yn GTP 93 (Atodiad I.42). Ond y *lectio difficilior* yn sicr yw [g]*waeth*, ac o ddeall y ll. yn gymal enwol, gellid dadlau mai dychanu crefft Tudur y mae Ieuan yma, fel y gwneir yn ll. 6.
- heusor coch** Er y gall mai at liw gwallt Tudur Penllyn y cyfeirir yma, y mae'n fwy tebygol mai a. ydyw yn golygu 'tila, sâl', &c.
- 43 **testuniwch ef** Gw. ll. 7n uchod.
- 47 **anwirion** Sef a. yn golygu 'euog, drwg, beius', gw. GPC 166, ond gw. hefyd 6.45 isod am ddefnydd Ieuan Brydydd Hir o'r a. *gwyrrion*.
- 48 **Caer Gynyr** *Caer-gai* a enwir yn 1.16 uchod fel cartref Tudur Penllyn, ond fe'i gelwid gynt yn Gaer Gynyr hefyd. (Ceir enghraifft arall o gyfod y ddau enw yn GHD 18.1–3.) Credid mai ar ôl Cai ap Cynyr yr enwyd y fferm, gw. WLl 26 (XI.4), cf. Thomas Roberts, 'Y traddodiad am y Brenin Arthur yng Nghaergai', B xi (1941–4), 13–14.
- 50 **bob ddau** Cf. 6.48, 12.41 ac ymhellach 12.21 *bob dri*. Am dreigladau y rhifol ar ôl *bob*, gw. Treigladau 145.

3

Yn y drydedd gerdd ymryson a gadwyd rhwng Ieuan Brydydd Hir a Thudur Penllyn, adroddir stori ddigrif am helyntion carwriaethol y ddau fardd pan oeddynt yng Nghaerdydd rywdro. Yn ateb Tudur Penllyn i'r cywydd hwn (gw. At.v), ceir y bardd yn ceisio darbwyllo'r ferch yr oedd Ieuan wedi ymserchu ynddi ynddi (a elwir ganddynt yn Elen) mai godinebwr oedd y Prydydd Hir, ac na ddylai hi ymddiried ynddo.¹ Ceir Ieuan, ar y llaw arall, yn maentumio mai trwy ddichell y llwyddodd Tudur i gymryd ei le yn serchiadau Elen, gan fynnu na fyddai hi wedi ei swyno oni bai am ysblander y fantell o liw arian yr oedd Tudur yn ei gwisgo.² Cwyna Ieuan yn hallt

¹ Yn At.v.29–30, 51, cyfeiria Tudur Penllyn at wraig a thylwyth Ieuan Brydydd Hir.

² Yr awgrym yw i Dudur dderbyn y fantell yn rhodd, efallai gan ei noddwr: *Anfodlon wyf, ynfydloes, / Pr hug ac i'r gŵr a'i rhoes* (llau. 49–50), cf. sylwadau D.H. Evans, 'Ieuan Du'r Bilwg (fl. c. 1471)', B xxxiii (1986), 117.

oherwydd y fantais annheg a gafodd Tudur drwy'r wisg honno, ac addo y deuai eto i Gaerdydd, y tro hwnnw â'i fantell ef ei hun!

Nodweddir y cywydd hwn o waith Ieuan Brydydd Hir, yn ogystal â'r cywydd ateb gan Dudur Penllyn, gan batrwm y stori a gynhelir drwyddynt a'r disgrifiad byw o'r sefyllfa a grëir ganddynt. Er nad yw union arwyddocâd difenwi'r ddau fardd yn eglur ar brydiau, diau mai cellwair eto yw'r cyfan, ac y dylid ystyried y ddwy gerdd hyn yn nodweddiadol o'r corff o ganu ymryson maswedus a ffraeth a fu'n rhan o gynhysgaeth y beirdd drwy gydol y bymthegfed ganrif.³

Golygwyd y cywydd hwn eisoes yn Tudur Penllyn, &c.: Gw 85 ac yn GTP 93 (Atodiad II); cyhoeddwyd y testun a geir yn GTP, ynghyd â chyfieithiad Saesneg ohono, yn CMOC 102 (22). Am destun golygedig arall o gywydd Tudur Penllyn, gw. isod At.v.

1–2 **Elen ... / ... deg** Yn Tudur Penllyn, &c.: Gw 285 dywed Abraham Jenkins fod Ieuan Brydydd Hir yn cymharu ei gariad â 'none other than Elen deg o Landaf of the time of William Rufus', sef 'the daughter of Iestyn ap Gwrgan who, being renowned for her beauty, was called "Elen deg". Her father, Iestyn ap Gwrgan, had built himself a castle at Cardiff.' Ond gan mai un o lsgrau. Iolo Morganwg oedd y ffynhonnell y dibynnodd Jenkins arni am yr wybodaeth hon (gw. *Iolo Manuscripts*, ed. Taliesin Williams (Ab Iolo) (Liverpool, 1848), 25), y mae'n rhaid bod yn ochelgar. Ateg i'r amheuaeth hon yw'r ffaith na chofnodir yn P.C. Bartrum: WG1 'Iestyn' l unrhyw 'Elen' ymhlith plant Iestyn ap Gwrgan. Fel yr awgrymwyd wrth drafod cerdd 1, y mae'n dra thebygol mai ffug yw'r hanes a geir yng ngherddi Ieuan a Thudur ac mai teip o unrhyw ferch landeg oedd yr *Elen* y gweodd y ddau fardd eu stori o'i chwmpas. Er ei bod hi'n bosibl fod y ddau yn cymysgu hanesion annibynnol, diau mai i Elen ferch Eudaf ('Elen Luyddog'), sef cariad lled-hanesyddol Maccsen Wledig, yn hytrach na merch anh. Iestyn ap Gwrgan, y cyffelybir yr eneth o Landaf, gw. ymhellach TYP² 341–3, WCD 234–5.

Caerdyf Hen ffurf ar Gaerdydd. Tybir mai olion hen gyflwr genidol *Taf* a geir yn yr ail elfen, gw. G 95.

5 **annoeth, llwydwyn** Ystyr *annoeth* yw 'ffôl, disynnwyr', GPC 145. Gan fod *llwydwyn* yn golygu 'llwydaidd, briglwyd' a 'rhinweddol, sanctaidd', dichon y bwriadwyd yr a. yn goeglyd, gw. GPC 2241.

³ Am drafodaeth ar y canu maswedd, gw. DGIA 38–66; Dylan Foster Evans, 'Goganwr am Gig Ynyd': *The Poet as Satirist in Medieval Wales* (Aberystwyth, 1996); J. Hunter, 'Cydestunoli Ymrysonau'r Cywyddwyr: Ciplwg ar "Yr Ysbaddiad Barddol"', *Dwned*, iii (1997), 33–52; Dafydd Johnston, 'The Erotic Poetry of the *Cywyddwyr*', CMCS xxii (Winter 1991), 63–94, cf. CMOC 11–25.

- 6 **honni hyn** Sef ‘gwneud yn hysbys’, cf. 5.13.
- 7 **trwyn pawl** Am gyfeiriad dychanol arall at faint trwyn Tudur Penllyn, gw. 2.8n uchod.
tid ar draws Ar broflen GPC rhoddir ‘cudyn o wallt’ yn un o ystyron *tid*. Os yw hynny’n gymwys yma, a ellir deall y cymal yn gyfeiriad at flerwch gwallt Tudur Penllyn (cf. 2.3, 4, 8, 45 uchod)? Posibilrwydd arall yw mai dymuniad neu orchymyn a geir yma, ‘[bydded] tid ar [ŵr] traws’, sef ‘bydded iddo gael ei garcharu (am ei drosedd)’.
- 8 **tŷ gwyngaws** Ymadrodd amwys, nad yw union ergyd ei ddychan yn eglur. Mewn awdl a ganodd Deio ab Ieuan Du o’r Creuddyn i Fadog Amhadog, cwyna’r bardd mai caws oedd yr unig fwyd a geid gan Fadog ac mai hynny, yn wir, oedd ei dŷ (gw. ymhellach GDID 39 (16.2), lle y ceir hefyd y cyfuniad *gwyngaws*, ac *ib.* 140, lle yr awgrymir hefyd mai abad Enlli oedd Madog). Ai oherwydd lletygarwch sâl Tudur Penllyn y dychanodd Ieuan Brydydd Hir ef â’r ymadrodd hwn? Ceir enghreifftiau eraill o ddychan i brydau bwyd gan y beirdd, megis y ddau englyn gan Dudur ap Gwyn Hagr a gadwyd yn R 1358.15–20.
- 9 **piler tewlaeth** Cymhariaeth dywyll eto. Ai cyfeirio’n fras at aelod rhywiol Tudur Penllyn y mae Ieuan Brydydd Hir (cf. llau. 23n, 71n isod)? Neu, os yw *gwyngaws* i’w gymryd yn llythrennol yn ddifenwad ar safon y bwyd, gallai *tewlaeth* gyfeirio at gyflwr trwchus ei ddiod, cf. dychan Casnodyn i Drahaearn Brydydd Mawr am fod yn well ganddo yfed *maidd o gaul* (‘gloywon llaeth o flochda’) yn hytrach na *medd o garn*, sef diod urddasol, gw. GC 11.12.
- 13 **Euron** Dichon mai cyfeiriad yw hwn at gariad (gwraig, efallai) Llywel-yn ab y Moel, y sonnir amdani gan feirdd diweddarach fel patrwm o harddwch. Arni, gw. GSCyf 8.42n, 12.49n, 13.3n, 16.62n, 70n; cf. hefyd IGE² 177 (llau. 24, 32), 190 (ll. 14); 205 (ll. .3); 209.21; GGI² 15 (V.32).
- 22 **eiddig** Am drafodaeth ar dopos y dyn eiddig, gw. DGIA, mynegai, d.g. *Eiddig*.
- 23 **tors o wlân** Am wahanol ystyron posibl *tors*, gw. Nicholas Jacobs, ‘*Tors*: (1) ffagl, (2) ?Gorchudd, (3) “Membrum virile”’, SC xxx (1996), 295–8. Dichon mai arfer Tudur o hel defaid a ysgogodd y gymhariaeth â ‘gwlan’, er ei bod yn bosibl hefyd mai dychanu aelod ei gyfaill y mae Ieuan Brydydd Hir (gw. uchod ll. 9n ac isod ll. 71n). Yn TA 144 cymerir mai ‘hugan, mantell’ yw ystyr *tors*, ond yn GSC 41.51 ‘ffagl’ yw’r ystyr, gw. *ib.* 233.
- 24 **Dudur wladaidd** Dewisodd Thomas Roberts, GTP 94 (Atodiad II.24), ddilyn llsgrau. AC a darllen *Dudur leidr*, gan roi ll. sy’n fyr o sillaf. Ond ceir [g]wladaidd yn llsgrau. BF (ni cheir y ll. yn llsgrau. DEG). Yn ll. 65 dengys Ieuan Brydydd Hir ei fod yn gwybod hyd cynganeddol

cywir *lleidr*, a gellir amcanu mai'r darlleniad a geir yn llsgrau. BF sy'n gywir yma. Fodd bynnag, ceir camosodiad *d* ac *r* yn y ll., oni ddylid ystyried mai cynghanedd draws a fwriedir gydag un *d* yn ateb dwy.

- 41 **chwarthawr** Rhydd GPC 845 yr ystyr 'darn neu aelod o gig, *S. leg, saddle, joint of meat*' i *chwarthor*. Eg. a b. ydyw, a gwelir ansicrwydd cenedl y gair yn yr amrywiadau. Diau mai goganu llun corff Tudur eto y mae Ieuan.
- 52 **gwaglwylf** Gw. GPC 1554 am wahanol ystyron *gwaglwylf*, a cf. yr amrywiad *gwayw glwylf* a geir yn llsgrau. CDE. Ymddengys mai coeden ydyw, megis y bisgwydden neu'r palalwylf; ymhlith *marginalia* llsgr. D ceir y glôs *S. 'linden tree'* ar gyfer y ll. hon. Defnyddir *gwaglwylfen* mewn cyd-destun bras hefyd gan Guto'r Glyn, gw. CMOC 130 (29.9–10).
- 55 **arwydd Ithel** Nodir yn Tudur Penllyn, &c.: Gw 285 mai'r *Ithel* y cyfeirir ato yn ll. 55 oedd hendaidd yr Elen yr honnwyd ei bod yn ferch i Iestyn ap Gwrgan (gw. ymhellach EWGT 105, 122). Ond gall mai at haelioni rhyw noddwr penodol y cyfeiria Ieuan Brydydd Hir; dyna, fe ymddengys, oedd barn Thomas Roberts yntau. Wrth drafod *arwydd Ithel*, cynigiodd y 'disgwyliai I[euan] B[rydydd] H[ir] dderbyn hugan arian megis ag a gafodd un o'r beirdd gynt trwy haelioni noddwr o'r enw Ithel' (GTP 144). Ai Ithel ap Robert, noddwr Iolo Goch, yw'r un a olygir yma (arno, gw. GIG 264–6; GGI² 261 (C.24), 275 (CVII.1–2)), neu ai fel teip o noddwr hael y cyfeirir ato? Ac yntau'n eglwyswr o bwys, efallai mai cyfeiriad at gob addurnedig Ithel ap Robert yw *arian hug* a fyddai'n 'arwydd' i Ieuan. Ond gan fod Ieuan yn addo dod â'i fantell ef ei hun, teg yw gofyn ai *Ithel* oedd enw un o'i noddwyr yntau, ac efallai'r un y câi'r fantell arian ganddo? Cyfeirir at glogau ysblennydd mewn perthynas â beirdd eraill, megis Guto'r Glyn, gw. *ib.* xix. Yn GSC 2.1n, arwydd o statws a chyfoeth ei pherchennog oedd *hug euraid* Huw Llwyd, Gwern-y-gof.
- 57 **llyisiau'r Mai** *S. 'Ox-eye daisies' (Chrysanthemum leucanthemum)*, gw. GPC 2280.
- 59 **uwch Llundain waith** 'Gwell na dim a wneir yn Llundain'.
- 61 **archangel** Yn HS 26 (cf. diwygiad GGI² xix) cyffelybir ysblander clog Guto'r Glyn i fantell yr archangel Mihangel: *Mantell Mihangel Felyn / Y sy glog eos y Glyn / lawn y rhoddes nai Rhydderch / Singlys aur draws angel serch*. Ef, o bosibl, yw'r *archangel* y cyfeirir ato yng nghywydd Ieuan Brydydd Hir. Ergyd y dychan gan Ieuan yw mai Mihangel a amddiffynnai Gristnogion yn erbyn grym y Fall. Dethlid gwyliau'r archangel Mihangel ar 8 Mai a 29 Medi.
- 71 **da i'w bonllost** Ystyr *bonllost* yw 'cynffon; paladr gwaywffon; cal', gw. GPC 300. Diau mai'r un ddelwedd yw hon ag a geir gan Ddafydd

ap Gwilym yn CMOC 28 (1.23–4), *taradr fal paladr y post, / benlledr a elwir bonllost*, a cf. llau. 9n, 23n uchod. Cymerir mai'r ardd. *i gyda'r rh.m. genidol 'w, yn hytrach na'r cyplad, a olygir gan ddarlleniadau'r llsgrau., gan roi'r ystyr 'maddeuaf i Elen am y ddau dro (neu'r ddwy weithred a siomodd y bardd) y rhoes hi 'dda' (sef 'elw' neu 'rhodd') i'r bardd o Benllyn; a boed i Dduw yn Ei dro faddau hynny iddi hefyd'. Ond byddai deall *da yw hefyd yn rhoi ystyr foddhaol, o'i ddeall yn sangiad.**

- 72 **A Duw a'i maddeuo i'r dyn** Dichon mai at Elen y cyfeirir yma, cf. cyfieithiad Dafydd Johnston, *'and may God forgive the girl for it'* (CMOC 105).

4

Er mor annhebyg yr ymddengys y cywydd brud hwn i weddill corff canu Ieuan Brydydd Hir, eto ceir copiâu ohono mewn cynifer â naw llawysgrif ar hugain. Y mae'r mwyafrif llethol ohonynt yn ei briodoli iddo, a gellir dyddio'r gynharaf, sef Pen 53, oddeutu 1495.¹ O gofio cyn lleied o gerddi a gadwyd inni o waith Ieuan, ymddengys y priodoli cyson a chynnar yn achos y cywydd neilltuol hwn yn arwyddocaol. Er hynny, y mae'r cerddi darogan yn aml yn debyg iawn i'w gilydd o ran eu hieithwedd a'u themâu, ac ni ellir amau nad yw cywydd Ieuan Brydydd Hir yntau'n gyffelyb i gerddi rhai o frudwyr enwocaf yr oes, yn enwedig Dafydd Llwyd o Fathafarn a Robin Ddu o Fôn (Robin Ddu ap Siencyn Bledrydd). Dengys y gymysgfa a geir yn y llawysgrifau rhwng priodoliadau a thestunau'r amryfal gerddi brud mor debyg oedd cynnyrch y *genre*, ac nid afresymol fyddai casglu mai ar gam y tadogwyd y cywydd hwn ar Ieuan Brydydd Hir.² At hynny, cafodd Tudur Penllyn ei hun y gair o fod yn frudiwr,³ ac er bod canu ar destunau brudiol yn eithaf cyffredin yn ail hanner y bymthegfed ganrif, gall mai ef a ysbrydolodd Ieuan i ganu'r unig gerdd o'i bath a geir ar ei enw.⁴ Diddorol hefyd yw'r nifer arwyddocaol o feirdd-offeiriad y cyfnod y priodolir iddynt

¹ Gw. RWM i, 403. Gall mai yn ystod bywyd Ieuan Brydydd Hir ei hun, neu yn fuan wedi iddo farw, y copiwyd y llsg. hon.

² Ond fel y nododd W. Leslie Richards (gw. GDLI 16), ceir cymysgu ac amrywio diderfyn yn narlleniadau'r llsgrau. y diogelwyd y cerddi brud ynddynt. Diau mai o'r gymysgfa hon y deillia'r gwahanol briodoliadau hefyd.

³ Sylwodd Thomas Roberts ymhellach fod Tudur Penllyn nid yn unig yn enwog fel brudiwr (cf. GOLIM 49 (25.7), GTP 96 (Atodiad IV.7) *ein brut ydoedd*), ond bod ganddo hefyd gysylltiad agos â phrif bleidwyr Siasbar a Harri Tudur yng ngogledd Cymru, gw. GTP xvi.

⁴ Gwyddys i rai o'r brudwyr ddwyn arfau yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynnau, ac os dylid darllen *gwr rhi[?]* yn y llinellau anorffen a geir yn LlSt 118, 237 o'r farwnad a ganodd Owain ap Llywelyn ab y Moel ar ôl Tudur Penllyn (gw. GTP *l.c.*), yna efallai fod Tudur wedi ei restru mewn byddin neu wedi bod yn un o nifer o wŷr llys, gw. GTP 145 (ll. 63n). A gymerodd Ieuan Brydydd Hir yntau ran yn rhyfeloedd y cyfnod?

gerddi proffwydol, a chyda'i ogwydd crefyddol amlwg, gellir tybied mai ei gysylltiad â'r gwŷr wrth grefydd a fu'n ysbardun bosibl arall i Ieuan ganu'r cywydd brud hwn.⁵ Ond yr oedd gweithiau Sieffre o Fynwy, yn enwedig y *Prophetiae Merlini*, yn dra hysbys i'r beirdd Cymraeg, a bron na ellid dweud bod delweddau'r proffwydoliaethau hyn yn rhan o'u hetifeddiaeth frudiol gyffredin.⁶

Nid hawdd yw dyddio'r un o'r cerddi darogan i sicrwydd,⁷ ond ar bwys trydydd arhosiad Siasbar Tudur yn Llydaw (1468–71) cynigiodd Eurys Rolant ac R. Wallis Evans ddarfod canu'r cywydd hwn rywdro rhwng diwedd 1469 a haf 1470.⁸ Fodd bynnag, mynegir yn y nodiadau cefndirol a roddir yn LlyB 131–4 gryn betruster ynghylch dehongli'r delweddau. Awgrymir mai Siasbar Tudur a Harri VI yw gwrthrychau mwyaf tebygol rhai o'r cyfeiriadau a geir ynddo, er ychwanegu na ellir bod yn bendant ynglŷn â hyn. Yr *ych*, yn ddiau, yw'r arwydd brudiol a arferid amlaf am Siasbar; ond cynigir yn LlyB 131–2, 'Nid cyfan gwbl amhosibl fod y *Tarw* ([llinell] 14) a *iarll* ([llinell] 16) yn cyfeirio at Harri Tudur, nid Siasbar, *Harri* ([llinell] 19) at Harri Tudur nid Harri VI, ac y *gŵr hen* ([llinell] 49) yn cyfeirio at Siasbar nid Harri VI' (ystyryr y farn honno yn y nodiadau ar y llinellau perthnasol isod). Gellid disgwyl, efallai, y byddai llawer o ddelweddau brudiol y cywydd hwn—megis yn achos llu o gerddi tebyg iddo—yn troi o gwmpas Siasbar Tudur. Ond y mae lle hefyd i amau iddo fanteisio ar bosibiliadau gwleidyddol y *genre* proffwydol, ac mai rhan o leiaf o'i gynllun oedd gweithredu'n fwriadol i gyflawni disgwyliadau'r daroganau trwy gyfrwng y delweddau a geir ynddynt. Bu Siasbar yn Llydaw ac yn Iwerddon, sef dau o leoedd arwyddocaol y canu brud; a gall mai symbolaidd hefyd oedd dewis Mill Bay, Aberdaugleddau, yn fan glanio

⁵ Trafodir agweddau ar dwf a dylanwad y canu darogan yn EVW *passim*; R. Wallis Evans: *Dar passim* (rhestrir y cywyddau brud tt. 230–8); *id.*, 'Trem ar y Cywyddau Brud' yn HSt 149–63; *id.*, 'Prophetic Poetry', GWL ii², 256–74; M.B. Jenkins, 'Aspects of the Welsh Prophetic Verse Tradition in the Middle Ages' (D.Phil., Cambridge, 1990); E.W. Jones, 'Wales and Bosworth Field—Selective Historiography?', Cylch LIGC xxi (1979–80), 43–75; Glanmor Williams, 'Prophecy, Poetry and Politics in Medieval and Tudor Wales' yn *id.*, *Religion, Language and Nationality in Wales* (Cardiff, 1979), 71–86; G.A. Williams, 'The Bardic Road to Bosworth: A Welsh View of Henry Tudor', THSC, 1986, 7–31. Ceir rhestr o astudiaethau pellach gan R. Wallis Evans ac eraill yn *Llyfryddiaeth Llenyddiaeth Gymraeg* i, gol. T. Parry ac M. Morgan (Caerdydd, 1976) ac *op.cit.* ii, gol. G.O. Watts (Caerdydd, 1993).

⁶ Ar broffwydoliaethau Myrddin a'u harwyddocâd, gw. J.J. Parry and R.A. Caldwell, 'Geoffrey of Monmouth', *Arthurian Literature in the Middle Ages*, ed. R.S. Loomis (Oxford, 1959), 73–80. Teg yw sylwadaeth golygyddion y bennod hon, 'The *Prophetiae Merlini* were taken most seriously, even by the learned and worldly wise, in many nations ... There was scarcely a cranny of Christendom outside the Eastern Church which did not recognize Merlin as a great seer' (*op.cit.* 79). Trafodir cyfieithu'r proffwydoliaethau hyn i'r Gymraeg yn B.F. Roberts, 'Copiau Cymraeg o *Prophetiae Merlini*', Cylch LIGC xx (1977–8), 14–39.

⁷ Gw. G.A. Williams, *op.cit.* 18, 'very many vaticinal poems, possibly even the majority, are so generalised that they cannot be ascribed to even broadly defined periods'.

⁸ LlyB 132, cf. WWR 188–92. Tueddaf i feddwl mai ychydig cyn brwydr Bambri (Edgecote) y canwyd y cywydd hwn, gw. isod ll. 22n.

Harri Tudur yn 1485.⁹ Teg yw gofyn ai Siasbar a fu'n tylino'r delweddau hyn i'w ddiibenion ei hun?

Daw hyn at gwestiwn arall, sef i ba raddau y credid yn llythrennol yn y cerddi brud erbyn ail hanner y bymthegfed ganrif. Yn ôl R. Wallis Evans, 'the prophecies ... certainly prepared the way and the nation for the victory at Bosworth. They throw important light on a fateful period in the history of Britain when prophecy literally overwhelmed politics, poetry and the minds and thoughts of the Welsh people'.¹⁰ Ond er nad oes amheuaeth ynghylch eu pwysigrwydd a'u defnyddioldeb ym meddylfryd gwleidyddol y cyfnod, y mae'n llai tebygol y coleddid y 'proffwydoliaethau' yn eu crynswth gan bawb, yn enwedig gan arweinwyr y gymdeithas Gymreig gyfoes.¹¹

Nid yw'r cywydd hwn o waith Ieuan Brydydd Hir yn torri cwys newydd yn hanes y *genre* brudiol. Y themâu a'r symbolau arferol a geir ganddo gan mwyaf, a hynny, yn ddiau, er mwyn diddanu pwy bynnag a'i noddodd. Ond yn y cyfuno y gwelir ei wreiddioldeb, mewn datganiad celfydd a chymen o'r gobeithion gwleidyddol a chenedlaethol a leisid drwy gyfrwng y cerddi proffwydol, wedi eu gweu drwy'r ymwybyddiaeth gyfoes â hanes y Cymry a'r gobaith am ddyfodol y genedl.

Golygwyd y cywydd hwn eisoes yn Tudur Penllyn, &c.: Gw 105; fe'i golygwyd eto, ynghyd â thrafodaeth arno, yn LlyB 112–14 (XV). Cyhoeddwyd y testun a geir yn Pen 53 (wedi ei olygu) yn *Llên Cymru*, gol. T. Gwynn Jones (Caernarfon, 1921), i, 24–5; ceir testun diplomatig ohono hefyd yn *Peniarth* 53, gol. Henry Lewis (Caerdydd 1927) 65–7 a thestun golygedig arall (heb nodiadau) gan R. Wallis Evans yn 'Cywydd brud gan Ieuan Brydydd Hir o Feirionydd', Cylchg CHSFeir xii (1995), 189–90.

- 1 Cychwyn y testun a geir yn llsgr. E â deg ll. o'r cywydd *Bardd wyffi i'r beirdd a fydd*, a olygwyd yn Dafydd Llwyd: Gw 257 (ond nas cyhoeddwyd yn GDLI). Ll. agoriadol boblogaidd oedd hon, fel y dengys y cerddi brud a briodolir i Dafydd ap Gwilym, Edward ap Rhys a Robin Ddu o Fôn heblaw Ieuan Brydydd Hir a Dafydd Llwyd o Fathafarn. Y mae hyn yn nodweddiadol o'r cymysgu testunol a geir yn aml yn y cerddi darogan, gw. ymhellach sylwadau Erwain H. Rheinallt, GDGor 4 a cf. *ib.* troednodiadau 17 a 18 a gw. llau. 48n a 50n isod.

cafaf Ffurf 3 un.grff.myn. *cael*, 'cafodd'.

⁹ Am y posibilrwydd yr ystyrir mai'r rhyd a elwir bellach yn *Sandyhaven Pill* oedd *Rhyd-y-tywod* y cerddi proffwydol Cymraeg, ac mai dyna un rheswm pam y dewiswyd Mill Bay yn fan glanio Harri Tudur, gw. isod llau. 57–8n.

¹⁰ R. Wallis Evans, 'Prophetic Poetry', GWL ii² 272.

¹¹ Serch hynny, dylid cadw mewn cof y pwyslais a roddid gan Senedd Lloegr ar ddylanwad y 'divinations, messonges et excitations' a gyffrôi'r Cymry yn ystod gwrthryfel Glyndŵr, gw. *Rotuli Parliamentorum*, iii (heb fan cyhoeddi na dyddiad), 508–9, cf. J.E. Lloyd, *Owen Glendower* (Oxford, 1931), 55–6n4.

- 3 **pan las** Amlhrs.grff.myn. *lladd*, ‘pan laddwyd’, gw. GMW 126 (§135 (c)). Ai adlais bwriadol a geir yn y gystrawen hon o’r marwnadau a ganwyd ar ôl Llywelyn ap Gruffudd gan Ruffudd ab yr Ynad Coch, Bleddyn Fardd a beirdd diweddarach? Am enghreifftiau tebyg, gw. GBF 36.26, 43, 43, 87, 88, 51.1, 4, 5, 7, 8 a cf. D.R. Johnston, ‘Tri chyfeiriad at Lywelyn ap Gruffudd’, B xxxvi (1989), 97–101. Rhan o dechneg gyffredin y cerddi darogan yw ailadrodd y cys. ‘pan’ o flaen gwahanol adrannau’r proffwydo, gw. llau. 13, 23, 35, 47 a cf. HSt 153.
- Llywelyn** Llywelyn ap Gruffudd, a laddwyd 11 Rhagfyr 1282. Trafodir hanes ei ladd ger pont Irfon ym Muellt gan J. Beverley Smith, *Llywelyn ap Gruffudd* (Caerdydd, 1986), 377–82, ac yn *Llywelyn ap Gruffudd, Prince of Wales* (Cardiff, 1998), 550–67. Y mae’n anodd penderfynu a ddylid cadw trefn y ll. hon fel y’i ceir yn llsgr. b, sef Pen 53, 126 (cf. LlyB 112 (XV.3)); er ei gynhared, y mae yn y fersiwn hwnnw nifer o wallau testunol amlwg. Rhennir tystiolaeth y llsgrau. cynharaf yn weddol gytbwys rhwng y ddau brif amrywiad, ac efallai fod cadw’r cymeriad llythrennol o blaid y darlleniad a gynigir yma.
- 8 **ni a gawn nerth** Gellir cystrawennu llau. 8–10 mewn rhagor nag un ffordd. Cymerir yma mai nerth (awen broffwydol?) Taliesin a’r ddau Fyrddin a olygir, cf. IGE² 267 (llau. 17–18) *Nesnes mae cerdd Daliesin, / Wrawl ei ffydd ar ael ffin* (Siôn Cent). Ond a ddylid eu haralleirio ‘cawn nerth drwy degwch geiriau digeirdd Taliesin [a’r] ddau Fyrddin’?
- 9 **Taliesin, dau Ferddin** Ceir ymadrodd tebyg yng nghywydd brud Ieuan ap Rhydderch, IGE² 233 (llau. 3–6) *Dull Tal-, tri hual traheirdd, / -iesin, a’r ddau Ferddin feirdd, / A dull, gwn nad deall gau, / Yr Eryr gynt ar eiriau*. Apelïai’r beirdd at awdurdod y tri bardd-broffwyd: *pwy bynnag a ddywetto ei fod yn arwyddfardd gwybydded achoedd brenhinedd a thowysogion a chyfarwyddydd oddi wrth y tri phrifardd a fu yn ynys Brydain nid amgen Merddin mab Morfryn Merddin Emrys a Thaliessin ben beirdd* (ceir adysgrifiad o’r testun yn D. Gwenallt Jones, ‘Rhethreg yng Nghyfundrefn y Beirdd’, Ll xii (1933), 158). Ceir chwedlau am Fyrddin fab Morfryn (Myrddin Wyllt) a Myrddin Emrys (Merlinus Ambrosius) yn Sieffre o Fynwy a’r rhamantau. Y mae’n bosibl mai Gerallt Gymro a syniodd gyntaf fod dau Fyrddin, sef y *Merlinus Ambrosius* a grëwyd gan Sieffre a *Merlinus Silvestris* y daroganau Cymraeg, gw. L. Thorpe, *Gerald of Wales, The Journey through Wales and The Description of Wales* (Harmondsworth, 1978), 192. Am gyfeiriadau pellach, gw. GDGor 71, TYP² 214, WCD 492–500.
- 11 **ar osteg** ‘Yn gyhoeddus’, cf. GIG 76 (XVI.47) a gw. ymhellach GPC 1514 d.g. *gosteg*.
- 12 **[ei]n gobaith** Ymddengys fod gobaith yn fath o *leitmotiv* yn y canu brud, cf., e.e., Rhys Goch Eryri, IGE² 337 (llau. 19–22), *A oes obaith i’n*

iaith ni, / Faith gof awdl, fyth gyfodi? / Oes! Oes! Cwynwn anfoes caith, / Bo iawn gwbl, byw yw'n gobaith ac ib. 265 (ll. 10) Gobeithiaw a ddaw ydd wyf (Siôn Cent); Llyma'r amser a'n gweryd, / I'n tarw bach anturio byd; ... Y mae hiraeth am Harri / Y mae gobaith i'n hiaith ni (Robin Ddu, gol. G.A. Williams, 'The Bardic Road to Bosworth: A Welsh View of Henry Tudor', THSC, 1986, 23).

- 13–14 **Pan ddêl ... / O'r tir draw y tarw i'r drin** Am restr o'r enwau a arferid i ddynodi'r mab darogan—yr arwr brudiol—a'i elynion, gw. GWL ii², 266–8. E. a roddid yn gyffredin ar y mab darogan yw'r *tarw*, yn enwedig ar aelodau o deulu Penmynydd, fel y dangosir yn GDGor 6.57n. Awgrymir yn LlyB 132 y gall mai at Siasbar Tudur y cyfeiria'r ddelwedd. Gan mai iarll Penfro ydoedd, nid yw'n annhebygol ychwaith mai ef oedd yr *iarll* a ddeuai i fynnu *tir Llywelyn* (gw. ll. 16n). Cryfheir yr uniaethiad hwn gan dri arhosiad Siasbar yn Llydaw, gw. WWR 154, 170, 195–6. Sut bynnag, awgrymir hefyd yn LlyB 131–2 nad amhosibl mai Harri Tudur yw *tarw* y ll. hon. Yn GDGor 6.53–4, 57–61, 65 y mae'n sicr mai at Harri Tudur y cyfeiria *tarw*, ond dylid cofio mai i gyfnod ychydig cyn i Harri lanio ym Mill Bay, Dale ger Aberdaugleddau ar 7 Awst 1485 y canwyd cywydd Dafydd Gorlech. Yn niwedd chwedegau'r 15g. nid oedd Harri na'i achos mor amlwg, cf. ll. 16n.
- 16 **iarll** Yr oedd Eurys Rolant yn ansicr ai Siasbar Tudur ai Harri Tudur a olygid gan y teitl hwn, gw. ll. 14n a cf. LlyB 131–2 (ar l. 16). Eithr fe ellid dadlau y byddai Harri Tudur yn ifanc ac yn weddol ddiarwyddocâd tua'r cyfnod 1467–70, a bod cyfeirio at Siasbar yn llawer mwy tebygol yma. O blaid deall Siasbar, cf. LlyB 111 (XIV.9–14) a DN 34 (XII.9–10) *Siasbar yw darpar y dawns, / Nai Siarls o ddinas Orliawns. / Iarll hydr—o hil Llŷr Llediaith— / Penfro yw'r pennaf o'r iaith.*
- eilwaith** Cynigir yn LlyB 132 ei fod yn gyfeiriad posibl at yr awdurdod a oedd gan Siasbar Tudur yng Nghymru yn ystod y cyfnod 1456–60 drwy ddylanwad y frenhines Margaret. Ond hwyrach nad oes raid bod mor bendant â hynny; gallai'r adf. fynegi'n syml y gobaith y deuai arweinydd eto i lywodraethu yng Ngwynedd rydd y dyheu brudiol.
- 17 **hirddellt** Dewisodd Eurys Rolant ddiwygio'r a. clwm hwn yn *hyrddellt* (o *hyrdd* ('gwth') a *dellt* ('gwayw wedi ei falurio')), gan gredu nad oedd yr ystyr 'hir ei ddellt' yn dderbyniol. Ond dywed hefyd y gellid rhyw synnwyr o'r darlleniad fel y saif, o'i ddeall fel 'gwayw hir a aeth yn ddellt' (er ychwanegu nad yw hynny'n 'gystrawennol debygol', gw. LlyB 132). *Hirddellt* a geir ym mhob llsgr. o bwys, ac ni welwyd bod y cyfuniad hwn yn peri trafferth. Fe'i ceir hefyd yn TA 195 (XLVII.41) lle y cadarnheir tebygolrwydd y darlleniad *hir* + *dellt* drwy fod sôn yno am *lath hir onn* (ll. 35) a [g]laif *onn mawr* Gruffudd Llwyd ab Elisau (ll.

42); cf. *onnwayw mawr* uchod ll. 14. O dderbyn bod yr adran hon o gywydd Ieuan Brydydd Hir yn cyfeirio at ddiwedd y frwydr dyngedfennol pan fyddai gwaed y Saeson yn cael ei dywallt *i'r gwellt* (gw. ll. 18n), gellid dadlau mai addas iawn fyddai delwedd y waywffon hir faluriedig yn sgil rhyfela ffyrnig.

- 18 **gwnaed eu gwaed i'r gwellt** Diau mai ffurf 3 un.grch., yn hytrach nag amhrs.grff.myn., yw *gwnaed* yma. Am enghreifftiau cyffelyb o'r un topos, gw. LIDC 66 (31.24) *maglei gwaed ar guelld* ('Pa wr yw'r Porthor'); EWSP 436 (53c) *ar wyneb y gwellt y gwaet*, cf. *ib.* 436 (56c) *oed gnodach y gwaet ar wyneb y gwellt* ('Canu Heledd'); GMB 11.39 *nid heb waed ar wellt* (Gwalchmai ap Meilyr). A ellir gweld yn y ll. hon gan Ieuan Brydydd Hir wrthdroi'r golled a fynegir yng nghanu Heledd ar ôl dinistr y Dref Wen gan y Saeson? Ceir trychiad yng nghystrawen y cwpled, a chymerir mai'r ystyr yw 'Un sy'n gwahardd [neu 'amddiffyn yn erbyn'] Saeson, â'r waywffon hir faluriedig, boed i'w gwaed [ddisgyn] i'r gwellt.'
- 19 **Harri** Sef Harri VI, a oedd wedi ei ddisodli gan Edward IV yn 1461, gw. LlyB 133. Ond fel y dangoswyd gan H.M. a N.K. Chadwick, *The Growth of Literature*, i (Cambridge, 1932), 454n, hyd yn oed yn y 13g. yr oedd *Henri* eisoes yn e. generig ar unrhyw frenin Lloegr.
- 20 **y wadd** Y mae'n debygol mai'r Rhisiart III ifanc yw'r *wadd* yn y canu darogan diweddar, a chyfeirid ato â'r e. Llad. *talpa* ('gwadd, twrch daear'), gw. ymhellach GDGor 99 (Mynegai (i.)) d.g. *gwadd, eilwadd, twrch daear*. Ond er y cyfeirir at Risiart yn ddiamau fel *gwadd* yng nghanu wythdegau'r 15g., eto, ai diogel casglu bod hyn yn digwydd o reidrwydd yn niwedd y chwedegau? Fel y nododd R. Wallis Evans, 'some animal names ... like *y wadd* denote the enemy whoever they may be' (*id.*, 'Prophetic Poetry', GWL ii², 266–8). Fel y nodwyd yn achos y *tarw*, gw. llau. 13–14n, hwyrach fod y termau brud yn llawer mwy ystwyth eu harwyddocâd nag y tybiwn.
- 22 **tân** Ymddengys yr ystyrir *tan*, fel y'i cofnodir yn y llsgrau., yn ardd. yn LlyB 113 (XV.22).

y tair tunnell Cynigiodd Eurys Rolant mai at Risiart III y cyfeirir yma, gw. LlyB 133. Ystyr fwyaf cyffredin *tunnell*, fel y sylwyd *l.c.*, oedd 'baril o win', er mai anodd gwybod union ystyr hynny yng nghydestun y cywydd hwn. Ond y mae'r tair tunnell hefyd yn ddelwedd herodrol gyffredin, yn un a gysylltir yn aml ag enwau personol neu enwau lleoedd a'r elfen *-ton* ynghlwm wrthynt. Os cyfeiriad at ran o arfbais benodol a geir yn y ll. hon, gellid meddwl am deulu'r Wogoniaid, a chwaraeodd ran flaenllaw yn Rhyfeloedd y Rhosynnau, gw. ymhellach ByCy 1023–5. Canodd Ieuan ap Tudur Penllyn farwnad ar ôl Wmffre Fychan (gw. GTP 86 (49)), gan goffâu hefyd John

Wogan—'Wgon' fel y gelwir ef yn y cywydd—mab Syr Henry Wogan (*ob.* 1475) a Margaret, chwaer Syr William Herbert, Iarll Penfro a Syr Rhisiart Herbert o Golbrwc, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 2 a 'Godwin' 8. Os yw'r nodiadau a roddir wrth yr achresi yn gywir, y mae'n debygol mai hwn oedd y John Wogan a laddwyd un ai ym mrwydr Bambri (Edgecote, 26 Gorffennaf 1469), neu yn fuan wedyn drwy ei ddienyddio, gw. WWR 184; GTP 141–2; R.A. Griffiths: PW i, 150–1; ByCy 1024. Dengys yr achresi fod perthynas deuluol rhwng y Woganiaid a'r Herbertiaid (gw. *ib.* 228), er nad yw'n sicr beth oedd y berthynas rhwng John, mab Syr Henry Wogan, a'r Wmffre Fychan y canodd Ieuan ap Tudur Penllyn ei farwnad. Gŵr cyntaf Maud Clement oedd Syr John Wogan, ond ei hail ŵr oedd Gruffudd Fychan ap Gruffudd o Gorsygedol, ac os aelod o deulu Corsygedol oedd yr Wmffre a enwir yn y farwnad, byddai hynny'n esbonio'r cysylltiad rhyngddo ac Ieuan ap Tudur Penllyn. (Diolchir i Mr Dylan Foster Evans am yr awgrym hwn.) Cefnder i Syr Henry Wogan oedd Syr Harry Wogan yr hanai Woganiaid Boulston, Daugleddau, ohono. Ceir 'tair tunnell' (*S. three tuns*) yn un o chwarteri eu harfbais hwy; am fanylion pellach, gw. M.P. Siddons, *Visitations by the Heralds in Wales* (Harleian Society, New Series, xiv (London 1996)), 76; DWH ii, 607. Ond er mai'r gangen honno o'r Woganiaid yw'r unig deulu yng Nghymru a fu'n dwyn y ddyfais hon, rhaid bod yn ochelgar cyn mentro mai atynt hwy y cyfeirir yma. Os dilynwyd y rheol, y mae'r ffaith mai chwarter ac nid prif ddyfais teulu Boulston yw'r 'tair tunnell' yn awgrymu'n gryf mai trwy briodas y'u hychwanegwyd i'w harfbais, ac efallai mai at ryw deulu y tu allan i Gymru y cyfeiria'r ddelwedd herodrol hon.

Os 'gwneuthurwr barilau' yw ystyr [*c*]ylchwr (gw. ll. 32n isod), a ellid ei gysylltu â'r *tair tunnell*? Ac os cywir, mewn gwirionedd, fod y ddwy ddelwedd hyn yn cyfeirio at y Woganiaid, teg yw gofyn a fu rywdro ymwneud rhwng Ieuan Brydydd Hir ac un neu fwy o ganghennau'r teulu hwnnw; ac ai ar eu cyfer hwy y canwyd y cywydd, efallai cyn brwydr Bambri? Nid yw'n ffaith heb ei harwyddocâd ychwaith mai Catrin, merch John Wogan o Bictwn, oedd gwraig Owain Dwnn, Modlysgwm, Cydwelli, sef ŵyr yr Henry Don a fu'n cynorthwyo Owain Glyndŵr (gw. R.R. Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Oxford, 1995), mynegai). Mab i Owain a Chatrin oedd Harri Dwnn a laddwyd hefyd ym mrwydr Bambri, gw. ymhellach P.C. Bartrum: WG1 'Llywelyn ap Gwrgan' 2 a ByCy 163.

- 23 **yr haf hinfelyn** Un o'r arwyddion brudiol pwysicaf, gw. EVW 154, 166; 'Proffwydoliaeth yr Haf Hinfelyn', Pen 50 ('Y Cwta Cyfarwydd'), 300, a gw. ymhellach M.B. Jenkins, 'Aspects of the Welsh Prophetic Verse Tradition in the Middle Ages' (D.Phil. Cambridge, 1990), 451–3.

- 25 **Llydaw** Yr oedd enwi Llydaw yn gyffredin, onid yn thema stoc, yn y canu darogan. Fel y dangosir yn EVW 88, 113, 117–18, 154–60 (cf. Arm P² llau. 153, 172), daeth cyfeirio at lynges a hwyliai o Lydaw yn arwydd brud. Cysylltid Rhys ap Tewdwr ac Owain Lawgoch â Llydaw, a gellir meddwl hefyd am dri arhosiad Siasbar Tudur pan oedd yn alltud yno. Cyfeirir at Lydaw yng ngwaith Beirdd y Tywysogion hefyd mewn cyd-destunau crefyddol a gwleidyddol, gw. GLIF 1.38n (Llywelyn Fardd (I)), 26.276n (Gwynfardd Brycheiniog), GLILI 22.23n. Yn GDB 24.60n (Dafydd Benfras) a GBF 36.102n (Gruffudd ab yr Ynad Coch), fformwla i ddynodi pellter ydyw.
- 28 **yr ennaint twym** Rhaid casglu mai cyfeiriad at Gaerfaddon a geir yma, os gellir derbyn ôl dylanwad *Historia Regum* Sieffre o Fynwy ar themâu'r canu brud, gw. BD 109 *ena yd oerant eneint Badvn* (cf. geiriad Llad. yr un testun, *frigebunt Badoni balnea*; a'r *balnea ... Badonis* y cyfeirir ati yn *Annales Cambriae* fel e. lle yng ngwlad y Hwicce, gw. *Nennius: British History and The Welsh Annals*, ed. J. Morris (London, 1980), 57, 81)). Ond gall hefyd mai cymharu unrhyw wres â *deuwres* yr haf hirfelyn a fwriedir, cf. hefyd GPC 1218 d.g. *ennain twym(y)*, S. 'a hot bath', a gw. ymhellach EVW 58, 81; LlyB 133.
- 32 **Gannwr, ar gaer gylchwr, gyrrn** Gw. LlyB *l.c.* Dengys yr amrywiadau niferus a geir i'r ll. hon ansicrwydd y traddodiad llawysgrifol yn ei chylch. Dibynnwyd ar y darlleniad a geir yn llsgr. b (cf. SU²VWY¹c), i dorri'r ddadl, er y dylid pwysleisio mai yn betrus iawn y gwneir hynny. Cynigir y gall mai e. clwm, sef 'cant o wŷr neu o filwyr' (gw. GPC 414), a gynrychiolir gan *ganwr* llsgr. b. Gall mai e. lle anh. neu symbolaidd yw *caer gylchwr*, ond awgrymodd Eurys Rolant, LlyB *l.c.*, ddeall y ddwy elfen *caer* a *cylchwr* yn enwau cyffredin. Yn TW (Pen 228) (1604–7), cf. GPC 750, ceir yr enghraifft gynharaf un o *cylchwr* yn yr ystyr 'gwneuthurwr barilau' yn lós ar y Llad. *vietor* (S. *cowper*). Gan na rydd Thomas Wiliems ddyfyniad yn ateg i'r ystyr honno, nid yw'n sicr a ellir olrhain y gair yn ôl i'r 15g. Ond o dderbyn y ceir enghraifft ddilys yn y ll. hon, tybed a ellid hefyd gysylltu'r ddelwedd â'r *tair tunnell* (gw. ll. 22n)?
- 33 **Manaw** Ceir rhestr o brif firwydrau rhyfel y mab darogan yn BL Add 31057, 63, cf. HSt 153 ac EVW 121, 125, 145. Un o'r arwyddion brudiol oedd 'tân ym Manaw', gw. GDGor 98 d.g. *Manaw* a'r cyfeiriadau yno. Fel y gwelir o'r rhain, cysylltid y mab darogan yntau â Manaw.
- 34 **Môn** Am arwyddocâd Môn yn y cerddi darogan, gw. GDGor *l.c.* a'r cyfeiriadau yno.
- 35 **rhyfel rhydd** Ll. ansicr eto, gw. yr amrywiadau. *Pan ddêl dechrau rhyfel rhydd* a geir yn yn y mwyafrif o'r llsgrau. gan gynnwys b (= *ryvel*

rydd), er y gall mai ‘rhudd’ a olygir gan orgraff y rhain, cf. LlyB 113 (XV.35). Ond gellir deall *rhydd* mewn sawl ffordd, a hwyrach y byddai’r ystyron ‘di-rwystr, diatal’ neu ‘cyfreithlon, caniatol’ yn briodol yma, gw GPC 3127–8. (Byddai deall *rhydd* yn yr ail ystyr yn ddi-ddorol o ran deall y canu darogan yn anogaeth i wrthryfel.) Er hynny, ceir enghreifftiau yng ngwaith Ieuan Brydydd Hir lle y cywesgir geiryn ar ôl cytsain (cf. ll. 38 a 6.92 isod), a rhaid ystyried y posibil-rwydd mai [y]r *hydd* a olygid yn wreiddiol, cf. y darlleniad a geir yn llsg. Y². Yr oedd cynganeddu llac a manteisio ar oddefiadau annisgwyl yn sicr yn rhan o arddull y Cywyddwyr pan ganent ar destunau proffwydol. O blaid darllen ‘r *hydd*, gw. GWL ii², 267 lle y dangosir mai *hydd* (S. *stag*) oedd un o deitlau symbolaidd y mab darogan.

36 **gwŷr y ceirydd** Ai cyfeiriad at Saeson y bwrdeistrefi?

37 **yng Nghaer** Ni ellir bod yn sicr at ba ‘gaer’ y cyfeirir yma. Gall mai dinas Caer ydyw, ond weithiau fel ‘Caer’ yn unig y cyfeirir at leoedd eraill megis Caerfyrddin a Chaernarfon; cf. G 95 a gw. A. Parry Owen, ‘Englynon Dafydd Llwyd ap Gwilym Gam i’r Grog o Gaer’, YB xxi (1996), 15–16.

38 **briwir swrn** Anodd penderfynu pa un o wahanol ystyrion *swrn* sy’n gweddu orau. Fe’i ceir yn eg.b. a hefyd yn adf. Yn ôl y dystiolaeth a geir yng nghasgliad slipiau GPC, fe’i defnyddir i olygu (i) ‘nifer (mawr), llawer’, neu (ii) ‘migwrn, ffêr’. Ceir syniad tebyg yn GDGor 7.56 *A briw gwŷr â brig onn / Swrn y Sais, sarnu Saeson*, ond gthg. isod 10.37 *Dyfalw swrn, difawl sôn*.

Aber Saint Sef Caernarfon, gw. GCBM ii, 4.25n. Am hanes brwydr Twthill (1461), gw. WWR 143.

39 **gaer amlwg** Ceir *gwyr amlwg* yn y llsg. hynaf a’r rhai a ddbynnodd arni, sef Y^{1c}, ond y mae tystiolaeth yr holl lsgrau. eraill yn gryf o blaid darllen *gaer*, gw. y nodyn dilynol.

39–40 **caer ... / Gyffin** Gall *cyffin* olygu ‘ffin, goror, terfyn’ (gw. GPC 730), ac os at ddinas Caer y cyfeiria ll. 37 uchod, byddai’r ystyr honno’n gweddu. Ond ceir *Y Gyffin* hefyd yn enw ar Gonwy. Yn LlyB 113 (XV.40, a’r nodyn, *ib.* 134) fe’i deallir i olygu Conwy ei hun, ac ategir hyn yng nghywydd moliant Ieuan ap Llywelyn ap Mali i dref Aberconwy ac i’w chwrrw, *kain win llan Konwy wenllwyd / caer gwayw ffyn caer gyffin wyd* (codwyd y llau. hyn o’r testun a geir yn Card 2.114 [= RWM 7], 210). Yn llsg. J ysgrifennwyd y glôs *kaergyffin* ar ymyl y ddalen a cheir *caer gyffin* yn llsg. Y² (am bosibiliadau eraill, gw. GPC *l.c.* d.g. *cyffin* a cf. G 221). Diwygiwyd y testun a roddir yn LlyB i gynnwys y fannod; ond gan nas ceir yn y llsgrau., cymerir ei bod yn ddealedig drwy ffurf dreigledig yr enw lle. Dichon mai trychiad yw [c]aer amlwg / Gyffin, cf. *caer Ddinbych* ll. 41n.

- 41 **caer Ddinbych** Am warchae Siasbar Tudur ar Ddinbych yn 1461, gw. WWR 111 ac *ib.* 139 am wrthymosodiad yr Iorciaid.
- 42 **tân yn Rhuddlan a Rhos** Nodir yn LlyB 134, ll. 42n, ‘y cantref ar lan dwyreiniol afon Conwy. Efallai mai cyfeiriad sydd yma at gastell Degannwy yn Llanrhos.’ Diddorol yw sylwi bod y cylch o drefi a’r ardaloedd a enwir yn llau. 38–42 i gyd wedi bod o gryn bwys yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynnau, yn enwedig yn hanes ymgyrchoedd Siasbar Tudur.
- 45 **cleddau** Yr oedd Eurys Rolant yn ansicr a oedd *cleddau* yn ffurf ar *cleddyf* neu yn gyfeiriad at Afon Cleddau, gw. LlyB 134. Ymddengys y cyntaf yn debycach, er y dylid cofio mai â Daugleddau y cysylltid Woganiaid Cas-wis a Boulston.
- 46 **coler aur** Yr oedd y sawl a wisgai *coler aur* yn perthyn i urdd y marchogion. Ai at Siasbar Tudur eto y cyfeirir yma?
arth Yn ôl R. Wallis Evans, ‘*arth* usually ... implied treachery and referred to [Henry Neville, the Earl of Warwick], whose banner was a Bear with a Ragged Staff’ (gw. GWL ii², 268). Os Neville a ddynodir â’r motiff hwn (o gofio hefyd y gall *arth* fod yn e.p. ar unrhyw elyn i’r mab darogan), tueddir i gredu mai rywdro yn ystod 1470, cyn i Neville gynghreirio â Siasbar Tudur yn erbyn Edward IV, oedd *terminus ad quem* canu’r cywydd hwn, gw. ymhellach WWR 191.
- 47 **y mab Gwyddelig** Cynigiodd R. Wallis Evans (‘Canu Darogan: testunau amrywiol’, B xxxvi (1989), 88–9) mai at Ruffudd ap Cynan y cyfeirir; serch hynny, un o’r symbolau amwys traddodiadol yw’r *mab Gwyddelig*, gw. EVW 150. Yn ‘Armes Prydain’ hefyd daw gwyr *Dulyn* a *Gwydyl Iwerdon* i frwydro yn erbyn y Saeson, gw. Arm P² 21. Odid y cymhwyswyd motiff brudiol y Gwyddelod at anghenion y canu brud diweddarach, ac mai addas iawn, yn herwydd hynny, fuasai cyplysu hynny ag arhosiad Siasbar yn Iwerddon ar ôl brwydr Twthill. Ato ef, yn ddia, y cyfeiria Lewys Glyn Cothi mewn cywydd moliant i Ddafydd ap Rhys, *Pan ddêl y Gwyddel a’r gwŷr / A’r aliwns, afreohwyr* (gw. GLGC 349 (157.47)). Am hanes Siasbar yn Iwerddon, gw. WWR 143, 146.
- 48 Yn llsgr. T (ac y mae’n debyg yn llsgr. C yn wreiddiol) ceir 52 o lau. y mae’n ymddangos eu bod yn perthyn i gywydd o waith Dafydd Llwyd o Fathafarn (ceir y testun yn GDLI 30–1 (4.21–76), cf. llau. 1n a 50n.
- 49 **y gŵr hen** Gw. ll. 62n.
- 50 Yn llsgrau. HILZa, ceir 28 o lau. y mae’n ymddangos eu bod yn perthyn i gywydd o waith Dafydd Llwyd o Fathafarn (ceir y testun yn GDLI 37 (8.15–42)), cf. ll. 1n a 48n uchod.
- 51–2 **A chroes ... / Aur a wisg ar ei ysgwydd** Ai adlais yw hwn o’r

traddodiad am Arthur yn gwisgo delw o'r groes ar ei ysgwyddau cyn brwydr Baddon? Cf. *Annales Cambriae* ar gyfer y flwyddyn 516, *an. Bellum Badonis, in quo Arthur portavit crucem Domini nostri Jhesu Christi tribus diebus et tribus noctibus in humeros suos et Brittones victores fuerunt* (gw. J. Morris, *op.cit.* 85). Fel y sylwyd droeon, gall mai ffurf megis **scuit* ('tarian') a roes fod i'r gynsail y dibynnodd yr *Annales* arni, ond dengys y ll. hon fod y traddodiad am yr arwr yn gwisgo delw ar ei ysgwyddau yn hysbys i Ieuan Brydydd Hir. Ond dylid cofio mai ar eu hysgwyddau y byddai milwyr yn cario eu tarianau wrth ymdeithio i'r gad.

55 Am enghreifftiau eraill o fotiff y 'ddau (fab) a gyfyd o'u gefyn', gw. GDL1 45 (12.41–2), 48 (13.68–9), 98 (41.66), 164 (75.44). Ymddengys fod hyn yn gyfeiriad amhenodol at arwyr brudiol. 'Llyffethair; hual' yw ystyr *gefyn*.

56 **mab y dyn** Yn yr Oesoedd Canol deallid yr ymadrodd beiblaidd adnabyddus 'mab dyn' yn deitl uniongyrchol Gristolegol, a cheir *mab dyn* a *mab y dyn*, ill dau, yn deitlau am y mab darogan (am enghreifftiau, gw. y cyfeiriadau a geir yn GPC 2293 d.g. *mab*). Cyn y Diwygiad Protestannaidd, *mab dyn* (heb y fannod) yn sicr oedd y teitl Cristolegol mwyaf cyffredin, ond *mab y dyn* a geir bron yn ddieithriad wedyn. Ceir *mab dyn* yng nghanu Beirdd y Tywysogion yn yr ystyr 'person', S. '*human being*' yn unig. Dylid gofyn ai yn fwrriadol y newid-wyd pwyslais y term *mab y dyn* drwy ei fabwysiadu gan gyfieithwyr y Beibl Cymraeg yn yr 16g., a hynny er mwyn diddymu'r hen gysylltiadau brudiol? Yr oedd rhai ohonynt yn sicr yn ddrwgdybus o'r daroganau a'r meddylfryd a gysylltid â hwy.

Gan fod y term *mab darogan* (gw. isod) yn gyfystyr â Christ ac â'r arwr brudiol, cynigir nad amhosibl fod i *mab (y) dyn* yntau arwyddocâd amwys, ac y gall fod ei ddefnyddio'n deitl gwleidyddol yn y cerddi darogan yn dwyn ar gof ei gyd-destun cyfoes esgatolegol hefyd. Fel y sylwodd M.E. Griffiths, EVW 171, 'It is impossible to say at exactly what date the "Son of Man" came to be used as a symbol in political prophecy.' Er ei gael mewn proffwydoliaethau S. cyfoes, a dichon ei fenthyg ohonynt, ychwanega, *ib.* 172, 'By the fifteenth [century] it is found very frequently in Welsh prophecy, and it came to be practically an equivalent for y "Mab Darogan".' Yn *ib.* 172, tynnir sylw at gyfraniad y *Spirituales* (y Ffransisciaid Ysbrydol) i dwf y cysyniad gwleidyddol hwn, a dylid ystyried yn enwedig ddylanwad y *Spiritualis* ifanc Giraldus da Borgo San Donnino, a gyhoeddodd, yn 1254, yr 'Efengyl Dragwyddol', sef detholiad o weithiau Ioachim da Fiore. Nododd R. Wallis Evans, HSt 150, mai 'Un arwydd pendant o ddylanwad Ewrop a welir yn y cyfnodau cyntaf, sef defnyddio *mab y dyn* fel term am y gwron'. Ond os felly, byddai'r term cyfandirol

hwnnw wedi cydasio'n rhwydd â'r ddelwedaeth feseianaidd frodorol y manteisid arni gan y beirdd Cymraeg wrth glodfori eu harweinwyr a myfyrio uwchben eu harwyddocâd cymdeithasol. Yng Nghymru, arferid cyfeirio at benaethiaid mewn termau Cristolegol er yn gynnar iawn. Ceir yr enghraifft gynharaf y gwyddys amdani yn 'Moliant Cadwallon', lle y datgenir mai Crist ei hun a greodd yr arweinydd hwnnw, gw. R. Geraint Gruffydd, 'Canu Cadwallon ap Cadfan' yn AH 28. Yn *Planctus Rhygyfarch*, canlyniadau apocalyptaidd cosmolegol a ddarlunnir yn sgil colli ymreolaeth: *cur nos fata mori ceca negarunt? / cur non terra uorat, non mare mergit? ... fugit honor patrius spesque regnandi; / libertas perit atque uoluntas* (gw. M. Lapidge, 'The Welsh-Latin Poetry of Sulien's Family', SC viii/ix (1973-4), 88-92). Delweddwyd marwolaeth Llywelyn ap Gruffudd yntau yn apocalyptaidd ac yn Gristolegol yn y ddwy farwnad a ganodd Gruffudd ab yr Ynad Coch a Bleddyn Fardd ar ei ôl, gw. GBF 414, 575 a cf. M.B. Jenkins, *op.cit.* 177-202. Ceir cyfochredd Cristolegol cyffelyb yng ngherdd frud Siôn Cent (gw. IGE² 265-7 (LXXXVIII)), lle y cymherir disgwyl cenedl y Cymry am waredigaeth wleidyddol â *disgwyl beunydd* y rhai a fu yn *limbo patrum* ('limbo'r tadau') am [g]eni'r daroganwr. Er bod y teitl beiblaidd hwn yn amlwg yn un y gellid ei gymhwyso at ddibenion gwleidyddol, Crist, yn ddiau, yn hytrach na mab darogan gobeithion brudiol y Cymry, a olygir wrth *daroganwr* yng nghywydd Siôn Cent. Dengys yr adleisio a geir ar lau. 83-94 o'r un cywydd gan Forys Clynnog yn ei femorandwm at Gregori XIII mor hirhoedlog oedd y gymhariaeth hon. Drwy dynnu ar gywydd Siôn Cent, cyplysodd Clynnog yn fwriadol y disgwyliadau gwleidyddol a meseianaidd gan bortredu'r Cymry yn 'disgwyl ... am [gael eu rhyddhau] o ddydd i ddydd gan riddfan ac ochneidio, yn union fel yr oedd y tadau santaidd dan yr hen oruchwyliaeth yn hiraethu am ddyfodiad y Meseia' (gw. T.J. Hopkins a Geraint Bowen, 'Memorandwm Morys Clynnog at y Pab, Gregori XIII yn 1575', Cylchg LIGC xiv (1965-6), 22). Cyfeirir yn uniongyrchol at Grist fel *d'roganwr* gan Ieuan Brydydd Hir yntau yn 8.19 a cheir yr un ddelwedd gan Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 8 (1.271).

57-8 **Rhyd ... / Y Tyfod** Deillia'r e. lle hwn, yn y pen draw, o'r *Sandy Ford* y cyfeirir ato yn y Rhamant a dyfodd o gwmpas Thomas Rigymwr (c. 1225-97); arno, gw. I. Nixon, *The Romance of Thomas the Rhymer* (Copenhagen, 1980) (diolchir i Dr Ronald Black, y cyhoeddir ei astudiaeth ar y pwnc cyn bo hir, am fy nghyfeirio at y ffynhonnell hon). Fe'i haddaswyd yn y cerddi darogan Cymraeg trwy gyfeirio at frwydr a ymleddid mewn lle o'r e. *Rhyd y Tywod Duon* (amrywiad ar *tywod yw tyfod* y testun hwn, cf. GDL1 43 (11.38)). Cynigiwyd yn EVW 210-11 mai cyfateb i'r S. *Sandyford* y mae'r e. lle hwn, er na ddywedir yno pa

un o'r amryw '*Sandyfords*' a geir yn Lloegr a feddylir, cf. GDLI 194 a LlyB 134. Y mae'n gyd-ddigwyddiad trawiadol mai *Sandeford* yw un o'r lleoedd traddodiadol yng nghyffiniau maes Bosworth lle y syrthiodd Rhisiart, er y gellid amau na fuasai'r beirdd Cymraeg yn gyfarwydd â'r e. lle hwnnw, ac y mae'n llai tebygol fyth a fyddai arwyddocâd y lle wedi cyfrif ymhlith blaenoriaethau milwrol y Lancastriaid. Ond os lle penodol sydd y tu cefn i *Ryd y Tyfod* y cerddi proffwydol diweddar, gellid efallai ystyried *Sandyhaven Pill*, sef rhyd fawr dywodlyd yn ymagor i'r môr, sydd heb fod ymhell o Mill Bay lle y glaniodd Harri Tudur yn 1485. Trafodwyd manteision milwrol Mill Bay gan S.B. Chrimes, 'The Landing Place of Henry Richmond, 1485', Cylchg HC ii (1964), 179, ond dengys y ffaith fod Harri eisoes wedi ceisio glanio yn swydd Dorset yn 1484 nad oedd Cymru yn rhan anhepgor o gynllwynion ei blaid. Ni ellir amau, serch hynny, na ddarparai delweddu'r canu brud llyn arall i fwa'r Lancastriaid. A gredid gan Siasbar a'i gynghorwyr mai *Sandyhaven* oedd *Rhyd y Tyfod* y cerddi darogan, ac felly un o'r lleoedd traddodiadol y gellid manteisio arnynt wrth hyrwyddo disgwyliadau'r proffwydoliaethau? A ddewiswyd Mill Bay oherwydd arwyddocâd symbolaidd yr e. lle arbennig hwnnw?

- 60 **Rhonwen** Merch dybiedig Hengist. Fe'i henwir gan y beirdd Cymraeg, weithiau fel *Rhonwen baganes* (gw. TYP² 88), yn drawsnewid am y Saeson neu am Loegr: gelwir Prydain ei hun yn *Ynys Ronwen* yn Pen 94, 176. Plant ac wyrion (sef disgynyddion) Rhonwen, felly, oedd cenedl y Saeson, gelynion y mab darogan; gw. ymhellach J.E. Caerwyn Williams, 'Rhonwen: Rhawn Gwynion', B xxi (1964-6), 301-3.
- 61 **rhan dadannudd** Term cyfreithiol yw *dadannudd* yn dynodi ailfeddiannu, neu adfer treftadaeth, gw. GPC 868. Gwneid hyn drwy gynnal defod dadorchuddio tân ar aelwyd y sawl yr adferid y tir iddynt: 'In Welsh law it becomes the name for a legal action claiming land which was at some previous time held by the claimant's ancestor, whose fire the claimant figuratively uncovers' (*The Law of Hywel Dda*, ed. Dafydd Jenkins (Llandysul, 1990), 261; cf. *id.*, *Cyfraith Hywel* (Llandysul, 1970), 51 a T.M. Charles-Edwards, *Early Irish and Welsh Kinship* (Oxford, 1993), 274-303). Fe'n temtir i feddwl mai symbolaeth y 'tân' tyngedfennol a gynheuir yn ystod rhyfel ymryddhau'r Cymry, sef tân y *tair tunnell*; y tân a welir ym Manaw ac yn Rhuddlan a Rhos, yw defod *dadannudd* y gwardwr cenedlaethol y proffwydir ei fuddugoliaeth. Yn fwy penodol, efallai, yn y gerdd frud gynharaf a ganwyd i deulu diweddar y Tuduriaid, sef cywydd Dafydd Nanmor i ddau fab Owain Tudur (gw. LlyB 112 (XIV.37-44), cf. DN 35-6 (XIII.61-8)), ceir cyd-destun y ddelwedd, *Pan aeth tân—pennaeth hyd hyn— / oll o aelwyd Llywelyn, / o Fôn y cad gwreichionen, / o Ffrainc ac Aberffro wen: / Owain a'i blant yn un blaid, / etewynion* [DN 36

(XIII.66) *yw tywynion*] *Brytaniaid*. / *Iesu i'w gadu yn gadr / i gadw aelwyd Gadwaladr*. Am enghreifftiau eraill o *dadannudd* yn y canu proffwydol, gw. GDL1 45 (12.33), 115 (51.3), 133 (59.59).

- 62 **Yr hen gwyn, ar hyn o gudd** Gw. yr amrywiadau. Yn LlyB 114 (XV), ceir, am lau. 61–2, *Yna cawn ran dadannudd / er hen gwyn, ar hyn, o gudd*, gan ddeall *hen* yn a. sy'n goleddfu *cwyn*. Ond gellir dehongli orgraff mwyafrif y llsgrau. (sef *yr hen gwyn*) mewn dwy ffordd. O dderbyn y golygiad a gynigir yn LlyB, ceid yn ddiau gyfatebiaeth eglur rhwng llau. 1–2 (*Gwynedd, cafas dy genedl / Gwyn dig*) a *hen gwyn*, ac y mae'r adlais yn sicr o blaid y dehongliad hwnnw. Ond *Gwynedd* yw'r gair sy'n cyrchu dechrau'r cywydd (am drafodaeth ar y dechneg, gw. J. Morris-Jones: CD 294), a chan mai cyfuniad genidol a geir o ddarllyn *r[h]an dadannudd / Yr hen gwyn*, y mae lle i gredu mai cyfeiriad yw *yr hen gwyn*, yma, at gymeriad symbolaidd penodol. Ceir yn y llenyddiaeth ddarogan sôn am y *gŵr hen* (cf. uchod ll. 49); *yr hen ŵr gwyn*; *yr hen gwyn*; *yr hen eiriawl* (a. o'r eg. *eira* yw'r olaf), gw. BD 254, a dichon mai'r un un ydynt. Cynigiodd T. Gwynn Jones, *op.cit.* 26, mai at yr arwr traddodiadol Gwyn Gwarther y cyfeiria *gŵr hen*. Diau, fodd bynnag, mai ar sail yr ymadrodd Llad. *niueus ... senex* a geir yn *Prophetiae Merlini* y dyfeisiwyd *hen gwyn*. Gelwir Owain Glyndŵr ei hun gan Lewys Glyn Cothi yn *hen gwyn* (gw. GLGC 410 (187.18), a deall *hen* yn enwol), a chan y disgrifir Glyndŵr hefyd yn *gŵr llwyd hen* mewn rhai testunau (gw. EWSP 250, cf. IGE² 336 (ll. 29) a GDGor 1.90n), rhesymol yw casglu bod *hen gwyn* yn epithet y daethpwyd i'w arfer i gyfeirio ato ef mewn cerddi darogan yn ddiweddarach yn y 15g. Nid annichon ychwaith mai sôn am Lyndŵr—neu yn hytrach y mab darogan yr oedd Glyndŵr yn un enghraifft neu amlygiad posibl ohono—y mae Rhys Goch Eryri yntau wrth gyfeirio at y *sarff* a aeth *i dref* (sef i'w loches, gw. IGE² 336 (llau. 23–4); diolchir i Mr Dylan Foster Evans, golygydd diweddaraf gwaith Rhys Goch, am yr wybodaeth hon), ac efallai y cyfeiria *ar hyn o gudd* at y disgwyl hwn (gw. GPC 173–4 am y gystrawen ag *ar*). Ai cyfeiriad at ailddyfodiad arwr cenedlaethol megis Owain Glyndŵr, neu o leiaf ato ef fel symbol o waredigaeth, a geir gan Ieuan Brydydd Hir drwy sôn am *ran dadannudd / Yr hen gwyn*?

Os cywir bod a wnelo'r dyheu a fynegir yn y llau. hyn ag arwr cymharol ddiweddar megis Glyndŵr, nid yw'n amhriodol mai bardd o Feirionnydd sy'n gwneud hynny. Fel y nododd R.R. Davies, ym Mhennal y cyflwynodd Owain ei lythyr i'w lysgenhadon at Frenin Ffrainc yn amlinellu ei gynllun ar gyfer y Gymru newydd. Am flynyddoedd wedi i'r gwrthryfel ddarfod, arhosodd Meirionnydd yn ardal na ellid ei llwyr dawelu: 'Ym Meirionnydd yr oedd fflam y gwrthryfel wedi ei chynnau gyntaf ym Medi 1400 ... yno y mud

losgodd y wreichionen olaf hefyd. Yn hynny o beth, Meirionnydd oedd curiad calon Cymru' (R.R. Davies, 'A Medieval Merioneth Album: Troi Dalennau'r Gorffennol', Cylchg CHSFeir xiii (1998), 11). Gellid dadlau bod o leiaf ran o'r ymwybyddiaeth honno i'w gweld o hyd yn y cywydd brud hwn o waith Ieuan Brydydd Hir o Ardudwy. Consurir yn ei gerdd, megis mewn cerddi eraill o'r un *genre*, arwyr chwedlonol, hanesyddol a chyfoes o Gymru benbaladr er meithrin gobaith newydd am waredigaeth ac am lawenydd yr oes newydd y dyheid amdani gyhyd.

- 63 **A'r byd a ddaw yn llawen** Am wahanol ystyron posibl *byd*, gw. GPC 361–2. Gall mai amwysedd bwriadol a geir yn y ddwy l. hyn. Os *byd* yn yr ystyr 'trafferth, helynt' (neu hyd yn oed 'cyfoeth, eiddo') a olygir, gellid ei gymharu â *trafferth* (ll. 7), ac â delwedd gyffelyb a geir ym moliant Dafydd Goch ap Maredudd gan Lewys Glyn Cothi, cerdd ac iddi hithau elfen ddaroganol gref: *Bydan Bardd Ysgolan gynt, / chwi a welwch ei helynt. / Byd a fu a byd a fydd, / mae byd hefyd yt Dafydd* (GLGC 381 (173.31–4)). Os ystyr esgatolegol a fwriedir gan Ieuan Brydydd Hir, gall fod yma adlais o'r syniad am *y byd a ddaw* yn y ll. hon. Er na chofnodir yn GPC enghraifft gynharach ohono na Beibl 1588, nid annichon fod Cymreigiad o Lad. y *Credo vita venturi saeculi* yn hŷn na hynny. Dylid nodi, fodd bynnag, fod y proffwydoliaethau a briodolwyd i Fyrddin yn *Historia Sieffre* o Fynwy yn rhag-weld y llawenydd a ddeuai i ran pobl Prydain, *replebitur Cambria leticia* (gw. *The Historia Regum Britanniae of Geoffrey of Monmouth*, ed. A. Griscom (London, 1929), 7.ii), a diau mai dyna'r ystyr debycaf yma. Os Sieffre yn y pen draw oedd ffynhonnell y ddelwedd a geir yng nghywydd Ieuan, diddorol sylwi iddo ddewis pwysleisio Gwynedd yn hytrach na *Cambria* yn ei ddarogan.

5

Y mae'r holl gerddi eraill a briodolir i Ieuan Brydydd Hir yn ymwneud â thestunau crefyddol, ac adlewyrchir ynddynt wahanol agweddau ar grefydd a defosiwn y dydd. Perthyn y cywydd 'cyffes' hwn i *genre* neilltuol y ceir ei wreiddiau eisoes yng ngherddi penydiol cynnar y Gymraeg.¹ Yr oedd thema'r Saith Bechod Marwol yn un dra phoblogaidd ym marddoniaeth Gymraeg y bymthegfed ganrif, ac fe restrid y pechodau, weithiau ar y cyd â'r Dengair Deddf ac â Saith Weithred y Drugaredd, er mwyn meithrin

¹ Y mae'r elfen benydiol a geir yn y canu crefyddol cynnar yn ei hamlygu ei hun yn enwedig yn *genre* y marwysgafnau, gw. BI BGCC 151–5 (cerdd 17), 165–9 (cerdd 19). Am drafodaeth ar farwysgafn Meilyr Brydydd a'i chefnid, gw. GMB 60. Noda Catherine McKenna, 'Molawd Secwlar a Barddoniaeth Grefyddol Beirdd y Tywysogion', YB xii (1982), 31–2, mai'r dadolwch yw un o'r elfennau llywodraethol a geir yng nghanu crefyddol y Gogynfeirdd i gyd.

ymateb edifeiriol ymhlith y gwrandawyr.² Ond y mae tebygrwydd y cerddi hyn i'w gilydd yn awgrymu'n gryf na fwriadwyd hwy yn ddatganiad o gyflwr personol y beirdd eu hunain. Fel y dangosodd Dr Lleucu Morgan,³ y maent yn fwy tebyg i gerddi moes ac iddynt agweddau pregethwrol, defosiynol a chymdeithasol, a diddorol yw sylwi ar gyfeiriad yng ngramadegau'r Penceirddiaid hwythau at y Saith Bechod Marwol, lle y pwysleisir nad oeddynt yn destun teilwng o grefft y prydydd.⁴ Yn y cerddi penydiol hyn, y mae'r beirdd fel petaent yn personoli nid yn unig yr agwedd benydiol y ceisir ei chyfleu, ond hefyd yr ymateb edifeiriol y dymunir ei feithrin ymhlith y gwrandawyr. Yng ngeiriau Patrick S. Diehl,

... quite normal in the late medieval meditative and in the penitential lyric, is the possibility of letting the *speaker* act as *paradigm*. In such a case, the emotional response to the thought of the Crucifixion or to the thought of one's sinfulness is demonstrated to the audience by the poem itself, with the expectation that we will benefit from the example set ... it shows us how seriously we should take our own spiritual situation, which may well be even worse precisely because we are complacent about it.⁵

Fel y nodwyd yn y Rhagymadrodd,⁶ y mae cerddi crefyddol y Cywyddwyr yn arddangos mynegiant ac arddull symlach, ac y mae eu geirfa yn haws o lawer, na'r hyn a geir yng nghanu ffurfiol y traddodiad mawl. Gall mai ar gyfer cynulleidfa lai dysgedig neu ar gyfer adegau llai ffurfiol y llunnd y cerddi hyn, ac mai dyna pam na cheisid gofalu am gywirdeb na chywreinder crefft. Ar brydiau, ymddengys fel petai hi'n bwysicach gan y beirdd draethu'r neges na phyncio'n gain. Amlygir hyn gan y ffurfiau llafar *budur* (ll. 18), *bustyl* (ll. 20), *cymydogion* (ll. 24), y benthyciadau o'r Saesneg *hasti* (ll. 28) a *mendio*, yn ogystal ag yn llacrwydd y goddefiadau cynganeddol a geir yn y cywydd hwn; ac yn hyn o beth, efallai fod cerddi crefyddol y Cywyddwyr yn un ddolen gyswllt rhwng y canu caeth a'r cerddi rhydd diweddarach. Yn unol â phatrwm arferol y *genre*, cyfrodeddir yn y cywydd hwn sôn am y Saith Bechod Marwol, y Dengair Deddf a Saith Weithred y Drugaredd. Gwneir hyn drwy gyfeirio at y pum synnwyr, er nad ydynt i gyd yn cael eu hamlygu yn y gerdd.

Y mae'n bwysig nodi bod rhai copi-wyr diweddarach yn amlwg yn dewis newid pwyslais y testunau a oedd ganddynt o gerddi crefyddol Cymraeg yr Oesoedd Canol. Diau, ar brydiau, y gwneid hyn er mwyn peri i'r cerddi fod

² Ar y Saith Bechod Marwol a'u hanes ym meddylfryd Cristnogol yr Oesoedd Canol, gw. M.W. Bloomfield, *The Seven Deadly Sins* (Ann Arbor, 1952); E. Roberts, 'Uchelwyr y Beirdd: Y Llan', TCHSDd xxv (1976), 62. Yr oedd y reddf i greu rhestrau o'r fath yn gyffredin iawn yn y cyfnod a ffurfient fath o *aide memoire* cateceiddiol.

³ 'Y Saith Pechod Marwol yng Nghanu Beirdd yr Uchelwyr' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1989), *passim*.

⁴ GP 35 (llau. 29–33).

⁵ P.S. Diehl, *The Medieval European Religious Lyric* (Berkeley, 1985), 158.

⁶ Gw. uchod, td. 17.

yn fwy cymeradwy i bleidwyr y grefydd newydd. Ceir enghraifft o'r duedd hon yn llawysgrif B, lle y troir llinell 4, *Fawr warau, i Fair wiwrym*, yn *ofer eiriau ir gair gwiwrym*; cf. eto linell 6, lle y mae pwyslais y gwreiddiol *I'r saint dwys a'r santesau* yn cael ei newid i *i dduw faint fu y meiau*.⁷ Ond dengys rhediad cymalau'r cywydd mai'r *Confiteor* (gw. isod llau. 1–6n), sef testun litwrgïol, oedd ym meddwl y bardd wrth gyfansoddi.

Golygwyd y cywydd hwn eisoes yn Tudur Penllyn, &c.: Gw 97.

1–6 **I Dduw nef yr addefa'** ... Adleisio y mae'r llau. hyn y *Confiteor*, sef y weddi benydiol a ddaw yn ystod adran agoriadol yr Offeren: *Confiteor Deo omnipotenti, beatæ Mariæ semper virginî ... omnibus sanctis, et vobis, fratres: quia peccavi nimis cogitatione, verbo et opere ...* ('Cyffesaf i Dduw hollalluog, i'r wynfydedig Fair fythol forwyn ... i'r holl saint, ac i chwi, fy mrodyr: oherwydd pechu'n ddirfawr ohonof ar feddwl, gair a gweithred ...'). Ceir yn y *Missale Romanum* destun o'r weddi a arferid yn nefod Sarum, yn ogystal ag yn y ddefod a ddeddfwyd gan Gyngor Trent, mwy neu lai yn yr un ffurf hyd at y diwygiadau a wnaed i litwrgi'r Eglwys Gatholig ar ddiwedd chwedegau'r 20g. yn sgil Ail Gyngor y Fatican.

2 **dynion da** Y mae'n debygol nad Tri Pherson y Drindod, ond *vobis fratres* y *Confiteor*, a olygir gan yr ymadrodd hwn.

4 **Fawr warau** Y mae trwch y llsgrau. o blaid darllen [g]warau. Gellid dehongli hyn yn ffurf l. yr a. gwâr neu, os 'f' a gynrychiolir gan -u y copïau, gall fod yn ffurf radd eithaf, *gwaraf*. Ond tybed ai *gwarae*, sef ffurf ar *chwarae* ('ofera'), a geir yma ac mai dyna y mae'r bardd yn ei gyffesu?

i Fair wiwrym Mynegwyd ffydd yn swydd amddiffynnol ac eiriol Mair er yn gynnwys iawn: cf. y gweddiâu Llad. poblogaidd *Sub tuum praesidium* a'r *Salve Regina*. Am grynodedau hwylus o hanes datblygiad dysgeidiaeth yr Eglwys am Fair a thwf defosiwn iddi, gw. J. Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddu ar Wryfyddod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1999); H.C. Graef, *Mary: a History of Doctrine and Devotion* (London, 2 vols., 1963–5); H. du Manoir du Juaye, SJ, *Maria: Études sur la Sainte Vierge* (8 vols., Paris, 1949–71); G. Söll, *Mariologie* (Freiburg, 1978) a gw. hefyd ODCC³ d.g. 'Mary' a'r llyfryddiaeth.

5 Dengys y *Confiteor* mai *Ac adde'r wyf ... / I'r saint dwys a'r santesau* yw'r brif gystrawen. Dichon fod *mawrglwyf mau* yn sangiad ebychiadol.

10–14 Ceir gan Siôn Cent, yn IGE² 256 (llau. 7–14), gyfres debyg, *camgerdded ... camglywed ... camdeimlo ... camedrych*.

⁷ Gwneir hyn hefyd yn achos y cerddi i'r crogau, gw. yr amrywiadau i gerddi 10 a 12.

- 13 **honni hyn** Y mae'r bardd yn cymryd arno wneud yn hysbys yr hyn a gyffesir.
- 15 **pechod marwol** Ceir y rhestr gyntaf o'r saith pechod yr ystyrid eu bod yn farwol gan Grigor Fawr yn ei *Moralia in Job* (gw. *Moralia in Job*, gol. M. Adriaen (Turnhout, 1979–85), §31.45). Am grynodeb hwylus o dwf y cysyniad, gw. A. Wilmart, *Auteurs spirituels et textes dévots du Moyen Age* (Paris, 1932), 430; ODCC³ 1489 a'r cyfeiriadau. O hanner cyntaf y 13g. ymlaen, rhestr Lad. gydnabyddedig y pechodau oedd (1) *superbia* (balchder), (2) *avaritia* (cybydd-dod), (3) *luxuria* (trachwant), (4) *invidia* (cenfigen), (5) *gula* (glythineb), (6) *ira* (llid), (7) *accidia* (seguryd). A derbyn bod y copïau hysbys yn cadw'r cywydd yn ei drefn wreiddiol, rhaid nad oedd y bardd yn ceisio dilyn rhestr arferol y pechodau, gw. ll. 17 *godineb* (*luxuria*, cf. ll. 19 *chwant*); ll. 18 *glythni* (*gula*); ll. 21 *Balchder*, *dig a chenfigen* (*superbia*, *ira*, *invidia*), cf. ll. 28 *trahausdeb*. Y mae'n bosibl mai gan *treiglais i'm tro* (ll. 16), yn yr ystyr 'ymdroi', S. 'loiter', y cynrychiolir *accidia*. Ai ffeirio lle bai'r *Offeren* (ll. 34) yw *avaritia*?
- 17 **Godineb, bod pechod pur** Cytuna'r llsgrau. oll ac eithrio F ar y darlleniad *pob pechod*. Fodd bynnag, cofnodir yn llsgr. F (llaw Wiliam Bodwrda) y darlleniad *bod pechod*, sydd nid yn unig yn rhoi cynganedd ond hefyd well synnwy'r ll.
- 18 **bawedi** Sef 'bryntni, aflendid; crintachrwydd'. O dderbyn yr ail ystyr yma, ceir adlais o'r syniad canoloesol fod diffyg haelioni i'w gyfrif ymhlith y pechodau pennaf.
budur Fel gair deusill y trinnir budr ym mhob testun o'r cywydd hwn. Fel yr awgrymwyd uchod, gall mai oherwydd disgwyliadau llai ffurfiol yr achlysur neu'r gynulleidfya y canwyd y cywydd hwn er ei mwyn yr arferwyd y ffurf lafar hon, cf. ll. 20n ar *bustyl*.
- 19 **chwyl** Y mae sawl dehongliad posibl iddo yma, a gellid cynnig ystyron megis 'tro, hynt, gyrfa, ffawd', gw. ymhellach GPC 861.
- 20 **bustyl** Gair deusill eto, cf. ll. 18n ar *budur*.
Y mae'r rh.pth. *a* yn ceseilio.
- 22 **Duw ne' a'u madde'** Ymddengys mai ffurf lafar eto sydd y tu ôl i'r gynghanedd yma, er y gellid creu math o gynghanedd sain drwy bwyslais ar glymiad y rh.pth. *a* a'r rh.m. 'u, cf. ll. 42n isod.
- 23 **Fy swydd fu watwar a sôn** Ymddengys mai topos yn y cerddi penydiol yw i fardd ddiraddio ei swydd farddol neu hyd yn oed honni ymwrthod â hi; cf. 10.27–8 *Fy swydd—llyma 'nghyffes i— / Mae yn wag o'i mynegi!* Dichon fod hyn yn rhan o dechneg y cerddi penydiol yn gyffredinol.
- 24 **fy nghymydogion** Diwygiad. Cytuna'r llsgrau. oll, ac eithrio llsgr. K, ar y ffurf l. [c]ymdogion. Ond ceir *cymydogion* yn ogystal (gw. GPC

774), sy'n rhoi ll. seithsill reolaidd.

- 25–6 **Digio fy mam ... / ... 'nhad** Ni cheir y cwpled hwn yn llsgrau. DEG–J, ond efallai fod parhad y cymeriad cynganeddol o blaid ei gadw. Annisgwyl braidd, yn enwedig os adleisir y Dengair Deddf, yw cyfeirio at y fam o flaen y tad, ond y mae'r llsgrau. yn tueddu i gadarnhau'r darlenniad hwn.
- 27 **dychanu** Am ymdriniaeth â'r canu maswedd a dychan yn yr Oesoedd Canol, gw. DGIA 38–66; Dylan Foster Evans, '*Goganwr am Gig Ynyd*': *The Poet as Satirist in Medieval Wales* (Aberystwyth, 1996); J. Hunter, 'Cy-ddestunoli Ymrysonau'r Cywyddwyr: Cipolwg ar "Yr Ysbaddiad Barddol"', *Dwned*, iii (1997), 33–52; Dafydd Johnston, 'The Erotic Poetry of the Cywyddwyr', CMCS xxii (Winter 1991), 63–94, cf. CMOC 11–25. Yng ngoleuni agwedd wrthwynebus y Gramadegau tuag at ddychan (gw. GP 17, 37 a cf. dychan Siôn Cent, IGE² 181 (llau. 19–20), *Crefft annoniog fydd gogan / Cywydd o gelwydd a gân*), tybed a ddaeth honni ymwrthod â hi yn rhan o ddefod y cerddi penydiol gan y Cywyddwyr?
- enyntu neb** Dellir *enyntu* mewn ystyr ffigurol yma, sef 'cythruddo, cynhyrfu, llidio', &c., gw. GPC 1224.
- 29 **Athrod yn faith wenieithgar** Diddorol iawn yw cael Ieuan Brydydd Hir yn cyfaddef athrodi eraill trwy weniaith. A ddylid cysylltu hyn â'r arfer a geir yn y canu maswedd o gyfosod elfennau dychanol ac ymddangosiadol wenieithus, neu ai cyfaddef rhagrith y traddodiad mawl a wneir?
- 30 **absen** Drygair neu anghlod, cf. GGI² 166 (LXII.27–8) *Felly ni chlywaf allael / Absen i hwn, mab Siôn hael*.
- 31–2 Llau. ansicr eu hystyr. Cymerir mai *A rhai ... / A somwn ...* yw'r brif gystrawen, ond gw. yr amrywiadau.
- 32 **somwn** Ffurf l un.amhff.myn. neu ddib. *somi*, sef amrywiad ar *siomi*.
- 33 **anostegu** Dyma'r enghraifft gynharaf a gofnodir o'r be. hwn yn yr ystyr 'cynhyrfu, torri ar draws, peri anhrefn', gw. GPC 152.
- llygru llên** Am wahanol ystyron posibl yr ymadrodd, gw. GPC 2266 d.g. *llygraf* ac *ib*. 2152 d.g. *llên*. Rhaid penderfynu ai at ddysgeidiaeth yr Eglwys, neu at glerigwr penodol, y cyfeiria *llên*. Gall mai 'difriö, gwaradwyddo' neu 'torri cyfraith' yw ystyr *llygru* yma, cf. BT (RB) 84 *rac llygru nawd yr eglwys*. Neu, ai ystyr yr ymadrodd yw 'torri ar draws gwasanaeth eglwys'?
- 34 **Ffeirio lle bai'r Offeren** Nid yw'n sicr ai 'marchnata' ynteu 'mynd i ffeiriau' yw ystyr *ffeirio* yma; gw. GPC 1218. Gall fod y bardd yn sôn am gyflawni pechod marwol drwy beidio â mynychu Offeren y Sul, neu am dorri'r Saboth drwy farchnata. Am enghraifft ddiweddarach o *ffeirio*

yn yr ystyr 'cyfnewid', gw. GSH 26.33.

- 35–6 Cf. awdl gyffes Llywelyn Goch ap Meurig Hen, *Gwneuthum lateiaeth, barn feddwaeth fydd* (gw. GLIG 7.19).
- 37 **canwaith y'i caid** Llsgrau. AC–I *canwaith y caid*. Cymerir bod y rh.m. yn ddealledig yn orgraff y llsgrau.
- 40 Y mae'r ardd. *i* yn ceseilio.
- 42 **cangau** Am wahanol ystyron trosiadol *cangau* (ll. *cainc*), gw. GPC 390. Ystyrid mai *cangau* neu *ceinciau* (gw. amrywiadau) y saith pechod yw'r holl weithredoedd drwg sy'n deillio o'r prif fannau hyn. Gellir esbonio cynghanedd (neu ddiffyg cynghanedd) y ll. mewn mwy nag un ffordd. Os y draws a fwriadwyd, yna y mae'n anghyflawn, gydag *-nn-* yn ateb *-ng-* o dan yr acen. Ond eto, a oes yma ymgais i greu math o gynghanedd sain (anghywir) drwy roi pwyslais cryf ar sillaf gyntaf y ll., *Saith bechod ... / A'u cangau, bum i'w cynnal* (cf. ll. 22n uchod)? Yn llsgr. G, fodd bynnag, ceir *kannaü* yn lës ar *kangau* y testun, ac efallai y gellid hynny fel ffurf l. *cant*, a'i ddeall yn yr ystyr 'lluoedd, minteioedd', gw. GPC 418 d.g. *cant*³.
- 43–4 **Saith weithred ... / ... y drugaredd** Yn draddodiadol, ceid dwy gyfres o weithredoedd y drugaredd. Ar sail Math xxv.35 deellid mai'r gweithredoedd 'corfforol' oedd (1) rhoi bwyd i'r newynog; (2) rhoi diod i'r sychedig; (3) dilladu'r noeth; (4) coleddu dieithriaid; (5) gofalu am gleifion; (6) gweini ar garcharorion; (7) claddu'r meirw. Y gweithredoedd 'ysbrydol' oedd (1) argyhoeddi neu geryddu pechaduriaid; (2) hyfforddi'r anwybodus (am wirioneddau'r Ffydd); (3) cynghori'r rhai gwan eu ffydd; (4) cysuro'r tralodus; (5) goddef yn amyneddgar y sawl a fo'n ein blino ni; (6) maddau'r camau a wneir i ni; (7) gweddïo dros y byw a'r meirw. Yn J. Hughes: AP 6, rhestrir y gweithredoedd ysbrydol dan y pennawd *Saith weithradoedd corphorol y drugaredd*, gthg. y rhestr o'r Saith Weithred Gorfforol a geir yn YLIH 37.
- 45 **ond meddwi** Y mae'r pwyslais ar bechod meddwdod yn un cyson yng nghanu Ieuan Brydydd Hir, gw. hefyd 7.19, 30 a cf. GDG³ 6 (2.12) *Cadw rhag pechod feddwdod fi*.
Ymddengys mai cynghanedd lusz a fwriadwyd yma a'r ateb *-f* heb ei hateb, gw. J. Morris-Jones: CD §309. Ai am fod *f* ac *w* yn lled-lafarog y gwneir hyn, neu a oddefid cysylltu *-f* yma ag *ond* sy'n dilyn?
- 47 **pechddyn** Y mae'r elfen gyntaf *pech* yn ffurf amrywiol ar *pechod*, gw. GPC 2705.
- 51 **Ugain a deuddeng mlynedd** Sef y cyfnod cyn cyrraedd oedran draddodiadol Iesu Grist pan groeshoeliwyd Ef.
Ll. ddigynghanedd, ond gw. yr amrywiadau.
- 53 **moddol** Dyma'r enghraifft gynharaf a gofnodir yn GPC 2474 o'r a.

hwn. O blith y gwahanol ystyron posibl, byddai ‘gwâr, teg, gwyh’ yn addas yma.

- 54–5 **mendio ... / ... fendiaf** Cymerir mai 1 un.pres.myn. a olygir gan y darlleniad [*m*]endia a geir yn y llsgrau. ar gyfer ll. 55, er y gall hefyd mai 3 un.pres.myn. ydyw. Yr ystyr yw ‘gwella’n ysbrydol; diwygio buchedd’, gw. GPC 2429. Eto, dyma’r enghraifft gynharaf a gofnodir yn GPC o’r f. hon.
- 57 **gweryd** Gellid ei ddeall naill ai’n ffurf 3 un.pres.myn. y f. *gwarded*, gw. GPC 1582, neu’n e. ac iddo’r ystyr ‘iachawdwriaeth, gwardedigaeth’, gw. *ib.* 1649 d.g. *gweryd*⁴, a cf. R 1217.10–11 *arweryt yr byt bendigedic rat aroet du6 nadolic* (Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd). Dichon mai bf. ydyw yma.
- 61 **ŵyr Anna** Joachim ac Anna oedd enwau traddodiadol rhieni’r Forwyn Fair. Sonnir am Anna wrth ei henw gyntaf yn yr 2g. mewn efengyl apocryffaidd, y *Protevangelium Jacobi*. Erbyn y 12g., yn sgil twf y defosiwn i Fair, bu bri mawr ar gwlt Anna hithau ledled Ewrop. Yn Lloegr cedwid ei gŵyl yng Nghaer-gaint erbyn 1100 ac yng Nghaer-wrangen yn fuan wedyn ac fe ddaeth yn ŵyl rwymedigol erbyn 1382. Gw. ymhellach *Interpreting Cultural Symbols: Saint Anne in late Medieval Society*, ed. K. Ashley and P. Sheingorn (London, 1990); H.M. Bannister, ‘The introduction of the cult of St. Anne into the West’, *English Historical Review*, xviii (1903), 107–12; A. Wilmart, *op.cit.* 46–55.

6

Yn ôl traddodiad a gofnodir gan David Johns yn BL Add 14866,¹ canwyd yr awdl hon o waith Ieuan Brydydd Hir yn ddilyniant i awdl Dafydd ap Gwilym i Iesu Grist, *Oesbraff wyd, Siesus, Ysbryd—gwiw Ddofydd*.² Fe’i ceir yn dilyn awdl Dafydd yn y llawysgrifau, ac nid yw’n amhosibl fod y traddodiad yn un dilys. Ceir digon o ymadroddion yng ngwaith Ieuan Brydydd Hir sy’n dwyn ar gof enghreifftiau tebyg yng ngherddi crefyddol Dafydd ap Gwilym i beri credu bod Ieuan yn gyfarwydd â hwy.³ Awdl

¹ Copïwyd BL Add 14866 [= RWM 29] gan David Johns yn 1587, gw. RWM ii, 1022–38. Ar f. 22^r ceir coloffon sy’n cofnodi’r traddodiad hwn, *e ddechreodd Jeanu brydydd hir yntau odl or gair i diweddodd Daid val hyn*; cf. Gwyn 3, 17^r, *Dauid ap Gwilim a’i cânt, ac yn ei ol yntef, yr achwanegodd Ieuan brydydd hir yr odl hon, gan ddechrau ar y gair y diweddodd Dafydd yn y wedd hon*.

² Gw. GDG³ 3 (cerdd 1).

³ Y mae rhai o’r cyfatebiaethau a drafodwyd yn M.P. Bryant-Quinn, ‘“Enaid y Gwir Oleuni”: y Grog yn Aberhonddu’, *Dwned*, ii (1996), 63–4, yn eithaf trawiadol. Fodd bynnag, ni chredaf bellach mai Ieuan Brydydd Hir a ganodd y cywydd i Anna a Mair y rhoddir ei destun yn Tudur Penllyn, &c.: Gw 102 (XLVII). Diau mai i gylch y Swrdwaliaid y perthyn, fel y dengys Mr Dylan Foster Evans yn ei olygiad o’u gwaith hwy (i ymddangos yng Nghyffres Beirdd yr Uchelwyr).

gonfensiynol yw hon, yn rhestru prif fannau bywyd Crist, yn enwedig Ei waith achubol. Ni ellir ond dyfalu ar ba achlysur, neu ymhle, y canwyd hi, ond ymddengys y ddelwedd a geir yn llinell 81, *O faith wylfa'r byd, af i'th elfydd*, braidd yn annisgwyl ac, efallai, yn awgrymog, os oedd lle o'r enw *Yr Wylfa* eisoes yng nngogledd Môn erbyn y bymthegfed ganrif. Annoeth fyddai pwyso gormod ar hyn, ond o gofio pwysigrwydd y cysegrfannau a geid yn ardal Talybolion y pryd hwnnw, y mae'n bosibl mai gan un o'r rhain yr ysbrydolwyd Ieuan.⁴

Yr awdl hon a'r nesaf (cerdd 7) yw'r cerddi mwyaf amrywiol eu mesurau o blith gwaith Ieuan Brydydd Hir: hynny, wrth gwrs, a ddisgwylid. Egyr yr awdl â chyfres o bedwar englyn unodl union (llau. 1–4, 11–14, 21–4, 29–32) ar yn ail â chwe englyn proest cyfnewidiog o bedair neu chwe llinell (llau. 5–10, 15–20, 25–8, 33–44); wedyn ceir cyfres o un ar ddeg o wawdodynau (llau. 45–88) a chloir yr awdl ag englyn unodl union (llau. 89–92). Os yw'r gerdd yn gyflawn fel y'i cadwyd yn y llawysgrifau, o gofio'r defnydd symbolaidd cyson o rifau yn yr Oesoedd Canol, gall fod arwyddocâd symbolaidd yn nifer y penillion a ganwyd,⁵ megis pedwar (rhif y ddynoliaeth); chwech (y rhif a ddynodai oesoedd y byd); a'r rhif nodedig arall, deuddeg (4 x 3).⁶ Gwelir defnydd cyson o gyrch-gymeriad yn yr awdl: i gysylltu'r englynion a'i gilydd; i gysylltu gair olaf englyn olaf y caniad cyntaf a dechrau'r gwawdodynau; i gysylltu diwedd y gwawdodyn olaf a'r englyn terfynol; ac i gysylltu diwedd yr awdl a'i dechrau.

Golygwyd yr awdl hon eisoes yn Tudur Penllyn, &c.: Gw 120.

⁴ Gellir meddwl am eglwysi o bwys, megis Llanfair-yng-Nghomwy neu Lanbadrig, yng nghwmwd Talybolion yn y 15g. A fu Ieuan Brydydd Hir ar bererindod ym Môn rywdro? Am drafodaeth ar hanes yr Eglwys ym Môn yn yr Oesoedd Canol, gw. A.D. Carr, *Medieval Anglesey* (Llangefni, 1982), 266–99.

⁵ Trafodir arwyddocâd rhifolion arbennig yn Emile Mâle, *The Gothic Image: Religious Art in France of the Thirteenth Century*, trans. Dora Nussey (New York, 1972), 9–13. Nodweddir mwy nag un gerdd grefyddol Gymraeg gan symboliaeth rhif y penillion a geir ynddynt. Yr enghraifft gynharaf a'r enwocaf ohonynt yw naw englyn y Juvencus, gw. sylwadau Marged Haycock yn Bl BGCC 7; ond amlygir mewn cerddi eraill yr un duedd i ddefnyddio mydr i ategu'r testun, megis y cyfri'n ôl a geir yn y gyfres englynion 'Arwyddion cyn Dydd Brawd' gan Lywelyn Fardd I, gw. GLIF 71–83; cf. hefyd strwythur awdl Casnodyn i'r Drindod, gw. GC cerdd 7, a'r sylwadau rhagarweiniol i gerdd 8 isod.

⁶ Pedwar oedd y rhif symbolaidd a arferid am y byd materol, o'i gyferbynnu â'r rhif tri, sef rhif y Dwyfol, gw. Awstin (*In Psalmis* vi (PL xxxvi, 91)), *Numerus ternarius ad animum pertinet, quaternarius ad corpus*; cf. hefyd Hugh o S. Victor, *De Scripturis ... Sacris*, ib. clxxv, 22. Ynghylch y rhif deuddeg, gw. Rhabanus Maurus, *De Universo* xviii.3 (PL cxi), *Item duodecim ad omnium sanctorum pertinent sacramentum, qui, ex quatuor mundi partibus per fidem Trinitatis electi, unam ex se faciunt ecclesiam*. Fel y nododd Mâle, *op.cit.* 11, 'Three, which is the number of the Trinity and by consequence of the soul made in the image of the Trinity, connotes all spiritual things. Four, the number of the elements, is the symbol of material things—the body and the world—which result from combinations of the four elements. To multiply three by four is in the mystic sense to infuse matter with spirit, to proclaim the truths of the faith to the world, to establish the universal Church of which the apostles are the symbol.'

- 1 **adduno** Sef ‘deisyf, dymuno’n gryf’.
- 2–4 **Ddyfod ... / ... ar Dy ddeheulaw** Dilynid *dyfod* yn aml gan yr ardd. *ar* mewn Cym.C., gw. GPC 935. Credid mai’r ddeau oedd y llaw ddethol, ac mai oherwydd hynny yr eisteddai’r rhai cyfiawn ar ddeheulaw Duw ar Ddydd y Farn. Ceir cynseiliau beiblaidd a litwrgïol i’r ddelwedd, cf. Math xxv.33–4 *dextris suis ac ad dexteram Patris* y Credo. Gthg. arwyddocâd y Gym. *chwith* a’r Llad. *sinister*. Y mae’n rhaid penderfynu ai *braw* ynteu ffurf dreigledig *praw(f)* sydd yma. Os yr olaf, gall mai ‘pan ddaw’r prawf ar ddiwedd ein hoes’ a olygir, ond y mae’r cysyniad o ‘ddiwedd ofn’ neu ‘ddychryn’ hefyd yn gweddu i gywair canu Ieuan Brydydd Hir.
- 3 **Dydd Brawd** Dydd y Farn.
- 4 **Dduw hael** Cyferchir Duw yn y cerddi crefyddol Cymraeg drwy briodoli iddo’r un priodoleddau—sef dewrder a haelioni—ag a ddisgwylid gan noddwr daearol. Am drafodaeth ar ddatblygiad dyfaliadau (S. ‘*kennings*’) Cym. am Dduw, gw. M.P. Bryant-Quinn, ‘“Archaf Weddi”: Rhai Sylwadau ar Farwysgafn Meilyr Brydydd’, LICy xx (1997), 13–14; cf. trafodaethau W.A. Chaney, *The Cult of Kingship in Anglo-Saxon England* (Manchester, 1970), D.H. Green, *The Carolingian Lord* (Cambridge, 1965), Hertha Marquardt, *Die Altenglischen Kenningar: ein Beitrag zur Stilkunde Altgermanischer Dichtung* (Schriften der Königsberger Gelehrten Gesellschaft, Geisteswissenschaftliche Klasse, 14 Jahr, Heft 3; Halle-Saale, 1938), 267–91.
- 6 **difeth dud** ‘Ardal’, ‘gwlad’ neu ‘lwyth’ yw ystyrion amlaf *tud*, ond fe’i ceir hefyd yn yr ystyr ‘daear’, gw. WS d.g. *tud*, ‘*dayar Erthe*’. Dyna, o bosibl, yw ystyr yr ymadrodd yma, sef y ddaear, y byd ei hun, a grëwyd yn berffaith.
- 8 **cof lendid** Cystrawen ‘hydref ddail’, sef trawsosod geiriau yn y gystrawen enidol. Ceir delwedd gyffelyb yn ll. agoriadol yr emyn poblogaidd o’r 12g., *Iesu dulcis memoria*, a briodolir i Sant Bernard o Clairvaux (gw. ymhellach J. Julian, *A History of Hymnology* (London, 1907), 585, 1536), ac nid yw’n amhosibl fod Ieuan Brydydd Hir yntau’n gyfarwydd ag ef.
- 9–10 **A fu, a fydd ... / Ac y sydd** Ceir y disgrifiad triphlyg hwn yn aml yn y cerddi crefyddol. Fe’i hysbrydolwyd, yn ôl pob tebyg, gan ymadroddion cyffelyb a ddaeth i’r litwrgi o Dat i.4, 8, iv.8, xi.1 *qui est et qui erat et qui venturus est*.
- 10 **Cred** Y gwledydd Cristnogol.
- 11 **o iawn air** Gellid atalnodi’r ll. yn wahanol a darllen *Naf o iawn air*, ond cymerir mai ‘trwy’ a gyfleir gan yr ardd. *o* yma.
- 12 **Afe** Daw’r Cymreigiad *afe* o Lad. testun y Fwlgat *have* (gthg. Llad.

- clasurol *ae*). Cyfarchiad ydyw, ‘henffych well’. Yn Llad. litwrgïol y 15g. yr oedd ‘u’ eisoes wedi troi yn lled-lafariad ‘f’. Ond yn ogystal â chyfeirio at air cyntaf cyfarchiad yr Angel i Fair, fel y gwneir yma, gw. Luc i.28, daethpwyd i ddefnyddio *Ave* am Grist Ei hun, gw. R 1199.21–2 *Goruc ave. doeth awyre. deith oreura6l* (Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd). Am astudiaeth ddiweddar ar yr arfer, gw. J. Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wryfyddod a Diweirdeb yng Nghymru’r Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1999), 29–37.
- 14 **Gobrwyol ... grair** Ystyr *crair* yw ‘trysor, anwylyd’; golyga *gobrwyol* ‘iachusol; haeddiannol, teilwng; prynedigol’, cf. 8.13n isod.
- 16–20 **tri brenin** Yn y ffurf yr adwaenid hi yn y 15g., gellir olrhain craidd y chwedl am y ‘tri brenin’ (sef y *magi* y sonnir amdanynt yn Math ii.2) yn ôl i *Legenda Aurea* Jacobus de Voragine. Am grynodedb hwylus o dwf y chwedl amdanynt a’u lle mewn defosiwn diweddarach, gw. R.E. Brown, *The Birth of the Messiah* (New York, 1979), 197–201; ODCC³ 1020 d.g. ‘Magi’ a’r llyfryddiaeth ddethol yno. Pwysodd traddodiad ar y tair rhodd i bennu nifer yr ymwelwyr, a phenderfynu hefyd mai brenhinoedd oeddynt ar sail Eseia lx.1–6.
- 16 **dinas** Yr oedd *dinas* yn eg. yn y 15g.
- 19–20 **arglwyddes / Môr a thir** Cf. 13.53–4 *Mair, enwog dywysoges / Y môr a’r tir mawr a’r tes*, ac *ib.n.* Arwyddocâd *môr a thir* oedd y cyfan o elfennau’r Cread.
- 22 **Herod** Cyfeirir yma at hanes dial Herod a lladd y Gwirioniaid, gw. Math ii.1–18.
- 23 **[y]r Iddewon** Cf. hefyd lau. 44–5 a 10.14 isod. Am astudiaeth safonol o hanes gwrthiddewiaeth yn yr Oesoedd Canol, gw. L. Poliakov, *The History of Antisemitism*, ii, trans. N. Gerardi (New York, 1973).
- 25 **gwirion** Sef ‘pob un o’r rhai diniwed, sanctaidd’.
- 26 **Mab maeth Mair** Ceir yr un ymadrodd yn GDG³ 428.21.
- 28 **gwŷr arfogion o’r gaer** Cymysgir dau *pericope* yma, o bosibl, sef hanes y gwŷr arfog a ddaliodd Iesu yng Ngethsemene (gw. Math xxvi.47–55; Marc xiv.43–50; Luc xxii.47–53; Ioan xviii.3–12) a’r milwyr yn gwatwar Iesu (Math xxvii.27–31; Marc xv.16–20; Ioan xix.2–3). Y mae’n debygol mai cyfeiriad amhenodol at Jerwsalem yw y *gaer* (cf. ‘Caersalem’).
- 31 *f*led-lafarog.
- 36 **ysgyrsiau** Benthyciad o’r S. ‘*scourges*’.
- 45 **gwyron** Felly y cofnodir y ffurf yn y llsgrau. ac eithrio llsgr. H. At y darlleniad hwn y cyfeirir yn GPC 1669 d.g. *gwirion*.
- 48 **bob ddau** Gw. 2.50n.

- 51 **Pilatus** Sef Peilat, cf. GDG³ 3 (1.22).
- 53 **anair wŷyr melinydd** Cyfeiriad at Beilat (yr *hocedydd* yn ll. 55), gw. M. Richards, 'Ystoria Bilatus', B ix (1937–9), 42–9, yn arbennig td. 46. Am ddelwedd gyffelyb ynghylch gweithredoedd pechadurus, cf. YHD §39 *Melinydd Diafol yw'r Pechadur yn malu'n wastadol ar Diafol sydd ... yn llenwi yr Hoppran*. Os 'disgynnydd' yw ystyr wŷyr yn y ll. hon (cf. ll. 86 isod), cryfheir y cysylltiad rhwng y ddwy ddelwedd. Ond gallai [g]wŷyr hefyd fod yn a., gan roi ystyr megis 'drygair anfad' neu 'dwyllodrus'.
- 69 **eiriau tradoeth! Wŷr** Cf. IGE² 258 (llau. 16–17) *A'r trydydd dydd, wŷr tradoeth, / O garchar daear y doeth* (Siôn Cent). At Grist, yn ddiau, y cyfeiria'r sangiad.
- 71–4 Thema gyffredin yn y llenyddiaeth grefyddol yw hon, sef anrheithio uffern gan Grist. Seiliwyd y cymal *descendit ad inferos* o Gredo'r Apostolion (cymal nas ceir yng Nghredo Nicea) ar Math xxvii.52, Luc xxiii.43 a I Pedr iii.18–20, a daeth yn thema dra phoblogaidd drwy gydol yr Oesoedd Canol. Am hanes twf y ddelwedd, gw. J.N.D. Kelly, *Early Christian Creeds* (third edition, London, 1972), 378–83; E. Koch, 'Höllenfahrt Christi', *Theologische Realenzyklopädie*, gol. G. Krause ac eraill (Berlin, 1986), 455–61 (gw. yn enwedig y llyfryddiaeth gynhwysfawr a geir wrth yr erthygl hon); J.A. MacCulloch, *The Harrowing of Hell: A Comparative Study of an Early Christian Doctrine* (Edinburgh, 1930).
- 73 **awr echwydd** Y trydydd awr o'r dydd (sef 9 o'r gloch); yr ysbaid rhwng hynny a chanol dydd; canol dydd, gw. GPC 1162.
- 77 **i'r un mynydd** Sef mynydd yr Olewydd, man esgyniad Crist i'r nefoedd, gw. GLIG 7.11n, cf. DGG² 245. Ar sail Act i.11, credid mai i fynydd yr Olewydd hefyd y dychwelai Crist ar Ddydd y Farn.
- 78 **cywir ofeg** Gellir dehongli *gofeg* mewn sawl ffordd. Byddai 'meddwl; amcan; serch' yn ystyron posibl yma, gw. ymhellach GPC 1429. Ceir *crefydd* yn eg., gw. GPC 587.
- 82 **at Addaf, silltiau ...** Dichon mai Adda'r Hen, yn hytrach na Christ (yr ail Addaf) a fwriedir gan yr ymadrodd hwn, cf. GLGC 515 (238.49) *At Addaf a Noe tueddais—yn hen, / At Foesen a'i len y penliniais*. Posibilrwydd arall, o gofio bod *silltiau* yn digwydd yn gynnar fel amrywiad ar *sillaf* (gw. GP 2), yw mai 'siarad, cyfathrebu' yw ei ystyr. Cymerir mai ystyr debyg i 'gysylltu' neu 'ymuno' sydd i *silltiau* yma.
- 84 **Af ... / ... i'th awenydd** Ystyr arferol *awenydd* yw 'bardd', ond gall hefyd olygu 'awen', &c. (gw. GPC 241), ac felly y'i deallir yma gyda'r frawddeg yn mynegi dymuniad Ieuan i fynd, ar ddiwedd ei oes, at breswylfod yr awen, sef Duw. Am drafodaeth ar y ddadl rhwng Llywelyn ab y Moel a Rhys Goch Eryri ynghylch natur a tharddiad yr

awen, gw. GSCyf 174–6.

- 85 **dylynwn** Gw. GPC 1015 d.g. *dilynaf*. Yr ystyr yma yw ‘canlynwn’ neu ‘ymrown i, mwynhawn’.
- 86 **Ŵyr Anna** Gw. uchod 5.61n.
- 87 **achos dawn agos** Cf. 7.33 isod. Nid yw union arwyddocâd *dawn* yn eglur yma, ond gw. GPC 906 am enghreifftiau tebyg. Cymerir mai cys. enghreifftiol yw *achos*, a dichon felly mai Duw ei hun yw achos y *dawn agos*, cf. 7.33 isod. Ai ‘gras’, neu ‘iachawdwriaeth y ddynoliaeth’, yw’r ddawn? Enghraifft o litotes yw’r a. *dinegydd*, sef ‘un hael, un nad yw’n nacáu’.
- 88 Ceir yma *r* berfeddgoll o dan yr acen.
- 92 **’N oes oesoedd** Cywasgwyd *yn oes* yn unsill er mwyn hyd y ll. Ceir ymhlith y goddefiadau y mae’r bardd yn eu caniatáu iddo’i hun nifer o enghreifftiau o gywasgu, ond y mae’n bosibl fod yr ymadrodd hwn, sy’n cyfateb i’r Llad. *in saecula saeculorum*, mor gyffredin ar lafar fel bod y cywasgiad wedi mynd yn rhan gynhenid ohono.
- fy Nuw** Gw. yr amrywiadau. Gall hefyd mai *yn Nuw* yw’r hyn a gynrychiolir gan rai o’r llsgrau.

7

Awdl grefyddol yw hon y mae’r elfen benydiol yn amlycach ynddi nag yn yr awdl flaenorol,¹ a gall mai ar gyfer un o’r tymhorau penydiol arbennig y’i canwyd.² Fodd bynnag, yr un prif themâu ag o’r blaen a adlewyrchir yn ei strwythur, sy’n arddangos dylanwad cymalau Credo’r Apostolion a myfyrdod arall ar y pechodau marwol.³

Egyr yr awdl â chadwyn englynion o wahanol fesurau. Ceir yn gyntaf ddau englyn proest cyfnewidiog o chwe llinell (llynellau 1–12); wedyn cyfnewidir rhwng englynion unodl union (llynellau 13–20, 25–8, 33–6) ac englynion proest cyfnewidiog o bedair llinell (llynellau 21–4, 29–32), cyfanswm o wyth englyn. Cyfres o doddeidiau yw’r ail ganiad (llynellau 37–66). Er mai C yw’r llawysgrif leiaf dibynadwy ar sawl cyfrif, eto ceir ynddi doddaid nas cadwyd yn y ffynonellau eraill, ac fe’i cynhwysir yn y testun a olygir yma (gw. llau. 61–2). Os yn barau y bwriadwyd canu’r toddeidiau yn wreiddiol, dichon fod o leiaf un arall sydd wedi ei golli erbyn hyn.⁴

¹ Am drafodaeth ar gefndir y cerddi penydiol, gw. y sylwadau rhagarweiniol i gerdd 6 uchod.

² Dau brif dymor penydiol yr Oesoedd Canol oedd yr Adfent a’r Pasg.

³ Ar y pechodau marwol a’u cefndir, gw. y sylwadau rhagarweiniol i gerdd 5 uchod a’r cyfeiriadau yno.

⁴ Ond os bwriadwyd nifer penodol o benillion ar gyfer yr awdl hon (cf. y sylwadau ar gyfer strwythur cerdd 6 uchod), gallai cyfanswm o wyth englyn ac un ar bymtheg o doddeidiau (4 x 4) fod yn arwyddocaol hefyd. O’r defnydd symbolaidd a wnaed ohono yn y Beibl, ystyrir mai rhif

Penderfynwyd newid trefn llinellau 55–60 yn ABEF ar sail y gred gyfoes mai cyn esgyn i'r nefoedd (gw. llinellau 59–60) yr anrheithiodd Crist uffern. Golygwyd yr awdl eisoes yn Tudur Penllyn, &c.: Gw 113.

- 1 **ordeiniodd** Sef 'darparodd, trefnodd', gw. GPC 2652.
- 2 **gwanc o haint** Anodd gwybod a ddylid dilyn llsgr. F a darllen *wanc a haint* yma. At y *dynion* (ll. 1) y cyfeiria *ifainc a hen* yma.
- 4 **heb ado un** Ar *gado* yn yr ystyr 'caniatáu i berson aros yn yr un lle', gw. GPC 1367, ond cf. hefyd *ib.* 248 d.g. (*a*)*bado* a'r cyfeiriadau.
- 9 **(Iôr oesbraff glân) a'r Ysbryd** Cf. englyn cyntaf Dafydd ap Gwilym i Iesu Grist, GDG³ 3 (1.1), *Oesbraff wyd, Siesus, Ysbryd—gwiw Ddofydd*. Fel y nodwyd yn y sylwadau rhagarweiniol i gerdd 6, y mae'n bosibl mai gan Ddafydd y cafodd Ieuan Brydydd Hir rai o'i ddelweddau, cf. hefyd gerdd 12.
- 12 **anurdd glain** Gall mai enghraifft ddiweddar yw hon o *clain* yn yr ystyr 'dymuniad, ewyllys, trachwant', gw. GPC 489 a cf. GMB 3.7n, 172. Ystyr yr a. *anurdd* yw 'anurddasol, annheilwng, gwael', *ib.* 161.
- 19 **meddwod** Cf. ll. 30 isod a 5.47n.
- 33 **dawn llu** Cf. 6.87n uchod. Dichon mai 'arglwydd, pennaeth' yw ystyr *dawn* yma, gw. GPC 906.
- 36 **anoeth** Gw. yr amrywiadau. *Anoeth* yn sicr yw'r *lectio difficilior* yma, ac fe'i deallir yn a. yn golygu 'rhyfeddol', &c., gw. GPC 149.
Y mae'r rh.pth. *a* yn ceseilio.
- 39 **a phoenau** Nid yw'n sicr o orgraff y llsgrau. a yw *a* yn ardd. ynteu'n gys., ac a ddylid felly ddeall y ll. yn gyfochredd â'r un ddilynol, sef bod Crist wedi gollwng y ddynoliaeth drwy ei boenau a'i angau.
- 41 **a redawdd—atom** Un o ystyron *rhedeg* yw llifo, gw. GPC 3034, a byddai hynny'n addas mewn perthynas â'r sôn am glwyfau Crist. Ceir yr ardd. *at* hefyd yn yr ystyr 'tros, er mwyn', gw. *ib.* 224, ac os dyna yw ei ystyr yn y ll. hon, y mae'n gynharach na'r enghreifftiau y cyfeirir atynt yn *ib. l.c.* Ond a oes yma adlais hefyd o ddameg y mab afradlon (gw. Luc xv.20)?
- 43 **yn null hawdd** Ceir gwell cynghanedd o dderbyn y darlleniad hwn a geir yn llsgrau. AB, er nad cystal synnwyr ag *enillawdd*. O dderbyn y darlleniad *enillawdd*, gellid cynnig mai ystyr y llau. hyn fyddai 'Er i wŷr dall drywanu Arglwydd llu, enillodd Ef [y dydd], hael oedd Ei fryd,

tragwyddoldeb a'r bywyd newydd oedd y rhif wyth, cf. er enghraifft, yr esgob Ambrosius, noddwr Awstin Sant, *Quis autem dubitet maius esse octavae munus, quae totum renovavit hominem* (PL xvi, 1140, cf. *ib.* xv, 1198).

maddeuodd [ef].’

- 45 **dall** ‘Longinus’, sef e. traddodiadol y milwr Rhufeinig y credid iddo wanu ystlys Crist ar y groes, gw. hefyd 8.37, 12.24 isod. Daethpwyd i gymysgu’r cymeriad hwn â’r canwriad y sonnir amdano yn Marc xv.40, ac y mae’n debygol fod yr e.prs. *Longinus* wedi ei ddyfeisio ar sail yr eb. Groeg ὄνομα (‘gwaywffon’). Gellir olrhain craidd y chwedl amdano yn ôl i’r llyfr apocryffaidd *Acta Pilati* (c. 5g.). Yr oedd traddodiadau eraill yn hysbys i Beda, y tynnwyd arnynt hwythau gan Jacobus de Voragine, awdur y *Legenda Aurea*. Trawsenwad am Iddewiaeth oedd Longinus, a’r hyn a ystyrir gan Gristnogion yr Oesoedd Canol yn ddiffyg ffydd yn y grefydd honno a barodd ei chyfrif yn ‘ddall’. Yn ôl y chwedl, pan wanodd Longinus ystlys Crist syrthiodd Ei waed i’w lygaid ac adfer ei olwg. Ystyr amlwg y ddelwedd hon oedd tröedigaeth, gw. ymhellach R.J. Peebles, *The Legend of Longinus in Ecclesiastical Tradition and in English Literature and its Connection with the Grail* (Bryn Mawr College Monographs, Monograph Series, 9 (1911)), *passim* a’r llyfryddiaeth y cyfeirir ati yn ODCC³ 994. Fe’i gelwid yn ‘farchog [du] dall’ gan y beirdd Cymraeg (gw. GDG³ 52.35n am gyfeiriadau eraill ato). Pwysigrwydd Longinus fel *topos* yn y cerddi am ddiodefaint Crist yw ei fod yn symbol o iachâd a maddeuant. Ceir cerflun ohono mewn cyfres a osodwyd ar flaen basilica S. Pedr yn Rhufain. Yn yr Oesoedd Canol, dethlid ei wyl ar 15 Mawrth.
- 50 **o gau Ei ddwyfron** Ystyr *cau* fel e. yw ‘perfedd’, &c., gw. GPC 441; ond byddai darlleniad llsgr. E, *o grau* (sef ‘gwaed’), hefyd yn rhoi synnwyr.
- ac a ddyfrawdd** Cyfeiriad at y dŵr a’r gwaed a lifodd o ystlys Crist ar y groes, gw. Ioan xix.34 a cf. ll. 41. Dyma’r enghraifft gynharaf a geir yn GPC 1126 o’r f. *dyfrio*, *dyfru*.
- 51 **prid** Ar wahanol ystyron *prid*, gw. GPC 2882. Dichon yr adlewyrchir yma syniad cyffredin yr Oesoedd Canol am arwyddocâd yr hyn a wnaed gan Grist drwy Ei aberth ar y groes. Gellir olrhain y ddamcaniaeth yn ôl i ddylanwad Anselm o Gaer-gaint, a ddadleuodd yn ei draethawd enwog, *Cur Deus Homo?* (1097–8), nad pridwerth a dalwyd i’r diafol, ond yr hyn sy’n ddyledus i’r Tad, oedd ystyr yr Iawn. Am lyfryddiaeth ddethol, gw. ODCC³ 123–4 d.g. ‘Atonement’.
- 53 **beddglos** Ni chyfeirir at *beddglos* yn GPC, ond diau mai gair cyfansawdd ydyw megis *beddgor*, *beddrod* &c., gw. GPC 267–8.
- ein Tad** Sef Iesu Grist Ei hun, cf. *Cyfoethog tlawd*, *a’n Tad a’n Brawd*, awdur *brodiau* (Madog ap Gwallter), GBF 359.10n a’r cyfeiriadau.
- 55–6 Cyfeirir yma at anrheithio uffern, gw. 6.71–4n.
- 55 **bu olau** Ai adlais yw hwn o’r gorchymyn *fiat lux* yn Gen i.3?

- 61–2 Derbynnir y toddaid hwn, y ceir yr unig destun ohono yn llsgr. C, yn rhan gynhenid o'r awdl. Os cymalau o'r Credo a roes y patrwm ar gyfer yr adran hon o'r gerdd, tueddid i ddisgwyl pennill ar ôl disgrifio anrheithio uffern yn cynrychioli *sedet ad dexteram Patris*. Fodd bynnag, efallai fod un neu fwy o'r toddeidiau gwreiddiol yn eisiau yn y testunau a gadwyd.
- 61 **Ar ddeau'r Tad eurwedd, Ei wahawdd—Ef** Llsgr. *ar ddeau y tad aurweddiwadd ef*. Diwygiad, er bod yn ll. felly'n ddigynghanedd. Y mae'r a. clwm *eurwedd* yn ffurf hysbys (gw. GPC 1261), a diau mai amrywiad ar *gwahawdd* a gynrychiolir gan elfen olaf *aurweddiwadd*. Ceid synnwyr a chynghanedd hefyd o ddiwygio'r ll. i ddarllen *Ar ddeau Ei Dad, fe'i goddiawadd—Ef*.
- 65 **i'r nawdd—a'r gwleddau** Ceir yr un ddelwedd yn 13.56, 69 isod.

8

Y mae'r drydedd awdl grefyddol a briodolir i Ieuan Brydydd Hir yn ddiddorol odiaeth. Ceir yr unig destun ohoni y gwyddys amdano yn Card 3.4,¹ ond y mae'r lliaws enghreifftiau o gamgopïo, cymysgu testunol a chambriodoli a geir ynddi yn awgrymu'n gryf, er gwaethaf ei chynhared, mai llawysgrif nodedig o wallus ydyw. Awgryma hyn y dylid gofyn a oes modd dibynnu ar y testun o'r awdl hon a gadwyd ynddi, ac i ba raddau—os o gwbl—y gellir hyd yn oed gynnig yn betrus ei ddiwygio. Er hynny, y mae lle i fentro bod y testun yn perthyn i waith dilys Ieuan Brydydd Hir. Y mae'r awdl yn sicr yn debyg o ran ei themâu a'i mynegiant i'r gweddill o'i gerddi crefyddol, a cheir ynddi nifer o ymadroddion sy'n nodweddiadol o ganu Ieuan.

Ymddengys ddarfod canu'r awdl drwyddi ar fesur cyhydedd hir, ond heb eu cynganeddu'n drwyadl. At hynny, y mae'r nifer o wallau crefft yn arwyddocaol. A yw hyn i'w briodoli i gyflwr gwael yr unig destun sydd wedi goroesi, neu ai felly y canwyd yr awdl yn wreiddiol? Fel y dadleuwyd yn y Rhagymadrodd,² y mae lle cryf i gredu bod amryw o gerddi crefyddol y Cywyddwyr wedi eu canu ar gyfer cynulleidfaeoedd llai ffurfiol eu disgwyliadau llenyddol, ac mai dyna un rheswm pam na ofalodd hyd yn oed feirdd o safon am ddiogelu cywirdeb y grefft gynganeddol yn eu canu duwiol. Yn hyn o beth, gellid dadlau bod y cerddi crefyddol, yn ogystal â chanu'r 'glêr', yn rhan o hanes datblygu'r canu digynghanedd a rhydd, a ddaeth i'r amlwg yn yr unfed ganrif ar bymtheg.³ Os enghraifft ddilys o'r un

¹ Ar Card 3.4 [= RWM 5], gw. RWM ii, 96, 'The book of Elis Gruffydd ... written at the palace of Sir Robert Wyngfield (p. 225) in 1527.'

² Gw. uchod, td. 17.

³ Gw. ymhellach sylwadau T.H. Parry-Williams, CRC xi–xxi.

proses yw'r awdl hon, dichon na cheid ond cymeriad llythrennol a chynganeddol ar ddechrau nifer o'r llinellau, yn ogystal â chyffyrddiadau cynganeddol eraill rhwng trydydd a phedwerydd cymal y cyhydeddau, ym mha fersiwn gwreiddiol bynnag y codwyd y testun ohono i Card 3.4.⁴ Gall fod hyn hefyd yn arwyddocaol. Mewn atodiad i'w Ramadeg, ceir gan Ruffydd Robert nifer o benillion crefyddol ar yr un mesur nad oes iddynt hwythau ond cyffyrddiadau cynganeddol.⁵ Y mae hyn yn peri gofyn a ddaethpwyd i fanteisio ar y gyhydedd hir (ddigynghanedd) erbyn y bymthegfed ganrif fel mesur y gellid canu emynau syml arno?

Ceir yn nhestun Card 3.4 bedwar ar ddeg ar hugain o gyhydeddau hir. Os bwriadol eto oedd nifer y penillion, y mae'n bosibl eu bod yn adlewyrchu oedran Crist, gyda chyhydedd ychwanegol i gloi. Sut bynnag, tueddir i feddwl naill ai fod o leiaf bedair llinell ychwanegol yn wreiddiol neu fod yr awdl gynt mewn trefn wahanol; y mae'r naid o adrodd hanes y cyfarchiad i Fair i'r croeshoeliad yn llinellau 14–15 yn ymddangos braidd yn sydyn. Traethu hanes y creu, y cwmp a'r achub oedd bwriad y bardd, a gwneir hyn drwy gyfeirio at y themâu a'r motiffau disgwylidig. Eithr y mae'r naws addfwyn a geir yn yr awdl hon, yn ogystal â'r pwyslais a rydd y bardd ar ofal Duw dros y 'rhai tlawd', yn wahanol iawn i'r arfer a fabwysiadwyd gan y beirdd a luniodd gerddi yn null Siôn Cent. Gellid dadlau, ar y llaw arall, fod yr agwedd fwy llariaidd a welir yma yn nodweddiadol o ganu crefyddol Ieuan Brydydd Hir.

Golygwyd y cywydd hwn eisoes yn Tudur Penllyn, &c.: Gw 115.

- 1 **dechreufyd** Cf. llsg. *de^ehreuwyd*. Y mae nifer o enghreifftiau lle yr hegorir llafariad a chytseiniaid yn y llsg. hon a cheir olion brys a llacrydd ar y copïo drwyddi draw. Oherwydd amwysedd orgraff y ddwy lythyren *-uv-*, nid yw'n amlwg sut y dylid diweddarau'r darlleniad. Yn G 305 rhoddir y ffurf amhrs. *dechreuit*, a chan mai bg.a. ydyw, gellid deall *dechreuwyd* yma i olygu 'crëwyd'. Byddai *dechreuwyd* a [*g*]orffen (ll. 68) yn rhoi rhyw fath o gyrch-gymeriad synhwyrol rhwng dechrau a diwedd yr awdl. Posibilrwydd pellach fyddai diwygio'r gair yn *dychreinwyd*, ffurf amhrs.grff. y f. *dychrain* 'ymgreinio, talu gwr-ogaeth' (gw. GPC 1116); rhoddi'r ffurf honno gyfatebiaeth gytseinol â *dychrynodd*, ond anodd gwybod beth fyddai'r ystyr, gan mai fel bg. yn unig y diffinnir y f. yn GPC. Felly, er na ddaethpwyd o hyd i enghraifft arall, cynigir mai e. clwm o *dechrau* a *byd* a geir yma, gan ddeall *byd* yn yr ystyr 'trafferth, helynt' (gw. 4.63n a cf. GPC 361–2).

⁴ Ar y mesur ei hun, gw. J. Morris-Jones: CD 338 a'r mynegai (gw. cyfeiriadau). Noda Morris-Jones ymbhellach, 'Yn y cyfnod caeth fe gynganeddir y ddau gymal gyntaf ar wahan, a'r trydydd a'r pedwerydd ynghyd' (*ib.* 338, ond gthg. *ib.* §613, td. 372). Ni wneir hynny yn rheolaidd yn yr awdl hon o waith Ieuan Brydydd Hir.

⁵ Gw. G. Robert: GC 335–7.

- 2 **O chwant i fwyta, hynt afalau** Llsgr. *ochwant ivwynt vint yvalau*. Ll. dra ansicr. Ymddengys mai sangiad yw *hynt afalau*. Am enghreifftiau o *hynt* yn yr ystyr 'tynged, helynt', gw. GPC 1978. Yn llyfr Genesis, nid enwir ffrwyth y pren gwybodau da a drwg. Mwysair, a ddaeth o chwarae ar ystyron y ddau e. Llad. neodr *malum -i* ('anffawd, helbul; cosbedigaeth') a *malum -i* ('afal'), a barodd y traddodiad canoloesol mai afal a gymerodd Efa o'r pren i'w roi i Adda.
- 3 **torri'r gorchymyn** Gw. Gen ii.16–17.
- 4 **heb ddydd golau** Cymerir mai ymadrodd yn goleddfu *gelyn* yw hwn, yn awgrymu mai'r gelyn (a diau mai'r diafol a olygir) sydd heb oleuni, neu un ydyw na ddaw i'r goleuni tragwyddol.
- 5 **somi** Amrywiad ar 'siomi', gw. 2.41, 5.32n
- 6 **symudo** Llsgr. *yssumdo*. Dichon mai'r be. *symudo*, neu efallai'r amrywiad *ysmudo*, a olygir yma. Benthyciad o'r Llad. *summuto* neu *summotus* ydyw, ac fe'i ceir yn yr ystyr 'cymryd ymaith, cael gwared o [rywbeth]', gw. GPC (i ymddangos). Gallai *symud* hefyd olygu 'newid, difa, difodi', gw. GDG³ 448 (d.g. *bro yr hud*). Llai tebygol, ond nid amhosibl, yw mai ymgais a geir yma i gynrychioli'r Llad. *assumptus* mewn cystrawen a gyfatebai i ffurf abladol ddigyswllt y gair.
- 7 **Trwsiodd i uffern tros ei dwy hengern** Llsgr. *trwssiodd Juffern dros idwy hengern*. Ystyr *trwsio* yw 'paratoi, ffurfio', gw. slip yng nghasgliad GPC; cf. IGE² 97 (llau. 19–20) *Duw i'r hawl, a da yw rhom, / A drwsiodd Mab Mair drosom* (bardd anh.). Anodd gwybod ai'r ardd. 'i', ai'r rh.prs.dib. blaen 'ei', ynteu prif lythyren yr e.prs. *Iesu* a olygir gan y clymiad *Juffern*. Ymhellach ar *cern*, gw. GPC 468 d.g. *cern*². Gan yr ystyrid yn yr Oesoedd Canol mai rhan neu ardal o uffern oedd y purdan, dichon mai'r ddwy 'hengern' yw'r rhai a fernir i un o'r ddau le hyn. Ar hanes twf y cysyniad am y purdan, gw. J. Le Goff, *The Birth of Purgatory*, trans. A. Goldhammer (London, 1984), *passim* a 1.24n uchod.
- 8 **Trwsiant i'r fignwern, fagwyr bigau** Llsgr. *dryssiant ir viginwern ...* Ar *trwsiant* gw. slip yng nghasgliad GPC, lle yr awgrymir mai bôn y be. *trwsio* a geir yn yr eg. hwn, yn golygu 'llun, ffurf, golwg'. Cyfystyr ag *uffern* yw *mignwern* 'cors' neu 'gwern', gw. GPC 2454. Ar wahanol ystyron *magwyr*, gw. *ib.* 2320; dichon mai ystyr debyg i 'adfail' sydd iddo yma.
- 9 **pumoes** Ym meddylfryd yr Oesoedd Canol rhennid hanes y byd yn nifer o gyfnodau cyn Crist ac ar Ei ôl, a'u trefnu yn ôl digwyddiadau beiblaidd arwyddocaol. Yr oedd yr amrywiol restrau hyn yn bur wahanol i'w gilydd, a gwahaniaethid cynifer ag wyth 'oes' gan rai awduron canoloesol. Un o'r rhaniadau mwyaf poblogaidd, a gofnodwyd yn *Collectanea Pseudo-Bedae* (gw. isod), oedd y chwe chyfnod o Adda

hyd Noe a'r Dilyw, o Noe hyd Abraham, o Abraham hyd Foesen, o Foesen hyd Ddafydd, o Ddafydd hyd Ioan Fedyddiwr a dyfodiad Crist (am raniad arall, gw. HG Cref 214–15, cf. GSRh 12.10n, 17n). Credid mai gyda gwaith achubol Crist y dechreuwyd y chweched oes, a bery hyd Ddydd y Farn, a dyna pam y pwysleisir pum oes gan y beirdd Cymraeg. Arwyddocâd y *pumoes* oedd hanes y ddynoliaeth o dan yr Hen Oruchwyliaeth. Ceir y syniad yn wreiddiol yn Awstin, *De Genesi contra Manichaeos* (PL xxxiv, 173–220) ac yn ei *De ciuitate Dei* (*ib.* xxii, 30). Ymddengys mai benthg y syniad a wnaeth Isidor o Sevilla ar gyfer ei *Etymologiae*; helaethwyd arno wedyn gan Beda, a faentumiodd fod wyth oes. Am drafodaeth ar ddatblygiad y thema, gw. Hildegard L.C. Tristram, *Sex aetates mundi: Die Weltzeitalter bei den Angelsachsen und den Iren. Untersuchungen und Texte* (Heidelberg, 1985); Dáibhí Ó Cróinín, *The Irish 'Sex Aetates Mundi'* (Dublin, 1983) a cf. hefyd *Collectanea Pseudo-Bedae*, ed. M. Bayless and M. Lapidge (Dublin, 1998), 273; J.A. Burrows, *The Ages of Man: a Study in Medieval Writing and Thought* (Oxford, 1986), *passim*.

enwog fu'r ddryfoes Llsgr. *enwoc vur ddygfoes*. Gellid dehongli *dygfoes* yn unig enghraifft o gyfuniad yn cynnwys *dyg-* (bôn y f. *dygaf*: *dwyn* yn yr ystyr 'esgor ar' neu 'meithrin') a *moes* 'arfer', a'i ddeall yn gyfeiriad at yr ymgawdoliad; ond cynigir yn hytrach ddiwygio'r gair yn *drygfoes*, cf. GPC 1093 a IGE² 165 (ll. 10) *Hir ddangos drygfoes i hen* (Rhys Goch Eryri).

- 12 **f'enaïd a orfu i orfod** Am wahanol ystyron posibl *gorfod*, yn f. ac yn e., gw. GPC 1479, 1481–2.
- 13 **Gabriel ... gobrwy** Ceir hanes dyfodiad Gabriel at Fair yn Luc i.26–38. Amrywiad ar *gobr* yw *gobrwy*, gw. GPC 1418. Trafodir y term technegol *amobr* (y mae'r elfen *gobr* yn rhan ohono) yn y Gyfraith yn *The Welsh Law of Women*, ed. D. Jenkins and M.E. Owen (Cardiff, 1980), 96–113, ond y mae'n fwy tebygol mai 'trysor, anwylyd iachusol, haeddiannol neu brynedigol' yw'r ystyr yma. Ceir yr un ddelwedd yn 6.14 *Gobrwyl gred, Gabriel grair*.
- 14 **Rhwng Mair a'i mawr-rad, morwyn ddiau** Llsgr. *hrwng mair ai mowrurad morwyn dd[]*. Gall mai *mawrhad* neu *mawr-rad* (o *rhad* yn yr ystyr 'gras') a fwriadwyd yn wreiddiol. Os *mawr-rad* ydyw, y mae'n bosibl mai '[y] Mawr [Ei] rad', sef Duw, a olygir. Ar y llaw arall, nid yw'n sicr beth a olygid gan *mawrfrad*, sef y ffurf debycach a ddaw o ddilyn orgraff y llsgr. Ni ddisgwyliid *brad* os at Fair y cyfeirir, er y gall mai *a'u mawr-frad* ydyw, os cymerir mai cyfeirio yn ôl at y *pumoes* y mae. Er mwyn yr odl, gellir yn betrus adfer *ddiau* i'r testun fel a. yn goleddfu *morwyn*, cf. ailadrodd yr un gair yn llau. 50–2.
- 15 **calon oddefus** Ceir sôn am oddefgarwch Crist droeon yng ngherddi

- Ieuan Brydydd Hir, cf. 6.34–5 *goddefaist gur / Ar Dy gorff, ib.* ll. 89 *Fy Llywydd ufydd, goddefus—wyd, Iôr, 7.59–60 gwiw fudawdd—i nef, / Yn ôl Ei oddef...*
- 16 **Peilatus, plaid yn rheiniau** Llsg. *peilattus blaid ynreiniau*. Cymerir mai Peilat a olygir yma (cf. *Pilatus*, 6.51n), ac oherwydd y cymeriad cynganeddol disgwylieidig rhwng *Peilatus* a *blaid*, adferwyd *blaid* i'w ffurf ddidreigladd. Anodd gwybod ai ll. yr a. *graen* 'aruthr, ofnadwy, ... alaethus', &c. (GPC 1521 d.g. *graen*¹) ynteu *rhain*, sef a. 'marw gelain, syth (oherwydd ofn)' gyda grym e. (gw. GPC 3033 d.g. *rhain*²), a gynrychiolir gan *reiniau* y llsg.
- 18 **dremyg** 'Amharch, dirmyg' (oherwydd pechod gwreiddiol?).
- 19 **Gwnaeth Suddas—O wŕ!—gwerthu'r D'roganwr** Llsg. *gwnnaeth sudd owr gwerthur droganwr*. Ni ellir ond dyfalu ynghylch y geiriau anghyflawn *sudd owr*, ond diau mai at *Suddas* y cyfeiria'r ll. Cynigir yn betrus mai ebd. a gynrychiolir gan *owr*, y ceir ei gyffelyb yn ll. 25n isod. Crist ei hun yw'r Daroganwr, y Mab Darogan y cyfeirir ato yma (gw. 4.56n), fel y dengys englyn o waith Raff ap Robert ynghylch llosgi delw Fair, *Suddas fradwr, gŵr a gâi arian—gwarth / Er gwerthu'r mab d'rogan* (gw. LIGC 1553A, 357; golygwyd y testun yma).
- 20 **santaidd boenau** Llsg. *sandedd poynau*. Dichon mai'r a. *santaidd* a olygir gan *sandedd* y llsg.
- 21 **Erodr** Sef Herod; gthg. y ffurf *Herod* uchod 6.22n.
- 22 **Yn merthyru'n Iôn yn ôl Difiau** Achosi trais, neu farwolaeth alaethus, yw ystyr *merthyru*, gw. GPC 2436. 'Ar ôl dydd Iau (Cablyd)', sef ar ddydd Gwener y Groglith (hynny yw, wedi Ei fradychu), yw ystyr *yn ôl Difiau*.
- 24 **Am ben ein gŵyl Iôn, gelfydd wyrthiau** Llsg. *am benn yn ion kelvydd wrthiau*. Fel y saif, y mae trydydd cymal y gyhydedd yn fyr o sillaf yma. Os amrywiad ar *wyrthiau* yw *wrthiau*, gall mai ffurf dreigledig *celfydd*, neu hyd yn oed *Culwydd*, a fwriedid yn y testun gwreiddiol. Dengys 6.19 (*gŵyl oedd Fair, f'arghwyddes ...*) fod yr a. *gŵyl* ('gwylaidd') yn rhan o ddelweddaeth Ieuan Brydydd Hir.
- 25 **(O wenwyn wisgad!), o ddrain ysbaddad** Ymddengys mai ebd. a geir yma eto, cf. ll. 19n uchod. Am wahanol ystyron *gwenwyn*, gw. GPC 1639; dichon mai 'creulonder, poen' yw ei ystyr yma. 'Dull o wisgo' yw *gwisgad* (amrywiad ar *gwisgiad*), a rhediad y gystrawen yw *Ac un o'r lladron a wisgodd goron / Am ben ein gŵyl Iôn ... o ddrain ysbaddad*. Yr e. S. ar gyfer yr ysbaddaden yw 'whitethorn' neu 'hawthorn'. Nodwyd yn CO² 51, '*the hawthorn has slightly sinister associations in folklore: "Above most plants in the far west of Europe (it is) a supernatural tree [Grigson]"*', er na sylwyd yno ar y traddodiad yng

Nghymru mai o'r ysbaddaden y gwnaed coron ddrain Crist. Mewn awdl i Iesu a Mair cyfeiria'r bardd-offeiriad Syr Phylib Emlyn at y traddodiad hwnnw, *A rhoi am Ei iad frig ysbaddaden* (golygir gwaith Syr Phylib Emlyn gennyf yng Nghyfres Beirdd yr Uchelwyr (i ymddangos)).

- 30 **Athro llyfrau** 'Fel y dysgir inni yn llyfrau llên'.
- 31 **Dau leidr ddihafarch a r'rodde er amarch** Llsg. *dau leidyrr ddihavarch ar rodde ir amarch*. Ar dreiglo a. yn dilyn e. deuol, gw. Treigladau 62. Rhydd GPC 1005 ystyron cadarnhaol megis 'glew, dewr, gwrol' i *dihafarch*, ond gthg. TW (Pen 228) a D, lle y ceir, d.g. *dihafarch*, yr ystyron '*ferox, fortis, incunctabilis*'. O ddarllen *ar rodde* ceir ll. sy'n rhy hir, ond dichon y gellid hepgor *a r'*, sef cyfuniad o'r rh.pth a'r geiryn rhagferfol *r(h)y*, er mwyn cael ll. o bum sillaf.
- 33–5 **Y naill ... / Arall ...** Ceir hanes y ddau leidr (rhoes traddodiad yr e. Dismas a Gestas iddynt) yn Luc xxiii.39–43.
- 36 **celain cuddiau** *Ar cudd* 'cuddfa; cyflwr cuddiedig', gw. GPC 627.
- 37 **dall wynepclawr** 'Longinus', sef e. traddodiadol y canwriad y credid iddo wanu ystlys Crist ar y groes, gw. 7.44–5n, 12.25n.
- 38 **Â gelynyaw mawr: myrdd a'i ciglau** Dichon mai a. yw *gelyn* yma, yn dynodi 'cas, diellon', gw. GPC 1389, ac y gellid diwygio *murredd*, fel y'i ceir yn y llsg., yn air unsill. Ffurf 3 un.grff.myn. *clywed* yw *ciglau* yma, gw. GMW §133 (c)(1).
- 41–9 **dywsul** Credid yn gyffredinol yn yr Oesoedd Canol mai ar ddydd Sul y crëwyd y byd, yr ymgnawdolwyd ac y ganed Iesu, ac mai ar ddydd Sul hefyd y bydd Dydd y Farn.
- 42 **buchedd riau** Llsg. *buchedd riain*. Rhaid diwygio'r ail air er mwyn cynnal y brifodl. Dichon mai *rhiau* yn yr ystyr 'brenin, arglwydd' a olygid yn wreiddiol. Am enghreifftiau o'r e. yn gyfeiriad at Dduw neu Grist, gw. GPC 3066.
- 44 **graddau Cred** Am y syniad fod cymundeb y saint a'r angylion wedi eu rhannu'n wahanol 'raddau', gw. isod, 11.16n
- 46 **eu dwyn o garchar** Llsg. *idwyn o garchar*. Os 'eu' a olygir gan y llafariad cyntaf, ai at y *graddau Cred* (ll. 44 uchod) y cyfeirir?
- 48 **gorau yw** Y mae'r cyplad yn ceseilio.
- 49 **Dy' Brawd** Sef Dydd y Farn.
- deisyfiant** Sef 'deisyfiad, dymuniad'. Y mae'r enghraifft hon yn gynharach na'r un a geir yn G. Robert: GC 16, ac roddir yn GPC 925.
- 50 **disyml fydd parawd** A deall *parawd* yn e., gellid ystyr megis 'urddasol' neu 'gwyich, craff (= *disyml*) fydd y sawl sy'n barod (neu 'y sawl sy'n addas') ar gyfer dydd y Farn'. Ar wahanol ystyron *parod*, gw. GPC 2691–2.

- 51 **llywiant i drwsiaw** Ar *llyw(i)o*, ‘rheoli, arwain (bucedd), byw (bywyd)’, gw. GPC 2288.
- 53 **Mynydd Olifer** Cf. 6.77n uchod. Fel y saif, y mae’r ll. yn hir o sillaf; gellid goresgyn hyn drwy ddarlflen *Ol’fer*. Ar ffurf yr e., gw. DGG² 245.
- 54 **hoelion** Llsg. *holion*. Dichon fod diwygio darlleniad y llsg. yn rhoi gwell synnwyr yma. Ond fe ellid hefyd naill ai ll. ‘hawl’, neu amrywiad ar y ffurf ll. ‘ôl’, o’r darlleniad fel y saif. Os felly, gall mai at ‘olion’ clwyfau Crist, arwydd maddeuant, y cyfeirir yma.
- 57 **cynhwyso ... ar Ei wir dreftad** Llsg. *yn kynhwyssso anvad ariwir dre tad*. Be. yw *cynhwyso* yma. Am enghreifftiau o’r ardd *ar* yn golygu ‘mewn’, gw. GPC 173.
Cywesgir -o a- er mwyn hyd y ll.
- 58 **glud wahoddau** ‘Gwahoddiadau, galwadau’ neu, o bosibl, ‘gwleddoedd’ yw ystyron tebycaf *gwahoddau*.
- 60 **golo** Llsg. *golud*, a ddiwygiwyd er mwyn cynnal yr odl. Diffinnir *golo* yng ngeirfa Wiliam Llŷn â’r ystyr ‘cyfoeth’, ond ymddengys mai ystyr eiriadurol yn unig yw honno, yn sgil ei gamgysylltu â *golud*. Ystyr arferol *golo* yw ‘cuddfan’ neu ‘bedd’, gw. GPC 1452, ac felly y’i deellir yma.
- 62 **clas** Ei ystyr arferol yw ‘teulu neu gôr crefyddwyr mynachlog’, gw. GPC 490. Ai at y ‘teulu nefol’ (cf. *graddau Cred*, ll. 44n uchod) y cyfeirir yma?
- 66 **dwylfol gerddau** Am yr un syniad, cf. 12.67–8, *Gwnaf, yn ddwyfol Ei foli / Gywydd ...*
- 68 **heb dranc, heb orffen** Ymadrodd llafar a gyfetyb i’r terfyniad litwrgïol Llad. *in saecula saeculorum*, cf. Gwyn 3, 110; LIA 151 (ll. 3); IGE² 273 (ll. 24), 283 (ll. 14), 292 (llau. 21–2); R. Vaughan: YDd 65; E. Llwyd: EI 114; a dyna’r diweddglo arferol a geir ar ddiwedd colectau yn LIGG, *passim*. Gw. hefyd 12.70.

9

Diogelwyd o waith Ieuan Brydydd Hir gerddi sy’n coffáu tri o gyrcfannau pererindota mwyaf poblogaidd Cymru a’r gororau yn y bymthegfed ganrif, sef ei gerddi i’r crogau a geid yng Nghaer ac yn Aberhonddu a’r cywydd hwn i Wenfrewy a’r ffynnon a gysylltid â’i chwlt.¹ Diau i geidwaid y

¹ Ar ffynnon Gwenfrewy, gw. T. Charles-Edwards, *Saint Winefride and her Well: The Historical Background* (Holywell, 1979); E. Hubbard, *Buildings of Wales: Clwyd* (London, 1986), 371–2; Thomas Pennant (1726–1798), *The history of the parishes of Whiteford and Holywell* (London,

lleoedd hyn noddî'r beirdd Cymraeg er mwyn hysbysebu rhinweddau iachusol y cysegrfannau, ac nid afresymol yw casglu bod gwŷr y tai crefydd (abaty Dinas Basing, yn achos capel Gwenfrewy) ymhlith prif noddwyr Ieuan ei hun.² Ni ellir bod yn sicr pa bryd neu ar ba achlysur y canwyd y cywydd hwn. Cedwid gwyliau Gwenfrewy ar 22 Mehefin (gŵyl y *decollatio*, sef ei merthyrdod) a 3 Tachwedd, a chan y cynhelid wythnoswyliau iddynt yn y bymthegfed ganrif, y mae'n bosibl, wrth reswm, mai ar gyfer un o'r gwyliau hyn y cyfansoddodd Ieuan Brydydd Hir y cywydd hwn. Ond hefyd, gallai'r gerdd fod wedi ei hysgogi gan anghenion materol y gysegrfan. Yn 1427, er enghraifft, cyhoeddwyd maddeueb ar gyfer y sawl a gyfrannai at gostau ailadeiladu capel Gwenfrewy. Fel y nodwyd yn y ddogfen berthnasol, grantiwyd:

a Relaxation during ten years ... of a year and forty days of enjoined penance to penitents who on the principal feasts of the year and the dedication, the octaves of certain of them and the six days of Whitsun week, and of a hundred days to those who during the said octaves and days, visit and give alms for the repair and conservation of the Chapel of St Winifred the Virgin, called Haliwell, in the diocese of St. Asaph, whose buildings are collapsed.³

Er bod 1427 yn ymddangos braidd yn gynnar ar gyfer gyrfa Ieuan Brydydd Hir, nid felly pedwardegau'r bymthegfed ganrif; a hyd yn oed os nad i'r union gyfnod hwnnw y dylid priodoli'r cywydd, y mae'n dra thebygol, o ystyried y pwyslais a roddir ar adeiladau, mai dylanwad rhyw ymgyrch godi arian debyg a welir y tu ôl iddo. At hynny, y mae'n bosibl y dylid dyddio'r cywydd hwn gryn dipyn yn ddiweddarach. Yn nawdegau'r bymthegfed ganrif, ceir nifer o feirdd, a Thudur Aled yn eu plith, yn canu cerddi yn annog Tomas Pennant, abad Dinas Basing, i orffen adeiladu'r capel newydd gerllaw ffynnon Gwenfrewy. Ai i'r cyfnod hwnnw y perthyn y cywydd hwn o waith Ieuan Brydydd Hir?⁴

1796); D.R. Thomas: HDStA ii, 188–96. Er cofnodi pererindodau i'r ffynnon mor gynnar â 1115, y mae'n dra diddorol na chyfeirir at y gysegrfan hon nac yn Llyfr Domesday na chan Gerallt Gymro yn 1188. Yn 1093 ychwanegodd Adeliza, gwraig Hugh, iarll Caer, '*the churche of Haliwel*' at y grantiau a wnaed i fynaich abaty'r santes Werburgh yng Nghaer; ond abaty Dinas Basing a ddaeth â'r ffynnon i'r amlwg, gan elwa'n fawr ar y rhoddion a wnaed iddi gan bererinion.

² Gw. uchod tt. 12–17 ac yn arbennig tt. 15–16.

³ Ceir y testun yn D.R. Thomas: HDStA ii, 193.

⁴ Gw. y Rhagymadrodd, td. 6. Tua diwedd y 15g. neu ddechrau'r 16g. adeiladwyd capel pum cilfan dan nawdd Margred, iarlles Richmond a mam Harri VII, a chredai G. Hartwell Jones mai dyna'r pryd y canwyd y cywydd hwn, gw. CBPM 401n2. Yn D.R. Thomas: HDStA ii, 192, cofnodir 'St. Winifred's Chapel, over the Well, was built about the year 1490, by Margaret, Countess of Derby, the mother of Henry VII', cf. hefyd Nia M.W. Powell, 'Mam y Mab Darogan', *Bosworth a'r Tuduriaid*, gol. Dafydd Glyn Jones a John Ellis Jones (Caernarfon, 1985), 58–9. Ond yn E. Hubbard, *op.cit.* 371, fe'i dyddir 'very early 16th century'. O dderbyn y dyddiad cynharach, teg yw casglu bod y cywydd hwn o waith Ieuan Brydydd Hir yn perthyn i'r un cyfnod â chywydd Tudur Aled i

Traddodiadau cymysg a geir am Wenfrewy, y daethpwyd i'w hystyried yn nawddsant gogledd Cymru; ond afraid yw ychwanegu mai ychydig iawn o ddeunydd hanesyddol dilys a geir o'r dystiolaeth hagiograffiaidd ddiweddar amdani a gadwyd.⁵ Dywedir yn y chwedlau a gofnodir yn ei bucheddau Lladin a Chymraeg ei bod yn ferch hardd a doeth. Ymserchodd gŵr o'r enw Caradog ynddi, ond pan wrthododd Gwenfrewy ei serchiadau, ceisiodd ei lladd drwy dorri ei phen â'i gledddyf; fe'i hadferwyd, yn ôl y chwedl, drwy wyrth a wnaed gan ei hewyrth, y sant Beuno. Er bod y bucheddau yn anghytuno ynghylch manylion, y maent yn gytûn mai o'r gwaed a lifodd o glwyf Gwenfrewy y tarddodd y ffynnon a ddaeth yn gyrchfan bererindota gyda'r bwysicaf yng Nghymru'r Oesoedd Canol, ac y dethlid ei galluoedd iachusol yn helaeth gan y beirdd Cymraeg. Yn 1138 trosglwyddwyd creiriau Gwenfrewy i Amwythig, ond parheid i gyrchu'r ffynnon gan bererinion hyd yn oed wedi diddymu'r mynachlogydd. Gwnaed ei gŵyl yn un rhwymedigol yn 1398.

Golygwyd y cywydd hwn eisoes yn Tudur Penllyn, &c.: Gw 111.

- 2 **A droes y maen dros y môr** Yn 'Buchedd Beuno', yr ymddengys ei bod yn gyfieithiad i'r Gymraeg o *Vita* Lad. goll, cofnodir chwedl am Feuno yn mynnu bod Gwenfrewy yn gwneud clog newydd iddo bob blwyddyn. Yn ôl y chwedl, danfonwyd y glog at Feuno ar garreg a arnofiai ar draws yr afon, gw. TWS 150; E.R. Henken, *The Welsh Saints: A Study in Patterned Lives* (Cambridge, 1991), 99 a'r cyfeir-

Wenfrewy (gw. TA 523 (CXXXIX), cf. GSH 122, 161). Os felly, diau fod Ieuan yn ŵr mewn oed y pryd hwnnw.

⁵ Trafodir Gwenfrewy a'i chwlt yn J. Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wryfyddod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1999), gw. mynegai s.n. 'Gwenfrewi (Winefride)'; CBPM 399–408; LBS iii, 185–96; TWS 141–51, cf. E.R. Henken, *The Welsh Saints: A Study in Patterned Lives* (Cambridge, 1991), gw. mynegai s.n. 'Gwenfrewi'; WCD 315–16. Ceir buchedd Lad. Gwenfrewy yr honnid ei hysgrifennu gan ryw Elerius ac y gellir ei dyddio c. 12g., yn BL Cotton MS. Claudius A. v (argreffir y testun yn W.J. Rees, *Lives of the Cambro-British Saints* (London, 1853), 198–209, cf. VSB 288–309). Ceir buchedd Lad. arall, a luniwyd gan Robert, Prior Amwythig, yn Bodleian MS Laud misc. 114 (c. 1139), gw. ymhellach *Acta Sanctorum* (Paris, 1887), 691–759. Golygir testunau eraill, yn ogystal â chofnodi tystiolaeth ddiweddarach i'r cwlt a dyfodd o gwmpas ffynnon Gwenfrewy, gan C. de Smedt SJ, 'Documenta de S. Wenefreda', *Analecta Bollandiana*, 6 (1887), 305–52. Am drafodaeth ar y bucheddau Cymraeg a Saesneg, gw. J. Cartwright, *op.cit.* 83–4. Paratoir golygiad newydd o fuchedd Gwenfrewy gan Lisa Eryl Jones i'w gyflwyno ar gyfer Ph.D. Cymru (Caerdydd). Cyfeirir yn aml at Wenfrewy yng ngwaith y Cywyddwyr, a hynny mewn gwahanol gyd-destunau, er enghraifft cywydd Guto'r Glyn i Hywel o Foelyrch pan friwasai ei lin, *Gwen a dyrr gwyn a dyrrwyf / Frewy achlân friw a chlwyf* (GGI² 120 (XLIV.53–4)), a chan Lewys Môn mewn cywydd i ferch, *Gwenfrewy, gwn, a friwynt: / achos gŵr oedd ei chas, gynt* (GLM 342 (XCV.37–8), cf. TA 523 (CXXXIX.5–6)). Canwyd cerddi cyfan i Wenfrewy gan Dudur Aled, gw. TA 523 (CXXXIX); Siôn ap Hywel, gw. GSH 69–72 (cerdd 18) a chan fardd anhysbys, gw. IGE² 104–6 (XXXV). Am ymdriniaeth bellach, gw. D.J. Jones (Gwenallt), 'Cerddi'r Saint a'r Bucheddau Cyfatebol' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1929), 132–3; T.M. Charles-Edwards, *Two Medieval Welsh Poems* (Llandysul, 1971).

iadau yno. Y mae enwi *môr* yma efallai'n awgrymu'r daith o Dreffynnon i Glynnog, ond gan mai afon yn unig a enwir yn y ffynonellau hagiograffaid, gall mai yn drosiadol yr arferir *môr* gan Ieuan Brydydd Hir yn y gerdd hon.

- 4 **enaïd rydd** Sef y cyflwr o fod mewn ystad o ras. Cofnodir yn GPC 1212 enghreifftiau o *enaïd* yn eb. yn ogystal ag yn eg., gthg. 10.20n isod.
- 5 **manna fry** Gwyddai'r beirdd am *manna*, sef y bwyd a ddarparwyd yn wyrthiol ar gyfer yr Israeliaid yn yr anialwch (ceir yr hanes yn Ecs xvi), ac fe'i defnyddid ganddynt yn drosiadol, gw. GPC 2343.
- 6 **berw awen** Cymherir yn ddeheuig lif yr awen â llif y dŵr a ddaeth o ffynnon Gwenfrewy, gw. llau. 10n a 37 isod. Ymddengys fod Ieuan Brydydd Hir, yn y ddwy l. hyn, yn cyffelybu'r awen i'r manna nefol. Am drafodaeth ar yr awen a'i harwyddocâd, gw. y Chwaer Bosco, 'Awen y Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd', BaTh 14–38.
- 7 **Tai sydd fal y tes iddi** Fel y nodwyd yn y sylwadau rhagarweiniol uchod, yr oedd y 15g. yn gyfnod o drwsio ac ehangu mawr yn hanes y gysegrfan neilltuol hon. Yng nghywydd moliant Siôn Ceri i Domas Pennant, Abad Dinas Basing, molir y gwaith adeiladu a wnaed, *Tai mal gwalau teml Gwlen / Tŷ mawr bob tymor i ben* (GSC 131 (46.37–8)). Efallai y defnyddir *tes* ('gwres yr haul; heulwen') yn ffigurol yng ngherdd Ieuan Brydydd Hir i gyfleu'r syniad o gynhesrwydd capel Gwenfrewy, neu oherwydd ei fod mor ddisglair â'r haul.
- 8 **gwawr** Dichon mai at Wenfrewy ei hun y cyfeirir yma, gw. GPC 1605–6.
- 10 **Dŵr garw, a gwaed ar gerrig** Gw. ll. 6n uchod a ll. 37 isod. Cyn ei atal gan y gweithgareddau mwyngloddio a wnaed yn 1917, dywedir bod y llifeiriant o ddŵr a ddeuai o'r ffynnon yn un sylweddol. Yn ôl un adroddiad, amcangyfrifwyd y cyflenwai'r ffynnon gan tunnell o ddŵr y munud (gw. y ffynonellau y cyfeirir atynt yn TWS 147). Cyfeirir at hyn gan feirdd heblaw Ieuan Brydydd Hir, cf. TA 525 (CXXXIX.33–4) *Llai o ferw yn llif Aeron / Neu Euphratês no ffrwd hon*; CBPM 400 *Croew ddwr iach, ferwddwr fowrdawn* (William Byrcinsha), *Treffynnon burion mae'n berwi Kroewddwr* (Robert Miltwn).
- 11 **gwin** Yn y cerddi i Wenfrewy cyfeirir yn aml at ddŵr y ffynnon fel petai'n win, cf. ll. 46 isod. Sylwodd Elissa R. Henken, 'these references are inexplicit enough for [the poets] to be using the wine metaphorically and/or symbolically, but considering other fountains which have run with wine, there is a strong possibility that folk tradition is speaking of wine literally' (gw. *op.cit.* 149 a'r ffynonellau y cyfeirir atynt yno). Sut bynnag, ni ddywed y Cywyddwyr mai gwin oedd y dŵr, ond bod blas yn dŵr yn well na gwin, *Bob dwyfil eiddil y dôn / Ar ffyniant bawb i'r*

ffynnon / I brofi miragl purwyn / A'i flas ymhell gwell na gwin (bardd anh.), gw. D.J. Jones (Gwenallt), 'Cerddi'r Saint a'r Bucheddau Cyfatebol' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1929), 132. O gymryd mai ystyr drosiadol sydd i'r ymadrodd yma ac yng ngwaith y Cywyddwyr eraill, gellid meddwl am hanes Crist yn troi dŵr yn win yn y briodas yng Nghana fel ffynhonnell bosibl iddo, gw. Ioan ii.3–10.

- 13 **Caradog** Ym 'Buchedd Beuno' dywedir mai brenin oedd Caradog, ond rhoddir y tadenw *Caradoc ap Alauc* ym mucheddau Gwenfrewy. Trafodir amrywiadau'r chwedl, yn ogystal â'r gosb a gafodd Caradog a'i ddisgynyddion, yn TWS 141–4.
'Lawog Rhestrir y ffurf yn GPC 2112 d.g. *llawiog* '?a chanddo law neu ddwylo; ?medrus â'i law'; ond derbynnir yr awgrym a wneir yno, sef mai 'ff[urf] garbwl ar enw tad Caradog ab Alaw(o)g' a welir yma a chan Dudur Aled yn TA 523 (CXXXIX.7) *Caradog, lawog o lid*. Cyfieithiad T. Charles-Edwards, *op.cit.* [3] ll. 7, yw '*Caradog, a thundercloud of anger*', ond prin y gellir derbyn hyn.
- 15 **panad eurid?** Ar *panad* (o *pa* a *nad*), gw. GPC 2848 d.g. *poni*¹. Cymerir mai 'pam na chafodd [Gwenfrewy (neu 'ben Gwenfrewy')] ei hanrhydeddu?' yw ystyr y sangiad hwn, ond gw. yr amrywiadau.
- 16 **y lloer** Sef Gwenfrewy ei hun. Am enghreifftiau o *lloer* yn ffigurol am ferch nodedig am ei harddwch, gw. GPC 2198 a cf. ll. 23 isod.
- 17 **Beuno** Ar gwlt y sant Beuno, gw. TWS 74–88.
- 19 **pymtheng mlynedd** Cafwyd y cyfnod penodol hwn o'r traddodiad a gynrychiolir yn 'Buchedd Gwenfrewy' (Llst 34 (ail hanner y 15g.), cf. LBS, iv, 397–423), lle y dywedir i Wenfrewy dreulio pymtheng mlynedd olaf ei bywyd yng Ngwytherin.
- 23 Gw. ll. 16n uchod.
- 26 Rhaid dewis rhwng y ddau brif amrywiad, sef llsgrau. AB *fel y ddau fil*, a CD *fel ydd an fil*. O blaid darllen y *ddau fil*, gellid cymharu'r darlleniad hwn â'r ddelwedd gyffelyb a geir mewn cerdd arall i Wenfrewy, *Bob dwyfil dieiddil y dôn / Ar ffyniant bawb i'r ffynnon* (D.J. Jones (Gwenallt), *l.c.*). Yr oedd *mil* yn eg. ac yn eb. yn y 15g. Serch hynny, efallai fod y gynghanedd o blaid y darlleniad a geir yn CD.
- 27–32 Cf. 12.39–40, 45–6. Yn y cerddi i'r cysegrfannau a'r crogau ceir rhestr o'r gwyrthiau yr honnid eu profi. O'u cymharu, gwelir eu bod yn dilyn trefn sefydlog a seilir, fe ymddengys, ar y rhestr o'r gwyrthiau a nodwedddai weinidogaeth Crist. Dichon mai o'r efengylau, yn y pen draw, y daeth y gysail, gw. Math xi.4–5 (cf. Luc vii.22).
- 28 **e'i caiff** Llsgrau. *Ai caiff*.
ond enynnu cwyr Awgrymwyd uchod mai rhan o bwrpas y cerddi i'r cysegrfannau oedd symbylu pererinion i gyflwyno offrwm i'w cynnal.

Yn y 15g. bu'n arfer iddynt gynnu canhwyllau wrth gyflwyno eu herfyniadau i Dduw neu i'r sant, a diau ddarfod manteisio ar yr offrymau hyn gan geidwaid ffynnon Gwenfrewy i hyrwyddo'r gwaith adeiladu a oedd ar droed ar y pryd. Gw. ymhellach y Rhagymadrodd, td. 12.

- 33 **Dwynwen** Ar y santes Dwynwen a'i chwlt, gw. TWS 227–32. Fe'i hystyrir yng Nghymru'r Oesoedd Canol yn nawddsant cariadon, ond ei pherthnasedd i'r cywydd hwn yw'r cyfeiriadau ati fel iachawr. Cysylltid mwy nag un ffynnon â'i chwlt, gw. *ib.* 228–30.
- 35 **haul Wyl Ieuan** Gall mai at Wyl Ieuan (Ifan) 'hanner (yn yr) haf', sef *'the feast of the nativity of St. John the Baptist'* y cyfeirir yma, a hynny am i'r wyl fod yn agos at heulsafiad yr haf. Fe'i cynhelid ar 24 Mehefin, ac felly yn agos at Wyl y *Decollatio*, sef 22 Mehefin. Cymherir hyn yn CBPM 402n1 â heulwen S. Eulalie (12 Chwefror) a groesewid gan Ffrancwyr Canada, gw. hefyd lau. 47–9n isod.
Ceir yma gynghanedd gysylltben.
- 36 **Hi a dyr wewyr ar wan** Ag anghenion rhieni, yn enwedig â mamau wrth esgor, y cysylltid cwlt Gwenfrewy. Gall, felly, mai at bangfeydd esgor yn benodol y cyfeiria'r ll. hon, gw. Andrew Breeze, 'St Winifred of Wales and *The Duchess of Amalfi*', *Notes and Queries*, ccxliii (1998), 33–4, ond gthg. Thomas Charles-Edwards, *Saint Winifred and her Well* (London, 1962), 18.
- 37 **mawr yw'r dŵr** Gw. uchod llau. 6n a 10n.
- 38 **mal triagl** Cyfeiriad at felyster y dŵr? Ceir yr un ddelwedd gan Dudur Aled, gw. TA 525 (CXXXIX.66–7) *Ennaint o fwg Nant y Fagl / I rai truain yw'r triagl*, gthg. IGE² 105 (llau. 31–2) *Gwell yw na'i ddeuwell o dda, / Na thriagl, byth ni threia*.
- 39 **Ni threia, mwy no Throia** Yn ôl traddodiad, bu Troia dan warchae am ddeng mlynedd.
- 40 **tau** Ffurf 3 un.pres.myn. *tewi*.
- 41 **ffons** Bnth. dysgedig o'r e. Llad. *fons* 'ffynhonnell'.
- 42 **maen bedydd** Bedyddfaen, S. '*baptismal font*'.
Y mae'r ll. yn fyr o sillaf a dichon fod gair unsill yn eisiau, efallai ar ddechrau'r ll.
- 44 **Aurddonen i'r ddwy Wynedd** Amrywiad ar *Iorddonen* oedd *Aurddonen*. Gwynedd Uwch Conwy ac Is Conwy oedd y *ddwy Wynedd*.
- 46 **a'i phib win** Gw. uchod ll. 11n.
- 45–50 Ymddengys cystrawen y llau. hyn braidd yn drwsgl, a gellir cynnig yn betrus mai'r ystyr yn fras yw 'Deuwn ati, Wenfrewy, dan do [ei chapel], lle y mae ei chasgennaid o win [sef ei dŵr] a phawb yn

bresennol. Yn ddyn[ion] unig a gwan, cawn yno ychydig ddiod [neu efallai 'ddiod am ychydig'] sy'n lân megis buchedd Ioan gyda'r forwyn ddoeth (dysgedig oedd) ac sydd yr un fath [â buchedd Ioan] yn ei harferodd.' Gwelir yma gymharu glendid (?sancteiddrwydd) dŵr ffynnon Gwenfrewy i fuchedd Ioan. Dichon mai Ioan Fedyddiwr a olygir (gw. uchod, ll. 35n), er y gall mai at yr Efenglydd, a ystyridd yntau'n batrwm purdeb a diweirdeb, y cyfeirir, cf. GCBM ii, 297 (219n) am y syniad bod 'traethawd' Ieuan yn rhywbeth y gellid dibynnu'n llwyr arno.

- 49 **dysgedig oedd** Deellir y sangiad yn gyfeiriad at yr addysg y honnid i Wenfrewy ei derbyn, gw. J. Cartwright, *op.cit.* 95–8.
- 51 **dafnau o'i gwyrthiau** Ceir synnwyr o'r ddau brif ddarlleniad *gwyrthiau* a *gwytheu* (gw. amrywiadau). O blaid yr ail y mae'r amhendant-rwydd a welir yn y ffurf l. *gwythiau*, a all olygu naill ai 'gwythiennau' neu 'ffrydiau' (gw. GPC 1790–1 d.g. *gŵyth*²). Ond y mae *dafnau o'i gwyrthiau* hithau'n ddelwedd rymus, a cheir ei thebyg yn 12.60 *Dagrau Hwn a'm dwg o'r haint*, gw. *ib.n.* Am syniad tebyg, cf. TA 525 (CXXXIX.45–52) *Beth ydyw'r ôl byth a drig? / Band ei gwaed bendigedig? / Dagrau fal cawod egroes, / Defni Crist, o fannau croes; / Daioni corff dyn, o caid,— / Derbyn deigr dŵr bendigaid; / Dyfriw gwaed, fal dwfr a gwin, / Dwyn iwch wyrthiau dan chwerthin.*

10

Y mae cerddi 10–12 yn perthyn i *genre* neilltuol o ganu crefyddol a ysbrydolwyd gan hanes croeshoelio Crist, a chan saernïaeth nifer sylweddol o'r crogau eglwysig a geid yng Nghymru a'r Gororau hyd nes diddymu'r mynachlogydd yn yr unfed ganrif ar bymtheg.¹ Canu yw hwn y bu cryn fri arno o ddyddiau Dafydd ap Gwilym hyd Lewys Morgannwg, sef cyfnod o ddau can mlynedd.² Y mae Dr Ann Parry Owen bellach wedi profi nad yng Nghaer ond yng Nghaerfyrddin y ceid y grog y canodd Dafydd ap Gwilym amdani,³ ond yr oedd y grog yng Nghaer hithau'n ddelw y cyrchid ati ac yn

¹ Gw. y sylwadau rhagarweiniol i gerddi 11 a 12 isod.

² Ceir arolwg o'r crogau yng Nghymru gan F.H. Crossley a M. Ridgeway, 'Screens, Lofts and Stalls Situated in Wales and Monmouthshire', Arch Camb (sixth series) xcvi (1943), xcvi (1944–5), cii (1952), cvi (1957), cvii (1958), cviii (1959), cxi (1962). Ar ganu'r beirdd i'r crogau yn gyffredinol, gw. uchod tt. 12–17. Y gyfres englynion gan Ddafydd ap Gwilym Gam i'r grog yng Nghaerfyrddin yw'r gerdd gynharaf o'i bath y gwyddys amdani, gw. GLIBH 51–77; Ann Parry Owen, 'Englynion Dafydd Llwyd ap Gwilym Gam i'r Grog o Gaer', YB xxvi (1996), 15–36. Am ganu Lewys Morgannwg i'r crogau, gw. Glam Bards 677–81. Trafodir y *genre* gan yr Athro Emeritws Glanmor Williams mewn nifer o lyfrau ac erthyglau, gw. yn enwedig WCCR² 478–80, *id.* 'Poets and Pilgrims in 15th- and 16th-Century Wales', THSC, 1991, 69–98; E. Roberts, 'Uchelwyr y Beirdd: Y Llan', TCHSDd xxv (1976), 73–91.

³ Gw. Ann Parry Owen, *art.cit.* 15–36.

wrthrych defosiwn poblogaidd. Canodd Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd,⁴ Bedo Brwynllys, William Egwad, Llawdden, Maredudd ap Rhys a Dafydd ap Hywel ap Ieuan Fychan awdlau o foliant i'r grog yng Nghaer,⁵ ac ysbrydolwyd ganddi hefyd gerdd ofyn ar ffurf gweddi, sef cywydd a ganwyd gan Guto'r Glyn dros Ddafydd ab Ieuan ap Llywelyn.⁶ Y mae'n rhesymol casglu mai dyma'r grog a fu'n wrthrych y cywydd hwn a'r cywydd nesaf o waith Ieuan Brydydd Hir yntau.

Ond ni ellid sefydlu'n derfynol ymhle y safai'r grog y cenid amdani. Yr oedd G. Hartwell Jones o'r farn mai yn eglwys sant Ioan Fedyddiwr, a oedd dan reolaeth cymuned o ganoniaid secwlar, yr oedd y grog a gyrchid gan y beirdd Cymraeg.⁷ Y mae, yn sicr, le cryf i ddadlau dros leoli'r grog yn yr eglwys golegol honno.⁸ Yr oedd yn eglwys gadeiriol am ysbaid fer yng nghyfnod y Normaniaid o'r flwyddyn 1075, pryd y trosglwyddodd Peter, esgob Caerlwythgoed, ei esgobaeth i Gaer, a sefydlu'r eglwys honno yn gadeirlan.⁹ Yn 1102, fodd bynnag, symudodd Robert de Limesey yr esgobaeth i Coventry. Er na châi'r esgobion eu hurddo yn eglwys sant Ioan wedi hynny, cadwent blas ger yr eglwys honno a dal y teitl 'Esgob Caer' hyd at y Diwygiad.¹⁰ Nid annichon, felly, mai eglwys sant Ioan Fedyddiwr, a chwaraeodd ran flaengar ym mywyd y ddinas, oedd cyrchfan y pererinion a ddaethai o Gymru a gwrthrych y cerddi a genid gan y beirdd.

Ond heblaw eglwys sant Ioan Fedyddiwr, yr oedd dau o dai crefydd y Benedictiaid yng Nghaer (sef abaty'r santes Werburgh a phriordy neu leiandy'r Forwyn Fair¹¹) a gadwai gysylltiadau Cymreig drwy ddal tiroedd yng Nghymru yn y bymthegfed ganrif. Cynigir yn betrus yma mai yn eglwys abaty'r Benedictiaid, yn hytrach nag eglwys sant Ioan, y safai'r grog y mae a wnelo'r cywydd hwn a'r un nesaf â hi.¹² Ceir rhywfaint o ateg i hyn yn amryfal enwau'r abaty, y cysegrwyd ei gapeli droeon i Fair, i Bedr a

⁴ Golygir awdl Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd gan Glenda Jones, 'Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1990), 192–206. Cyfieithwyd yr awdl i'r S. gan T. Gwynn Jones, gw. 'The Ode to the Crucifix at Chester', *The Cheshire Sheaf*, May 1925, 37–40.

⁵ Ceir testunau diplomatig o'r cerddi hyn a thrafodaeth arnynt yn CBPM 293–99, 550–3.

⁶ GGI² 283 (CX).

⁷ Gw. CBPM 294. Ysyaeth, nid yw Hartwell Jones yn cyfeirio at ei ffynhonnell ar gyfer yr wybodaeth hon, ond maentumiodd mai fel 'The Church of the Holy Rood' y cyfeirid at eglwys sant Ioan, a dichon iddo ystyried fod hynny'n brawf mai yn yr eglwys honno y safai'r grog.

⁸ Am arolwg cyffredinol o hanes y tai crefydd yng Nghaer, gw. R.H. Morris, *Chester in Plantagenet and Tudor Reigns* (Chester, 1894); *A History of the County of Chester*, iii, ed. B.E. Harris, (Oxford, 1983), mynegai. Ar eglwys sant Ioan Fedyddiwr ei hun, gw. *ib.* 2–3, 5–6, 34, 126–7, 174, 237 a'r cyfeiriadau.

⁹ Gw. *Handbook of British Chronology*, ed. F.M. Powicke a E.B. Fryde (London, 1961), 233.

¹⁰ Gw. G. Ormerod, *The History of the County Palatine and City of Chester* (London, 1882), i, 93–4.

¹¹ Ar berthynas Llangathen â phriordy'r Benedictiaid yng Nghaer, ac am hanes y priordy ei hun, gw. B.E. Harris (ed.), *op.cit.* 146–50 ac 11.i.1n isod.

¹² Ymddengys mai dyna oedd barn Dr Enid Roberts hithau, gw. *art.cit.* 83n37.

Phawl, i'r Drindod a sant Oswallt, ac yn ddiweddaraf i'r sant Oswallt a'r santes Werburgh.¹³ Adleisia'r beirdd Cymraeg yr amrywiaeth hwn, yn enwedig Guto'r Glyn yn ei gywydd yntau i'r grog yng Nghaer, lle y gelwir ar Fair ac Oswallt (ymhlith saint eraill) i weddio dros iechyd Dafydd ab Ieuan ap Llywelyn.¹⁴

Yn 1092 dechreuodd Hugh I, iarll Caer, drawsffurfio'r eglwys (a oedd y pryd hwnnw, megis eglwys sant Ioan, dan reolaeth cymuned o ganoniaid secwlar) yn abaty Benedictaidd. Yn hyn o orchwyl cafodd Hugh gymorth yr archesgob Anselm. Yn ôl *Polychronicon* Ranulph Higden (*ob. c.* 1364), a buchedd y santes Werburgh a luniwyd gan Henry Bradshaw yn gynnar yn yr unfed ganrif ar bymtheg,¹⁵ cysegrwyd yr eglwys i Werburgh, merch Wulfhere, brenin Mercia (657–74). Honnir yn y ddwy ffynhonnell ddarvoud cludo creiriau Werburgh i Gaer yn 874, ond y mae'n bur debygol nad yw'r honiadau hyn yn ddibynadwy. Nid oes sôn am gysegru eglwys i Werburgh cyn 958, a pherthyn i fyd chwedl y mae hanes cynnar yr abaty pwysig hwn. Eithr nid creiriau'r santes Werburgh ond crog eglwys yr abaty oedd gwrthrych cerddi'r beirdd, ac y mae'n debygol y dylid cysylltu'r arfer o ganu i'r grog neilltuol hon â'r adeiladu mawr a oedd ar droed drwy gydol y bedwaredd ganrif ar ddeg yn ystod abadaethau Thomas Birchills, William Bebbington a Richard Sainsbury (ymddiswyddodd yr olaf yn 1362). Cychwynnwyd cyfnod o atgyweirio ac ailadeiladu eto gan yr abad John Birkinshaw (Siôn Byrcinsha), a etholwyd yn 1493. Dychanodd Iolo Goch y Brawd Llwyd o Gaer (sef Hywel ap Madog),¹⁶ ond dengys y canu i wŷr eglwysig, megis y cerddi i'r abad Siôn ei hun, y câi'r beirdd groeso a nawdd yn nhai crefydd y dref.¹⁷

Diogelwyd testunau o'r cywydd hwn mewn pum llawysgrif. Llawysgrif C (sef BL Add 14984) yw'r hynaf, a cheir ynddi ddarlleniadau sydd, ar brydiau, yn rhagori ar y copïau eraill. Fe'i dilynwyd hyd y gellid, er bod manau lle nad oedd y testun hwnnw yn ddibynadwy. Golygwyd y cywydd hwn yn Tudur Penllyn, &c.: Gw 99 ac argraffwyd testun ohono yn CBPM 551.

1–2 **Caer ... / Leon Gawr** Sef Caer (*Chester*) yn hytrach na Chaerllion-ar-Wysg. Hon oedd y *Cair Legion* y cyfeirir ati gan Nennius, gw. *Nennius: British History and The Welsh Annals*, ed. J. Morris (London, 1980), 66a.17. Am hanes yr abaty (sydd bellach yn gadeirlan), gw. 'A member

¹³ G. Ormerod, *op.cit.* i, 189–91.

¹⁴ Diddorol yw nodi bod Guto yn galw ar sant Lednart yn ogystal. Yn G. Ormerod, *op.cit.* ii, 236–7, iii, 129, dywedir bod capel gynt yn Tarporley a gysegrwyd i'r Forwyn ac i sant Leonard, ac a daeuid fel 'meudwydy'r grog'.

¹⁵ Trafodir y dogfennau hyn yn B.E. Harris (ed.), *op.cit.* 132.

¹⁶ Cynigwyd mai Hywel ap Madog Cyffin, deon Llanelwy, oedd gwrthrych y gerdd honno, gw. GIG 153 (XXXIV), 356.

¹⁷ TA 49 (IX), cf. CTC 228.

- of the Chester archaeological society', *A history of Chester cathedral with biographical notices of the bishops and deans* (Chester, 1852); G.W.O. Addleshaw, *Chester Cathedral* (Eastleigh, 1975, 1989); F.S.M. Bennett, *Chester Cathedral* (Chester, 1926, 1982); R.V.H. Burne, *The Monks of Chester* (Chester, 1962); *A History of the County of Chester*, iii, ed. B.E. Harris, (Oxford, 1983), 125–7, 132–46; C. Hiatt, *The Cathedral Church of Chester; a Description of the Fabric and a Brief History of the Episcopal See* (London, 1897, 1911); S.S. Smalley, *Chester Cathedral* (Andover, 1994).
- 3 **llarieidd-draed** Erbyn y 15g. dechreuwyd datblygu defosiynau manwl i bum clwyf a gwaed y Crist croeshoeliedig, a theg felly yw casglu eu bod ymhlith cylltiau mwyaf poblogaidd Ewrop yn yr Oesoedd Canol diweddar. Am fanylion pellach, gw. E. Duffy, *The Stripping of the Altars* (London, 1992), 238–48; E. Mâle, *Religious Art in France: The Late Middle Ages* (Princeton, 1986), 94–100; R.W. Pfaff, *New Liturgical Feasts in Late Medieval England* (Oxford, 1970), 84–90. Credid bod pob un o bum clwyf Crist wedi ei achosi gan bechod arbennig, ac y gellid myfyrio ar glwyf i gael gwellhad o ryw ddrygioni penodol, cf. y gyfres weddiâu a geir yn Llyfrgell Prifysgol Caer-grawnt llsgr. Ii. vi. 43, 23^r, *Gracious Ihesu for the wound of your ryght foot kepe me from the synne of covetyse that I desire no maner thyng that is contrary to your wylle ...*
- 11 **brau Iôn wyd** Diwygiad. Darlleniad llsgr. C (sef yr hynaf), yw *brau iondyd*. Deellir *brau* yn yr ystyr 'rhydd; hael; parod; gwych', gw. GPC 311. Nid yw *iondyd* yn air hysbys, ond *wyd* a geir yn y llsgrau. eraill, a chan fod odli â dwy ffurf y cyplad (sef *wyd* ac *ydwyd*) yn arfer mor gyffredin, cynigir yn betrus ddiwygio darlleniad llsgr. C.
- 12 **brenin** Ar ddydd Sul y Blodau mewn rhai lleoedd bu'n arfer i'r gynulleidfa orymdeithio i'r eglwys dan ganu *Ave, Rex noster*. Crist, nid y grog, a gyferchid.
- 14 **Iddewon** Gw. 6.23n uchod. E. y daethpwyd i'w arfer am unrhyw elyn oedd *Iddew*.
- 18 **taro a wnaethpwyd** Ceseilier y rh.pth. er mwyn hyd y ll.
- y teiroel** Pedair hoelen a welid yn wreiddiol mewn portreadau a delwau o'r croeshoeliad (sef dwy ar gyfer traed Crist a dwy ar gyfer ei ddwylo). Yn y Gorllewin disodlwyd hyn yn raddol gan yr arfer o ddangos traed Crist wedi eu hoelio'n un. Gwelir hyn eisoes yn y 12g. (cf. bedyddfaen Thienen, Brwsel (c. 1149)); ond erbyn y 13g. diflannodd y *suppedaneum* ac arferid croesi coesau'r ddelw. Trafodir hanes datblygiad delwau o'r croeshoeliad yn P. Thoby, *Le Crucifix des Origines au Concile de Trente: Étude Iconographique* (Nantes, 1959), *passim*.
- 20 **enaid rhydd** Dilynir llsgr. C. Bod mewn ystad neu gyflwr o ras esgatolegol oedd ystyr *enaid rhydd*, gw. 9.4n uchod; dichon mai ymgais

- i osgoi'r ymadrodd a barodd *nod rhudd / rhydd* y llsgrau. diweddarach. Eg. yw *enaïd* yma, gthg. 9.4n uchod.
- 23 **er Dy grau a'r groes** Sef gwaed (Cym.C. *crau*) Crist a dywalltwyd, a'r groes a fu'n wrthrych y myfyrio, cf. GGI² 232 (LXXXVIII.67) *Trugarog fo'r grog a'r grau*. Gellid hefyd ddarllen *ar groes*.
- 25 **er pan fûm fab** Cf. 13.13 *Digio'n ôl wrth fabolaeth*.
- 26 **eurbab** Am ddefnydd ffigurol *pab*, gw. GPC 2662 a RBCWP 14–25.
- 27–8 **Fy swydd ... / Mae yn wag** Am syniad tebyg, gw. 5.23n *Fy swydd fu watwar a sôn*. Fel yr awgrymwyd yno, bron na ellid dadlau mai topos yn y canu penydiol yw i fardd gyfaddef iddo gamddefnyddio ei swydd farddol, cf. y sylwadau rhagarweiniol i farwysgafn Meilyr Brydydd yn GMB 60 a'r cywydd 'Ystyriaeth Bywyd' gan Guto'r Glyn, gw. GGI² 305 (CXIX).
- 31–46 Craidd yr adran hon o'r cywydd yw rhestr o'r Saith Bechod Marwol; am drafodaeth arnynt, gw. 5.15n.
- 33 **symledd** Gall olygu naill ai 'symylrwydd; unplygrwydd; diniweidrwydd' neu 'hurtrwydd, gwiriondeb'. Dichon mai'r ail sy'n gweddu orau yma, ond yn R 1214.3 ceir *balch uedôl symled* (Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd), lle y mae, o bosibl, yn cyfleu'r syniad o *naïveté*.
- 36 **gofyn mewn gwyn** Cf. *medd gwyn* yr amrywiadau. Gan nad oedd medd yn wyn, dilyniir eto, yn betrus, ddarlleniad llsgr. C, gan ddeall *gwyn* yn yr ystyr 'blys, chwant', gw. GPC 1770 d.g. *gwyn*², a cf. *ib.* d.g. *gwÿn*.
- 37 **swrn** Gw. 4.38n.
- 38 **testunio dynion** Gw. 2.7n.
- 39 **rhus** Anodd penderfynu ai eg. neu ffurf 3 un.pres.myn. y f. *rhus(i)o* yw *rhus* yma, ond tueddir o blaid y cyntaf. Am wahanol ystyron y ddwy ffurf, gw. GPC 3105. Dichon mai 'byrbwylltra, penwendid' yw'r ystyr yma.
- 41 **Glothineb, godineb dyn** Ceir yr un ll. gan Siôn Cent yn IGE² 255 (ll. 19).
- 48 **y byd bach** Ceir ymadroddion tebyg i hwn yng ngwaith Siôn Cent eto, cf. *angau bach, bedd bach*, gw. IGE² 253 (ll. 22), 257 (ll. 16), 291 (ll. 20), 297 (ll. 30).
- 49 **edwyn** Ffurf 3 un.pres.myn. *adnabod*. Yn llsgr. C ceir *dyn da wyf a edwyn dy fawl*, ond yng nghyd-destun y gerdd benydiol hon, y mae'n debygol mai llithriad ydyw.
- 60 **notwyf** 'Sylwi ar; ystyried; tynnu sylw at' yw ystyron tebycaf *notio* yma, gw. GPC 2599.
- 61–2 **Gwared ... / A wnei** Credid bod y crogau yn fannau breintiedig y gellid gweddio yn eu gŵydd am iachâd. Cynhelid Offerennau arbennig

wrth allor y grog, megis Offeren y Pum Clwyf (gw. ll. 3n uchod). Ar y posibilrwydd fod creiriau ynghlwm wrth wneuthuriad y crogau, gw. 12.23n isod.

63–4 Ceir y cwpled hwn hefyd yn 13.65–6.

63 **f'Annwyl** Dichon mai cyfeiriad at Dduw yw hwn.

65–6 Ni cheir y llau. hyn yn llsgr. C, yr hynaf. Oherwydd hynny, a chan eu bod yn digwydd hefyd yn amrywiad mewn cerdd arall a briodolir i Ieuan Brydydd Hir (sef y cywydd i'r grog yn Aberhonddu, gw. isod 12.54 + ii), ni ellir bod yn sicr a oeddynt yn rhan o'r cywydd hwn yn wreiddiol. Fodd bynnag, y mae'r cywydd yn anghyflawn hebddynt, a diau y ffurfia'r pedair ll. olaf ddiweddglo naturiol i'r gerdd.

66 **llywio** Yn GPC 2112 d.g. *llawiaf*: *llawio*, cyfeirir at yr enghraifft hon fel y gynharaf yn yr ystyr 'trafod neu drin â'r llaw'. O blaid y dehongliad hwnnw y mae orgraff y llsgrau. sydd i gyd yn rhoi'r ffurf *lowio*. Ond yr elor yw gwrthrych y f. yn y cwpled, ac y mae'n debycach mai ffurf ar *llywiaf*: *llyw(i)o* yn yr ystyr 'arwain, tywys' (sef mewn gorymdaith litwrgïol) a olygir.

11

Mewn un llawysgrif yn unig, sef BL Add 14876, y cedwir copi o'r ail gerdd i'r grog yng Nghaer a briodolir i Ieuan Brydydd Hir. Cywydd yn honni cwyno ei glefyd ydyw, ac ymddengys ei fod yntau'n perthyn i'r corff o ganu a gysylltir â'r grog enwog a fu yn abaty'r santes Werburgh gynt.¹ Ond fel y saif, y mae lle i amau bod y testun hwn yn llwgr; a chan mai llawysgrif o'r ddeunawfed ganrif yw ein hunig dystiolaeth, ni ellir llai na bod yn wyladwrus iawn yn ei gylch.² Yn ogystal â'r sôn a geir yn y cywydd am Gaer a'i chrog, cyfeirir hefyd at blwyf Llangathen, nid nepell o Landeilo, ac at Gynfab, sef sant na wyddys odid ddim amdano ac eithrio lleoli ei gwlt yn sir Gaerfyrddin. Nid annichon yw i fardd o Ardudwy megis Ieuan ganu i saint yn y De, yn enwedig o gofio iddo ymryson â Thudur Penllyn yng Nghaerdydd a chanu i'r grog yn Aberhonddu;³ ond gellid dadlau ei bod yn annhebygol y byddai un gerdd yn cyplysu cyrchfannau pererindota mor bell o'i gilydd â Chaer a sir Gaerfyrddin.⁴ Y mae'n bosibl, felly, y ceir yma gymysgfa destunol rhwng dwy gerdd grefyddol a oedd yn wreiddiol yn annibynnol ar ei gilydd, sef un yn coffáu saint deheuol, a'r llall yn gywydd

¹ Ar y grog yng Nghaer, ac am gywydd arall o waith Ieuan Brydydd Hir iddi, gw. cerdd 10.

² Perthyn y llsgr. i'r cylch o gopiŵyr a gysylltir â'r Morrisiaid, gw. ymhellach CAMBM 1844, 19–20.

³ Gw uchod, cerdd 3. Cryfheir cysylltiadau Ieuan Brydydd Hir â'r De os derbynnir y traddodiad sy'n mynnu mai yng Nghaerfyrddin y mae ei fedd, gw. uchod tt. 6–7.

⁴ Ond gw. troednodyn 11 i gefndir cerdd 10.

i'r grog yng Nghaer. Yn erbyn y ddadl hon, ar y llaw arall, dylid cadw mewn cof mai [g]weddio saint (ll. 6) oedd bwriad y bardd, ac y gall mai galw ar saint o wahanol ardaloedd yng Nghymru yr oedd. Y mae hefyd yn llawn mor bosibl y cynhwysir yn yr un testun hwn ddwy gerdd o waith dau fardd gwahanol. Ond gan fod naws a mynegiant y cywydd yn bur debyg i gerddi dilys Ieuan Brydydd Hir, gellir dweud yn weddol hyderus fod o leiaf ran ohono'n perthyn i gorff ei ganu.

Heblaw'r problemau testunol, y mae peth amheuaeth ynglŷn â threfn y llinellau fel y'u ceir yn y llawysgrif. Ac yntau'n gywydd o chwech a deugain o linellau, y mae'n fyrrach o dipyn nag a ddisgwyliid am gerdd o'i bath, yn wir yn fyrrach nag unrhyw gerdd arall o eiddo Ieuan Brydydd Hir,⁵ ac y mae hyn eto yn peri amau bod darn ar goll. At hynny, o'i chymharu â phatrwm arferol y *genre*, os cerdd erfyn ar y grog ydyw, efallai y disgwyliid disgrifiad mwy cynhwysfawr o briodoleddau'r gwrthrych, yn ogystal ag o ddioddefaint Crist, cyn symud ymlaen i gyflwyno deisyfiad y bardd. Oherwydd hyn, penderfynwyd diwygio trefn y cywydd, gan adael allan y llinellau yr amheuir eu perthnasedd. Ystyrir y rhain ar wahân yn y nodiadau isod.

Dengys y cywydd ddyled Ieuan Brydydd Hir i naws ac i rai o ymadroddion enwog Siôn Cent,⁶ ac o linell 41 ymlaen fe'i nodweddir gan gyfres o osodiadau gwirebol, lled-ddiarhebol a moesegol. Nid oes modd gwybod ai gwaith Ieuan ei hun, ai dywediadau hysbys ar lafar yw'r gosodiadau hyn, ond gwyddys fel y bu'n arfer gan y Cywyddwyr fanteisio ar ddjarhebon, a'u hefelychu ar dro er mwyn creu llinellau cofiadwy mewn cerdd.⁷

Golygwyd y cywydd hwn eisoes yn Tudur Penllyn, &c.: Gw 107 ac argraffwyd testun ohono yn CBPM 297–9.

- 2 **chwimiais** 'Symud', 'ysgogi'; S. 'to stir or budge'. Dyma'r enghraifft gynharaf o'r gair a nodir yn GPC 856. Darlleniad y llsg. yw *ni chwimiais i 'chwemis hyn*, a chymerir bod y fannod yma'n ddealedig.
- 8 **a weryd clefyd** Am enghraifft arall o gadw cysefin gwrthrych y f. *gweryd* yn y cyfnod canol, cf. GLIF 1.172 *debrwyr a weryd penyd pob gwann*.
- 10 **cwyr lliw** Offrwm *ex voto* oedd cynnau cannwyll, ac ymddengys fod y bardd yn dymuno cynnig ei gyhyd o ganhwyllau drud i'r ddelw o Grist yng Nghaer yn offrwm er adfer ei iechyd.

⁵ Fodd bynnag, 52 ll. a geir yng ngerdd 9 uchod i ffynnon Gwenfrewy.

⁶ Ar gynefndra Ieuan Brydydd â cherddi Siôn Cent a'i ddyled iddo, gw. M.P. Bryant-Quinn, "Enaid y Gwir Oleuni": y Grog yn Aberhonddu', *Dwned*, ii (1996), 51–93.

⁷ Am astudiaethau pellach ar y diarhebon, gw. J.J. Evans, *Diarhebon Cymraeg* (Llandysul, 1965); R.M. Jones, 'Diarhebon', *Traeth cxxxi* (Hydref 1976), 218–30; M.T. Burdett-Jones, 'Diarhebon Cymraeg a Thomas Wiliems o DreFriw', *ib.* clii (Ionawr 1997), 37–47.

- 11 **pan ddêl o'r dŵr** Cyfeiriad at y chwedl fod y ddelw o Grist ar y grog yng Nghaer wedi nofio'n wyrthiol dros y môr o Iwerddon. Ceir gan Ruffudd ap Maredudd ap Dafydd nifer o gyfeiriadau at y chwedl hon yn ei awdl yntau i'r grog yng Nghaer (ceir y testun yn R 1194–8), gw. ymhellach CBPM 294n4 a cf. ll. 14n isod. Ai sail y chwedl yw mai o Iwerddon y daeth y ddelw yn wreiddiol?
- 12 **o'r pren y mae'r Prynwr** Honnir yn y ddwy l. hyn fod y ddelw mor realistig fel na ellir dirnad mai gwaith pren ydyw. Gallai *crog* olygu naill ai'r ddelw a geid ar groglenni eglwysi'r cyfnod neu Grist ei hun, 'y Grog' (Llad. *Crucifixus*, sef yr un a groeshoeliwyd). Ceir nifer o enghreifftiau o'r ystyr ddeublyg hon, e.e. GSH 63 (16.1–4) *Duw, 'r wirGrog, ydyw'r eurgrair / Sydd fab i'r Arglwyddes Fair, / A'r Iesu, eiriau oesir, / Yw'r Grog adwyog waed ir*; GLGC 6 (1.184) *Hwn yw'r Gŵr aur, Hwn yw'r Grog*; LIGC 552B, 105^r a LIGC 644B, 50 *Y Grog yw'r Gŵr a garaf* (cywydd Ieuan Llwyd Brydydd i'r grog yn Llanrwst; golygwyd y testun).
- 13 **A'i ddelw fo a'i dduwiolaeth** Llsgr. *ai ddelw o ei dduwiolaeth*. Ond os dewiswyd gan y bardd drin *delw* yn air deusill (cf. 5.18n, 20n uchod), a ellid darllen *A'i ddelw o'i dduwiolaeth*?
- 14 **fal y troes o'r traeth** Gw. uchod ll. 11n.
- 16 **nawradd nef** *Novem ordines angelorum*, sef graddau'r angylion. Fe'u gwahenid gan y pseudo-Dionysius yn dair hierarchaeth o dair urdd yr un. Trefnwyd y Nawradd ymhellach gan wŷr yr Ysgolion yn *angeli assistentes* ac *angeli ministrantes*. Am grynoded hwylyus o'r ddysgeidiaeth ganoloesol gyffredin ynglŷn â'r angylion, gw. *Fundamentals of Catholic Dogma*, ed. Ludwig Ott, trans. Patrick Lynch (Rockford, Illinois, 1960, 1974), 114–22; *Dictionnaire de Spiritualité* (Paris, 1937–95), i, col. 580–617, d.g. 'Ange'. At y *nawradd nef* y cyfeiria'r ebd. *ar y naw* a glywir hyd heddiw. Yn y cywydd hwn, serch hynny, ymddengys y ddelwedd ei hun braidd yn drwsgl. Diau mai'r bwriad yw cyfleu'r syniad am holl gwmpeini'r nefoedd. Ond y ddynoliaeth, nid 'nawradd' yr angylion, oedd ffocws gwaith achubol Crist, ac felly y credid yn y 15g.
- 17 **o'i fron** Yn y 15g. bu defosiwn mawr i glwyfau a gwaed Crist, yn enwedig i'r clwyf yn ei ystlys, gw. D. Gray, 'The Five Wounds of Our Lord', *Notes and Queries*, ccviii (1963), 50–1, 82–9, 127–34, 163–8 a cf. uchod 10.3n. Yr oedd Offeren arbennig y gellid ei chynnal er anrhydeddu pum clwyf Crist; fe'i gelwid yn S. 'Mass of the Five Wounds'. Yr arfer oedd i'r eirchiad gynnuau pum kannwyll tra cynhelid hi. Ceid maddeueb arbennig hefyd o gynnal defosiwn i glwyf ystlys Crist.
- 18 **carchar** Y mae'n bosibl naill ai mai'r bedd, neu *limbus patrum*, ystad y

- 'pumoes' cyn dyfodiad Crist i anrheithio uffern, a olygir yma. O blaid y dehongliad cyntaf cf. IGE² 258 (ll. 18) *O garchar daear y doeth* [sef Crist]. Ar yr ail, gw. 7.55–6n.
- 19 **teiroel** Gw. 10.18n.
- 20 Fel y'i ceir yn yr unig destun hwn, y mae'r ll. yn ddigynghanedd.
- 22 Y mae lle i gredu bod darn o'r cywydd bellach wedi ei gollu. Fel y gwelir yn y cerddi eraill o waith Ieuan Brydydd Hir i ddiodefaint Crist ac i'r crogau, yr arfer oedd cyfeirio at agweddau eraill ar y croeshoelio, megis fflangellu Crist a'i wisgo â choron ddrain. Efallai y disgwyliid disgrifiad manylach o'r diodefaint, yn ogystal ag o'r grog ei hun, cyn symud ymlaen at ddiweddglo'r gerdd. Y mae absenoldeb yr elfennau arferol hyn, a byrder y cywydd, yn ategu'r amheuaeth nad yw'r testun yn gyflawn fel y saif.
- 28 **gwyliwr** Llsgr. *gwylywyr*. Diwygiwyd darlleniad y llsgr. i gytuno â ffurf un. y rh.prs. *ei* a geir yn ll. 29.
- 29 **Duw'n ddig** Ai atgof o gywydd poblogaidd Siôn Cent, 'Rhag digio Duw' (IGE² XCII), a geir yma? Y mae pob 'pennill' o'r cywydd hwnnw yn gorffen gyda'r ymadrodd *Duw yn ddig*.
- 32 **ystôr ydyw** Llsgr. *ystâr yw* (er bod peth ansicrwydd ai *-â-* ynteu *-ô-* sydd yma). Gellid diwygio'r ll. drwy ddarllen *ys da ryw*, ond o blaid y diwygiad a gynigir yma, cf. *Gwaith Siôn Cent*, gol. T. Matthews (Ab Owen, 1914), 47 *Ystor uwchben côr y caid*. Ceid cwpled heb ei acennu'n iawn o dderbyn yr odl *yw / ... yw* (gw. amrywiadau'r llsgr.), ond y mae sail dros dderbyn mai'r cyplad yn ei ffurf lawn a fwriedir yn ll. 36. Er hynny, erys y ll. yn ddigynghanedd.
- Ceir yma fai crych a llyfn y gellid ei osgoi drwy ddiwygio *roir yn roid*.
- 37 **bradwr** Gan mai eiddo, arian a phridwerth sydd dan sylw, dichon mai cyfeiriad yw hwn at Suddas.
- 39 **dy rasau** Llsgr. *dadle di drase*. Y syniad yw fod Mair yn erfyn dros bechaduriaid ar sail ei grasusau, ond y mae'n llawn mor bosibl mai *dy drasau* (ar gyfri'r gred bod Mair yn hanu o linach y brenin Dafydd) a olygir gan orgraff y testun.
- 41 **na ad ein gado** O'r gwahanol aralleiriadau posibl o'r be. *gado* cynigir mai '*do not allow us to be forsaken*' yw'r tebycaf yma, gw. GPC 1367.
- i.1 **lhan Gathen** Ymddengys mai yn rhodd esgobaeth Caer yr oedd bywoliaeth Llangathen, ac y mae lle i gredu mai lleiandy'r ddinas oedd perchennog y tir ei hun, gw. Rhys Dafys Williams, 'Llangathen and Aberglasney', *The Carmarthen Antiquary*, iii (1961), 203–6. Ond gellir amau nad oedd y ddau gwpled hyn, fel y'u ceir yn BL Add 14876, 78^v

(llau. 7–10), yn rhan o'r gerdd wreiddiol. Cesglir hyn nid yn unig oherwydd y cyfeirio at saint sir Gaerfyrddin, ond hefyd oherwydd annhebygolrwydd y gyfres odlau '*henaint / saint / ennaint / saint*', awgrym cryf o gydweddiad testunol.

ymhennaint Deallir mai *ym enaint* a fwriedir gan y clymiad hwn, cf. hefyd *eli*, ll. i.4 isod. Gall mai yn drosiadol y cyfeirir at *ennaint*, ond nid annichon ychwaith fod yma gyfeiriad at *unctio extrema infirmorum*, yr eneiniaid olaf, a ystyrid yn sagrafen erbyn y 15g.

- i.2 **sw̄n** Gellir diwygio'r gair hwn a darllen *swyn*, sy'n cyfleu yn well yr hyn a erfynir gan y saint.

ugeinmil o saint A ddylid cysylltu'r ddelwedd hon â nifer traddodiadol y saint y dywedid eu claddu yn Enlli, *quae more britannico uocatur roma britanniae propter ... sanctitatem loci ... cum .xx. milia sanctorum ibi iaceant corpora confessorum tam quam martirum*, LL 1 (ll. 18)–2 (ll. 1).

- i.3 **Cynfab gore mab i mi** Y mae'n debygol, fel yr awgrymodd S. Baring-Gould a J. Fisher yn LBS 241, mai nawddsant Capel Cynfab ger Llanfair-ar-y-bryn yw'r Cynfab hwn, y cynhelid ei wyl ar 15 Tachwedd. Nodir ymhellach, *l.c.*, 'the chapel is called "Llangenvab" in the inventories of Church goods taken by the Commissioners in 1552–3'.

- i.4 **eli** Ennaint, cf. i.1.n. Y mae'n annhebygol mai *Eli*, sef e. ar Dduw, a geir yma. Cyplysisir *eli* ac *ennaint* hefyd gan Ddafydd ap Gwilym yntau, GDG³ 78 (27.8–9) *Ac eli twf, ddeudwf ddadl, / Ac ennaint coedydd gynnadl.*

12

Crog enwog priordy'r Benedictiaid yn Aberhonddu yw gwrthrych y cywydd hwn.¹ Cydnabyddir bod y gerdd gyda'r goreuon o'i bath, a chadwyd copi ohoni mewn deg llawysgrif ar hugain. Y mae'r ffaith fod y gerdd wedi ei phriodoli i wyth o feirdd yn arwydd cryf o drosglwyddiad llafar, proses a welir yn eglur yn achos llawysgrifau a–d yn y golygiad hwn. Enwir Huw Cae Llwyd mewn deuddeg llawysgrif ac Ieuan Brydydd Hir mewn saith ond, er gwaethaf tystiolaeth y llawysgrifau o blaid y priodoliad i Huw Cae Llwyd, y mae lle i ddadlau bod ansawdd y gerdd yn debycach i waith Ieuan,² ac nid yw'n amherthnasol mai llawysgrifau o eiddo John Davies, Mallwyd, sy'n diogelu'r traddodiad hwnnw. Ategir y priodoliad i Ieuan Brydydd Hir i raddau gan ddadansoddiad o'r cynganeddion. O ddsbarthu

¹ Am drafodaeth ar y cerddi i'r crogau yn gyffredinol, gw. uchod, tt. 13–17.

² Ceisiwyd dadlau yn M.P. Bryant-Quinn, '“Enaid y Gwir Oleuni”': Y Grog yn Aberhonddu', *Dwned*, ii (1996), 51–94 y gellid adfer y cywydd hwn i ganon gwaith Ieuan Brydydd Hir; ond gthg. sylwadau Dafydd Johnston, GLIG 11.

cynganeddion cywydd 'Henaint',³ sydd yn ddiamau yn waith Ieuan, y cywydd i'r grog yn Aberhonddu, a chywydd crefyddol 'Y Seintiau' gan Huw Cae Llwyd (gw. HCLI 108 (XLV)), ill tri yn gywyddau o 70 o linellau, dyma ganran y gynghanedd a geir, hyd at y ddau bwynt degol agosaf:

	Henaint	I'r grog yn Aberhonddu	Y Seintiau
Croes	44.28	42.85	62.85
Llusg	11.42	14.28	11.42
Sain	20.00	20.00	18.57
Traws	24.28	22.85	7.14

Y mae'r gyfartaledd drawiadol uchel o gynghanedd groes rywiog, fel y'i hamlygir yn 'Y Seintiau', yn nodweddiadol o waith prydyddion ail hanner y bymthegfed ganrif megis Huw Cae Llwyd. Fodd bynnag, nid yw'r groes mor amlwg o uchel nac yn y cywydd hwn i'r grog yn Aberhonddu nac yng ngwaith Ieuan Brydydd Hir yn gyffredinol, ac efallai fod hyn yn ddadl dros amau'r priodoliad i Huw Cae Llwyd.

Ymddengys yr ystyridd y grog yn Aberhonddu yn un nodedig yn y bymthegfed ganrif, a chafwyd cryn ganu er anrhydeddu'r gyrchfan bererindota honno.⁴ Cymharol ddiaddurn yw'r cywydd hwn iddi ac ni cheir ynddo'r math o gywreinrwydd sy'n nodweddiadol o ganu Huw Cae Llwyd. Ond er symled ei chreffft, y mae strwythur y gerdd yn ddehau, gyda chyfres o gyfosodiadau a chyfatebiaethau croesgyfeiriadol a chiasstig sy'n dyfnhau'r myfyrdod.⁵ Ceir ynddo gyffyrddiadau o derminoleg y canu mawl (e.e. *pais* (ll. 23), *hael* (ll. 50), *nawdd* (ll. 56), *gwledd* (ll. 69)) ac, efallai, o'r canu serch hefyd (*ais* (ll. 23), *enaid* (ll. 51)).

Golygwyd y cywydd hwn eisoes yn Tudur Penllyn, &c.: Gw 123 a cheir testun diplomatig yn CBPM 555. Ceir y golygiad beirniadol cyntaf ohono yn HCLI 106 (XLIV), a'r testun hwnnw fu'n sail i'r fersiwn a gyhoeddwyd yn

³ Gw. isod cerdd 13.

⁴ Am astudiaethau ar hanes yr eglwys a'i chrog, gw. isod, ll. 5n. Nodir poblogrwydd y grog yn Aberhonddu yn CBPM 303-5, 554-7 ac fe'i hategir gan awdl i anrhydeddu'r grog yn Rhuddlan, lle y canodd Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan: *Rhodded er nodedd i ni—lawn oboth / Fal yn Aber Hodni ...* (ceir y testun yn *ib.* 303; cf. GILIV 39).

⁵ Enghreifftiau yn unig yw'r cyfochreddau syniadol a ganlyn: [1] *gwryd* <*gwrolaeth* (llau. 1 a 29); [2] *croes-byd* (ll. 2), *Iesu / Duw / Crist* (llau. 8-10), *croes-byd* (llau. 10-11); [3] *Gwener* (ll. 12) <*gwyl y Grog* (ll. 42), *y dydd y codes Iesu* (ll. 37) <*yr wyl* (ll. 69); [4] *gweliau / nef / gwaed* (llau. 13-18) <*gweli / nef / gwaed* (llau. 25-8); [5] *glais / nef / calon* (llau. 28-31) <*gweli / nef / calonau* (llau. 31-3); [6] *bron* (ll. 14) / *llaw / troed* (ll. 16) <*troed / llaw* (llau. 17-20) / *ais* (ll. 23); [7] *teiroel* (ll. 15) <*bob dri* (ll. 21); [8] *dau droed* (ll. 17) <*bob ddau* (ll. 41); >[9] *ar un* (ll. 17) <*tair / dwy / un / tri* (llau. 15-23); [10] *pechod-maddau* (llau. 35-6) <*euog-gras* (llau. 41-2); [11] *dwyn* <*dwg* (llau. 39-60); [12] *achwyn / llefain / ochenaid* (llau. 40-7); [13] *gwrthiau* <*gwyrrth* (llau. 44-8); [14] *enaid / santaid / Fab* (llau. 51-3) <*enaid / dwyfol / Fab* (llau. 66-8). Diau fod y math hwn o gyfochri gan y bardd yn fwiadol.

Barddoniaeth yr Uchelwyr, gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1957), 4 (cerdd 3). Ceir y testun a olygwyd gan Leslie Harries hefyd yn *Y Flodeugerdd o Gywyddau*, gol. Donald Evans (Abertawe, 1981), 49 (cerdd 17) ac yn *Blodeugerdd Barddas o Gerddi Crefyddol*, gol. Medwin Hughes (Llandybïe, 1993), 30; fe'i cyfieithiwyd gan J.P. Clancy, *Medieval Welsh Lyrics* (London, 1965), 240. Ceir golygiad arall gan M.P. Bryant-Quinn, *art.cit.* 68–72. Trafodwyd agweddau ar y cywydd gan Dr Brynley F. Roberts, 'Rhai Gweddïau Preifat Cymraeg', B xxv (1972–4), 145, a chan E.I. Rowlands, 'Religious Poetry in Late Medieval Wales', *ib.* xxx (1982–3), 1–19.

- 1 **gwryd** Tyn Eurys Rowlands sylw at amwysedd deheuig *gwryd*, gan gynnig 'span, virtue' yn gyfieithiad iddo, gw. 'Religious Poetry in Late Medieval Wales', B xxx (1982–3), 1–2, 6. Er mai 'hyd dwyfraich' (sef Crist ar y groes) yw prif ystyr y gair yma, dehongliad posibl arall yw 'dewrder', a cheir atsain o'r un syniad yn ll. 29, lle y molir gwrolaeth Crist.
 - 2 **ar bren croes** Gellir cymharu'r ll. hon ag englyn agoriadol awdl Dafydd ap Gwilym i Grist, gw. GDG³ 3 (1.1), ac â cherddi eraill i'r crogau, cf. CBPM 296, 303, 306, 554 a 556. Yr oedd yr ymadrodd *pren croes* neu *pren y groes* yn gyffredin i'r canu Cym. a Llad. fel ei gilydd, cf. emyn Venantius Fortunatus, esgob Poitiers (*ob. c.* 600), y *Vexilla Regis*, ... *Impleta sunt quae concinit / David fideli carmine, / Dicendo nationibus / Regnavit a ligno Deus* (ceir y testun yn PL lxxxviii, 87). Dyfeisiwyd chwedlau canoloesol ynghylch tarddiad y pren y gwnaed y groes ohono, gw. F.J.E. Raby, *A History of Christian-Latin Poetry* (second ed., Oxford, 1953), 88 ac ymddengys fod y chwedlau hyn yn hysbys yng Nghymru, gw. R.T. Davies, 'A Study of the Themes and Usages of Medieval Welsh Religious Poetry, 1100–1450' (B.Litt. Oxford, 1958), 16–47. Am drafodaeth ddiweddar, gw. *Collectanea Pseudo-Bedae*, ed. M. Bayless and M. Lapidge (Dublin, 1998), 271.
- pumoes byd** Gw. 8.9n uchod.
- 5 **gwyech eglwysty** Eglwys Aberhonddu, a sefydlwyd gan Bernard de Neufmarché yn yr 11g., a'i chysegru i sant Ioan Efenglyydd. Am yr astudiaeth ddiweddaraf ar yr eglwys a'i chrog, gw. The Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales, *The Cathedral Church of St John the Evangelist, Brecon* (Brecon, 1994), *passim* a'r llyfryddiaeth. Ceir trafodaethau ar wahanol agweddau arnynt hefyd yn M.P. Bryant-Quinn, *art.cit.* 51–94; J.R. Cobb, *A Short Account of the Church of St. John the Evangelist ... at Brecon* (London, 1873), *passim*; R.R. Davies, 'Brecon', *Boroughs of Medieval Wales*, ed. R.A. Griffiths (Cardiff, 1978), 47–70; D.M. Gwynne Jones, 'Brecon Cathedral c. 1093–1537: the Church of the Holy Rood', *Brycheiniog*,

- xxiv (1990–2), 23–37 a'r cyfeiriadau; Theophilus Jones, *History of Brecknockshire* (Brecon, 1909), ii, 63–120; G.E.F. Morgan, 'Forgotten Sanctuaries', *Arch Camb* (sixth series) iii (1903), 205–23; *id.*, *Brecon Cathedral* (St Albans, 1903, 1954), *passim*; E.G. Parry, 'Brecon: Topography and Townscape', *Brycheiniog*, xxxi (1984–5), 12–20; Edwin Poole, *The Illustrated History and Topography of Brecknockshire from the Earliest Times to the Present Day* (Brecknock, 1886), a'r cyfeiriadau.
- 6 **Hodni** Sef Afon Honddu. *Hodni* yw'r ffurf a geid yng ngwaith Beirdd y Tywysogion, ond erbyn y 15g. ceir *Hodni* yn ogystal, gw. Ann Parry Owen, 'Mynegai i Enwau Priod ym Marddoniaeth Beirdd y Tywysogion', *LICy* xx (1997), 45; cf. G 5; GLIBH 19; EANC 149–54.
- 7 **yno a wnaid** Y mae'r rh.pth. yn ceseilio.
- 8 **y Strowiaid** E. y rhan o dref Aberhonddu yr adeiladwyd yr eglwys ynddi oedd y *Strowiaid*. 'Ystrywaid' yw'r ffurf a arferir heddiw, ond gw. amrywiadau'r testun a cf. y ffurfiau S. 'the Strewit / Stroed' a H.Ffr. '*le Strowed*' a gofnodir mewn dogfennau cyfreithiol o'r 16g. ymlaen ac a drafodir yn M.P. Bryant-Quinn, *art.cit.* 78–80. Ceir yr e. 'The Struet' ar stryd yn Aberhonddu hyd heddiw. Gellir casglu dau beth o hyn, sef bod i'r e. lle hwn fannod mor gynnar ag amser Harri VIII o leiaf, a'i bod yn arfer cyfeirio at y lle mewn Ffr. yn ogystal â S. O ystyried dylanwad y Normaniaid yn Aberhonddu, nid yw'n amhosibl fod i'r fersiwn Ffr. hanes hŷn. Y mae'n gwbl bosibl, wrth gwrs, mai y-brosthetig a geid wrth yr e. yn wreiddiol, ac y dylid arfer y ffurf Gymraeg a arferir amlaf heddiw, ond dichon mai bannod a gynrychiolir gan y gwahanol ddarlleniadau, ac mai y *Strow[i]aid* a arferid fel e.Cym. gwreiddiol yr ardal honno o Aberhonddu. Yn ôl R.F. Peter Powell, 'Early place-names in the former borough of Brecknock', *Brycheiniog*, xxv (1992–3), 25, cynsail H.S. sydd i'r e. (cf. *Dictionary of English Place-Names*, ed. A.D. Mills (Oxford, 1991, 1998), d.g. *stræt* 'Roman road'). Ceir yr elfen *strowed* hefyd yn yr e. lle *Penystyrywaid* yn ymyl Caersŵs. Awgrymir yn betrus yma y gallai'r e. fod yn fenthyciad o'r H.Ffr. Yn *Dictionnaire de L'Ancienne Langue Française et de Tous Ses Dialectes du IX^e au XV^e Siècle*, ed. Frédéric Godefroy (Paris, 1880–1902), d.g. *stroit* (cf. *estroit*), rhoddir yr ystyron '*part. passé et adj., serré, pressé; lieu étroit, resseré*'. Yn yr *Anglo-Norman Dictionary*, ed. L.W. Stone, W. Rothwell and T.B.W. Reid (London 1977–), ceir d.g. *estroit* yr ystyron 'A[djective]. *Narrow*. S[ubstantive]. *Narrow part, pass, defile, district, jurisdiction*'. Tybed felly ai [e]stroit (deusain oedd ynganiad -oi-) oedd y gair a arferid, efallai yn fenthyciad o'r H.Ffr., mewn rhai ardaloedd am '*pass, defile, narrow place*' (*Strowiaid*, o bosibl, oedd ffurf Gym. wreiddiol y gair, a gymathwyd yn ddiweddarach yn *Strywaid* a *Strywed*). Ystyr y *Strowiaid* fyddai 'y gulffordd', a

pherthnasol yw mai ar drum, neu gefn, yr adeiladwyd yr eglwys y cyfeirir ati yn y cerddi: 'the priory stands on the ridge which must be traversed before the castle is reached from the North, on much higher ground than the castle or any part of the town' (J.R. Cobb, *op.cit.* 17) ac felly, fel y dengys y cywydd hwn, *ar y Strowiaid*.

- 10 **croes Duw** 'At the east end of the nave was the rood screen. The rood—a group of statuary consisting of a central crucifix and flanking figures—was a focus for popular piety especially during the fifteenth and early sixteenth centuries. The rood at Brecon was evidently a particularly special one, since from the early fifteenth century onwards "*Crog Aberhonddu*" provided the popular name for the church. Poetic descriptions indicate that it was of considerable scale, having the central figure of Christ crucified, the two thieves, probably Saint John and the Virgin Mary, and the symbols of the four evangelists, all painted and gilded. The figures would generally stand on a beam above a screen, which usually had a loft or platform on top reached by a stair in the adjacent wall; in some examples there were two stairways, to allow pilgrims to pass close to the carvings. In addition there would sometimes be a second "fence screen" some distance to the west across the church, in effect making the area around the parish altar a distinct "sanctuary" within the nave' (gw. The Royal Commission, *op.cit.* 14). Awgryma'r cysylltiad rhwng y grog a'r Offeren reswm dros yr elfennau litwrgïol a geir yn y cerddi i'r crogau. Y mae'n bosibl hefyd, fel yr awgrymwyd yn 10.3n, 61-2n, fod cwlt tra phoblogaidd Offeren ddewis y Pum Clwyf wedi bod yn gyd-destun ar gyfer canu o'r fath.
- 12 **[y]r Ynyd** O'r Llad. *initium*, dechrau cyfnod y Grawys. Ceir 'dydd Mawrth Ynyd' (S. '*Shrove Tuesday*') ar lafar o hyd.
- 13 **A'i weliau yn loywon** A yw'r a. *gloywon* yn awgrymu bod y ddelw ei hun wedi ei pheintio'n llachar? Neu, efallai, a oedd gemau ffug yn lle'r hoelion?
- 18 **gwaed rhestr** Diolchir i Mr Gareth A. Bevan, cyd-olygydd GPC, am awgrymu y gall *rhestr* fod yn e. ac iddo rym a. yn goleddfu *gwaed*. Gofynna'r gynghanedd galediad i ateb *-d d-* yn ail hanner y ll., nas rhoddir gan *gwaedrestr* (gw. GPC 1547). Barn Mr Bevan hefyd yw y gellid ffurf glwm megis *gwaetr(h)estr*, er na chofnodir enghraifft yn GPC. Am yr ystyr, gw. *ib.* 3059, cf. D d.g. *rhestr*. '*Streaked blood*' fyddai un dehongliad posibl.
- 21 **bob dri** Cf. uchod 2.50n ar *bob ddau*.
- 23 **pais** Sef 'mantell': nid y *perizona*, math o liain llwynau y tueddir i bortreadu'r Crist croeshoeliedig ynddo erbyn hyn, ond *colobium*, sef gwisg litwrgïol. Am enghreifftiau o ddelwau o Grist wedi eu haddurno felly, gw. Paul Thoby, *Le Crucifix des Origines au Concile de Trente*:

Étude Iconographique (Nantes, 1959), yn enwedig rhif 11, plât v; 20, viii; 22, x; 160, lxx; a 389, lxxxvii. Cyfeirir at ‘bais’ delw’r grog yn Aberhonddu mewn dau gywydd o waith Llywelyn ap Morgan. Aur oedd lliw un ohonynt, *Wiliam, Dug a eilw am dâl, / Bar triochr, Herbert r[e]ial; / Gwn o Raglan gyfannedd / Gyda’r bais a gad o’r bedd / A rydd, wyr Ddafydd ddyfal, / O frethyn aur melyn mâl / I’r grog aberthog heb au, / Ddwyllaw irion ddoluriau, / O Aber—irber eurbeint— / Chodni, Caer Sidi, côr saint. / Modleiwyd metel lawer / Ym mrig y sirig o sêr; / Amla’ dail, yn gamlod oedd, / Ar ei felfed, aur filioedd ...* (Pen 67, 14–15). Yn ail gywydd y gyfres, fodd bynnag, sonnir am bais arall, *Ef a luniwyd o flaenion / Felfed rhudd, flew da ar hon, / Mynwes fal crei[?]iaiu Mynyw / A godrau llaes gwydr eu lliw; / Llewys fal yng Nghaer Lleon / Wrth ei fraich o wyrth ei fron, / A chorff tebig yn ddigudd / I gorff draig ag arffed rudd. / ‘Y nhyb fod wrthi ruban, / Eres gloth of Arras glân / ... lân sidanwisg, / ... aur yw pris y wisg* (ib. 19–20; golygwyd y ddau destun hyn). Ymddengys mai cywyddau yw’r rhain sy’n gofyn am beisiau newydd i’r ddelw yn Aberhonddu ac yn diolch amdanynt, ac fe sylwir mai lliwiau litwrgïol sydd i’r ddwy bais. Diau y newidid y bais y gwisgid y ddelw ynddi yn ôl y tymor eglwysig; os felly, y mae’n bosibl fod rhagor gynt na’r ddwy y sonnir amdanynt yn y cywyddau hyn. Ar sail tystiolaeth y cerddi hyn ymddengys eu bod yn ddrud ac yn wych yr olwg. Nid yw ystyr yr ymadrodd *gyda’r bais a gad o’r bedd* yn eglur, ond y mae’n bosibl fod yma gyfeiriad at *brandeum*, sef darn o liain a ddefnyddid i orchuddio crair, neu a oedd wedi cyffwrdd ag ef, er mwyn cadw rhin y crair hwnnw. Tynnodd yr Athro Gruffydd Aled Williams sylw at arwyddocâd y *bedd* fel y’i ceir yn GGI² 225 (LXXXVI.8), ‘sef, Bedd Crist yn Eglwys y Beddrod Sanctaidd, Jerwsalem, y cysegredicaf oll o gyrchfannau’r pererinion’ (G.A. Williams, ‘Siaffr’, B xxviii (1978–80), 613–14). Os oedd llieiniau o’r fath (cofrodod rhyw bererindod i Jerwsalem, efallai?), neu ryw greiriau eraill wedi eu gweu i mewn i’r gwisgoedd litwrgïol hyn, esboniai hynny’r gred mai delwau iachusol oedd y grog yn Aberhonddu a’i chymheiriaid, a pham y dymunai pererinion gyffwrdd â hwy.

24 **un dall** ‘Longinus’, gw. 7.44–5n, 8.37.

29 **Pwy’n Ei ôl a wnâi’r gwrolaeth** Gw. yr amrywiadau. Ceir ymadrodd tebyg gan Siôn Cent, gw. IGE² 258 (ll. 27) a cf. hefyd destun yr un gerdd a roddir yn G. Robert: GC [354]. Ai tor-mesur a geir yma (gw. J. Morris-Jones: CD 305), ynteu a ddylid cywasgu naill ai *ei ac ôl* neu, yn fwy tebygol, y rh.pth. a’r 3 un.amhff.myn. *wnâi* (cf. hefyd ll. 7 *yno a wnaid*)?

33–4 Ceir cwpled tebyg yn GGI² 306 (CXIX.35–6) *Rhown ninnau galonnau glân / I Hwn oll o hyn allan.*

37–40 Dengys tystiolaeth y gwahanol gopiâu fod trefn weddol resymegol i'r cywydd. Dau gwpled yn unig sydd na ellir eu lleoli'n rhwydd o fewn patrwm y drefn honno, ac a roddir yn llau. 37–40 yn y golygiad hwn. Ceir amrywiadau arnynt mewn pum llsgr., sef Qa–d. O dderbyn bod y pedair ll. hyn yn rhan gynhenid o'r cywydd (a rhaid cydnabod bod trefn wasgarog y pum llsgr. sydd yn eu cynnwys, gyda'u cynsail gyffredin amlwg, yn ddadl yn erbyn hyn), tueddir i feddwl mai'r testun a geir yn llsgr. c, sef y gynharaf ohonynt, sydd agosaf at y gwreiddiol. Y mae lleoliad y ddau gwpled yn amrywio yn ôl y gwahanol fersiynau, fel nad oes sicrwydd ymhle y dylid eu rhoi. Nid oes sail lawysgrifol dros dderbyn mai HCLI 107 (XLIV.55–8) sy'n cynrychioli'r drefn gywir nac ychwaith reswm dros beidio ag ystyried y llau. hyn yn uned. Y mae'n anodd eu rhoi o fewn llau. 1–36, am fod llau. 1–14 yn ddatganiad rhesymegol gyflawn ynddo'i hun, a llau. 15–36 yw'r darn sicraf oll ei drefn yn y testunau a gadwyd o'r cywydd hwn. Y mae'n annhebygol hefyd y dylid torri ar draws y weddi yn llau. 51–70, gan fod y bardd yn cadw'n glôs at rediad cymalau'r *Anima Christi* (gw. isod, llau. 51–66n). Gellid dadlau mai blas cwpledi agoriadol sydd i'r cwpledi a bod y delweddu a geir yn nes ymlaen yn llau. 41–50 yn disgwyl ateb: hynny yw, cyfeirio yn ôl y mae *hwy* (ll. 43) ac y *rhain* (ll. 44) at y *crupliaid a'r deilliaid*, hwythau'n symbolau beiblaidd a thraddodiadol (gw. 9.27–32n uchod), a bod *O feirw y gwnâi'n fyw eraill* (ll. 46) yn adleisio'r sôn am atgyfodiad Crist a'i rhagflaenodd yn ll. 37. Y mae lle i gredu bod llau. 35–48 yn allweddol i ergyd y gerdd ac mai dyma, yn wir, graidd myfyrdod y bardd. Gwrthgyferbynnir pechod ac euogrwydd â maddeuant a gras; gwelir hefyd gyfochredd rhwng *achwyn* a *llefain* y cleifion sy'n gobeithio am *wyrthiau rhwydd* i'w nerthu, ac *ochenaid* y bardd am *wreichionen o ... fawr wyrth* Iesu Grist, sef yr Ewcarist. Nid dyma'r unig le yng ngwaith Ieuan Brydydd Hir y gwelir y fath bwyslais. Yn ei gywydd ar destun henaint (gw. 13.57–62 isod), dywed *Os iechyd gennyd a gaf / I'm henaid y'i dymunaf, / Iesu, fal y dewiswyf / (Arch roi ym, erchi yr wyf) / Cymod, cyn fy mod ym medd, / Cymwys ym am bob camwedd*. Swyddogaeth yr adran hon o'r cywydd i'r grog yn Aberhonddu, a llau. 37–40 yn allweddol yn eu plith, yw rhwyddhau'r *transitus* o'r allanol i'r mewnol ac o'r pwyslais ar wyrthiau ar gyfer y corff i fyfyrdod ar arwyddocâd yr Ewcarist ac iechyd yr enaid. Ceir y cwpled cyntaf yn esgyll un englyn o gyfres a briodolir i Ruffudd ab yr Ynad Coch. Yng ngeiriau G 19 d.g. *angleu*, y mae'r awdl y ceir y llau. hyn ynddi yn '[g]ân amheus ... sydd ar gynllun R 1161–2 ... ac yn cynnwys llinellau cyfain o'r gân honno'. Ceir golygiad ohonynt yn GBF 40(Atod).7–8 *O'r dydd y codes Iesu / O farw yn fyw, da farn* (amr. *fore*) *fu*. A chofio tuedd Ieuan Brydydd Hir i adleisio'n fwriadol gerddi crefyddol eraill, ac weithiau fenthyca delweddu neu ymadroddion

- ohonynt, nid yw'n amhosibl fod y ddwy l. hyn wedi bod yn rhan o'r cywydd gwreiddiol. Os felly, gall mai'r fersiwn a olygwyd yn GBF *l.c.* oedd ffurf gynhenid y cwpled a geir bellach yn y cywydd hwn, gw isod, ll. 38n. Ceid wedyn gyfochredd eiriol rhwng *barn* yn llau. 37 a 54 sy'n gweddu i'r cyfatebiaethau eraill y cyfeiriwyd atynt uchod, td. 158 (troednodyn 5).
- 37 **codes** Ni cheir y darlleniad *rhoddes* (gw. HCLI 107 (XLIV.55)) yn yr un o'r llsgrau. sy'n cynnwys y llau. hyn.
- 38 **o farw i fyw** Fel y saif, y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf, ond gthg. y llau cyfatebol a ddyfynwyd yn llau. 37–40n uchod, *O farw yn fyw, da farn fu*. Os rhan gynhenid o'r cywydd oedd y ddau gwpled hyn, gellid dadlau mai dyna oedd ffurf wreiddiol ll. 38. Fodd bynnag, ceir yng ngwaith y Cywyddwyr gywasgiadau tebyg ar brydiau, cf. GLM 188 (LIII.22) *Merch Fadog, marw'i chyfoedion*, ond gthg. nodyn Eurys Rowlands, *ib.* 460.
- 41 **awn bob ddau** Ymddengys fod y pererinion yn cael mynd i'r groglofft, o bosibl fesul dau, i fod yn agos i'r grog. Ymhellach ar y cyfuniad *bob ddau*, gw. 2.50n.
- 42 **ddyw Gŵyl y Grog** Yr oedd gynt ddwy Wyl y Groes, sef Gŵyl Ddarganfod y Wir Groes (Llad. *Inventio Sanctae Crucis*) a ddethlid ar 3 Mai, a Gŵyl Ddyrchafiad y Groes (Llad. *Exaltatio Sanctae Crucis*) a ddethlid ar 14 Medi. Yn ôl E.I. Rowlands, *art.cit.* 6, at Wyl Ddyrchafiad y Groes y cyfeirir yn y ll. hon. Ond ni ellir bod yn bendant ynglŷn â hyn. Gan mai tymor y Grawys a'r Pasg sydd ym meddwl y bardd, gall yn hawdd mai gŵyl yr *Inventio*, neu hyd yn oed ryw wyl leol, a olygir yma.
- 47–8 **gwreichionen / O'i fawr wyrth ...** Y Cymun, yr Ewcarist. Nid anghyffredin yn y Gorllewin fu cysylltu'r Ewcarist â *thân*: gw. Rupert o Deutz, 'De Trinitate et Operibus Eius', *In Exodus* 11:10 (PL clxvii, 617); Hugh o Saint-Victor, *Sermo* 27 (PL clxxvii, 958); y mae Awstin (*Sermo* 272 (PL xxxviii, 1247)) yn sôn am dân mewn perthynas â derbyniad i'r grefydd Gristnogol. Am drafodaeth bellach, gw. Y.M.J. Congar, trans. David Smith, *I Believe in the Holy Spirit*, iii (London, 1983), 262–3. Y mae 'gwreichionen' yn air cyffredin yn y canu mawl, gw. GPC 1703, ond fe'i ceir hefyd yn ddelwedd yn y cerddi crefyddol hwythau, gw. *ib. l.c.* a cf. YE 11 (llau. 72, 80, 82, 84), 12 (llau. 129, 144), 18 (ll. 67), 19 (ll. 71), 24 (ll. 56).
- 50 **y weddi hon** At weddi breifat adnabyddus y cyfeirir yma, sef yr *Anima Christi*. Arni gw. J. Munitiz, 'A Greek *Anima Christi* Prayer', *Eastern Churches Review*, 6 (1974), 170–1; B.F. Roberts, *art.cit.* 268–71; H. Thurston, 'Notes on Familiar Prayers VII: The *Anima Christi*', *The Month*, May 1915; *id.* *Dictionnaire de la Spiritualité Ascétique et*

- Mystique* (Paris, 1932–), col. 670–2 d.g. ‘*Anima Christi*’; A. Wilmart, *Auteurs Spirituels et Textes Dévots du Moyen Age Latin* (Paris, 1932) 368 a gw. uchod tt. 10–12 a’r llyfryddiaeth a geir yn ODCC³ 70–1 d.g. ‘*Anima Christi*’.
- 58 **chwys** Mewn rhai fersiynau cynnar o’r *Anima Christi*, ceir *sudor* [*vultus*] *Christi virtuosissimi, sana me* (neu, weithiau, *defende me*), ac nid annichon fod yr amrywiad hwn ar y weddi yn hysbys i Ieuan Brydydd Hir. Ond dŵr a gwaed, nid chwys, a lifodd o ystlys Crist ar y groes (gw. Ioan xix.34); gall felly mai ystyr drosiadol sydd i’r gair *chwys* yma. Yn OED² xvii, 369 cofnodir y priod-ddull S.C. ‘*to lose the sweat*’ (o’r H.S. *swát*, ‘gwaed’) yn yr ystyr ‘marw’.
- 60 **dagrau Hwn** Diau mai ‘diferion, dafnau’ yw ystyr *dagrau* yma. Ceir yr un ddelwedd yn YE 17 (llau. 26, 28), 22 (ll. 187), 24 (ll. 60) a cf. R 1303.31 *yr dy digrif nef yr dy dagreu* (Dafydd y Coed); CBPM 554 *deigr oth boen ai dwg wrth bwys* (Gwilym Tew); TA 525 (CXXXIX.45–52) *Beth ydyw’r ôl byth a drig? / Band [Ei] gwaed bendigedig? / Dagrau fal cawod egroes, / Defni Crist, o fannau croes; / Daioni corff dyn, o caid,— / Derbyn deigr dŵr bendigaidd; / Dyfriw gwaed, fal dwfr a gwin, / Dwyn iwch wyrthiau dan chwerthin*. Gall mai trosiad am y dafnau a ddaeth o ystlys Crist yw’r ‘dagrau’ yn y cerddi i’r crogau, cf. y garol blygain ‘Ar Gyfer Heddiw’r Bore’: *O cofiwn Gethsemane / Lle bu Ef ... / Yn chwysu’r gwaed yn ddagre ...*, gw. Rhiannon Ifans, ‘Carol Blygain fwyaf Poblogaidd ein Hiaith’, *Traeth cli* (1996), 26. Yr oedd *haint* yn drosiadol am bechod, ond y mae’n dra thebygol mai at ei salwch ei hun y cyfeiria Ieuan Brydydd Hir.
- 68–9 **gwahodd fi— / Yr wyl ydd af ...** Ceir *gwaodd*, *gwa[a]dd* a *gwawdd* yn yr amrywiadau, ond gw. yr ymdriniaeth ynghylch ateb *h* yn J. Morris-Jones: CD 204–6. *Yr wyl* yw darlleniad y mwyafrif o’r llawysgrifau, cf. hefyd y ddelwedd gyffelyb a geir yn GGL² 16 (V.69–70) *Fy Nuw a fu’n ei wahodd / Yr wyl, a nef yw ei rodd*. Yng nghopiâu Llywelyn Siôn y ceir yr amrywiad *ar wyl* a dderbyniwyd yn HCLl 107 (XLIV.69). Cyfeirid gynt at ddydd marw sant fel dyddiad geni (Llad. *dies natalicia*), ac ymddengys fod y bardd yn ystyried mai ‘gŵyl’ yw gwahoddiad Crist y tu draw i farwolaeth: ar yr wyl pan â i’r *wledd wen*, lle y caiff ddatgan ei gerdd i’r Mab, i’w foli’n ddwyfol.
- 70 **heb dranc, heb orffen** Gw. 8.68n. Ceir yr ymadrodd litwrgïol hwn yn y cyfieithiadau Cymraeg o’r *Anima Christi*, a dengys hyn yn eglur fod rhediad y weddi yn ymestyn o l. 51 hyd ddiwedd y cywydd.

13

Mewn gosodiad enwog, crynhôdd Johan Huizinga un agwedd ar fydolwg yr Oesoedd Canol diweddar at farwolaeth: 'no other epoch has laid so much stress as the expiring Middle Ages on the thought of death. An everlasting call of *memento mori* sounds through life.'¹ Er bod astudiaethau diweddar wedi dangos bod perygl o orbwysleisio arwyddocâd y myfyrdod canoloesol ar y *vita brevis* ac ar angau,² nid oes wadu ei ddylanwad ar lenyddiaeth, celfyddyd a defosiwn. Yn sgil y themâu newydd a gynrychiolir gyntaf mewn barddoniaeth Gymraeg yng ngherddi Siôn Cent a'r cerddi diweddarach a ganwyd yn null Siôn, daeth canu am farwolaeth a disgrifio marwolaeth yn fwyfwy poblogaidd yng Nghymru trwy gydol y bymthegfed ganrif.³ Ar un wedd, wrth reswm, nid testun syndod mo hynny. Yr oedd y ganrif a rychwantai ganol y bedwaredd ganrif ar ddeg a chanol y bymthegfed ganrif yn ddiamau yn gyfnod o gyffro a therfysg enbyd, ac anochel i raddau oedd y byddai byrder oes dyn yn destun myfyrdod, y *contemptus mundi* a bwysleisiai ymwrthod â'r byd a'i demtasiynau.⁴ Arswydid rhag marwolaeth ddisymwth, a'r ffaith na allai hyd yn oed y rhai a chanddynt safle a grym mo'i hosgoi a roes fod i'r cwestiwn *ubi sunt qui ante nos fuerunt?* ('pa le y maent a fu o'n blaenau?'), y myfyrdod ar dynged y mawrion a fu, a atseiniai drwy lenyddiaeth grefyddol yr Oesoedd Canol.

Ond ni ddylid ystyried y duedd hon fel petai'n ffasiwn a nodweddi'r Oesoedd Canol diweddar yn unig. Testun pregeth a moeswers trwy'r canrifoedd oedd dyfodiad anochel angau.⁵ Gallai'r beirdd Eingl-Sacsonaidd hwythau gwyno *his læne lif*, y bywyd byrhoedlog hwn, a cheir eu tebyg ledled Ewrop.⁶ Yr oedd y ffynonellau y tynnid arnynt ar gyfer y myfyrdodau hyn yn feiblaidd ac yn glasurol. Manteisiodd y Pab Innocent III (1160–1216), er enghraifft, yn helaeth ar y bardd Lladin Horas ar gyfer ei draethawd enwog *De Miseria*, lle'r olrheinia dynged y corff hyd at farwolaeth a'i ddisgrifio'n fanwl erchyll, ac yr oedd awduron clasurol eraill yn

¹ J. Huizinga, *The Waning of the Middle Ages*, trans. F. Hopman (London, 1976), 134, gw. yn enwedig dt. 145–6. Ategir y farn honno gan A. Galpern, a honnodd 'Catholicism at the end of the Middle Ages was in large part a cult of the living in the service of the dead', gw. 'The Legacy of Late Medieval Religion in Sixteenth-Century Champagne' yn *The Pursuit of Holiness*, ed. C. Trinkaus and H. Oberman (Leiden, 1974), 149.

² Er enghraifft, y mae'n ddiddorol cyn lleied o enghreifftiau Cymreig sydd o'r *Danse Macabre*.

³ Gw. G.E. Ruddock, 'Siôn Cent', *GWL* ii² 153–9.

⁴ Y mae'r llyfryddiaeth i astudiaethau ar farwolaeth yn yr Oesoedd Canol yn enfawr. Am gyfeiriadau dethol, gw. Philippe Ariès, *The Hour of Our Death*, trans. H. Weaver (Oxford, 1981); *Dies Illa: Death in the Middle Ages*, ed. A.R.W. James and J.H.M. Taylor (Manchester, 1984).

⁵ Yr astudiaeth glasurol o ddatblygiad agweddau Cristnogol at y corff yw P. Brown, *The Body and Society* (New York, 1988). Am arolwg o ysgrifau ar hanes y corff, gw. Roy Porter, 'History of the Body', *New Perspectives on Historical Writing*, ed. P. Burke (Pennsylvania, 1991).

⁶ Am grynodedbau hwylus, gw. B. Mitchell, *An Invitation to Old English & Anglo-Saxon England* (Oxford, 1995), §396–§408; E.R. Curtius, *European Literature and the Latin Middle Ages*, trans. W.R. Trask (London, 1979).

ffynhonnell ffrwythlon at ddiben ysgrifenydd yr Oesoedd Canol.⁷

Ni wneid hynny er mwyn peri ymateb emosiynol yn unig: pwrpas didactig pendant oedd i'r dull, ac ystyrid bod cadw cof beunydd am y Pedwar Peth Diwethaf yn hyrwyddo paratoadau unigolion ar gyfer y cyfarfod tynged-fennol â Duw. At y diben hwnnw, manteisid ar wahanol fathau o ddelweddau. Un ohonynt oedd myfyrio ar arwyddocâd y corff dynol yn ei henaint drwy ei ddisgrifio a'i ddyfalu. Mewn llawer llenyddiaeth, bron na ellid dweud i'r hen gorff gael ei ystyried yn drosiad nid yn unig am fyrhoedledd ond hefyd am y posibilrwydd o wneud yn iawn am bechod ac am agosrwydd at Dduw:

Just as [the old body] served as a metaphor for the impermanence of worldly things, it was also perceived as an opportunity for expiation of sin, spiritual elevation and closeness to God. The old body signals to its owner that he is not immortal and must prepare his soul for its fate in the next world, so that death, when it arrives, will find him ready. The old body is a means of drawing close to God because of its suffering and because it no longer has passions.⁸

Exemplum oedd y corff, felly;⁹ ac os cerdd yw hon ac iddi wreiddiau ym mhrofiad Ieuan Brydydd Hir ei hun, ceir ynddi hefyd enghraifft o'r bardd yn manteisio ar ei gyflwr ei hun i hyrwyddo safbwynt crefyddol arbennig: [p]regeth wyf i'r byd, ofer o beth.

Dyma, yn ddiau, gerdd enwocaf Ieuan Brydydd Hir, a hyd yn hyn fe wyddys am gynifer â 75 o gopiâu ohoni. Perthyn y mae i *genre* arbennig o gerddi Cymraeg sy'n trafod y Pethau Diwethaf naill ai yn null ymddiddan neu drwy ddisgrifiad.¹⁰ Dangoswyd yn y Rhagymadrodd y gall mai canlyniadau darfodedigaeth asgwrn y cefn a'r cyflyrau a ddeilliiodd ohoni ac a ddwysawyd ganddi a ddisgrifir yng ngherddi salwch Ieuan Brydydd Hir.¹¹ Ond fel y dadleuwyd yno hefyd, gall mai *dyfalu* effaith henaint a'r dadfeilio a ddaw yn ei sgil a wneir yn y gerdd arbennig hon. Er mai hawdd yw credu mai canu amdano'i hun a'i brofiad yn ei henaint a wnaeth Ieuan, y mae'n

⁷ Cf. Alan o Lille, *Summa de Arte Praedicatoria* (PL cxvi–cxvii); Bernard o Cluny, *De Contemptu Mundi*, ed. H.C. Hoskier (London, 1929). Ar drothwy'r Diwygiad ei hun, ceid neb llai na Syr Thomas More yn pwysleisio'r traddodiad hwn yn rymus iawn yn ei *De Quatuor Novissimis* (1522), gw. *The four last things by the blessed martyr Sir Thomas More*, ed. D. O'Connor (London, 1935). Fel y noda Shulamith Shahar, 'The aim [of these descriptions] is not to evoke empathy but to caution against pride and arouse contempt for fleshly and earthly things. The old body here does not merely indicate the inevitable approaching biological end ... but also symbolises the terrible judgement in the next world, which man, in his foolishness and sin, chooses to ignore. It is a symbol not so much of suffering as of the vanity and impermanence of the world' ('The old body in medieval culture', *Framing Medieval Bodies*, ed. S. Kay and M. Rubin (Manchester, 1994), 164–5).

⁸ Shahar, *art.cit.* 175.

⁹ Gw. isod llau.15–16n.

¹⁰ Gw. sylwadau Gilbert Ruddock, *art.cit.* 175–6.

¹¹ Gw. uchod tt. 17–20.

llawn mor bosibl mai cerdd am henaint, yn hytrach na cherdd hen ddyn, yw'r cywydd hwn. A hyd yn oed os gwir yr hyn a ddisgrifir am gyflwr Ieuan, barddoniaeth sydd yma: cerdd a ganwyd ar gyfer cynulleidfâ ac a ddiogelwyd oherwydd ei pherthnasedd i'r gymdeithas y perthynai'r bardd iddi.

Ceir amrywiaeth mawr yn nhrefn llinellau y copïau a gadwyd o'r cywydd hwn, ac y mae hyn yn awgrym digamsyniol o drosglwyddiad llafar. Ond er ei bod hi'n ymddangos na fu erioed draddodiad ysgrifenedig diogel y tu ôl iddo, eto y mae'n ddiddorol nodi pa mor gyson, at ei gilydd, yw geiriad rhannau helaeth o'r testun o'i gymharu â'r drefn, yn enwedig llinellau 59–70.

Golygwyd y cywydd hwn eisoes yn Tudur Penllyn, &c.: Gw 109. Testunau diplomatig a geir yn *Y Brython*, ii (1859), 126; iv (1861), 35–6 a *Trysorfa Gwybodaeth, Neu, Eurgrawn Cymraeg* (Caerfyrddin, 1770) (y rhan sy'n cynnwys y farddoniaeth), 87. Cyhoeddwyd testun beirniadol (anghyflawn) o'r gerdd yn OBWV 141–3 a'r testun hwnnw a ailgyhoeddwyd yn *Y Flodeugerdd o Gywyddau*, gol. Donald Evans (Abertawe, 1981), 53 (cerdd 22). Trafodwyd agweddau ar y cywydd gan E.I. Rowlands, 'Religious Poetry in Late Medieval Wales', B xxx (1982–3), 17–18.

- 1 **gwae a fwrio** Gellid dadlau bod 3 un.pres.dib. *bwrw* yn gweddu'n well i naws y gerdd bregethwrol hon na'r 3 un.grff.myn. *fwriodd* a ddewiswyd ar gyfer OBWV 142.
- 5 **bei beiddiem** Er gwaethaf tystiolaeth gref y llsgrau. o blaid darllen *beiddiwn i bawb i addef*, ymddengys y ffwrff 3 un.amhff.dib. *beiddiem* yn fwy tebygol yma. O dderbyn hynny, dichon nad tebygrwydd *be* + *bei-* a barodd gyfuno'r ddau air cyntaf.
- 6 **byr iawn** Topos y *vita brevis*, byrhoedledd oes dyn, a geir yma: breuder iechyd a da daearol a bwysleisir.
- 9 **ebrwydd ehudrwydd!** Deallir y sangiad hwn yn frawddeg enwol. 'Buan, parod' yw ystyron arferol *ebrwydd* a gellir cynnig 'ffolineb, byrbwylltra, anystyriaeth' ar gyfer *ehudrwydd*.

hydrum Ceir dau brif amrywiad ar y ll. hon, sef *hydrum* a *hoywdrum*. Teg yw nodi bod y darlleniad *hoywdrum* yn ddwywaith amlach yn y llsgrau. na *hydrum*, a *hoywdrum* a ddewiswyd gan Thomas Parry ar gyfer y testun a roddir yn OBWV 142, efallai ar sail amlled y defnydd barddonol o a. clwm â'r elfen *hoyw* ynddynt. Ond er na cheir enghraifft arall o *hoywdrum* yng nghronfa ddata GPC, y mae *hydrum* yn air a thystiolaeth gadarn iddo. Fe'i ceir gan Ddafydd ap Gwilym, GDG³ 208 (76.7) *Cyweithas, hoywdras, hydrum, ib.* 327 (124.3) *Cain hoywdraul, lle cwyn hydrum* a chan Dudur Penllyn yntau, gw. GTP 26 (15.27). Am ystyr y gair a thrafodaeth arno, gw. GPC 1955.

- 12 **hunlle** ‘Lle cysgu, gwely’ yw ystyr amlwg *hunlle* yma (ceir cyfatebiaeth i’r ddelwedd o’r bardd yn ‘rhwym’ i’w wely yn 11.2n uchod), ond fe’i ceid hefyd yn yr ystyr ‘breuddwyd dychrynlyd, profiad ofnadwy’ mor gynnar â’r 14g., gw. GPC 1924 d.g. *hunlle*¹. A oes amwysedd bwriadol yma?
- 14 **hai how** Ebd.
- 15–16 **pregeth / Wyf i’r byd** Cf. IGE² 280 (llau. 1–2) *Rhyfedd yw byd ... / ... rhyw fawr bregeth* (Siôn Cent), *ib.* 288 (ll. 2) *pregeth, oer o beth, yw’r byd* (eto). Rhan o dechneg y bregeth oedd manteisio ar esiamplau moesegol (Llad. *exemplum*) i hyrwyddo’r genadwri. Am hyn, yn ddiau, y meddyliai Ieuan Brydydd Hir. Ceir eraill heblaw Ieuan yn cyfeirio atynt eu hunain fel *pregeth* mewn barddoniaeth grefyddol Gymraeg yn y 15g., cf. IGE² 237 (ll. 12) *Pregeth wyf i’r plwyf a’r plas* (Ieuan ap Rhydderch ap Ieuan Llwyd, cf. *ib.* ll. 21); yr oedd hyn yn dopos yn yr Oesoedd Canol. Am hanes y dull, gw. *Dictionnaire de Spiritualité* (Paris, 1937–95), iv, col. 1885–1092 d.g. ‘Exemplum’.
- 17 **cyhoedd gof** Yn OBWV *l.c.* ceir y darlenniad *cyfoeth cof*, ond gellid dadlau bod *cyhoedd* yn fwy addas ar gyfer cerdd a fwriedir ar gyfer myfyrdod eraill.
- 21–4 Dewisodd Thomas Parry hepgor y ddau gwpled hyn yn OBWV 142. Nid yw’n eglur pam y bu hynny, gan fod y llau. ar gael iddo yn y testunau a welodd, er y dichon na sylweddolodd arwyddocâd y cyfeiriad at y *tri brenin*, gw. ll. 23n.
- 23 **tri brenin** Nid y Magi y cyfeirir atynt yn Math ii yw’r *tri brenin* yma, ond adlais o’r chwedl ganoloesol a boblogeiddiwyd gyntaf yn y 13g., sef hanes y Tri Byw a’r Tri Meirw. Yn y chwedl, daw tri brenin ifainc, golygus (uchelwyr mewn fersiynau eraill) wyneb-yn-wyneb â chyrrff pwr, drewllyd. Gofynnant i’r celanedd mewn dychryn ac arswyd pwy oeddynt, a chael yr ateb a adleisir yn aml mewn llenyddiaeth grefyddol ganoloesol, ‘Fel yr ydych yn awr, felly y buom ninnau gynt; fel yr ydym ni, felly y byddwch chwithau.’ Moeswers y chwedl enwog honno oedd pwysleisio’r angen am fyfyrion barhaus ar fyrder bywyd ac arwyddocâd tragwyddol dadfeiliad y corff. Am drafodaeth ar y thema, gw. P. Binski, *Medieval Death: Ritual and Representation* (London, 1996), 134–8; E.I. Rowlands, *GWL* ii², 281; *id.*, ‘Religious Poetry in Late Medieval Wales’, *B xxx* (1982), 17–18. Ni lwyddwyd i ddod o hyd i gyfeiriad arall at y chwedl honno mewn llenyddiaeth ganoloesol Gymraeg.
- 28 **nod a wna f’enaïd yn iach** Cred y bardd y gall ei afiechyd buro ei enaid. Fel y nodwyd yn y sylwadau rhagarweiniol, trwy ‘benyd’ y bardd, ceisir gwneud yn iawn am ganlyniadau *gwagedd a balchedd byd* (llau. 29–30). Nodweddir y ddarfodedigaeth gan nodau a dyf ar groen y

- sawl sy'n dioddef; ai at y rhain y cyfeiria'r ll. hon?
- 35 **gleiniau fy nghefn** Disgiau asgwrn y cefn, *vertebrae*. Y mae cefnwynni yn un o nodweddiion darfodedigaeth asgwrn y cefn.
- 36 **corc rhwyd** Cf. S. '*driftnet*'. Delir y rhwyd yn unionsyth â chyfres o gorciau, y gellir eu gweld yn amlwg uwch wyneb y dŵr; i hynny y dyfelir asgwrn cefn y bardd.
- 38 **clwyd** Defnyddid *clwyd* yn ffigurol i olygu 'man cysgu, cysgod, gorchudd', gw. GPC 513, ond ymddengys yma mai cyfeiriad a geir at breniau sy'n cynnal y to, gw. GPC *l.c.* dan ystyr (c): y mae'r rhain yn ymdebygu i asennau'r bardd.
- 40 **braich** Eb.g. oedd *braich* yn y 15g., gw. GPC 307.
- 41 **cyn Mai deiliog** Y darlleniad a geir yn llsgrau. fgKO¹ (sef *fu'n adeiliog*, cf. OBWV 142), yn sicr, yw'r *lectio difficilior*, ond efallai fod y traddodiad llawysgrifol yn rhy gryf yn achos y ll. hon. O dderbyn *cyn mai deiliog*, ai awgrym a geir yma mai yn ystod y gaeaf y canwyd y gerdd hon?
- 42 **delwau cigweiniau cog** Gall mai oherwydd y ddarfodedigaeth neu'r cymalwst yr anffurfiwyd dwylo Ieuan.
- 45–6 **A'm llygaid ymhell eigiawn / 'Y mhen ...** 'Canol' neu 'berfeddion' yw ystyr *eigiawn* yma. Y mae hyn eto'n nodweddiadol o'r ddarfodedigaeth benodol hon.
- 47 **yr Yri** Sef Eryri. Cyfeirir yn aml yn y llsgrau. at *Rhys Goch yr Yri* (neu *o'r Yri*).
- 53 **enwog dywysoges** Brenhines (Llad. *Regina*) oedd un o deitlau mwyaf poblogaidd Mair erbyn y 15g., ond ceir *tywysoges* hefyd gan Iolo Goch, gw. GIG 139 (XXXI.24). Megis yn awdl Iolo, gall mai gofynion y gynghanedd a'r odl a ysbardunodd y teitl. Am astudiaeth o'r gred yn eiriolaeth Mair yng Nghymru yn y cyfnod, gw. J. Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wryfyddod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1999), mynegai d.g. 'Mair Forwyn (fel eiriolwraig)'.
- 54 **Y môr a'r tir mawr a'r tes** Sef y cyfan o elfennau'r Cread, cf. 6.20n
- 56 **i'th fardd** Enghraifft o newid pwyslais y ddelwedd a welir yn y darlleniad *o'th faeth* (sef, Crist) a gofnodir mewn llsgrau. diweddar.
- 63–6 **Er ... / ... er** Trawiad eithaf cyffredin mewn barddoniaeth grefyddol Gymraeg yw cyfres o lau. megis y rhain sy'n dechrau ag *er* a'i ddilyn gan gyfeiriad at weithredoedd achubol a phriodoleddau Iesu, cf. GBDd 26 (4.63–9); GIG 137 (XXX.34–49).

Atodiad i

Englyn yw hwn yn coffáu coroni Harri VI yn 1422 ac sy'n perthyn i gyfres o englynion unodl union sy'n coffáu coroni holl frenhinoedd a breninesau Lloegr rhwng 1067 a 1558. Yn y mynegeion i lawysgrif LIGC 3049D [= Mos 146]), sef MCF (1999) a MFGLI, fe'i cyplysir gyda'r englyn *Mil a phedwar cant myn Mair* a ganwyd i'r brenin Harri V. Fodd bynnag, y mae'r englyn a briodolir i Ieuan Brydydd Hir yno'n dilyn yn syth ar ôl dau englyn a geir ar enw Dafydd Epynt. Er na chafwyd hyd yma astudiaeth lawn o'r gyfres, y mae'n amlwg na ellir ei derbyn yn waith dilys y beirdd y mae eu henwau wrthynt. Fel y nododd R. Iestyn Daniel,¹ ymddengys fod y gyfres wedi ei chyfansoddi oddeutu 1558 gan fardd anhysbys, a thadogi'r englynion ar wahanol feirdd.² Gellir gofyn a oedd diben gwleidyddol y tu ôl i lunio a lledaenu'r englynion hyn, yn ogystal ag i'r priodoliadau a geir wrthynt.³

Oherwydd natur anfoddfaol y copïau, ansicr iawn yw'r testun a olygir yma. Dengys llawysgrifau AE, sef y ddwy lawysgrif hynaf, berthynas agos â'i gilydd. Y mae llawysgrifau DF yn llaw David Ellis. Iolo Morganwg oedd piau llawysgrif C, ac nid annichon mai copi ohoni hithau yw llawysgrif B, yn llaw Huw Maurice.

1–2 **Mil a phedwarcant ... un rhagor / Un ar hugain** Coronwyd Harri VI, mab Harri V a Catherine o Valois, ar 1 Medi 1422.

ym myd Gw. amrywiadau. Ceir ll. ddigynghanedd o ddarllen *un dyd* [*dýd*], fel y'i ceir yn llsgrau. ADEF. Eithriadol (a diweddar) yw cael *tud* yn eb., er ei bod yn bosibl mai ffurf 3 un.pres.myn. *dodi* yw *dyd*. Ai ymgais gan Iolo Morganwg (neu'r gynsail y dibynnodd arni) i gael cynghanedd i'r ll. oedd darllen *ym myd*?

3 **glud** Nid yw'n sicr ai treigladd meddal o *clud* 'cyfoeth, ysbail' (gw. GPC 509) ar ôl *hir*, ynteu'r a. *glud* 'dyfal, diwyd, glew' (gw. GPC 1412 d.g. *glud*²) a geir yma.

Ceir wyth sillaf yn llsgrau. BCE a naw yn llsgr. A ar gyfer y ll. hon.

¹ Gw. GBDd 11–12, 68; cf. GGDd 49, GSCyf9, GDID 160.

² Ceir yn eu plith enwau Bledwyn Ddu, Dafydd Epynt, Dafydd y Coed, Dafydd Llwyd o Fathafarn, Daniel ap y Llogswrn Mew, Gruffudd ab yr Ynad Coch, Gwilym ab Ieuan Hen, Huw Arwystl, Iorwerth Fynglwyd, Llygad Gŵr, Llywelyn Fardd, Rhys Nanmor a Sypyn Cyfeiliog.

³ Sylwer ar debygrwydd yr englynion hyn i'r englynion yn darogan am ddyddiad arbennig a drafodwyd gan R. Wallis Evans, 'Englynion Brud', LICy xxii (1999), 134–5.

Atodiad ii

Ceir y pennill hwn, yr ymddengys ei fod yn englyn proest cyfnewidiog o bedair llinell (yn llawysgrifau ACDG–I²) neu chwech (yn llawysgrifau BEF), ar ôl y testunau o'r *Araith* a briodolir i Ieuan Brydydd Hir. Ceir darnau o gerddi eraill ynghlwm wrth nifer o'r Areithiau Pros, sef (a dilyn y teitlau a roddir iddynt yn AP) 'Breuddwyd Gruffydd ap Adda ap Dafydd',¹ 'Araith o Gowreinwaith',² 'Llythyr i ofyn Rhwyd Berced',³ 'Araith Gruffydd ap Ifan i Ruffydd ap Robin ap Rhys',⁴ 'Dewisbethau Davydd Mevenydd',⁵ ac y mae'n ddiddorol nodi bod y 'Llythyr i ofyn Rhwyd Berced' yn debyg i gywydd gofyn rhwyd bysgota Maredudd ap Rhys, er na ddyfynnir o'r cywydd hwnnw.⁶ Nid yw'n debygol fod testun rhyddiaith yr *Araith* ei hun (yn ei ffurf bresennol, o leiaf) yn waith Ieuan Brydydd Hir, ac y mae'n amheus iawn ai Ieuan a ganodd yr englyn a geir ar ei diwedd, er ei bod yn bosibl fod a wnelai'r Areithiau Pros â'r grefft ddatgan cerddi, ac felly, ond odid, yn dibynnu ar destun o gerdd sy'n gynharach na'r Areithiau eu hunain.

Golygwyd yr englyn hwn eisoes yn Tudur Penllyn, &c.: Gw 125. Argraffwyd 'Araith Ieuan Brydydd Hir' yn Almanac Siôn Rhydderch (Amwythig, 1728). Codwyd y testun a geir yn yr Almanac gan Dafydd Jones (Trefriw) i'r Cydymaith Diddan (Caer Lleon, 1766) i, 29–31. Fe'i golygwyd gan D. Gwenallt Jones yn AP 30.⁷

- 1 **cyfrinach** Cysyllta'r gair hwn â gair olaf testun yr *Araith*, gw. AP 32.
- 2 **clwywch** Ffurf ddeusill 2 ll.grch. *clwywed*, gw. WG §185, ii.
- 4 **ym mynwes mur** Cymerir mai ffurf ar *yn*, yn hytrach na'r fannod neu amrywiad ar y rh.prs.dib. blaen *fy*, a gynrychiolir gan *y mynwes* y llsgrau. Gall hefyd mai *mŷr*, sef ll. *môr*, a fwriedir gan *mur*. Ar wahanol ystyron *mynwes*, gw. GPC 2539, cf. *ib.* 2502 am ystyron ffigurol neu drosiadol *mur*.
- 5 **Gwen araf, liw gwawn oror** Ceir y ll. hon hefyd mewn cywydd serch a briodolir i Ddafydd ap Gwilym, gw. BDG 191 (ll. 3).
- 6 **canu ...** 'Gwn [fod] llawer wedi canu i'w phryd a'i gwedd'. Ond a ellid deall *lliw* yn oddrych a darllen *gannu* yma?

¹ AP 23.

² *Ib.* 27–9.

³ *Ib.* 42.

⁴ *Ib.* 44–5.

⁵ *Ib.* 49, cf. 'Davydd Meilienydd', td. 50.

⁶ Gw. B.O. Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch c. 1350–c. 1630* (Caerdydd, 1998), 92.

⁷ Adolygwyd AP gan E.D. Jones yn *Y Brython* (sef papur newyddiadur wythnosol Lerpwl), 27 Medi 1934. Trafodir yr Areithiau mewn perthynas â'r canu gofyn a diolch gan Dr B.O. Huws, *op.cit.* 91–2, 96.

llawer Cysyllta'r gair hwn â gair cyntaf brawddeg olaf yr *Araith*, gw. AP *l.c.*

Atodiad iii

Ar y cywyddau rhwng Ieuan Brydydd Hir a Thudur Penllyn, gw. cerddi 1–3 uchod a'r nodiadau arnynt. Trafodir y cefndir i'r cywydd hwn gan Dudur Penllyn a'r ateb iddo gan Ieuan Brydydd Hir yn y sylwadau rhagarweiniol i gerdd 1, lle yr awgrymir y gall mai ar gyfer difyrrwch neithior y canwyd y cerddi dychanol hyn. Ategir hyn rywfaint gan sylwadau Thomas Roberts, sy'n awgrymu, wrth drafod y gyfres englynion dychan a ganodd Tudur Penllyn i wahanol wrthrychau,¹ y cenid cerddi dychan gynt '... yn y "coeg neithiorau", chwedl [Gutun Owain], pan fyddai amryw o feirdd wedi cydgynnull yn yr un llys ... Aethai yn ddefod i'r beirdd destunio ei gilydd pan gyfarfyddent mewn llys.'²

Golygwyd y cywydd hwn eisoes yn Tudur Penllyn, &c.: Gw 5 ac yn GTP 45 (cerdd 27).

- 1 **Elis** Ar Elis Wetnal a'i deulu, gw. 1.1–2n.
- 2 **bwrdd tâl** Y bwrdd tâl, neu tâl y fainc (S. 'high table, upper table'), oedd y lle yr eisteddai'r gwŷr pwysig; cf. cywydd Guto'r Glyn i Ddafydd Llwyd ap Dafydd ab Einion, *Tre tad, nid rhaid dy oedi*, / *A bwrdd tâl y beirdd wyt ti* (GGI² 114 (XLII.67–8)); hefyd farwnad Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn gan Rys Goch Eryri, *Rhad elfydd, rho Duw, dalfainc ...*, IGE² 314 (llau. 1–2). Fe'i defnyddir gan Dudur Penllyn yma am noddwr hael.
- 3 **Ector** Sef Hector mab Priam, brenin Troia.
a'i geilw Gan mai yn y 3 un. y cyfeirir at Elis yn llau. 5–8, 23, 28, ymddengys y darlleniad *ai geilw* a gadwyd yn llsg. C yn fwy tebygol na'r newid sydyn i'r modd cyfarchol a gynrychiolir gan ddarlleniad y llsgrau. eraill.
- 4 y **Mars** Amrywiad ar *mers*; gair benthg o'r S.C. *march(e)*, y Gororau.
- 5 yr **Hob** Gw. 1.5n.
- 7 y **campau** Am restr o'r pedair camp ar hugain gw IGE² 387; cyfeirir yno at y rhestr a geir yn D.
- 9 **adeilad** Be., sef 'codi adeilad(au); saernïo; creu'.
dal tant 'To wrangle, jangle, altercate; hold tack, hold one's own', GPC 882. Diau mai cyfeiriad yw hwn at Elis fel cyfreithiwr, cf. llau.

¹ GTP 61–5 (I–VIII).

² *Ib.* 131; perthnasol hefyd yw ei sylwadau pellach *l.c.*

- 27–8 *Trafferth yw dadlau triphwnc / Ag yntau ...*
- 14 **Mordaf** Sef Mordaf Hael ap Serfan. Ef, ynghyd â Nudd ap Senyllt a Rhydderch (ill tri'n frenhinoedd neu'n dywysogion o'r Hen Ogledd) oedd y tri y cyfeirid atynt yn dra chyffredin gan y beirdd Cymraeg fel safon haelioni. Gw. ymhellach TYP² 5–6, WCD 483, EWGT 73.
- 19 **yta** Hel neu gardota yd.
- 21 **diriaid** Am drafodaeth ar y termau *dedwydd* a *diriaid* yn y canu englynol, gw. EWSP 197–9. Yn *ib.* 30n71 dywed Dr Jenny Rowland 'by the later medieval period the concept of *diriaid* was generally weakened to merely "perverse, mischevious" '.
- 22 **Dyn wyf a rwystrodd Duw'n ôl** Y mae'r ddarlleniad llawnach a gadwyd yn llsgrau. BC yn datrys y broblem destunol y cyfeirir ati yn GTP 124 (27.22n).
- 23–6 Nid yw'n eglur sut y dylid atalnodi'r ddau gwpled hyn. Cymerir mai araith uniongyrchol yw *Mae gwrach yn holi ymgréd*, ac mai Elis yw'r llefarydd, er y gall hefyd fod yn anuniongyrchol a Thudur yn wrthrych ('meddai Elis—boed iddo feddwl [am hyn]—[fod] gwrach yn holi llw priodasol [*neu* addewid] gennyf'). Ac ai Tudur ynteu Elis biau'r dweud yn y cwpled nesaf, *Ni chaf gan hon ... ystentio?*
- 26 **ystentio** Gw. yr amrywiadau. Ar slip yng nghasgliad GPC rhoddir 'gwneud stent (o)'; prisio (tir) ar gyfer (y)*stentio*, ac yng ngeirfa GTP cynigir mai "‘*extent*’ ystad' yw'r ystyr, a gellid dadlau y byddai ystyr megis 'rhentu; *enter into a land transaction*' yn rhoi ystyr foddhaol os at gyfnod 'yta' Tudur ac Ieuan y cyfeirir. Ond yn TW (Pen 228) d.g. *mutio* ceir yr ystyr 'ystentio', ac yn Thomas Thomas, *Dictionarium Linguae Latinae et Anglicanae* ([1587], adargraffiad Menston, 1972), rhoddir y diffiniad S. 'to speake: *sofetelie as with an vnperfit voice: to mutter*'. A ddichon mai ystyr y ll. yw y gallai Elis dystio i'r ffaith iddo yntau—neu efallai i Dudur ei hun—geisio siarad yn isel (?cymodi) â'r wrach, ond yn ofer?
- 28 **Morgan Twnc** Gw. 1.4n.
- 34 **gwyll o wrach** Dilynyr llsgr. C. Anodd yw dewis rhwng *gwyll*^l fel e. neu a., neu *gwyll* fel amrywiad ar *wyill*, gw. GPC 1765. O blaid yr olaf y mae'r defnydd a wneir o *wyill* gan Dudur Penllyn yn At.iv.40, At.v.8, 66. Ond y mae'r llsgrau. yn weddol gytûn yn darllen y ffurf *gwyll*, ac ymddengys mai *wyill* (heb g-) yw'r ffurf a arferir gan Dudur am 'ellyll(es)' yn yr enghreifftiau hyn, cf. GTP 61 (36.II.20). Os e. yw *gwyll*, gellid ystyr megis 'tywyllwch, dŵwch; ?llun, gwedd'; os a. ydyw, byddai 'du; llawn cysgodion' yn gweddu i'r disgrifiad difenwol o'r wrach a geir gan Dudur Penllyn yn y cywydd hwn.
- 36 **mae'n galed hyn** Yn GTP 46 (27.36) rhydd Thomas Roberts y

darlleniad *Ei gwlad hi myn goleuad dyn*, heb nodi bod y ll. yn rhy hir. Gellid *goleuad dyn* o dystiolaeth y llsgrau. fel disgrifiad canmoliaethus o'r fro y mae'r wrach yn byw ynddi, ond unwaith eto, ymddengys y darlleniad a gadwyd yn llsgr. C yn fwy boddhaol.

- 39 **annon** Sef *annawn*, cyfuniad o'r neg. *an-* a *dawn*, yn golygu 'anffawd, aflwydd', gw. GPC 134. Dichon mai litotes ydyw yma.
- 40 Ceir yma *d...t* yn ateb *t*.
- 42 **berdraws hydr** Cymerir mai a. cyfansawdd o ffurf f. yr a. *byr*, yn hytrach na *ber* 'coes', a *traws* 'cadarn, cryf' yw'r gair cyntaf (gthg. GTP 147 d.g. *ber*). Y mae'r naill ddarlleniad, sef *fudr* (*f*berfeddgoll) a'r llall, *hydr* (*h* heb ei hateb ar ôl *s*) yn bosibl. Dewiswyd yr olaf ar sail y *lectio difficilior* a'r cyfartaledd uchel o amrywiadau arwyddocaol a geir yn llsgr. C.
- 47–8 **Esgid ... a gaf, / Glytiog, i'r gwely ataf** Ai *esgid* yn yr ystyr ffigurol, yn golygu 'bod gan berson ryw ofid yn ei flino' (gw. GPC 1243), a geir yma?
- 50 **Grogendwll, gwraig o undant** Nid yw union arwyddocâd y sen aflednais [*c*]rogendwll yn eglur, ond y mae'n debygol mai a. cyfansawdd ydyw o *crogen* (ffurf amrywiol ar *cragen*, gw. GPC 577–8) a *twll*. Am wahanol ystyron *crogen* gw. GPC *l.c.*, a byddai 'cragen' (S. 'shell') neu o bosibl 'tagell pysgodyn' yn addas yma. Gellir cymharu *gwraig o undant* â *mantach*, ll. 41. Y mae'r darlleniad a gadwyd yn llsgr. C eto'n datrys y broblem destunol y cyfeirir ati yn GTP 124 (27.50n).
- 58 **[y] Plas-teg** Awgrymodd Cledwyn Fychan yn ei erthygl 'Tudur Aled: ailystyried ei gynefin', Cylchg LIGC xxiii (1983–4), 54–5 (gw. ymhellach y sylwadau rhagarweiniol i gerdd 1), y gallai'r Plas-teg cyn gynhared â hyn fod yn eiddo i Elis Wetnal.

Atodiad iv

Ar gefndir y cywydd hwn, gw. y sylwadau rhagarweiniol i gerdd 2 uchod.¹ Yno ceir Ieuan Brydydd Hir yn edliw i Dudur Penllyn am iddo hel defaid yn Ardudwy. Etyb Tudur gywydd dychan Ieuan drwy fynnu mai rhyw Syr Morus² *a'i bres oll* a barodd y rhwyg rhwng y ddau gyfaill. A awgrymir drwy hyn fod Ieuan yn porthmona dros yr offeiriad hwn, neu a gyhuddir yr offeiriad o lwgrwobrwyo?³ Megis yn ei gywydd yn gwatwaru cais carwriaethol aflwyddiannus Ieuan yng Nghaerdydd,⁴ deil Tudur mai anian

¹ Am gywydd dychan Ieuan Brydydd Hir i Dudur Penllyn, gw. cerdd 2 uchod.

² Trafodir Syr Morys yn 2.10n.

³ Ar yrfa hel defaid Tudur Penllyn, gw. uchod tt. 4–5.

⁴ Gw. At.v isod.

genfigennus sydd y tu ôl i gyhuddiadau'r Prydydd Hir. Ceir yn nychan miniog Tudur ddarlun byw iawn o'i gyfaill, ond y mae'r ddelwedd a geir trwy'r gwatwar braidd yn groes i ddisgrifiad Ieuan ohono ef ei hun, yn ŵr ifanc, yn ei gywydd ar henaint.

Golygwyd y cywydd hwn eisoes yn Tudur Penllyn, &c.: Gw 6 ac yn GTP 42 (cerdd 25), ond un llawysgrif, sef Pen 77 (llsgr. D uchod), a ddefnyddiwyd ar gyfer y golygiad a geir yn GTP, ynghyd â'r testun llwgr ac annibynadwy a argraffwyd yn *Y Brython*, iv (1861), 105.

- 2 **Ysgub o wrysg ar brysg brawd** Dilynir yma dystiolaeth llsgrau. ABC na allai Thomas Roberts fanteisio arnynt ar gyfer GTP. Gellid dadlau bod *prysg* yn cyd-fynd yn naturiol â delwedd yr *ysgub* a'i rhagflaena. Fel y sylwodd Thomas Roberts (gw. *ib.* 123, 25.2n), dychenir yn y cywydd hwn bryd a gwedd y Prydydd Hir, cf. hefyd lau. 4, 6, 8, 10, 27, 29, 47.
- 3 **athro canon** Y mae i *canon* nifer o ystyron, gw. GPC 416–17. Nid yw'n sicr at beth yn union y cyfeiria Tudur yma. Yn GDB 19.21–2n (dienw), GBF 39.16n (Gruffudd ab yr Ynad Coch), BI BGCC 302 (30.ch 1–3), dichon mai'r Ysgrythur yw'r ystyr. A yw Tudur yn cyfeirio'n goeglyd at ddiddordeb Ieuan Brydydd Hir mewn crefydd? Neu, os *canon* yn yr ystyr 'safon neu reol barddoniaeth' a olygir (cf. GGD 8.15 *Da Elidir gwir, gwarant iawn—ganon* (Gwilym Ddu o Arfon)), a yw'n bosibl mai 'athro barddol' a olygir gan yr ymadrodd? Nid yw hynny, wrth reswm, yn golygu mai pencerdd oedd Ieuan; gall mai enghraifft o organmol gwrthrych y gerdd er mwyn ei watwar a geir gan Dudur Penllyn.
- 4 **tulath fwg wythlath fydd** Trawst nenfwd oedd *tulath*, sy'n awgrymu mai un tal, o bryd tywyll, oedd Ieuan, cf. isod, 27n.
- 5 **gieulyd** Sef 'gwynnog; cryf; nerfus'. Dyma'r enghraifft gynharaf y cyfeiria GPC ati o'r a. hwn, gw. *ib.* 1397.
gwywlwth Anodd penderfynu ar sail orgraff y llsgrau. ai *gwiw* (llsgrau. ABC) ai ynteu *gwyw* (llsgr. D) a geid yn wreiddiol; dilynir yma ddarlleniad llsgr. D gyda GTP 42 (25.5), er y gellid dadlau y ceid a dychanol hefyd o ddarllen *gwiw* a *glwth*, o'u deall yn yr ystyr 'a glythni yn addas iddo'. Er mai dyma'r unig enghraifft y cyfeirir ati yn GPC 1793 o'r a. cyfansawdd *gwyw* a *glwth*, ceir cyfuniad delweddol nid annhebyg yn GDG³ 315 (5–6) *Nid gwahodd gwyw a'th gydfydd, / Nid gwahodd glwth i fwth fydd.*
- 6 **Ysbur ... y bwth** Post neu biler bwthyn oedd *ysbur*. Cymerir mai sangiad yw *llei llosges* yma. Ai cyfeiriad yw hwn eto at bryd a gwedd tywyll Ieuan?
- 7 **mae abid cu** Ceir yn llsgr. D *mae o hyd cu*, a dderbyniwyd yn GTP;

- mae abid cu* a roddir yn llsgrau. AB ac *mae abid cul* (gyda phroest i'r odl) yn C. Credir mai ymgais i roi cynghanedd lawn i'r ll. a geir yn llsgr. D. Y mae enghreifftiau eraill yng ngwaith Tudur Penllyn o gynghanedd wallus drwy fod cytseiniaid heb eu hateb, a thrafodir y rhain yn GTP xxii. Nodir yn *ib.* xxiii hefyd y ceir amryw lau. digynghanedd yng ngwaith Tudur, ac ni farnwyd y gellid gwrthod y ll. ddigynghanedd hon ar sail llsgr. D yn unig.
- 8 **Mwyedig fal pren mwdwl** Ystyr *mwyedig* yw rhywbeth enfawr, horwth o ddyn, efallai; arno, gw. GPC 2517–18. Defnyddir *mwdwl* yn drosiadol am dwmpath neu bentwr, gw. *ib.* 2507.
- 9 **brëyr bris** Diwygiad petrus yw hwn. *Breur* a geir yn llsgrau. ABC; ceir *brodyr* yn llsgr. D ac fe'i golygwyd, heb ddangos hynny, gan Thomas Roberts yn *B'redur* ar gyfer y testun a roddir yn GTP. Ceir *breuach* gan Dudur yn yr ystyr 'rhydd, hael' yn GTP 20 (12.14), a thybed ai ergyd y dychan yw fod Ieuan yn gyfwerth ag arglwydd, ond mai ef yw pennaeth y rhai sy'n chwannog am dâl.
- 10 **Milltir droetir, ei dretis** E. cyfansawdd o *troed* a *hir* yw *troetir*, cf. At.v.37–8 isod *Doedais mai gŵr du ydoedd / (Athrod draw), a throetir oedd*. Cyfeirir at faint traed Ieuan hefyd isod, ll. 22. Benthyciad o'r S.C. yw *tretis* (S. diweddar *treatise*); ystyr *torri tretis* yw 'torri gair' neu 'torri cytundeb'.
- 11 **Syr Morys** Gw. 2.10n. Ymddengys o'r disgrifiad hwn fod Syr Morys yn ŵr o dymer gwyllt ac yn frycheulyd.
- 13–14 **Offeiriadwas a phrydydd** Ai cyfeirio at Syr Morys ynteu at Ieuan ei hun a wneir yma? Os at Syr Morys, byddai *offeiriadwas* yn golygu 'llanc o offeiriad'. Cryfheir y posibilrwydd hwn gan 2.11–12, lle y sonnir am Syr Morys fel *Gŵr a gân i rianedd / Geiriau mawl ac a ry'r medd*.
- 14 **athrod heb wybod** Be. yw *athrod* yma; awgrymir mai Syr Morys yw'r un sydd wedi athrodi Tudur Penllyn, a hynny heb ddeall. Ef, felly, yw achos y rhwyg a ddaeth rhyngddo ac Ieuan Brydydd Hir.
- 15 **ber hir** Darlleniad llsgr. D, cf. GTP 42 (25.15). Gellir amddiffyn y darlleniad hwn ar sail At.v.55–6 isod *Dyfawd, o'i saethwawd seithug, / Y ber hir ...* Rhan amlwg o ddychan Tudur Penllyn oedd cyfeirio at nodweddion corff Ieuan.
- 23 **onid** Ff. ar *ond* yw *onid* yma, cf. GTP 14 (8.26) *Onid hwy ni chynnal tai* a gw. GPC 2648 d.g. *onid*³.
- 25 **heglir hogl** Un hirgoes, trwsogl neu afrosgo, gw. GPC 1838, 1888.
- 26 **chwynnogl** Erfyn i chwynnu, gw. GPC 862.
- 27 **lliwdal llus** Am ddelwedd debyg, gw. uchod ll. 4n a cf. At.v.44 isod, lle y cyfeirir at Ieuan fel [y] *bardd mwyar ei ben*.

- 29 **gwae ei galon** Anodd gwybod ai ardd. a gynrychiolir gan orgraff llsgrau. AD, *gwae i galon*. Y rh.prs.dib. blaen *ei* a geir yn llsgrau. BC, er na ellir dibynnu ar eu confensiynau orgraffyddol yn brawf terfynol ar y pwnc.
- cogeilwas** Gall mai *cogail* yn golygu ‘ffon, pastwn’ (cf. S. ‘*distaff*’, gw. GPC 540) a geir yma; ond gan mai ‘llinell fenywaidd, ochr fenywaidd teulu’ yw un ystyr bosibl i *cogail*, a ellir gweld yn sen Tudur Penllyn led-gyfeiriad at eni anghyfreithlon Ieuan Brydydd Hir? Am drafodaeth ar y diffyg tystiolaeth ynghylch cefndir Ieuan, gw. y Rhagymadrodd (troednodyn 22).
- 34 **Defeited yfô eto** Ceir *defeited* yn llsgrau. ABC. Gan fod Tudur Penllyn yn honni na châi ddod eto i Feirionnydd (*Ni chaf fyned trwy’r afon / I neges hwnt ...*), nid yw’r darlleniad a geir yn llsgr. D, *deveitia o dof eto* (cf. GTP 42 (25.34)) yn argyhoeddi.
- 37 **sud bwa duddrain** Ll. ansicr. ‘Dull’ neu ‘ffurf, modd’ a olygir gan *sud*. Dilynodd Thomas Roberts ddarlleniad llsgr. D a chymryd mai at y drain duon, *prunus spinosa* (S. ‘*blackthorn*’, gw. GPC 1097), y cyfeiria Tudur Penllyn wrth sôn am y ‘bwa’ (sydd, yn ôl pob tebyg, yn ddelwedd am ddychan neu genfigen Ieuan Brydydd Hir), sef ‘peth megis bwa o gred y ddraenen’ a anelwyd ato ym Meirionnydd. Derbynnir hynny yma. Ond *duddyrain* a geir yn llsgrau. AB a *duddurain* yn C, a gellid dadlau o blaid deall mai e. gyda grym a. oedd y gair clwm gwreiddiol o ddeall *du* a’r e. *dyrain* yn yr ystyr ‘awch; trythyllwch; llawenydd’, gw. GPC 1146.
- 40 **gwarchad** Amrywiad ar *gwarchadw* a’r -w wedi ei cholli, cf. *arddel, syber*; gw. ymhellach GPC 1579.
- ŵyll** Ar *ŵyll* yn yr ystyr ‘ellyll, drychiolaeth’, gw. GDG³ 499 (66.34n). Ymddengys fod y gair yn gytras â’r S. *owl*; fe’i ceir gan Dudur Penllyn hefyd, e.e., yn GTP 43 (26.8), 45 (26.66), 46 (27.34), &c.
- 43 **marchbren ody** ‘Prif drawst’ yw *marchbren*, a ffwrn fawr neu gylyn a olygir gan *odyn* (cf. 1.17n). Perthyn y ddelwedd hon i’r gyfres o drosiadau gan Dudur Penllyn sy’n ymwneud â choed llosgedig ac sy’n dyfalu pryd tywyll y Prydydd Hir, cf. ll. 4 *tulath fwg*, ll. 6 *Ysbur ... y bwth* a’r nodyn arno. Nid yw’n sicr ai sangiad neu oddrych y f. [g]adai yw *marchbren ody*.
- 45 **Afraid i fforchaid frawd ffydd** Y mae’r darlleniad *fforchaid* a roddir yn llsgr. C yn ymdebygu i’r e. *ffwrch* a *gweirfforch* a geir yn ddisgrifiad o Ieuan Brydydd Hir yn llau. 26 a 39. Y mae’r darlleniad hwn hefyd, o bosibl, yn rhoi gwell synnwyr na’r hyn a roddir ar gyfer y cwpled yn GTP 43 (25.44–5) *Afraid i fforch a’i frawd ffydd / A’i lwynog ...*, os derbynnir mai Syr Morys yw’r [b]rawd *ffydd* nad oes mo’i angen ar y Prydydd Hir. Os *fforchaid* yn yr ystyr ‘cymaint ag a ellir ei godi ar y tro

- â fforch' (gw. GPC 1303) yw'r ystyr yma, dyma'r enghraifft gynharaf o'r gair y gwyddys amdani.
- 46 **Ail lwynog, na bai lonydd!** Nid yw'n sicr eto ai at Ieuan Brydydd Hir ai ynteu at Syr Morys y cyfeirir yma; tueddir i feddwl mai'r ail ydyw.
- 48 **a adwaenir** Cyflenwir y rh.pth.
- 50 **â gyr o gŵn** Dichon nad *gyr* yn yr ystyr 'diadell, praidd', ond 'rhuthr, ymosodiad' ydyw, gw. GPC 1796 d.g. *gyr*¹.
- 55 **Gwrthwyneb, ag wyneb gwas** 'Drwg, blin, gwrthun' yw ystyron *gwrthwyneb*, ond efallai fod yma gyfeiriad cynnil at y term cynganeddol technegol 'wyneb a gwrthwyneb', gw. J. Morris-Jones: CD 151.
- 57 **Melwas** Gthg. llsg. D *moelwas*. Cyfeirir at Felwas yn gyffredin gan y beirdd yn eu cerddi mawl, ac fe'i henwir gan Ieuan ap Tudur Penllyn yntau mewn cywydd i Ieuan ap Robert ap Meredith, gw. GTP 69 (37.2). Ar Felwas ei hun, gw. GDG³ 496; TYP² lxxvii, 382. Gan mai cadarnhaol at ei gilydd yw'r cyfeiriadau at Felwas, ansicr yw union arwyddocâd y sen a fwriedir gan Dudur Penllyn; fel y noda Dr Rachel Bromwich, TYP² 382, 'Dafydd ap Gwilym ... knew also the story of [the abduction of Gwenhwyfar] by Melwas.' O ystyried y cywydd am helyntion carwriaethol Ieuan yng Nghaerdydd (gw. At.v isod), tybed a yw Tudur Penllyn yn cyfeirio yma at awydd Ieuan i hel merched?

Atodiad v

Ar gefndir y cywydd hwn, gw. y sylwadau rhagarweiniol i gerdd 3 uchod. Ymddengys fod Tudur Penllyn yn cael ei gyhuddo gan Ieuan o ddarbwyllw'r ferch yr oedd Ieuan wedi ymserchu ynddi mai 'gŵr du' a godinebwr oedd y Prydydd Hir, a bod ganddo *wraig a thylwyth* (gw. llau. 29–30, 51). Etyb Tudur gŵyn Ieuan—sef na fuasai Tudur wedi llwyddo i ddwyn ei gariad oni bai am y dillad ysblennydd a oedd ganddo—drwy fynnu bod Ieuan yn llawn cenfigen, ac na chawsai'r ferch hyd yn oed pe gwisgasai fantell aur. Cyngor Tudur yw fod angen mwy na dillad crand ar Ieuan Brydydd Hir os oedd am ennill y ferch. Pen punt, cynffon dimai oedd y Prydydd Hir, yn nhyb y bardd o Benllyn!

Nid annichon mai cael hwyl a wneir yn y ddwy gerdd hyn drwy wydroi confensiynau'r canu serch fel y'u hamlygir yng ngherddi Dafydd ap Gwilym ac eraill, ac y mae, yn sicr, adleisiau geiriol, sangiadol a chystrawennol o'r cerddi hynny yng nghywydd Tudur, gw. yn enwedig llinellau 1, 5, 14, 18, 30–42.

Golygwyd y cywydd hwn eisoes yn Tudur Penllyn, &c.: Gw 95 ac yn GTP 43 (cerdd 26).

1 **gwae** Cf. y defnydd a wneir o'r ebd. *gwae* yn llau. agoriadol rhai o

- gerddi Dafydd ap Gwilym, cf. GDG³ 70 (cerdd 24), 337 (cerdd 127), 362 (cerdd 137), 382 (cerdd 145).
- 4 **llath gwifr mwg** ‘Gwyfr’ yw’r ffurf ar y gair a fabwysiadwyd yn GTP (gw. *ib.* 26.4n), ond *cwifr* yw’r darlleniad a geir yn y llsgrau. (cf. GPC 638). Daw’r gair o’r S.C. *quiver*, *quyvere*, a diau mai difenwi’r Prydydd Hir yn fasweddus a wneir yma eto.
- 5 **Prydydd, awenydd uniawn** Cf. GDG³ 341 (128.43) *Dafydd, awenydd wiwnwyf*.
- 7 **gorwag siad** ‘Corun’ yw ystyr *siad*, ac fe’i defnyddir fel rhangymeriad (*‘pars pro toto’*) yma. Ergyd y sangiad yw mai ‘un gwag ei ben’ oedd Ieuan Brydydd Hir.
- 8 **gwydr** Dichon y’i defnyddir fel a. yma yn golygu ‘glaswyrdd, glaswelw’, cf. GTP 123 a GPC 1751.
- 14 **ar lan Taf** Ar sail tystiolaeth y llsgrau. ymddengys nad geneth o Landaf oedd ‘Elen’, ond mai ar lan Afon Taf yr honnir i Ieuan gyfarfod â hi.
- dan erlont aur** Am ddefnydd o ddelwedd y *gerlant* mewn barddoniaeth serch, gw. GDG³ 91 (cerdd 32).
- 15 **gwindas** Rhennir y llsgrau. yn gyfartal rhwng y ddau ddarlleniad *gwindas* a *gwintas*. Yn GTP 123, dyry Thomas Roberts S. *wyndace* (a roes *windlass* heddiw) yn darddiad *gwindas* ei destun golygedig, gan ychwanegu mai “‘Trawst dirwyn,” felly, yw’r ystyr. Defnyddid y gair hefyd am ryw ddyfais i blygu’r bwa croes’ (cf. GPC 1663 d.g. *gwindas*¹), ac efallai fod hynny’n cyfateb i’r ddelwedd *bwa dudrain* a geir yn At.iv.37. Ceid *gwindas* ar long (cf. S. *capstan*) yn ogystal ag uwch ffynnon i dynnu dŵr. Ond gthg. GPC *l.c.* d.g. *gwindas*² (gw. *ib.* 1665 d.g. *gwintas*, *gwindas*), ‘esgid(iau) uchel yn cyrraedd hyd y penglin, [S.] *buskin(s)*’.
- 18 **byw onis câi ...** Cf. GDG³ 313 (118.19–20), *dywed na byddaf / Fwynwas coeth, fyw onis caf*.
- mynwes cawr** Petrusodd Thomas Roberts ynghylch *fynwes* yma, gan ddewis y darlleniad *enfys* a geir yn ACE. Ond y mae’r dystiolaeth lawysgrifol ategol a geir i *fynwes* (gw. llsgrau. B(C)D(E)G), yn ogystal â’r cynganeddiad a’r ystyr fwy tebygol, yn tueddu o blaid y darlleniad hwnnw.
- 22 Camosodiad *n.l = l.n.*
- 23 **garan o flew** Yn GTP 150 deallir *garan* i olygu ‘crëyr glas’, cf. *ib.* 47 (28.14), 52 (30.39), ond gall mai ‘coes (ber, clun) blewog’ yw’r ystyr debycaf yma, cf. GPC 1380 d.g. *garan*².
- 25 **gogryg gân** Yn GTP 44 (26.25) cymerir mai ardd. yw *gan*, ond yng

nghyd-destun y gyfres sarhadau gan Dudur Penllyn sy'n canolbwytio ar lais hyll Ieuan (*garw iawn floedd*) a swniai *fal gafr ym mhoen*, y mae'n debygol mai 'cân' y Prydydd Hir yw'r hyn sy'n gryg yng ngolwg Tudur, gthg. y disgrifiad *eurllais* a rydd Tudur ohono ef ei hun yn ll. 45.

telyn geugroen Am y delyn yng Nghymru'r Oesoedd Canol, gw. O. Ellis, *Hanes y delyn yng Nghymru* (Caerdydd, 1980); *Cerdd a chân: golwg ar gerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru*, gol. Wyn Thomas (Dinbych, 1982). Nid yw ystyr *ceugroen* yn amlwg (ai telyn ledr a olygir?), ond gall mai sylw ar ddiffyg sylwedd y 'delyn' (awen Ieuan?) a fwriedir.

26 **gwifrwm** Nid awgrymwyd ystyr i *gwifrwm* yn GTP, ond rhydd GPC 1659 'llipryn main o ddyn, llabwst', sydd yn sicr yn gweddu i sarhadau eraill gan Dudur Penllyn ynghylch taldra Ieuan Brydydd Hir.

27 **pa nad oedd** Y mae *pa* yn gyfystyr â 'pham'. A all hyn fod yr un â *panad* (9.15)?

29–30 **ei wraig ... / A'i dylwyth** Cf. ll. 51 isod. Dyma'r unig gyfeiriad at wraig a thylwyth Ieuan Brydydd Hir, er na ellir bod yn sicr nad ffug yw'r cyfan er mwyn ategu'r sen a fwirir arno gan Dudur Penllyn.

30–42 Y mae'r darn hwn yn debyg iawn ei gystrawen sangiadol i'r cywydd 'Trafferth mewn Tafarn' gan Ddafydd ap Gwilym, gw. GDG³ 327 (cerdd 124).

32 **r'ynfydu** Cymerir mai'r geiryn perffeithiol *r[h]y* ac *ynfydu* a geir yma.

33 **arswydais** Cf. GDG³ 64 (22.21), *ib.* 172 (64.24).

40 **gŵr gweddw** Gan na fyddai *gweddw* yn yr ystyr gyfoes yn ddigon sarhaus at bwrpas dychan Tudur, teg yw gofyn ai 'sengl, dibriod' a olygir (gw. GPC 1614) neu a awgrymir yn syml fod Ieuan yn digwydd bod heb ei gymar tra oedd yng Nghaerdydd? Ergyd y sen gan Dudur Penllyn yw mai gŵr priod oedd Ieuan.

esgair gwiddon Cymherir Ieuan â gwiddon gan Dudur hefyd yn ll. 24, cf. At.v.25. Ond, a chofio bod mynydd *Esgair-weddan* ym mhlwyf Tywyn ym Meirionnydd, a oes yma enghraifft o ddychan amwys yn ymwneud ag e. lle ym mro'r bardd?

41 **ieithydd** Naill ai 'siaradwr, llafarydd' neu, o bosibl, 'bardd, prydydd', gw. GPC 2011 d.g. *ieithydd*¹ a cf. GDG³ 49 (17.39), *ib.* 325 (123.14).

46 **lliwio** Sef 'edliw, dannod', gw. GPC 2194–5 d.g. *lliwiaf*².

55 **dyfawd** Amrywiad ar *dywawd*, *dyfod*, sef 3 un.myn.grff. *dweud*.

64 **yn nechrau Mai** Dengys y cyfeiriad hwn at hoff fis Dafydd ap Gwilym, mis traddodiadol y carwr, yn eglur mai gwyrddroi confensiynau'r canu serch a wneir yng nghywydd Tudur Penllyn.

65 **plyg clun** Yn GTP 45 (27.65) darllenir *plyc lun* yma. Rhaid yw cael

dau air ar wahân i gael cynghanedd sain foddhaol, ond y mae'r llsgrau. yn tueddu o blaid darllen gair clwm (gw. Amrywiadau). Ond cynigir yma mai sangiad yw *blyg clun*, *blac o Lir*, ac mai natur ebychiadol yr ymadrodd sy'n peri'r treigladd. A deall *plyg* yn yr ystyr 'cam, crwca; wedi ei blygu' (gw. GPC 2831–2 d.g. *plyg*¹) a *clun* yn e., sef 'rhan uchaf morddwyd' (weithiau'n rhangymeriad am y goes i gyd), neu 'prysglwyn', ceid ystyron megis '[un y mae ei] glun wedi plygu' neu '[un y mae ei] goes [yn debyg i] brysg wedi plygu' (gw. GPC 510 d.g. *clun*¹, 2). Ceir cyfatebiaeth i'r ail bosibilrwydd yn At.iv.2 *Ysgub o wrysg ar brysg brawd*.

blac o Lir Gair benthyc o'r S. *black of Lyre* / *black o Lyre*, gw. GPC 279. Brethyn du ydoedd a wneid yn ninas Lierre ym Mrabant yn yr Oesoedd Canol; dyma gyfeiriad gwatwarus eto at liw tywyll pryd Ieuan.

- 67 **a wneithum** Dilynir yma'r diwygiad a awgrymir yn GTP 22 (13.1), 45 (26.67), gw. *ib.* 113.
- 69–70 **Doeth Ieuan ... / O'r dref a'i wregys ar dro** Awgrym na fu cais Ieuan yn aflwyddiannus yn y diwedd?

Geirfa

- abid** gwisg aelod o urdd
grefyddol At.iv.7n
- absen** drygair neu anghlod 5.30n
- achos** 6.87n
- adeilad** adeiladu, saernïo, creu
At.iii.9n
- adfarn** diddymiad dedfryd neu
ddeddf 6.80
- adnabod** 3 *un.pres.myn.* **edwyn**
10.49n, *amhrs.pres.myn.*
- adweinir** At.iv.48n
- adde, addef** cyfaddef, cyffesu,
arddel, derbyn 1.43, 5.5, 13.5;
1 *un.pres.myn.* **addefa'** 5.1n
- adduno** deisyf, dymuno'n gryf 6.1
- aethnen** S. 'aspen' 13.52
- afal** 8.5; *ll.* **afalau** 8.2n
- Afe** 6.12n
- aflonydd** anfwyn, terfysglyd 6.63
- afraid** At.iv.45n
- afrwyddwas** llanc anhael,
anffodus neu drwsogl At.iv.56
- agos** 6.87n
- angel** cennad Duw; arian bath yn
dwyn delw yr archangel
Mihangel At.iii.6
- anghanmol** gwarth,
anghymeradwyaeth 6.47
- anghlo** gwarth, cywilydd 5.41
- anghyfion** anghyfiawn 8.21
- anghywraint** anfedrus,
anwybodus 4.37
- ail** At.iv.46n
- ais** asennau, bron 12.23, 13.37
- amarch** gwarth, sarhad 8.31n
- am ben** 8.24n
- amliwio** troi lliw, ystaenio
3 *un.grff.myn.* **amliwiawdd** 7.48
- amlwg** 4.39n
- amwyll** cynddaredd, ynfydrwydd,
annoethineb 4.6
- amwynt** afiechyd, nychdod,
anffawd 10.43
- anael** crintachlyd, angharedig
9.33, At.iii.15
- anair** anghlod, gwarth 6.53,
At.iii.30
- anfad** anffodus, drygionus 8.57
- anfoes** drygfoes, anghwrteisi
10.24
- anial** anferth, rhyfeddol At.iv.26
- anniben** annrhefnus, anobeithiol,
diamcan At.v.2
- annifer** afrifed 8.54
- anniwarth** gwarthus,
gwaradwyddus 6.62
- annod** dannod, edliw 3.27
- annoeth** ffôl, disynnwyr 3.5n
- annon** anffawd, aflwydd
At.iii.39n
- annos** hel, ymlid At.iv.49
- annwyd** oerni 13.50
- annwyl** 1.2n, 10.63, 13.65
- anoeth** rhyfeddol 7.36n
- anolau** dirgel, cuddiedig 9.34
- anolo** ofer, gwag 5.15
- anostegu** cynhyrfu, torri ar
draws, peri anhrefn 5.33n
- anrhegydd** rhoddwr, cyflwynwr
rhodd 6.65
- anudon** llw celwyddog At.v.24;
ll. **anudonau** 7.15n
- anurdd** annheilwng, gwael 7.12n
- anurddas** gwaradwydd, gwarth

- 6.61
anwardd anwahardd, haerllug
 7.29
anwirion euog, drwg, beius
 2.47n
anwylderch cariadferch 5.45
araf tawel, mwyn, tirion 3.13,
 At.ii.5n
arall 8.33n
ar annel wedi ei anelu At.iv.38
archangel 3.61n
ar draws 3.7n
ar dro At.v.70n
arglwyddes 6.19n
ar hyn 4.62n
arnad arnat 6.55
ar osteg yn gyhoeddus 4.11n
arswydo *1 un.grff.myn.*
 arswydais At.v.33n
arth 4.46n
arwain cludo, cario, lladrata, dwyn
3 un.pres.myn. arwain 2.21n
arwydd 3.55n
atad atat 6.17, 59, 10.60
atolwg S. '*prihee, pray*' 1.50
athro 8.30n, At.iv.3n
athrod 5.29n, At.iv.14n
aur aur; trysor, cariad 3.15,
 4.46n, 52n, 7.20, 21, At.iii.12,
 At.v.14n, 62
awen 9.6n
awengerdd cerdd, barddoniaeth 3.8
awenydd¹ awen, dawn neu
 ysbrydoliaeth farddol 6.84n
awenydd² bardd 9.3, At.v.5n
awgrim 2.39n
awron yn awr, y pryd hwn 7.16
bach 10.48n
ban uchel, ardderchog, enwog,
 amlwg 9.1
bardd 13.56n
bas gwael, salw 13.2
bawedi bryntni, aflendid,
 crintachrwydd 5.18n
bedydd 9.42n
beddglos 7.53n
bei 13.5n
beiddio *1 ll.pres.dib. beiddiem*
 13.5n
bendigaw bendithio, sancteiddio
 6.5
ber coes At.iv.15n
berdraws un fer a chref
 At.iii.42n
berw 7.21, 9.6n
blac o Lir S. '*black of Lyre /*
black o' Lyre' At.v.65n
blawrwyn llwydwyn, gwelwlas
 2.3n
blynedd 9.19n
bob dri 12.21
bob ddau 2.50n, 12.41
bod¹ *3 un.pres.myn. sydd* 6.10n,
 9.7n; *3 un.dyf.myn. bydd* 6.9n; *3*
un.grff.myn. bu 6.9n, 8.9n,
 7.55n; *3 un.amhff.dib. bai*
 At.iv.46n
bod² ?preswylfod, trigfan 5.17n
bolwyn gwyn ei fol, â gwyn ei
 lygaid yn amlwg iawn 2.29
bonllost aelod rhywiol dyn 3.71n
bostio 5.20, At.v.10
bostiwr broliwr, ymffrostiwr
 At.v.6
bradog bradwrus, anffyddlon,
 ffals 7.3
bradus bradwrus, ffals 6.52
bradwr 11.37n, 13.2
braich 13.40n
brau rhydd, hael, parod 10.11n
brawd At.iv.2n
brawd ffydd gŵr crefydd
 At.iv.45n
breisglawn helaeth a llawn
 At.iv.33n
brenin 6.16 (y tri Magi), 6.43,

- 10.12n (am Grist), 13.23n (y Tri Byw a'r Tri Meirw)
- brëyr** pennaeth At.iv.9n
- briwo** *amhrs.pres.myn.* **briwir** 4.38n
- brochus** lliidiog, dig At.iv.11
- bron** 11.17n
- bronten** merch afrywiog, lac ei moesau, budrogen 1.20n
- browys** nwyfus, trythyll At.v.21
- bru** mynwes 10.9
- brychwyn** brycheulyd At.iv.11
- buchedd** 8.42n
- budriaith** iaith fras, serthedd 5.12
- budur** budr 5.18n
- buelin** wedi ei wneud o gorn bual 4.13
- bustyl** bustl 5.20n
- bwa** At.iv.37n
- bwbach** bwgan, ellyll 1.19
- bwrdd** At.iii.2n
- bwrdd tâl** At.iii.2n
- bwrw** bwrw, barnu'n euog 1.20n; *3 un.pres.dib.* **bwrio** 13.1n
- bwth** bwthyn At.iv.6n
- bwyta** 8.2n
- byd** 4.63n, 10.48n, 12.2n, 13.15n At.i.1n
- bydol** marwol 6.46
- byr** 13.6n
- byw** 12.38n, At.v.18n
- bywyd** 9.24n
- cablu** difenwi neu oganu'n gableddus 6.50
- cadernyd** cadernid, cryfder, gallu, gwarant At.iii.8
- cae** gwregys, modrwy 1.35n
- cael** *amhrs.pres.myn.* **cair** 1.21, 5.58; *amhrs.amhff.myn.* **caid** 5.37, At.iii.8, At.iv.51, At.v.49; *3 un.grff.myn.* **cafes** 4.1n; *3 un.pres.dib.* **caffo** 2.51; *3 un.amhff.dib.* **câi** At.v.18n, 63
- caer** 4.32n, 39n, 6.28n, 29
- cafes** gw. **cael**
- caid** gw. **cael**
- cainc** *ll.* **cangau** 5.42n
- cair** gw. **cael**
- caled** At.iii.36n
